


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Tachwedd 2019



Cynnwys

Rhagair	1
Cyflwyniad	2
Polisïau Trawsbynciol Cyffredinol	22
Polisi cyffredinol ECON – Sicrhau Economi Forol Gynaliadwy	24
Polisi cyffredinol SOC – Sicrhau Cymdeithas Gref, Iach a Chyfiawn	29
Polisi Cyffredinol ENV – Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol	46
Polisi Cyffredinol GOV – Hyrwyddo Llywodraethu Da	63
Polisi Cyffredinol SCI – Defnyddio Gwyddoniaeth Gadarn mewn Ffordd Gyfrifol	67
Polisïau Sectorau	70
Polisi Sector – Agregau	74
Polisi Sector – Dyframaeth	81
Polisi Sector – Amddiffyn	86
Polisi Sector – Carthu a Gwaredu	90
Polisi Sector – Ynni – Carbon Isel	95
Polisi Sector – Ynni – Olew a Nwy	108
Polisi Sector – Pysgodfeydd	115
Polisi Sector – Porthladdoedd a Morgludo	121
Polisi Sector – Ceblau o dan y môr	128
Polisi Sector – Trin a Gwaredu Dŵr Wyneb a Dŵr Gwastraff	133
Polisi Sector – Twristiaeth a Hamdden	137
Anecs 1 – Ein dull cynllunio morol ar gyfer Cymru	146
Atodiad 1 – Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009)	160
Atodiad 2 – Datganiad Polisi Morol y DU (2011)	164
Atodiad 3 – Dull Ecosystemau	167
Atodiad 4 – Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol	171
Geirfa	176

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG37346 ISBN digidol 978-1-83876-635-1 ISBN argraffau 978-1-83933-443-6

Rhagair gan Lesley Griffiths AC

Mae ein moroedd yn asedau naturiol anhygoel ac yn rhan annatod o'n hanes, ein heconomi a'n ffordd o fyw. Maent yn cynnal nifer o rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau amrywiol a bywiog, yn cyfrannu at ein llesiant, yn cyfrannu miliynau at ein heconomi, yn cefnogi miloedd o swyddi ac yn cynnig treftadaeth gyfoethog, unigryw.

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn pennu ein gweledigaeth hirdymor am y tro cyntaf i ddatblygu ein moroedd yn gynaliadwy. Mae ei gyhoeddi yn anfon neges glir ein bod yn cynllunio ar gyfer Cymru mwy llewyrchus a chadarn; Cymru ble y mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli yn gynaliadwy er lles cenedlaethau heddiw a'r dyfodol, a ble y mae ein moroedd a'n hecosystemau morol yn iach a chadarn, ac yn cynnal economi gynaliadwy sy'n ffynnu.

Drwy gyhoeddi Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru rwyf yn cynnig dull integredig o weithio, yn unol â'r dystiolaeth, o dan arweiniad cynllun sy'n parchu'r defnydd a'r manteision presennol o'n moroedd, ond sy'n sicrhau manteision drwy gyfleoedd newydd hefyd ac yn cydnabod pwysigrwydd ein treftadaeth, cadernid ein hecosystemau, gwerth bioamrywiaeth a'r rheidrwydd i addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Ein nod yw bod datblygu ein moroedd yn gynaliadwy gan gefnogi swyddi a thegwch cymdeithasol tra'n sicrhau bod ein hasedau naturiol yn gallu parhau i ddarparu'r adnoddau a'r manteision amgylcheddol y mae ein lles yn dibynnu arnynt.

Mae gan ein moroedd y potensial i fod yn flaenllaw yn y newid i economi garbon isel, gan wneud cyfraniad sylweddol at ddiogelu'r cyflenwad ynni a thargedau allyriadau newid hinsawdd, drwy ddefnyddio technolegau carbon isel mewn ffordd gyfrifol. Mae diwydiannau twristiaeth, trafnidiaeth, ynni morol, pysgodfeydd, dyframaethu a thelathrebu Cymru ymysg eraill eisoes yn chwarae rhan hollbwysig yn ein heconomi. Yn ein cymunedau arfordirol, mae'r môr a'i weithgareddau cysylltiedig yn cynnig cyflogaeth a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn ogystal â chynnal amrywiaeth ddiwylliannol a ieithyddol, a rhoi ymdeimlad o'n treftadaeth. Mae gan ein hamgylchedd arfordirol y posibilrwydd o fod ymysg yr ardaloedd mwyaf deniadol yn Ewrop i fyw, gweithio ac ymweld â hwy.

Bu datblygiad Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn ganlyniad cydweithio gwirioneddol ac eang rhwng Llywodraeth Cymru a'n rhanddeiliaid morol dros y pum mlynedd ddiwethaf. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi bwydo i mewn i'r broses hon, gan ein galluogi i gyrraedd y garreg filltir bwysig hon yn ein huchelgeisiau i reoli ein moroedd yn gynaliadwy.

Rwyf yn falch o gyflwyno'r Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf erioed i Gymru.



Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Cyflwyniad

1. Ceir yn ardal forol Cymru adnoddau naturiol amrywiol a gwerthfawr sy'n hanfodol i'n llesiant. Mae Llywodraeth Cymru'n paratoi cynllun morol er mwyn rheoli'n moroedd yn gynaliadwy a helpu i sicrhau eu bod yn iach a chydnerth fel bod cenedlaethau heddiw ac yfory yn gallu elwa arnynt.

2. Y Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru hwn (CMCC, y cyfeirir ato fel "y Cynllun hwn" drwy gydol y ddogfen hon) yw cynllun morol cyntaf Cymru ac mae'n gam cyntaf proses o reoli ein moroedd ar gyfer cyflawni amcanion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Bydd y cynllun morol yn llywio datblygiad cynaliadwy ein hardal forol trwy esbonio sut y bydd gofyn i benderfynwyr ystyried cynigion datblygu.

3. Mae'r ddogfen hon yn gynllun morol ar gyfer rhanbarth y glannau a rhanbarth môr mawr cynllun morol Cymru. Mae wedi'i pharatoi a'i mabwysiadu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (MCAA) 2009[1] at ddiben Adran 51 y Ddeddf ac yn unol ag Atodlen 6 y Ddeddf a chan gydymffurfio â Datganiad Polisi Morol (MPS) y DU [2]. Dylai **ymgeiswyr** ddefnyddio'r Cynllun hwn a'r deunydd ategol wrth lunio cynigion a cheisio am drwyddedau. Dylai **awdurdodau cyhoeddus** eu defnyddio i'w helpu i wneud penderfyniadau a dylai **eraill** eu defnyddio i ddeall polisi Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynaliadwy yn nalgylch y Cynllun.

Cwmpas

Cwmpas daearyddol

4. Mae ardal cynllun morol Cymru yn cwmpasu tua 32,000 km^2 o fôr, ynghyd ag arfordir 2,120 km o hyd. Mae'r Cynllun hwn yn ymdrin â rhanbarth glannau Cymru (o gymedr penllanw'r gorllanw i 12 milltir forol o'r lan) a rhanbarth môr mawr Cymru[3] (y tu hwnt i'r ffin 12 milltir forol) mewn un ddogfen. Oni dywedir yn wahanol, mae'r polisïau yn y ddogfen hon yn effeithio ar y ddau ranbarth. Mae ardal y Cynllun yn ffinio â dau ranbarth cynllunio morol yn Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr a De-orllewin Lloegr. Mae'r Cynllun yn rhannu ffin hefyd â Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon.

Cwmpas ei swyddogaeth

5. Mae'r cyfrifoldeb am reoli gweithgareddau yn nyfroedd Cymru'n cael ei hollti rhwng swyddogaethau **datganoledig** Gweinidogion Cymru a'r swyddogaethau sydd wedi'u **cadw** gan Lywodraeth y DU.

6. Mae'r Cynllun hwn yn ymdrin â swyddogaethau datganoledig a'r rhai sydd wedi'u cadw a chafodd ei baratoi a'i fabwysiadu gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol y DU dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Hyd ac adolygu

7. Mae'r Cynllun hwn yn cwmpasu cyfnod o 20 mlynedd ond cydnabyddir ei bod yn bosibl y bydd angen cynllunio ar gyfer rhai gweithgareddau ar gyfer wedi'r cyfnod hwn a bod eraill yn debygol o newid yn sylweddol yn ystod oes y Cynllun hwn.


8. Mae monitro ac adrodd yn ofynion statudol (MVAA adran 61) ac yn gam pwysig o'r broses gynllunio. Byddwn yn adolygu effeithiau polisïau'r Cynllun hwn ac yn paratoi adroddiad arnynt o leiaf bob tair blynedd.

1 www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2009/23/contents.

2 www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69322/pb3654-marine-policy-statement-110316.pdf.

3 s.322(2)MCAA.

Ffigur 1: Ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC)



Gweledigaeth ac amcanion

9. Dyma'n **gweledigaeth** ar gyfer rhanbarthau glannau a môr mawr cynllun morol Cymru:

> Mae moroedd Cymru yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol:
>
> - Trwy reoli ar sail ecosystem, mae ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mae ein moroedd yn iach ac yn gydnerth ac yn cynnal economi gynaliadwy a ffyniannus;
> - Trwy gael mynd i'r amgylchedd morol a threftadaeth ddiwylliannol y môr, a'u deall a'u mwynhau, mae iechyd a llesiant yn gwella;
> - Drwy Dwf Glas, mae mwy o swyddi a chyfoeth yn cael eu creu gan helpu cymunedau'r arfordir i fod yn fwy cydnerth, ffyniannus a theg gyda diwylliant bywiog; a
> - Drwy ddefnyddio technolegau carbon isel yn gyfrifol, mae ardal forol Cymru yn gwneud cyfraniad cryf at ddiogelu ffynonellau ynni a chyrraedd targedau allyriadau newid yn yr hinsawdd.

10. Mae ein gweledigaeth ni'n ategu gweledigaeth gytûn y DU o gefnforoedd a moroedd **glân, iach, diogel, cynhyrchiol a bioamrywiol** ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i gefnogi llesiant cenedlaethau heddiw ac yfory[4].

11. Caiff ein gweledigaeth ei gwireddu drwy weithio mewn ffordd integredig yn unol â'r dystiolaeth o dan arweiniad cynllun sy'n parchu'r defnydd a'r manteision presennol ond sy'n sicrhau hefyd fanteision trwy gyfleoedd newydd ac yn cydnabod pwysigrwydd cydnerthedd ecosystemau, gwerth bioamrywiaeth a'r rheidrwydd i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

12. Caiff gweledigaeth y Cynllun ei gwireddu trwy amcanion y Cynllun (Tabl 1) fydd yn seiliedig ar bolisïau trawsbynciol cyffredinol ac amcanion a pholisïau sy'n benodol i sectorau. Mae amcanion y Cynllun yn disgrifio'r canlyniadau y mae'r Cynllun hwn am eu gwireddu, i gefnogi Amcanion Morol Lefel Uchel y DU (HLMO)[5] a'r MPS.

4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 **www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted**.

5 MPS Pennod 2, Blwch 1.

Tabl 1. Amcanion y cynllun

Thema'r HMLO	Amcan	
Cyffredinol	1	Hybu datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru drwy gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru a chefnogi egwyddorion Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol trwy'r penderfyniadau a wneir a thrwy ystyried effeithiau cronnol yr holl ddefnydd a wneir o'r amgylchedd morol.
Sicrhau economi forol gynaliadwy	2	Cyfrannu at economi ffyniannus yng Nghymru drwy hybu gweithgareddau economaidd gynhyrchiol a phroffidiol a busnesau cynaliadwy sy'n creu cyflogaeth hirdymor ar yr holl lefelau sgiliau.
	3	Cefnogi'r cyfle i ddatblygu adnoddau ynni adnewyddadwy morol yn gynaliadwy, gan gynnal y datblygiad iawn yn y lle iawn, gan helpu i gyflawni amcanion y DU ar gyfer diogelu ffynonellau ynni a lleihau carbon, gan roi ystyriaeth lawn i fuddiannau rhai eraill a chydnerthedd ecosystemau.
	4	Darparu lle i gefnogi gweithgarwch economaidd yn awr ac yn y dyfodol drwy reoli amlddefnydd, gan hybu cydfodolaeth rhwng gweithgareddau cydweddol, lliniaru gwrthdaro rhwng defnyddwyr a, lle bo modd, drwy leihau'r gofyn i symud gweithgareddau presennol.
	5	Cydnabod gwerth arwyddocaol twristiaeth a hamdden arfordirol i economi a llesiant Cymru a sicrhau bod gweithgarwch o'r fath a'i botensial i dyfu yn y dyfodol yn cael eu diogelu'n briodol.
Sicrhau cymdeithas gref, iach a theg	6	Cyfrannu at helpu i ddatblygu cymunedau arfordirol bywiog a thecach, sy'n ddiwylliannol ac yn ieithyddol unigryw ac yn gydlynus a chydnerth.
	7	Hybu mwynhad a stiwardiaeth o'n harfordiroedd a'n moroedd a'u hadnoddau drwy hyrwyddo mynediad teg a diogel i amgylchedd morol cydnerth, gan warchod a hyrwyddo tirweddau, morweddau ac asedau hanesyddol gwerthfawr.
	8	Gwella dealltwriaeth a galluogi camau i liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
Byw o fewn terfynau amgylcheddol	9	Helpu i sicrhau a chynnal Statws Amgylcheddol Da (GES) a Statws Ecolegol Da (GeS).
	10	Gwarchod, diogelu, adfer a gwella bioamrywiaeth y môr er mwyn atal a gwyrdroi'i dirywiad gan gynnwys cefnogi datblygiad a gweithrediad rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n ecolegol gydlynus ac yn cael ei reoli'n dda, ynghyd â phoblogaethau o rywogaethau cynrychioliadol, prin a than fygythiad.
	11	Cynnal a chryfhau ecosystemau morol a'r manteision y maent yn eu rhoi er mwyn cwrdd ag anghenion cenedlaethau heddiw ac yfory.
Hyrwyddo llywodraethu da	12	Cefnogi penderfynu cymesur, cyson ac integredig drwy weithredu polisïau blaengar drwy ddull rhagofalus ac ymaddasol o reoli moroedd Cymru sy'n cael ei arwain gan gynllun ac sy'n seiliedig ar risgiau.
Defnyddio tystiolaeth wyddonol gadarn yn gyfrifol	13	Datblygu sylfaen dystiolaeth forol hygyrch a rennir i annog defnyddio tystiolaeth gadarn a darparu mecanwaith i gael gwell dealltwriaeth o nodweddion unigryw Ardal Forol Cymru a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig.

Y Cyd-destun Polisi

13. Bydd y Cynllun hwn, sy'n un o set o gynlluniau morol ar gyfer y DU, yn cyfrannu at ddatblygu ardal forol y DU mewn ffordd gynaliadwy ac yn helpu i wireddu'r weledigaeth rydym yn ei rhannu ar gyfer y DU. Mae cynllunio morol i Gymru yn gweithredu o fewn fframwaith y DU ond mae iddo ffocws Cymreig penodol sy'n adlewyrchu cyd-destun, cyfrifoldebau ac ymrwymiadau deddfwriaethol datganoledig.

14. Er y bydd y cynllun morol yn ffordd bwysig o gyfrannu at wireddu ein gweledigaeth, mae'n rhan o ddarlun ehangach. Mae ystod eang o ofynion eraill mewn polisïau a rheoliadau ac mae'r Cynllun hwn wedi'i ddatblygu fel rhan o'r cyd-destun hwn (gweler Anecs 1) ac mae'n cyfeirio at y gofynion hyn fel y bo'n briodol.

Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP)

15. Mae'r Cynllun hwn yn rhan o'r fframwaith polisi perthnasol fydd yn llywio penderfyniadau awdurdodau cyhoeddus. Gallai unrhyw Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru gynnig cyfleoedd mawr i weddnewid cymunedau lleol, eu heconomi a'r amgylchedd. Bydd yn rhaid ystyried y cynllun ynghyd ag unrhyw Ddatganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol (NPS) neu ystyriaethau perthnasol eraill bob tro y bydd angen penderfynu ar NSIP.

16. Mae Gweinidogion Cymru'n disgwyl i brosiectau NSIP sy'n cael eu cynnal yn rhannol neu'n gyfangwbl yn ardal y Cynllun (neu sy'n dibynnu ar adnoddau naturiol sy'n rhannol neu'n gyfangwbl yng Nghymru) gyfrannu at lesiant cymunedau Cymru ac at reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol. Anogir prosiectau NSIP i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau andwyol sy'n aml yn gysylltiedig ag adeiladu, gweithredu a datgomisiynu prosiectau seilwaith mawr. Dylent hefyd geisio darparu gwaddol o fanteision tymor hir i'r gymuned, yr economi a'r amgylcheddol lleol, gan gynnwys trwy:

- Gefnogi cynaliadwyedd, bywiogrwydd ac ansawdd bywyd cymunedau arfordirol;
- Diogelu a chyfoethogi treftadaeth ddiwylliannol cymunedau arfordirol Cymru a hyrwyddo'r Gymraeg;
- Darparu'r seilwaith, tai, cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen i gefnogi datblygiad sy'n hygyrch i'r cymunedau sy'n ei gynnal ac a fydd ar gael yn waddol i'r dyfodol;
- Cyfrannu at ddatblygiad economaidd cynaliadwy tymor hir a ffyniant lleol trwy greu cyfleoedd gwaith lleol o ansawdd uchel gan roi ystyriaeth i'r gofynion tebygol o ran hyfforddiant, a gweithio gyda chyrff hyfforddi cenedlaethol a rhai'r llywodraeth;
- Darparu'r seilwaith trafnidiaeth sydd ei angen a hyrwyddo moddau teithio cynaliadwy sy'n cynnig cysylltedd carbon isel tymor hir a gwaddol o fanteision;
- Cyfrannu at y newid i ddatblygu economaidd cynaliadwy carbon isel, gan leihau allyriadau carbon a gwneud pobl, lleoedd a'r amgylchedd yn fyw cydnerth i effeithiau hinsawdd sy'n newid; a
- Cyfrannu at warchod a chyfoethogi bioamrywiaeth a chryfhau ecosystemau, yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[6].

Sut i ddefnyddio'r Cynllun hwn

17. Bydd y Cynllun hwn (yn ogystal â Datganiad Polisi Morol y DU) yn ddogfennau polisi morol priodol at ddibenion yr MCAA.

Pwy ddylai ddefnyddio'r Cynllun hwn

18. Mae'r MCAA yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus (MCAA[7] adran 322(1)) wneud penderfyniad awdurdodi neu orfodi yn unol â'r dogfennau polisi morol priodol (y Cynllun hwn, cynlluniau morol eraill y DU sy'n berthnasol a'r MPS) oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn awgrymu'n wahanol. Ystyr penderfyniad awdurdodi neu orfodi (MCAA adran 58(4)) yw penderfyniad ar unrhyw gais am

6 www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted.
7 www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2009/23/section/322.

awdurdodiad[8]; unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud ag amodau awdurdodiad o'r fath neu i'r estyniad; amnewid, amrywio, diddymu neu dynnu yn ôl awdurdodiad neu unrhyw amodau a osodwyd ar yr awdurdodiad; yn ogystal ag unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â gorfodi'r amodau hynny neu unrhyw waharddiad neu gyfyngiadau. Mae'r MCAA yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i'r dogfennau polisi morol priodol wrth wneud unrhyw benderfyniad (heblaw am benderfyniad gorfodi neu awdurdodi) sy'n ymwneud â chyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n effeithio ar ardal forol y DU neu ran ohoni.

19. Mae'r Cynllun hwn yn rhoi cyfeiriad a chefnogaeth polisi i benderfyniadau sydd â'r potensial i effeithio ar ardal y Cynllun a dylai'r ymgeiswyr a'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol (sydd â rôl benderfynu) ill dau ei ddefnyddio wrth ddatblygu cynigion ac wrth ystyried eu hawdurdodi. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol ei ddefnyddio hefyd wrth wneud penderfyniadau heblaw am rai awdurdodi neu orfodi a all effeithio ar ardal y Cynllun. Yn unol â darpariaethau adran 59(4) yr MCAA, mae'n ddogfen bolisi morol briodol o ran y swyddogaethau a gedwir gan Lywodraeth y DU a arferir gan awdurdodau cyhoeddus ac mae wedi'i mabwysiadu gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

20. Dylai unrhyw benderfyniad a all effeithio ar ardal y Cynllun, yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud â gweithgareddau ar dir, gael eu gwneud yn unol â'r Cynllun hwn oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol, neu ar ôl ystyried y Cynllun hwn (yn unol â darpariaethau paragraff 18 uchod). Os oes potensial i'r penderfyniad effeithio ar ardal cynllun morol arall, dylid ei wneud ar ôl ystyried y cynllun morol perthnasol arall, neu yn unol ag ef, yn ôl yr angen.

21. Mae angen i nifer o bartïon gwahanol gymryd camau i sicrhau bod y Cynllun hwn yn cael ei roi ar waith yn effeithiol, gan gynnwys datblygwyr, awdurdodau cyhoeddus a defnyddwyr eraill. Bydd eu prif rolau a chyfrifoldebau'n cynnwys:

Gweinidogion Cymru (fel awdurdod y cynllun morol)

22. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am bennu polisi a pharatoi cynlluniau morol yng Nghymru. Wrth wneud hynny, byddant yn:

- cynhyrchu, diwygio a chadw golwg ar gynlluniau morol, gan bennu polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy;
- goruchwylio a chefnogi'r hyn a wneir i roi'r cynllun morol ar waith;
- monitro effeithiolrwydd y cynllun morol ac adrodd arno;
- cyfrannu at gydweithio ar draws ffiniau rhwng awdurdodau a phrosesau cynllunio (tir a môr);
- cadw golwg ar faterion perthnasol;
- ystyried y dystiolaeth a gyflwynir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)[9] a thystiolaeth arall a'u defnyddio i lywio polisi cynllunio; a
- ystyried y Cynllun hwn a'r MPS wrth ddatblygu polisi, rhoi arweiniad neu wneud penderfyniadau allai effeithio ar ardal y Cynllun.

Datblygwyr

23. Cyfrifoldeb datblygwyr yw sicrhau bod eu cynigion yn gyson â'r Cynllun hwn. Wrth wneud hynny, dylent mewn ffordd briodol:

- sicrhau bod ymgysylltu cynnar ar draws a rhwng rhanddeiliaid perthnasol;
- ystyried y Cynllun hwn yn fuan yn natblygiad y prosiect;
- defnyddio polisïau'r cynllun hwn i greu cynigion;

8 Mae adran 58(6) yr MCAA yn diffinio awdurdodiad fel "any approval, confirmation, consent, licence, permission or other authorisation (however described), whether special or general").

9 **www.naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy**.

- ystyried cynlluniau morol sectorau a chynlluniau eraill wrth ddatblygu cynigion;
- darparu'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol allu asesu eu cynnig/cynigion gan gynnwys cysondeb â pholisi'r Cynllun;
- sicrhau bod y dystiolaeth a geir yn gadarn a chymesur; a
- helpu i gau'r bwlch tystiolaeth trwy gasglu a rhannu tystiolaeth berthnasol lle bo angen.

Awdurdodau cyhoeddus

24. Mae awdurdodau cyhoeddus perthnasol yn gyfrifol am asesu a yw cynigion yn gyson â'r Cynllun hwn wrth wneud penderfyniadau ar awdurdodi, cynllunio a pholisi. Wrth wneud hynny, dylent wneud y canlynol:

- cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy trwy gymhwyso polisïau'r Cynllun ac integreiddio amcanion amgylcheddol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd drwy hynny;
- cymell ymgysylltu cynnar ar draws a rhwng rhanddeiliaid;
- gwneud penderfyniadau awdurdodi neu orfodi yn unol â'r Cynllun hwn a'r MPS oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol (a nodi'r rhesymau os nad yw penderfyniad yn gyson â'r dogfennau polisi morol priodol);
- rhoi sylw i'r Cynllun hwn a'r MPS wrth wneud unrhyw benderfyniad a all effeithio ar ardal y Cynllun neu ran ohoni (heblaw penderfyniad awdurdodi neu orfodi);
- edrych yn ffafriol ar gynigion sy'n cyfrannu at wireddu gweledigaeth ac amcanion y cynllun hwn ac yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun;
- diogelu buddiannau ac adnoddau sydd o bwys i sectorau yn unol â'r Cynllun hwn; a
- threfnu bod tystiolaeth a chanllawiau perthnasol ar gael lle bo'n briodol ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith.

Sut i gymhwyso'r Cynllun hwn

25. Ceir polisïau trawsbynciol a sector-benodol yn y Cynllun hwn. Mae **polisïau sector-benodol** yn gweithredu ochr yn ochr â pholisïau cyffredinol ac yn ymwneud â gweithgareddau penodol. Dylid cymhwyso'r **Polisïau Cyffredinol** a'r Polisïau Sector, oni bai bod y polisi neu ddogfennau cynllunio ategol (a ddisgrifir ym mharagraffau 33 a 62) yn awgrymu'n wahanol.

26. Mae'r Cynllun hwn yn darparu set integredig o amcanion a pholisïau ar gyfer datblygu ardal y Cynllun mewn ffordd gynaliadwy, ac felly, **ni ddylid ystyried na chymhwyso'r amcanion, y polisïau na'r testun ategol ar eu pen eu hunain**.

27. Dylai pob cynnig, penderfyniad awdurdodi a phenderfyniad gorfodi ddefnyddio'r polisïau sydd yn y Cynllun hwn wrth ddylunio prosiect, i gymhwyso'r cynnig ac wrth wneud penderfyniadau cysylltiol. Yr unig eithriadau yw os bydd naratif y polisi cysylltiedig y Cynllun neu ddogfennau cynllunio atodol (a ddisgrifir ym mharagraffau 33 a 62) yn datgan nad yw'r polisi'n gymwys neu fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol. Mae polisïau'r Cynllun hwn (ynghyd ag ystyriaethau perthnasol eraill) yn llywio cynigion a phenderfyniadau; nid ydynt yn negyddu'r angen am awdurdodiad o dan gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol.

28. Pan wneir cais i awdurdod cyhoeddus i ddefnyddio'r ardal forol a bod angen awdurdodi'r cais, dylai'r cynnig adlewyrchu'r polisïau perthnasol yn y Cynllun hwn a dangos yn glir sut y mae'n gyson â'r polisi. Bydd angen dangos tystiolaeth i ddangos sut y mae'r cynigion yn gyson ac yn cydymffurfio â'r polisi er mwyn hwyluso'r penderfyniad.

29. Os yw polisi sydd wedi'i ddatgan yn y Cynllun hwn yn mynd yn groes i unrhyw ddatganiad neu wybodaeth arall sydd yn y Cynllun, yna rhaid datrys y gwrthdaro hwnnw o blaid y polisi. Lle gellir cael gwrthdaro rhwng polisïau'r Cynllun, dylid gwneud penderfyniadau ar bob achos ar wahân yn y ffordd orau i gyflawni amcanion y Cynllun hwn.

Tabl 2: Trosolwg ar y broses ar gyfer datblygu ac awdurdodi cynigion sy'n berthnasol i'r Cynllun hwn.

Gweithgarwch	Pwy	Ystyriaeth(au) allweddol
Deall cyd-destun cynnig y gallai fod angen ei awdurdodi	Datblygwr	Ystyried y **fframwaith polisi** perthnasol – y Cynllun hwn, yr MPS, cynlluniau datblygu perthnasol ar y tir fel y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF), Cynlluniau Datblygu Strategol (SDPs) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl), NPS perthnasol a chynlluniau morol cyffiniol. Ystyried y **drefn reoleiddio** berthnasol – trwyddedau morol (Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Rheoleiddydd Petrolewm Alltraeth ar gyfer yr Amgylchedd a Datgomisiynu (OPRED) ac ati, Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA), cynlluniau datblygu ar y tir, datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol (DNS), NSIP (ac NPSs perthnasol). Ystyried **cyfleoedd** gofodol a chyfyngiadau posibl – polisïau cyffredinol y Cynllun hwn, polisïau i gefnogi a diogelu sectorau a chanllawiau ar weithredu polisïau, porth cynllunio morol (adnoddau naturiol, defnyddwyr y môr, awdurdodiadau cyfredol) ac ystyriaethau cynllunio perthnasol ar gyfer sectorau – ynghyd ag ystyriaethau perthnasol eraill.
Os yw'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus awdurdodi'r prosiect ac os gall effeithio ar ardal y Cynllun, yna gwneir y penderfyniad awdurdodi perthnasol yn unol â'r Cynllun hwn.		
Datblygu a chaboli'r cynnig cyn gwneud cais	Datblygwr	Lle bo'n briodol, ymgysylltu â'r awdurdod cyhoeddus perthnasol ynghyd â'r awdurdodau cyhoeddus cyffiniol, i drafod maint a natur y cynnig a sut i **roi polisïau'r Cynllun hwn ar waith mewn ffordd gymesur** – awdurdodau cyhoeddus perthnasol a swyddogion cynllunio morol Llywodraeth Cymru. Asesu'r **dystiolaeth sydd ar gael** a nodi materion allweddol a'r angen am dystiolaeth ychwanegol, casglu a defnyddio tystiolaeth – porth cynllunio morol (adnoddau naturiol, defnyddwyr y môr, awdurdodiadau cyfredol), ffynonellau tystiolaeth eraill, canllawiau cynllunio atodol os ydynt ar gael. Lle bo'n briodol, ymgysylltu â **defnyddwyr eraill y môr** i ddeall a rheoli cyfleoedd a gwrthdaro posibl. Ystyried cyngor a chanllawiau perthnasol sydd wedi'u llunio gan awdurdodau cyhoeddus a/neu gyrff diwydiant. Casglu unrhyw dystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen yn cynnwys, os oes angen, astudiaethau desg neu safle.
Cyflwyno cynnig a thystiolaeth ategol i'r awdurdod cyhoeddus	Datblygwr	Cyflwyno cais gyda thystiolaeth glir ei fod yn **cydymffurfio â'r polisi** (ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael). Disgrifio unrhyw wrthdaro â pholisi sydd heb ei ddatrys, yn cynnwys unrhyw ryngweithio croes rhwng sectorau a'r cyfiawnhad drosto.

Gweithgarwch	Pwy	Ystyriaeth(au) allweddol
Asesu'r cynnig	Awdurdod cyhoeddus	Ystyried sut mae'r cynnig yn **cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun**. Ystyried y **drefn reoleiddio** neu'r gofyn rheoleiddiol perthnasol e.e. Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003, Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (adrannau 6 a 7)[9], Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)[10]. **Ystyriaethau perthnasol** eraill – tystiolaeth newydd/arall, diweddariadau i bolisi cynllunio, cynllunio ar gyfer sectorau. Pennu **amodau trwydded** yn unol â'r MPS a pholisïau perthnasol yn y cynllun morol ac ystyriaethau perthnasol eraill.
Penderfynu	Awdurdod cyhoeddus	**Gwneud penderfyniad** yn unol â'r Cynllun hwn oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu y dylid gwneud yn wahanol ac os felly, egluro'r rhesymau.
Ar ôl awdurdodi	Datblygwr ac Awdurdod Cyhoeddus	**Cydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad gan gynnwys unrhyw waith monitro sy'n ofynnol, ac adrodd ar y canfyddiadau. Trefnu bod y dystiolaeth ar gael iddynt gael ei hystyried wrth ddatblygu polisi ac wrth drafod datblygiadau yn y dyfodol.**

Cymhwyso'r Cynllun hwn a'i bolisïau mewn ffordd gymesur

30. Dylai lefel y manylder sydd ei hangen i ddangos cydymffurfiaeth fod yn gymesur â graddfa'r prosiect, ei effeithiau posibl ac felly'r risg (yn unol â **Pholisi GEN_02** yn y cynllun hwn).

31. Yn yr un modd, dylai lefel yr asesu ac ymgysylltu ar gyfer unrhyw brosiect fod yn gymesur â graddfa ac effaith bosibl y prosiect ac yn unol â gofynion asesu perthnasol y prosiect.

32. At ddibenion ymarferol, mae'n bosibl y bydd awdurdodau perthnasol yn credu ei bod yn briodol categoreiddio cynigion ar sail "bandiau" er mwyn deall lefel y manylder sy'n debygol o fod yn ofynnol wrth ddylunio cynigion a gwneud penderfyniadau.

10 **www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted**.
11 **www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted**.

Categoreiddio mathau o gynigion er mwyn deall yn well sut i gymhwyso polisïau'r cynllun hwn. Er enghraifft (mewn cysylltiad â thrwyddedau morol):

- **Gweithgareddau Band Un** yw gweithgareddau risg isel lle mae'n debygol na fydd angen dim neu nemor ddim tystiolaeth ychwanegol i ddangos cydymffurfiaeth â'r cynllun hwn.
- **Gweithgareddau Band Dau** yw gweithgareddau risg canolig. Mae'n debygol y bydd angen cael rhywfaint o dystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â'r cynllun hwn. Bydd lefel y dystiolaeth sy'n ofynnol yn seiliedig ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r prosiect.
- **Gweithgareddau Band Tri** yw gweithgareddau risg uwch, yn cynnwys prosiectau lle bydd angen dilyn prosesau ffurfiol i asesu'r prosiect. Mae'n debygol y bydd angen lefel uwch o dystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â'r cynllun hwn

Dylai cynigion sy'n disgyn i Fandiau Dau a Thri gynnwys datganiad clir yn nodi pa rai o bolisïau'r cynllun sy'n berthnasol, i ba raddau mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r polisïau hyn, a sut mae'r cynnig yn cyfrannu at weledigaeth ac amcanion cyffredinol y cynllun.

Trosolwg ar bolisïau'r Cynllun hwn a sut i'w dehongli

33. Mae gan bob polisi yn y Cynllun god. Er enghraifft, **GEN_01** = Polisi trawsbynciol cyffredinol rhif 01. Oni nodir fel arall, mae polisïau'n gymwys i ranbarthau cynllunio morol y glannau a'r môr mawr. Ategir polisïau gan gyd-destun a lle bo gofyn, gan fapiau. Mae'r mapiau hyn yn dangos gwybodaeth berthnasol sy'n cynnwys gwasgariad gweithgareddau ac adnoddau naturiol ac weithiau, cyd-destun gofodol polisïau. Dogfennau cynllunio atodol (e.e. gallai Canllawiau ar Gyflawni (IG) a Hysbysiadau Cynllunio Morol (MPN) roi mwy o help ac arweiniad gofodol wrth roi polisi ar waith.

Penodau ar bolisi sectorau

34. Mae'r penodau ar sectorau yn y Cynllun hwn yn disgrifio polisïau'r sectorau sy'n defnyddio moroedd Cymru ar gyfer datblygu a defnyddio ardal y cynllun morol yn y dyfodol.

35. Ym mhob pennod ar sector penodol, ceir polisi cyffredinol, gan gynnwys polisïau penodol y Cynllun wedi'u rhifo (ee **AQU_01**) sy'n cefnogi amcan(ion) y sector. O'u cymryd gyda'i gilydd gyda pholisïau trawsbynciol, mae polisïau sectorau'n cyfrannu at wireddu amcanion a gweledigaeth y Cynllun hwn. Gallent ymwneud ag ardaloedd glannau a/neu fôr mawr y Cynllun ac ambell waith, gyfeirio at yr **Ardal(oedd) Adnoddau Strategol** (SRA) a nodir mewn MPN (gweler isod).

Amcanion sectorau

36. Mae amcanion y sector yn disgrifio sut y dymunir i gyflwr y sector hwnnw fod yn y dyfodol gan hefyd roi cyd-destun ar gyfer polisïau'r sector. Gallai fod yn bosib gwireddu amcanion y sector yn ystod oes y Cynllun hwn neu gallent fod yn disgrifio cyfeiriad tymor hir ar gyfer y sector. Mae pob amcan wedi'i alinio ag un HLMO neu fwy:

HLMO	
Sicrhau economi forol gynaliadwy	
Sicrhau cymdeithas gref, iach a theg	
Byw o fewn terfynau amgylcheddol	
Hyrwyddo llywodraethu da	
Gwneud defnydd cyfrifol o dystiolaeth wyddonol gadarn	

Polisïau sectorau

37. Mae polisïau sectorau yn cynnwys **polisi cefnogi** (i gefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector) a **pholisi diogelu** (i ddiogelu rhai o fuddiannau'r sector rhag effeithiau andwyol gweithgareddau eraill). Rhaid ystyried polisïau sector ochr yn ochr â pholisïau eraill y Cynllun.

Polisi i Gefnogi Sectorau

38. Mae polisïau i gefnogi sectorau'n rhoi fframwaith ar gyfer datblygu ardal forol Cymru mewn ffordd gynaliadwy, gan ffafrio polisïau nad ydynt yn amharu mewn ffordd annerbyniol ar ddefnyddwyr a defnyddiau dilys eraill ardal y Cynllun, nac yn gostwng eu gwerth nac yn esgor ar effeithiau annerbyniol ar gydnerthedd yr ecosystem forol.

39. Mae polisïau cefnogi fel arfer yn dilyn fframweithiau cyffredin, sy'n cynnwys:

- Cefnogaeth i gynigion sy'n cyfrannu at ddatblygu'r sector yn gynaliadwy ac sy'n gyson â pholisïau ac amcanion y Cynllun hwn; a
- Annog cydweithio a chasglu tystiolaeth strategol er mwyn deall cyfleoedd a photensial ar gyfer datblygu cynaliadwy yn y dyfodol yn well.

Polisi i Ddiogelu Sectorau

40. Mae polisi diogelu yn ceisio diogelu:

- gweithgarwch sydd wedi cael cydsyniad e.e. agregau, ceblau tanfor neu seilwaith ynni;
- gweithgarwch sydd wedi ennill ei blwyf (nad oedd angen cydsyniad arno) e.e. pysgodfeydd, twristiaeth a hamdden; a
- meysydd y gall fod cyfleoedd iddynt yn y dyfodol (wedi'u diffinio mewn SRA).

Tabl 3: Cysylltu amcanion y Cynllun â pholisïau'r Cynllun

Amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru	
Sicrhau economi forol gynaliadwy	**Polisïau'r CMCC fydd yn cael effaith**
Cyfrannu at economi ffyniannus yng Nghymru drwy hybu gweithgareddau economaidd gynhyrchiol a phroffidiol a busnesau cynaliadwy sy'n creu cyflogaeth hirdymor ar yr holl lefelau sgiliau.	GEN_01 ECON_01 AGG_01 AQU_01 D&D_01 O&G_01 FIS_01 P&S_01 P&S_02 CAB_01 T&R_01 SAF_01 SAF_02
Cefnogi'r cyfle i ddatblygu adnoddau ynni adnewyddadwy morol yn gynaliadwy, gan gynnal y datblygiad iawn yn y lle iawn, gan helpu i gyflawni amcanion y DU ar gyfer diogelu ffynonellau ynni a lleihau carbon, gan roi ystyriaeth lawn i fuddiannau rhai eraill a chydnerthedd ecosystemau.	GEN_01 GEN_02 ECON_01 ECON_02 ENV_01 ELC_01 SAF_01 SAF_02
Darparu lle i gefnogi gweithgarwch economaidd yn awr ac yn y dyfodol drwy reoli amlddefnydd, gan hybu cydfodolaeth rhwng gweithgareddau cydweddol, lliniaru gwrthdaro rhwng defnyddwyr a, lle bo modd, drwy leihau'r gofyn i symud gweithgareddau presennol.	GEN_01 ECON_02 GOV_01 SAF_01 SAF_02
Cydnabod gwerth arwyddocaol twristiaeth a hamdden arfordirol i economi a llesiant Cymru a sicrhau bod gweithgarwch o'r fath a'i botensial i dyfu yn y dyfodol yn cael ei ddiogelu'n briodol.	GEN_01 ECON_01 SOC_01 SOC_02 SOC_04 SOC_05 SOC_06 SOC_07 SOC_08 ENV_04 ENV_07 GOV_02 T&R_01 SAF_01

Amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru	
Sicrhau cymdeithas gref, iach a theg	**Polisïau'r CMCC fydd yn cael effaith**
Cyfrannu at helpu i ddatblygu cymunedau arfordirol bywiog a thecach, sy'n ddiwylliannol ac yn ieithyddol unigryw ac yn gydlynus a chydnerth.	GEN_01 ECON_01 SOC_02 SOC_04 SOC_08 SOC_09 SOC_11 GOV_02
Hybu mwynhad a stiwardiaeth o'n harfordiroedd a'n moroedd a'u hadnoddau drwy hyrwyddo mynediad teg a diogel i amgylchedd morol cydnerth, gan warchod a hyrwyddo tirweddau, morweddau ac asedau hanesyddol gwerthfawr.	SOC_01 SOC_05 SOC_06 SOC_07 SOC_08 SOC_09 GOV_01 T&R_01
Gwella dealltwriaeth a galluogi camau i liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.	SOC_08 SOC_09 SOC_10 SOC_11

Amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru	
Byw o fewn terfynau amgylcheddol	**Polisïau'r CMCC fydd yn cael effaith**
Helpu i sicrhau a chynnal Statws Amgylcheddol Da (GES) a Statws Ecolegol Da (GeS).	SOC_01 SOC_06 SOC_09 SOC_10 ENV_01 ENV_02 ENV_03 ENV_04 ENV_05 ENV_06 ENV_07 GOV_01 FIS_01
Gwarchod, diogelu, adfer a gwella bioamrywiaeth y môr er mwyn atal a gwyrdroi'i dirywiad gan gynnwys cefnogi datblygiad a gweithrediad rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n ecolegol gydlynus ac yn cael ei reoli'n dda, ynghyd â phoblogaethau o rywogaethau cynrychioliadol, prin a than fygythiad.	ENV_01 ENV_02 ENV_03 ENV_04 ENV_05 ENV_06 ENV_07
Cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau morol a'r manteision y maent yn eu rhoi er mwyn diwallu anghenion cenedlaethau heddiw ac yfory.	ENV_01 ENV_02 ENV_03 ENV_04 ENV_05 ENV_06 ENV_07

Mapiau

41. Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys mapiau cyd-destunol i:

- adnoddau naturiol;
- mesurau rheoli;
- yr ardaloedd yr awdurdodir cynnal rhai gweithgareddau arnynt; a
- patrymau defnydd dynol.

42. Mae rhai penodau sector yn cynnwys un neu fwy o fapiau i lywio polisïau'r sector a/neu at ddibenion darluniadol.

43. Mae mapiau sectorau yn ddangosol a gallai eu cynnwys newid. Dylid gwneud penderfyniadau yn unol â'r dystiolaeth orau sydd ar gael a'r ystyriaethau perthnasol; dylai datblygwyr a phenderfynwyr gyfeirio at fapiau cyfredol y sector sydd ar borthol y cynllun morol **www.lle.gov.wales/apps/marineportal**.

Ardaloedd Adnoddau

44. Er mwyn dangos gwasgariad adnoddau naturiol a all gynnal gweithgarwch y sector yn y dyfodol, mae'r Cynllun hwn yn pennu Ardaloedd Adnoddau ar gyfer rhai sectorau. Ardaloedd bras yw'r rhain sy'n disgrifio gwasgariad adnodd penodol sy'n cael ei ddefnyddio neu a all gael ei ddefnyddio (o safbwynt ymarferoldeb technegol).

45. Pennwyd Ardaloedd Adnoddau drwy gasglu a dehongli tystiolaeth. Bydd yr ardaloedd hyn yn newid wrth inni ddod i'w deall yn well ac wrth i ragor o dystiolaeth ddod i'r amlwg a/neu i dechnoleg y sector ddatblygu. Mae Ardaloedd Adnoddau wedi'u dangos yn y porth cynllunio morol.

Ardaloedd Adnoddau Strategol (SRA)

46. Mae'r MPS yn gofyn i gynlluniau morol 'ddarparu mwy o gydlyniad o ran polisi a dilyn dull o reoli'r ardal forol, ei hadnoddau, a'r gweithgareddau a'r rhyngweithiadau sy'n digwydd oddi mewn iddi sy'n flaengar, yn rhagweithiol ac yn seiliedig ar gynllunio gofodol'[12]. Er mwyn deall y cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau yn y dyfodol a nodi adnoddau pwysig y gallai rhai sectorau ddibynnu arnynt, mae'r Cynllun hwn yn caniatáu cyflwyno SRA a'i chaboli.


47. Mae'r SRA yn erfyn i reoli gweithgareddau, gofod ac adnoddau morol yn well, gan helpu i reoli'r rhyngweithiau rhwng sectorau a rhoi ffocws ar gyfer rhagor o gynllunio strategol.

48. Bydd yr SRA, lle maent wedi'u cyflwyno, yn llywio polisi diogelu'r sector. Nid yw'r SRA o reidrwydd yn ddatganiad bod yr ardal yn addas ar gyfer ei datblygu nac yn gwahardd datblygu gweithgareddau eraill yn yr ardal. Oni dywedir yn wahanol, nid yw SRA yn awgrymu graddfa na chyflymder datblygu na defnyddio'r adnodd ac efallai na fyddai rhai gweithgarwch dynol yn briodol mewn SRA oherwydd y gofyn i ddiogelu rhai nodweddion MPA. Gallai'r ardal y mae SRA yn ei diogelu adlewyrchu potensial tymor hir y sector dros oes y Cynllun hwn a thu hwnt.

49. Mae Tabl 4 yn disgrifio rôl yr SRA o ran gosod y sylfeini ar gyfer datblygu adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

12 MPS Pennod 1, Adran 1.1.

Ffigur 2: Trosolwg o Ardaloedd Adnoddau



Tabl 4: SRA ar gyfer datblygu adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Manteision i gymdeithas	Manteision posib i gymdeithas o ddatblygu'r adnoddau naturiol yn gynaliadwy e.e.: • Bwyd • Ynni • Masnach • Trafnidiaeth • Twristiaeth • Gweithgareddau hamdden • Iechyd • Llesiant • Gwarchod natur
Gwasgariad yr adnoddau gan gynnwys cyfyngiadau technegol	Mae SRA yn diogelu'r potensial i ddefnyddio'r adnodd yn gynaliadwy yn y dyfodol er mwyn diwallu anghenion cymdeithas a dod â manteision i gymdeithas trwy: • fapio lleoliad adnoddau; a • defnyddio ffilterau i ddiffinio ymarferoldeb technegol a gweithredol defnyddio'r adnoddau.
Uchelgais, gallu a chyfeiriad y sector	Mae'r Cynllun hwn yn cydnabod bod yn rhaid bod gan ddiwydiant uchelgais a gallu i ddatblygu a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd yr SRA yn cefnogi diwydiant trwy: • nodi a diogelu lleoliad adnoddau pwysig; a • ei alluogi i gydweithio ar lefel strategol/cynllunio i ddeall cyfleoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy.
Cyfyngiadau ar ddefnyddio adnoddau (amgylchedd, economi a chymdeithas)	Mae'r potensial i ddatblygu a defnyddio'r adnoddau'n gynaliadwy yn dibynnu ar ystyriaethau o ran yr amgylchedd, economi a chymdeithas. Mae'r Cynllun yn cydnabod ac yn mapio'r gofynion cyfreithiol i **warchod** cynefinoedd, rhywogaethau a bioamrywiaeth a'r ymrwymiadau statudol cysylltiedig y mae'n rhaid i ddatblygwyr gydymffurfio â nhw. Mae'r gofynion hyn, a pholisïau'r Cynllun a mapiau'r SRA, yn sail ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae'r Cynllun hwn yn cefnogi'r **economi** trwy annog sectorau i gydfodoli. Mae'r mapio a wneir fel rhan o'r SRA yn elfen o gaboli cyfleoedd a chyfyngiadau ar gyfer cydfodoli. Mae'r Cynllun hwn yn cefnogi **cymdeithas** trwy gydnabod pwysigrwydd strategol adnoddau a'u manteision posibl e.e. cynnyrch lleol yn erbyn mewnforion, costau trafnidiaeth, aflonyddwch gweledol.
Gwerth yr adnodd (amgylchedd, economi a chymdeithas)	Mesurir gwerth yr adnodd yn ôl y manteision i gymdeithas all ddod ohono trwy ddatblygu cynaliadwy. Gall y gwerth hwnnw fod yn feintiol (e.e. economaidd, iechyd, ased cyfalaf naturiol) a/neu ansoddol (e.e. esthetig, emosiynol, diwylliannol, hanfod).

Datblygu a chyflwyno SRA

50. Er mwyn helpu i roi'r Cynllun hwn ar waith, gallai'r awdurdod cynllunio morol gyflwyno SRA trwy gyhoeddi MPN.

51. Wrth benderfynu p'un ai i gyflwyno SRA neu beidio, dylai'r awdurdod cynllunio morol ystyried a oes angen gwneud a manteision gwneud, ynghyd ag i ba raddau y mae ystyriaethau technegol yn caniatáu creu SRA realistig, manwl ei ffocws ac ystyrlon.

Ystyried anghenion y sector a'r manteision iddo

52. Wrth ystyried yr angen am SRA, dylai'r awdurdod cynllunio morol ystyried y canlynol:

- A oes argoelion realistig y bydd angen i sector ehangu ffiniau'r adnodd y mae'n ei ddefnyddio dros oes y Cynllun;
- A oes argoelion realistig y collir neu yr aflonyddir mewn ffordd arwyddocaol ar adnodd y mae sector yn dibynnu arno oherwydd gweithgarwch arall;
- A allai pennu SRA helpu cynllunio at y dyfodol trwy roi eglurder ynghylch gwasgariad ac argaeledd yr adnoddau; a
- Y graddau y mae manteision pennu SRA yn fwy nag unrhyw effeithiau andwyol posibl ar sectorau eraill.

Ystyriaethau technegol

53. Dylai awdurdod y cynllun morol ystyried a yw'n bosibl caboli Ardaloedd Adnoddau bras, ar sail ystyriaethau technegol, er mwyn pennu Ardal Adnoddau Strategol realistig, manwl ei ffocws ac ystyrlon i'r sector. Mae hynny'n cynnwys rhoi ystyriaeth i:

- A yw'n bosibl mapio cyfyngiadau caled sy'n effeithio ar y potensial i ddefnyddio'r adnodd er mwyn gallu pennu gyda hyder digonol hyd a lled gofodol yr adnodd y gellir ei ddefnyddio; a
- A yw'n bosibl pennu gyda hyder digonol hyd a lled gofodol yr adnoddau sydd eu hangen ar sectorau eraill.

Datblygu SRA a phenderfynu arni

54. Pan fydd awdurdod y cynllun morol yn cynnig cyflwyno SRA, dylai:

- Weithredu yn unol â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Cynnal ymgynghoriad ar y cynnig, gan esbonio'r cyfiawnhad dros bennu'r SRA, y fethodoleg a ddefnyddiwyd i'w phennu a'r effaith debygol ar yr SRA;
- Cynnal asesiadau perthnasol ar lefel y cynllun;
- Ystyried unrhyw sylwadau a fydd wedi dod i law;
- Pennu'r SRA trwy gyhoeddi MPN; a
- Nodi lleoliad yr SRA yn y porthol cynllunio morol.

55. Wrth bennu SRA, dylai awdurdod y cynllun morol:

- Ddefnyddio meini prawf technegol i ddangos yr adnodd a fydd yn debygol o fod yn ymarferol ac economaidd hyfyw yn ôl y technolegau sydd ar gael heddiw;
- Defnyddio anghenion gofodol sectorau eraill i gaboli ffiniau'r SRA, gyda'r nod o leihau neu osgoi gwrthdaro a hybu cydfodolaeth;
- Nodi'r ardaloedd lle gallai fod gofyn ystyried opsiynau eraill ar gyfer defnyddio'r adnoddau;
- Nodi'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd amgylcheddol sy'n berthnasol i'r SRA;
- Nodi cyfyngiadau a chyfleoedd cymdeithasol sy'n berthnasol i'r SRA; ac
- Ystyried y berthynas rhwng yr SRA ac amcanion a pholisïau cyffredinol a sectorol perthnasol y Cynllun hwn.

Rhoi'r SRA ar waith a'i diwygio

56. Er mwyn helpu i roi SRA ar waith, dylai awdurdod y cynllun morol:

- Gadw golwg ar faterion perthnasol gan gynnwys deall y cyfyngiadau gofodol ar yr SRA a gofalu bod y dystiolaeth honno ar gael o dro i dro;
- Cadw golwg ar agweddau perthnasol ar effeithiau'r SRA;
- Sicrhau y caiff effeithiau'r SRA eu cofnodi fel rhan o ofynion adrodd y cynllun morol; a
- Cadw golwg ar gyfleoedd i nodi'r ardaloedd lle gallai rhai mathau o ddatblygu neu dargedau/terfynau datblygu fod yn briodol mewn cynllunio morol yn y dyfodol.

57. Gallai'r awdurdod cynllunio morol benderfynu, ar sail tystiolaeth ac ymgynghori priodol ac ar ôl ystyried y sylwadau a ddaw i law, newid neu ddiddymu'r SRA trwy adolygu'r MPN neu ei dynnu yn ôl.

Cynllunio gofodol morol yn y dyfodol

58. Mae cynllunio morol am roi mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr, datblygwyr a rheolwyr adnoddau morol ynghylch beth, pryd, sut a phryd orau i ddefnyddio a datblygu'r adnoddau hynny. Mae ffocws a chyd-destun gofodol yn agwedd bwysig ar gynllunio morol a dylai cynllun morol Cymru fod yn seiliedig ar wybodaeth dda am:

- wasgariad adnodd penodol;
- argaeledd technegol yr adnodd;
- yr angen i ddefnyddio adnodd penodol;
- y cyfyngiadau 'meddal' ar ddefnyddio'r adnodd hwnnw; a
- y ffordd orau i ddefnyddio adnoddau gan gynnwys ystyried a oes angen cyfaddawdu'r defnydd neu opsiwn i ddefnyddio mwy nag un adnodd.

59. Er bod lefel ein deall yn amrywio rhwng sectorau ac y bydd yn newid dros amser wrth i'n deall, anghenion a'n technolegau newid, bydd cynllunio morol yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth fwy penodol ynghylch cyfleoedd a chyfyngiadau'r dyfodol.

60. Mae'r Cynllun hwn felly'n annog awdurdodau perthnasol a phartïon sydd â diddordeb, trwy bolisïau'r sector, i ddeall y cyfleoedd a ddaw i gyflwyno a chaboli SRA trwy'r broses cynllunio morol.

61. Wrth i'r cynllun morol aeddfedu ac wrth inni ddod i ddeall yn well y system gynllunio a dod yn gyfarwydd â hi, ac wrth inni feithrin y sylfaen dystiolaeth, caiff yr SRA ei chaboli ymhellach a gallai esblygu i roi mwy o eglurder a sicrwydd i ddatblygwyr a phenderfynwyr. Lle ceir hyder ynddo, gallai cynllunio morol, yn ogystal â diogelu adnoddau naturiol, nodi ardaloedd sydd ar gael i'w defnyddio'n gynaliadwy.

Y Fframwaith Cynllunio Morol yng Nghymru

62. Yn gefn i'r Cynllun hwn y bydd dogfennau cynllunio atodol, sy'n ymwneud â'r arfau cynllunio a'r dystiolaeth ategol. Bydd y dogfennau cynllunio ategol yn cynnwys 1) Arweiniad Cyflawni'r CMCC (IG) a 2) MPN. Mae'r IG a'r MPN yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniad o dan adran 58 yr MCAA.

63. Caiff yr IG ei gynhyrchu yr un pryd â'r Cynllun hwn a'i ddiweddaru o dro i dro. Bydd yr IG yn ein helpu i ddeall sut i roi polisïau'r Cynllun ar waith yn ymarferol a'r Cynllun hwn yn gyffredinol. Dylai datblygwyr a phenderfynwyr gyfeirio at yr IG ar y cyd â'r Cynllun hwn.

64. Bydd yr MPN yn rhoi arweiniad ar sut i roi polisïau'r Cynllun hwn ar waith neu eu datblygu mewn ardaloedd penodol. Nid yw'r MPN yn cyflwyno polisïau newydd ond mae'n ein helpu i ddehongli neu gyflawni polisi. Bydd MPN yn destun ymgynghori.

65. Caiff SRA ei chyflwyno neu ei newid trwy'r MPN. Adeg mabwysiadu'r cynllun hwn, y prif sectorau y rhoddir blaenoriaeth iddynt ar gyfer sefydlu SRA yw agregau, ynni ffrwd y llanw ac ynni'r tonnau. Gallai SRAs eraill gael eu datblygu ar gyfer, ymhlith pethau eraill, gwynt y môr mawr, dyframaethu a morlynnoedd y llanw.

66. Caiff MPNs eraill (nad ydynt yn ymwneud â'r SRA) eu cynhyrchu o dro i dro i roi arweiniad technegol pellach.

67. Bydd yr awdurdod cynllunio morol yn diwygio neu'n diddymu MPNs yn ôl y gofyn; ymgynghorir ar y newidiadau hyn.

68. Mae'r Cynllun hwn yn diogelu gweithgarwch sectorau. Bydd y porthol cynllunio morol yn rhoi gwybodaeth am ddatblygiadau sydd wedi'u hawdurdodi a phatrymau gweithgarwch sydd wedi ennill eu plwyf, hynny i hwyluso rhoi polisïau'r Cynllun ar waith.

69. Gallai gwybodaeth arall, gan gynnwys cynlluniau statudol ac anstatudol eraill, polisi'r DU a/neu Llywodraeth Cymru, Datganiadau'r Cabinet, tystiolaeth am y cynllun a/neu dystiolaeth ehangach, fod yn ystyriaeth berthnasol i benderfynwyr awdurdodau cyhoeddus. Bydd y penderfynwr yn penderfynu faint o bwys i'w roi i ystyriaethau perthnasol eraill fesul achos.

70. Gallai awdurdodau cyhoeddus perthnasol baratoi canllawiau ar roi'r cynllun morol ar waith. Lle ceir canllaw o'r fath, mae'n debygol y bydd yn ystyriaeth bwysig. Pe ceid gwrthdaro rhwng polisïau'r Cynllun hwn a chanllaw ategol, dylai penderfyniadau fod yn seiliedig ar bolisi'r Cynllun oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol.

71. Gallai Gweinidogion Cymru gyhoeddi polisi neu ganllaw cyhoeddi atodol arall a allai fod yn ystyriaeth berthnasol o safbwynt y Cynllun hwn.



Darparwyd y llun gan Croeso Cymru: (c) Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

Polisi Cyffredinol GEN – Polisi Cynllunio

Cyflwyniad

72. Nod y Cynllun hwn yw gweld ardal forol Cymru'n cael ei datblygu'n gynaliadwy fel rhan o weledigaeth gytûn y DU ar gyfer ein moroedd.

73. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio datblygu cynaliadwy fel proses o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, i gyflawni nodau llesiant y Ddeddf honno. Mae datblygu cynaliadwy'n golygu cydnabod bod llawer o bethau'n dylanwadu ar ansawdd bywyd person (ei lesiant) ac y gellid eu categoreiddio'n fras yn ffactorau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae datblygu cynaliadwy'n cysylltu'r amgylchedd rydym yn byw ynddo, yr economi rydym yn gweithio ynddi, y gymdeithas rydym yn rhan ohoni a'r diwylliannau rydym yn eu rhannu, â phobl ac ansawdd eu bywyd.

74. Gall datblygu ein hadnoddau naturiol morol yn gynaliadwy ddod â manteision arwyddocaol i'r amgylchedd, cymdeithas, diwylliant a'r economi yn y dyfodol, gan gyfrannu at holl nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

75. Yn y Cynllun hwn, mae'r nodau llesiant wedi'u rhoi ar waith fel cyfres integredig o nodau uwch fydd yn helpu i sicrhau bod y berthynas sylfaenol rhwng gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn cael ei chydnabod. Mae polisïau'r Cynllun wedi cael eu datblygu i weithio gyda'i gilydd, gyda'r polisïau trawsbynciol a'r polisïau sectorol yn dod ynghyd i gefnogi datblygu cynaliadwy.

76. Mae'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn gofyn i gyrff cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb lesteirio gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw. Mae tryloywder ac atebolrwydd yn hanfodol i sicrhau bod buddiannau pawb yn cael eu cynrychioli'n briodol a bod y system cynllunio morol yn gweithredu er lles hirdymor democrataidd y cyhoedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i system sy'n cael ei harwain gan gynllun morol. Bydd y cynllun yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson, proactif, cymesur sy'n seiliedig ar risg ac a fydd yn ennyn hyder trwy fod yn agored, teg, amhleidiol ac effeithlon.

Polisi

GEN_01: Polisi Cynllunio

Mae rhagdybiaeth o blaid datblygu ardal y cynllun yn gynaliadwy er mwyn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru.

GEN_02: Polisi Cynllunio

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol ymdrin â pholisïau cynllunio morol perthnasol mewn ffordd gymesur, seiliedig ar risg wrth wneud penderfyniadau.

Nod y Polisi

77. Mae **polisïau GEN_01** a **GEN_02** yn cynrychioli cefnogaeth y system cynllunio morol i ddatblygu'r ardal forol yn gynaliadwy (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) trwy benderfyniadau cymesur sy'n seiliedig ar risg. Mae'r ddau bolisi hyn yn cyfleu ac yn llywio'r holl benderfyniadau i sicrhau economi, cymdeithas, treftadaeth ddiwylliannol ac amgylchedd morol cydnerth.

78. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, wrth wneud eu penderfyniadau, geisio gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni saith nod llesiant Cymru a gwneud eu penderfyniadau'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy.

79. Dylai awdurdodau cyhoeddus fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol ac amserol wrth asesu cynigion datblygu sy'n cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun hwn, a dylent geisio cefnogi cynigion a fydd yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys datblygu cynaliadwy ehangach yn y DU.

80. Dylai awdurdodau cynllunio hefyd wneud eu penderfyniadau mewn ffordd gymesur sy'n seiliedig ar risg, gan ymgorffori egwyddorion cyffredinol rheoli risg:

- cymesuredd rhwng y mesurau a gymerir a lefel yr amddiffyniad a ddewisir;
- peidio â gwahaniaethu wrth gymhwyso'r mesurau;
- bod y mesurau'n gymesur â mesurau tebyg a gymerwyd yn barod mewn sefyllfaoedd tebyg neu wrth ddefnyddio dulliau tebyg;
- edrych ar fanteision a chostau gweithredu neu beidio â gweithredu; a
- adolygu'r mesurau yng ngolwg datblygiadau gwyddonol.



Darparwyd y llun gan Croeso Cymru: (c) Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

Cyflwyniad

81. Mae'r Cynllun hwn y cefnogi economi forol sy'n tyfu trwy bolisïau sy'n llywio penderfyniadau am sectorau'r môr. Cynyddu ffyniant a gwella llesiant trwy greu swyddi a datblygu economi gynaliadwy yw un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru; rydym yn ymrwymo i fuddsoddi mewn seilwaith, arloesedd ac i wella'r amgylchedd i fusnesau.

82. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod potensial economaidd ein hadnoddau morol yn ogystal â rôl ein moroedd o ran cynnal ein llesiant. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cydnabod bod twf economaidd yn bwysig i gymdeithas ac yn ein llywio i weithio i greu Cymru lewyrchus, sydd wedi'i diffinio fel a ganlyn: "Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas'.

83. Mae ecosystemau morol yn sylfaenol i gynnal yr economi forol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau i gymdeithas. Mae adnoddau naturiol y môr yn asedau pwysig ac mae moroedd Cymru'n cynnal amrywiaeth o weithgareddau ar draws llawer o sectorau sy'n gwneud cyfraniad pwysig at yr economi, gan gynnwys trwy fuddiannau gweladwy uniongyrchol fel bwyd, olew a deunydd adeiladu a thrwy ddarparu gwasanaethau llai amlwg fel dal a storio carbon a rheoli'r hinsawdd.

84. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cydnabod bod cryfder ecosystemau yn bwysig o ran sicrhau twf economaidd cynaliadwy. Mae'r dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol mewn ffordd ragweithiol, gynaliadwy a chydgysylltiedig ac ar eu defnyddio mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddiannau y maent yn eu darparu gan gwrdd ag anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

85. Nid ar chwarae bach y mae deall a mesur gwerth buddiannau ecosystem. Er hynny, mae'r Cynllun hwn yn cyfrannu at ddatblygu economi forol Cymru yn gynaliadwy drwy hybu cydnerthedd ecosystemau morol er mwyn hwyluso twf cynaliadwy.

Cyfleoedd ar gyfer Twf Glas:

> Yn y Cynllun hwn, diffinnir Twf Glas yng Nghymru fel twf a datblygiad economaidd sy'n cynnal tegwch cymdeithasol tra'n sicrhau bod ein hasedau naturiol yn gallu parhau i ddarparu'r adnoddau a'r manteision amgylcheddol y mae ein lles yn dibynnu arnynt.

86. Yn ogystal â chyfrannu i'n heconomi, mae Twf Glas yn cefnogi amcanion llesiant ehangach. Mae'r Cynllun hwn yn cefnogi Twf Glas trwy ddarparu fframwaith integredig ar gyfer gwneud penderfyniadau, tra'n cydnabod bod llawer o ffactorau eraill y tu allan i gwmpas y cynllun morol yn dylanwadu ar berfformiad yr economi forol. Mae amcanion wedi'u pennu ar gyfer y Cynllun cyfan hwn ynghyd ag ar gyfer sectorau unigol tra bod penodau sectorol yn cefnogi Twf Glas trwy bolisïau fydd yn llywio penderfyniadau ac yn annog buddsoddiad.

87. Mae hi'n bosibl amcangyfrif yn fras beth fydd cyfraniad economaidd gweithgareddau morol a sectorau unigol yn nhermau mesuriadau fel Gwerth Ychwanegol Gros (GVA – gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir) neu drwy asesu nifer y mentrau a'r nifer a gyflogir ym mhob sector. Daw manteision hefyd o bolisïau sy'n ehangu'r gadwyn gyflenwi rhwng diwydiannau a manteision ehangach fel y rheini a ddaw i fusnesau lleol o ganlyniad i dwristiaeth a hamdden morol. Mae potensial i'r sector morol ddod â buddiannau

anuniongyrchol tymor hir hefyd i'r economi, er enghraifft trwy'r arbedion costau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant gwell.

88. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael a'r ddealltwriaeth bresennol o broblemau'r dyfodol ac o gyfleoedd i dyfu, mae'r Cynllun hwn yn nodi bod potensial arbennig yn y sectorau morol canlynol ar gyfer datblygu cynaliadwy yn ystod ei oes:

- ynni adnewyddadwy;
- porthladdoedd a morgludiant;
- twristiaeth a hamdden;
- dyframaethu; a
- gwyddoniaeth ac arloesi.

89. Mae sectorau eraill hefyd yn bwysig ac yn darparu amrywiaeth eang o nwyddau a gwasanaethau hanfodol sy'n cynnal ein heconomi (pysgodfeydd, agregau adeiladu, ceblau trydan er mwyn cynhyrchu ynni yn y môr mawr, ceblau telathrebu sy'n hwyluso twf gwasanaethau digidol ac ati).

90. Mae'n bwysig bod cymdeithas yn deall ac yn gwerthfawrogi'r buddiannau y mae ein moroedd yn eu darparu gan gynnwys deall y berthynas rhwng cydnerthedd ecosystemau a chyfleoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy yn y dyfodol. Felly bydd Llywodraeth Cymru:

- yn cydweithio i ddeall sectorau morol a'u ffyrdd o gyfrannu i'n heconomi yn well;
- yn cydweithio i gael rhagor o ddealltwriaeth o nwyddau a gwasanaethau ecosystemau morol a'r buddiannau a geir ohonynt;
- yn cydweithio i ddeall yn well asedau hanesyddol y môr a'r arfordir a'r buddiannau a geir ohonynt; a
- yn cydweithio i ddeall gwerth amgylchedd y môr i economi a chymdeithas Cymru.

91. Mae'r Cynllun hwn yn cefnogi gweithgarwch economaidd cynaliadwy ar bob graddfa trwy gydnabod y cyfyngiadau ar ddefnyddio adnoddau naturiol morol a gofod morol yn y dyfodol a'r cyfleoedd a ddaw i'w defnyddio. Mae ei bolisïau'n cefnogi datblygwyr i wneud ceisiadau datblygu cryfach sydd wedi'u halinio'n glir â pholisi. Byddant felly'n fwy tebygol o gael eu hawdurdodi ac o gynhyrchu budd economaidd yn gynt.

92. Mae cyfnewid gwybodaeth yn agored yn gallu bod yn ysgogiad pwysig i arloesi a thwf economaidd. Dylai awdurdodau cyhoeddus felly geisio trefnu i ddata a gwybodaeth fod ar gael yn agored lle bynnag y bo modd.

Cefnogi gweithgareddau sy'n economaidd gynaliadwy

93. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio i gynnal a thyfu economïau lleol a chenedlaethol drwy weithgareddau cynaliadwy newydd, yn cynnwys rhai yn yr ardal forol, er mwyn darparu swyddi ac incwm i bobl leol ac arwain at ddarparu nwyddau a gwasanaethau sy'n ychwanegu gwerth ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

94. Rydym yn gweithio gyda'r gymuned fusnes i helpu busnesau i ffynnu, er mwyn cefnogi datblygu cynaliadwy ac i fuddsoddi yn ein hamgylchedd a'r economi forol i gynyddu cyfran y GVA a ddaw o'r môr. Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid ym mhob rhan o ddiwydiant a llywodraeth leol a chanolog. Drwy hynny, bydd busnesau'n cael eu helpu ac yn cyfrannu at les cymdeithas drwy ddefnyddio ein hadnoddau naturiol morol yn gynaliadwy.

Polisi

ECON_01: Twf economaidd cynaliadwy

Anogir cyflwyno cynigion ar gyfer gweithgareddau economaidd gynaliadwy, yn enwedig lle maent yn cyfrannu at:

- **rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy er mwyn cynnal cydnerthedd ecosystemau;**
- **economi fwy cydnerth;**
- **cyfleoedd cyflogaeth, yn enwedig yng nghymunedau'r arfordir;**
- **diogelu a chreu swyddi ar lefelau sgiliau gwahanol;**
- **cynnal cymunedau lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg; a/neu**
- **trechu tlodi drwy gefnogi cymunedau difreintiedig ar yr arfordir.**

Nod y Polisi

95. Mae **Polisi ECON_01** yn cydnabod bod datblygu'r amgylchedd morol yn gynaliadwy yn gallu cynyddu ffyniant a llesiant pobl Cymru. Dylid rheoli'r modd y defnyddiwn ein hadnoddau morol er mwyn cynyddu gwerth (yn ei ystyr ehangaf) yr ardal forol i bobl Cymru, ond gan gynnal yr un pryd yr amcanion a'r gwerthoedd cymdeithasol, gan gynnwys llesiant cenedlaethau'r dyfodol, a chynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau morol trwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

96. Felly mae'r polisi hwn yn annog cyflwyno cynigion sy'n darparu neu'n hyrwyddo cyfleoedd i gefnogi'r economi, yn enwedig gweithgareddau y nodwyd bod ynddynt botensial uchel i sicrhau twf cynaliadwy.

97. Dylai cynigion ddangos sut y byddant yn economaidd gynaliadwy. Bydd hynny'n cynnwys ystyried gwerth am arian, buddiannau (ac unrhyw gostau posib) i gymdeithas a help i ddatblygu sgiliau sy'n ymwneud â'r môr. Dylai cynigion hefyd nodi ym mha ffyrdd y byddent yn gallu cael effeithiau cadarnhaol neu niweidiol ar y Gymraeg (gweler **Polisi SOC-04**).

Cefnogi cydfodolaeth

98. Cydfodoli yw sefyllfa lle mae nifer o ddatblygiadau, gweithgareddau neu fathau o ddefnydd yn gallu bodoli ochr yn ochr neu'n agos i'w gilydd yn yr un lle a/neu ar yr un pryd. Mae cydfodoli o'r fath eisoes yn gyffredin yn yr amgylchedd morol. Mae cydleoli yn un o is-elfennau cydfodoli lle mae nifer o ddatblygiadau, gweithgareddau neu fathau o ddefnydd yn cydfodoli yn yr un lle drwy rannu'r un ôl troed neu arwynebedd.

99. Wrth i'r amgylchedd morol gael ei ddatblygu a'i ddefnyddio fwyfwy, ceir cystadlu cynyddol am ofod, mwy o ryngweithio rhwng gweithgareddau a chyfle i gydfodoli.

100. Mae'r broses cynllunio morol yn pennu cyfleoedd go iawn a photensial i wahanol sectorau ddefnyddio adnoddau a gofod morol, gan helpu i reoli gwrthdaro posibl a hybu datblygu cynaliadwy.

101. Ceir gwahanol fathau o gynigion sy'n hwyluso cydfodoli, e.e. gallai rhai prosiectau seilwaith gynnig amwynder a chyfleoedd hamdden sylweddol ar gyfer cymunedau lleol a thwristiaeth. Fel arall, gallai fod cyfle i ddatblygu e.e. mentrau dyframaethu newydd trwy gydleoli datblygiadau.

102. Bydd hyrwyddo cydfodoli mewn ffordd briodol yn ein helpu i wneud y defnydd gorau o'r ardal forol.

Polisi

ECON_02: Cydfodoli

Dylai cynigion ddangos sut y maen nhw wedi ystyried cyfleoedd ar gyfer cydfodoli â sectorau cydweddol eraill er mwyn optimeiddio gwerth a defnydd yr ardal forol ac adnoddau naturiol morol.

Nod y Polisi

103. Mae'r Cynllun hwn yn cefnogi cydfodoli rhwng gweithgareddau a mathau o ddefnydd perthnasol drwy annog cyflwyno cynigion sy'n ystyried cyfleoedd i gyfuno gweithgareddau gwahanol ond cydweddol i wneud y defnydd gorau posibl o ofod ac adnoddau naturiol morol.

104. O dan **Bolisi ECON_02**, dylai cynigion ddangos sut mae cyfleoedd posibl i gyfodoli â gweithgareddau eraill wedi'u hasesu a sut y gall gwireddu'r cyfleoedd hyn optimeiddio gwerth a defnydd cynaliadwy o ardal y Cynllun. Dylai cynigion ddangos y graddau y byddent yn cydfodoli â gweithgareddau eraill a sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni. Dylid ystyried hefyd cydfodolaeth gweithgareddau a datblygiadau mewn ardaloedd cynllunio morol cyffiniol ac wrth ryngwyneb y môr a'r tir er mwyn cael y defnyddio a'r gwerth gorau o adnoddau ehangach. Cydnabyddir na fydd cyfle cydfodoli realistig i bob prosiect.

Cyflwyniad

105. Mae ein moroedd yn rhan hanfodol o'n hanes, ein heconomi a'n ffordd o fyw. Mae mwy na 60% o boblogaeth Cymru yn byw ac yn gweithio ar yr arfordir, ac mae pob un o'n dinasoedd mawr a nifer o drefi pwysig ar yr arfordir hefyd. Yn yr adran hon, ceir polisïau sy'n ymwneud â nifer o faterion cymdeithasol, yn cynnwys cymunedau'r arfordir; treftadaeth; newid a llifogydd arfordirol; a'r newid yn yr hinsawdd.

Cymunedau'r arfordir

106. Ar gyfer cymunedau'r arfordir yng Nghymru, yn enwedig y rheini sy'n bell o'r dinasoedd mawr, mae'r môr a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ef yn bwysig o ran llesiant, darparu swyddi a chyfleoedd am weithgareddau hamdden ac am gynnal amrywiaeth ddiwylliannol ac ymdeimlad o dreftadaeth. Fodd bynnag, mae cyfle i nifer o gymunedau'r arfordir gael manteision mwy byth o'n moroedd ac mae angen addasu i heriau fel y risg gynyddol o lifogydd a newidiadau mewn amser hamdden.

107. Mae potensial i'n hamgylcheddau arfordirol fod gyda'r mwyaf deniadol yn Ewrop ar gyfer byw a gweithio ynddyn nhw ac ymweld â nhw ac ar gyfer byw bywydau hirach ac iachach mewn lleoedd cysylltiedig, cynaliadwy sydd wedi'u cynllunio'n dda gyda mynediad da at fwynderau a gwasanaethau. Mewn cymunedau o'r fath, mae pobl yn trysori, yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol er lles cenedlaethau heddiw ac yfory.

Mynediad i'r amgylchedd morol

108. Mae mynediad i'r amgylchedd morol yn golygu'r gallu i gyrraedd a/neu gymryd rhan yn y gweithgareddau a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan neu o fewn yr amgylchedd morol. Mae mynediad i ardal y cynllun morol yn angenrheidiol er mwyn ei mwynhau a'i defnyddio, gan gynnwys drwy hamdden a thwristiaeth ac mae'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy gan gynnwys iechyd a llesiant.

109. Mae cael mynediad i amgylcheddau arfordirol yn gallu cael effaith arwyddocaol o ran helpu pobl i wella eu hiechyd meddyliol a chorfforol. Gall gynnig cyfleoedd i deuluoedd ar incwm isel, yn enwedig plant a phobl ifanc, i brofi'r byd naturiol o'u cwmpas a dysgu oddi wrtho.

Polisi

SOC_01: Mynediad i'r amgylchedd morol

Anogir cynigion sy'n cynnal neu'n gwella mynediad i'r amgylchedd morol.

Nod y Polisi

110. Mae **Polisi SOC_01**, fel yr amlinellir uchod, yn cydnabod pwysigrwydd cynnal a gwella mynediad i ardal y cynllun morol, a sicrhau bod pobl yn gallu cyrraedd a chymryd rhan yn y gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir gan yr amgylchedd morol. Amcan y polisi felly yw sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i effeithiau posibl datblygiadau a gweithgareddau ar fynediad cyffredinol i'r amgylchedd morol. Yn benodol, mae hynny'n golygu y dylai datblygiadau gael eu dylunio a'u rheoli, lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol, i ganiatáu mynediad cynhwysol i'r amgylchedd morol neu i beidio â chyfyngu ar y mynediad presennol. Yn yr un modd, dylai awdurdodau cyhoeddus gefnogi mynediad i'r amgylchedd morol lle bo'n bosibl a phriodol, gan ystyried hefyd y risgiau a'r effeithiau niweidiol posibl a allai ddod o wella mynediad mewn rhai achosion.

111. Nod **Polisi SOC_01** felly yw cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ac at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy helpu i gynnal iechyd a lles cymunedau arfordirol a diogelu mynediad i'r manteision hamdden a lles sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd morol.



Darparwyd y llun gan Croeso Cymru: (c) Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

Llesiant cymunedau'r arfordir

112. Mae'r môr yn chwarae rhan bwysig yn cyfrannu at lesiant cymunedau'r arfordir ar lefel leol. Mae'r cymunedau o gwmpas ein harfordir yn amrywiol eu natur a gall dull polisi sy'n llwyddiannus mewn un ardal fod yn amhriodol mewn un arall. Byddai datblygiad priodol mewn man priodol yn gallu bod yn gymorth i addasu neu fod yn hwb i adfywio ond, yn yr un modd, gallai gael effaith negyddol ar y nodweddion a phriodweddau amgylcheddol cynhenid y mae'r gymuned yn dibynnu arnynt am ei ffyniant a'i llesiant. Un rhan allweddol o hyn yw proffiliau ieithyddol amrywiol y cymunedau o gwmpas ein harfordir, gan fod dwysedd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn uwch mewn rhai cymunedau na'i gilydd. Felly mae'n bwysig ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar raddfa leol a dal y ddysgl yn wastad rhwng datblygu ac adfywio ardal a diogelu'r nodweddion sy'n cyfrannu at yr ymdeimlad o le (gan gynnwys ei phroffil ieithyddol er mwyn sicrhau nad yw datblygiadau'n cael effaith negyddol ac anghymesur ar y Gymraeg) er mwyn sicrhau bod y system gynllunio morol gyfan yn darparu manteision net i gymunedau'r arfordir. Bydd hyn yn bwysig iawn lle mae cymuned arfordirol draddodiadol wedi addasu'n llwyddiannus i'w hamgylchiadau a lleoliad unigryw.

Polisi

SOC_02: Llesiant cymunedau'r arfordir


Anogir cyflwyno cynigion sy'n cyfrannu at lesiant cymunedau'r arfordir.

Nod y Polisi

113. Mae **Polisi SOC_02** yn cydnabod y gall datblygu a defnyddio'r amgylchedd morol effeithio ar ddyfodol economaidd-gymdeithasol cymunedau'r arfordir a dylai penderfynwyr sicrhau y manteisir ar gyfleoedd i gyfrannu'n adeiladol at lesiant cymunedau arfordirol. Yn sail i'r polisi hwn y mae'r gydnabyddiaeth y gall y newid yn yr hinsawdd gael effaith anghymesur ar y rheini sy'n fwyaf agored i niwed, gyda'r rheini sy'n cyfrannu leiaf i'r broblem yw'r rhai a all brofi effeithiau'r newid yn yr hinsawdd fwyaf. Mae Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen i bolisïau amgylcheddol lleol gefnogi'r agenda trechu tlodi gan wneud ardaloedd yn fwy cydnerth yn eu tro.

114. Mae'r polisi hwn felly'n annog cyfleoedd i gyfrannu'n bositif er budd cymunedau'r arfordir i sicrhau bod datblygiadau morol yn cynnal ac yn gwella hunaniaeth ddiwylliannol a llesiant y cymunedau hynny ar gyfer y dyfodol.

Ffigur 3: Cymunedau arfordirol



Achosion o lygredd môr

115. Fel y nodwyd yn yr MPS[13], mae achosion o lygredd yn y môr yn ganlyniad i ollwng llygryddion (olew neu gemegolion er enghraifft) i'r amgylchedd morol. Er bod llygredd yn cael ei ystyried yn fater amgylcheddol gan fwyaf, gall achosion mawr o lygredd gael effaith andwyol sylweddol ar gymunedau'r arfordir. Gallai hynny gynnwys dirywiad yng ngwerth eu hamwynderau oherwydd effeithiau ar estheteg a bioamrywiaeth, lleihad yn nifer ymwelwyr, colli enw da ac effeithiau posibl ar iechyd.

Polisi

SOC_03: Achosion o lygredd môr

Dylai cynigion ddangos sut maent yn lleihau'r risg o achosi neu gyfrannu at achosion o lygredd y môr.

Nod y Polisi

116. Mae **Polisi SOC_03** yn ymwneud â tharddleoedd penodol llygredd fel gollyngiadau olew neu gemegolion nad ydynt yn wasgaredig gan ganolbwyntio ar ddefnyddio, cludo a storio cemegolion, cyfryngau biolegol neu danwyddau yn yr amgylchedd morol (boed wrth weithredu neu fel rhan o weithgareddau adeiladu, cynnal a chadw neu ddatgomisiynu). O dan y polisi hwn, dylai cynigion ystyried i ba raddau y mae risg y gallent achosi neu gyfrannu at achos mawr o lygredd, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r risg honno lle gallent, gan leihau'r risg gyffredinol o beri achos o lygredd môr yn ardal y cynllun morol.

Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

117. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg i un miliwn erbyn 2050 ac mae wedi ymrwymo i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae defnyddio'r Gymraeg a'r gallu i gael gafael rhwydd ar wybodaeth am ein hanes diwylliannol cyfoethog, ein llenyddiaeth a'n cymunedau yn gallu ysgogi arloesedd, addysg a thwf economaidd yn ogystal â chyfrannu at lesiant ein cymunedau yn y dyfodol.

Polisi

SOC_04: Y Gymraeg a'i diwylliant

Anogir cyflwyno cynigion sy'n cyfrannu at hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Nod y Polisi

118. Mae **Polisi SOC_04** yn ceisio sicrhau bod pawb sy'n datblygu neu sy'n defnyddio ardal y cynllun morol yn ystyried ei effaith ar y Gymraeg a diwylliant Cymru ac yn ceisio nodi cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'i defnydd yn ei sector a thu hwnt. Yn yr un modd, dylai awdurdodau cyhoeddus hwyluso cyfrannu at wneud penderfyniadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

119. Trwy hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a diwylliant Cymru, mae **Polisi SOC_04** yn cyfrannu at gyfoethogi hunaniaeth ddiwylliannol a gwella llesiant cymunedau'r arfordir yn ogystal â bod yn gyson ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a thargedau Llywodraeth Cymru o ran cynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg.

Treftadaeth

120. Mae miloedd o flynyddoedd o fasnachu, fforio, amddiffyn, diwydiant a hamdden wedi creu amgylchedd hanesyddol cyfoethog ac amrywiol yn nyfroedd Cymru ac ar hyd ein harfordir sy'n cynnwys cestyll canoloesol, amddiffynfeydd Fictoraidd, harbyrau pysgota bach, porthladdoedd diwydiannol a threfi glan môr yr 19eg ganrif. Mae'r môr yn rhan hanfodol o gymeriad nifer o ardaloedd cadwraeth, gan gynnwys Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a Pharciau Cenedlaethol, a lleoliadau niferoedd mawr o Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig. Mae **Polisïau SOC_05**

13 MPS, Pennod 2, Adran 2.6.4.

i **SOC_07** yn pennu gofynion i sicrhau'r manteision mwyaf o'r amgylchedd hanesyddol; tirweddau dynodedig; a morweddau a chymeriad.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

121. Mae amgylchedd hanesyddol yr arfordir yn ganolog i ddiwylliant Cymru ac mae ei gymeriad yn cyfrannu at ein hymdeimlad o le, ein hunaniaeth ddiwylliannol a'n treftadaeth. Mae ein treftadaeth danddwr yr un mor gyfoethog. Ceir llongddrylliadau sy'n porthi'r dychymyg, a'r un mor rhyfeddol yw ein tirweddau tanddwr a rhynglanwol sy'n dyddio'n ôl dros filoedd o flynyddoedd. Mae dulliau arloesol o fapio gwely'r môr yn dechrau ein deffro i'r posibilrwydd y bydd rhagor o archeoleg hynod yn dod i'r golwg mewn tirweddau tanddwr.

122. Fel y dywedir yn yr MPS[14], mae'r amgylchedd hanesyddol yn gallu sbarduno datblygu economaidd cynaliadwy, denu ymwelwyr a darparu lleoedd dymunol i fyw a gweithio ynddynt. Mae'n bwysig bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei werthfawrogi, ei ddiogelu ac yn hygyrch i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae asedau hanesyddol o arwyddocâd cenedlaethol yn cael eu diogelu drwy ddynodiadau fel Henebion Cofrestredig, Safleoedd Llongddrylliadau a Ddiogelir ac Adeiladau Rhestredig. Gellir dynodi ardaloedd sydd â chymeriad lleol neilltuol ac sydd o arwyddocâd hanesyddol yn Ardaloedd Cadwraeth. Gellir cynnwys parciau a gerddi hanesyddol ar y gofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Hefyd mae dynodiadau anstatudol perthnasol sy'n ystyriaethau perthnasol yn y system gynllunio ar dir fel Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig neu Eithriadol. Fodd bynnag, ni ddylid cymryd bod diffyg asedau hanesyddol dynodedig yn golygu fod asedau hanesyddol sydd heb eu dynodi yn llai arwyddocaol.

Polisi

SOC_05: Asedau hanesyddol

Dylai cynigion ddangos sut mae effeithiau posibl ar asedau hanesyddol a'u lleoliadau wedi cael eu hystyried a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a. osgoi effeithiau niweidiol ar asedau hanesyddol a'u lleoliadau; a/neu

b. lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu

c. lliniaru effeithiau na ellir eu lleihau.

Os ceir effeithiau niweidiol arwyddocaol na ellir eu hosgoi, eu lleihau na'u lliniaru, rhaid i gynigion gyflwyno dadl glir a chref pam y dylid bwrw ymlaen.

Cefnogir cyfleoedd i wella asedau hanesyddol.

Nod y Polisi

123. Mae **Polisi SOC_05** yn cydnabod pwysigrwydd gwerthfawrogi ac amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol arfordirol a thanddwr a'i wneud yn hygyrch i genedlaethau heddiw ac yfory. Gall datblygu a defnyddio'r amgylchedd morol, fodd bynnag, effeithio ar asedau hanesyddol yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, gan gynnwys: colli neu niweidio deunydd hanesyddol; newid lleoliad asedau hanesyddol all gael effaith bositif neu negyddol ar ein gallu i'w deall a'u gwerthfawrogi neu drwy eu claddu neu eu dadorchuddio (e.e. yn sgil newid patrymau symud gwaddod).

124. O dan **Bolisi SOC_05**, dylai cynigion felly roi ystyriaeth briodol i effeithiau posibl datblygiadau a gweithgareddau ar asedau hanesyddol a'u lleoliad er mwyn osgoi colli neu niweidio asedau'n fawr o ganlyniad i ddatblygu amhriodol neu anwybodus. Amcan arall y polisi hwn yw sicrhau y caiff cyfleoedd i ddeall arwyddocâd asedau hanesyddol yn well eu hannog a'u hyrwyddo. Dylai **Polisi SOC_05** gyfrannu felly at ddatblygu cynaliadwy trwy helpu i amddiffyn ein hamgylchedd hanesyddol a chefnogi cyfleoedd ar gyfer twristiaeth a hamdden.

14 MPS, Pennod 2, Adran 2.6.6.2.

Tirweddau dynodedig

125. Mae tirwedd yn ganlyniad i ryngweithio rhwng prosesau dynol a naturiol[15]. Bydd pobl yn meddwl am dirweddau fel lleoedd i fyw, gweithio a mwynhau ynddynt. Mae tirweddau'n darparu amrywiaeth o fanteision diwylliannol sy'n cyfrannu at ein hymdeimlad o le, llesiant ac ansawdd bywyd. Wrth ddarparu'r manteision lluosog hyn, mae tirweddau hefyd yn gallu darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig ar wahanol raddfeydd.

126. Mae nifer mawr o'r tirweddau ar arfordir Cymru yn cael eu cydnabod yn ardaloedd hardd a thrawiadol sydd â haenau o draddodiad diwylliannol ac ieithyddol sy'n ychwanegu at eu hamrywiaeth a'u cymeriad. Mae rhai o'r tirweddau hyn yn cael eu trysori'n arbennig gan gymdeithas ac wedi'u dynodi o dan ddeddfwriaeth y DU drwy Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad (1949) yn Barciau Cenedlaethol neu o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000) yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae'r dynodiadau statudol hyn wedi'u gwneud i warchod a gwella eu harddwch naturiol, eu bywyd gwyllt a'u diwylliant ac yn achos Parciau Cenedlaethol er mwyn y cyfleoedd hamdden sydd ar gael ynddynt.

127. Mae tirweddau dynodedig yn cael eu cydnabod ar lefel ryngwladol gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) yn Ardaloedd Gwarchodedig Categori V, wedi'u trysori fel tirweddau byw oherwydd y rhyngweithio rhwng elfennau naturiol a dynol o'u mewn. Mae pump o'r wyth Tirwedd Ddynodedig yng Nghymru wedi'u dynodi ar sail eu golygfeydd arfordirol ysblennydd a'u cymeriad arfordirol. Yn sir Benfro y ceir yr unig Barc Cenedlaethol cwbl arfordirol yn y DU. Mae tua 54% o arfordir Cymru wedi'i ddynodi'n Barc Cenedlaethol neu AHNE[16].

128. Hefyd, mae nifer o ddynodiadau anstatudol, gan gynnwys Arfordiroedd Treftadaeth a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig. Mae tua 42% o arfordir Cymru wedi'i ddiffinio'n Arfordiroedd Treftadaeth; mae'r rhain yn cydgyffwrdd yn aml â dynodiadau eraill fel Parciau Cenedlaethol ac AHNE. Cafodd y dynodiadau anstatudol hyn eu creu i ddiogelu darnau o arfordir hardd sydd heb eu datblygu rhag datblygu anaddas.

Polisi

SOC_06: Tirweddau dynodedig

Dylai cynigion ddangos sut y rhoddwyd ystyriaeth i'r effeithiau posibl ar bwrpas a'r rhinweddau arbennig a fu'n sail dros ddynodi Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a. osgoi effeithiau niweidiol ar y tirweddau dynodedig; a/neu

b. lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu

c. lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os ceir effeithiau niweidiol arwyddocaol na ellir eu hosgoi, eu lleihau na'u lliniaru, rhaid i gynigion gyflwyno dadl glir a chref pam y dylid bwrw ymlaen.

Anogir cyfleoedd i wella tirweddau dynodedig.

Nod y Polisi


129. Mae **Polisi SOC_06** yn cydnabod y gall tirweddau cydnerth, amrywiol ac amlswyddogaethol sy'n cael eu cefnogi gan arferion rheoli cynaliadwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a chyfleoedd sydd â'r potensial i gyfrannu at gyflawni amcanion cymdeithasol a gwella iechyd a llesiant yn ogystal â darparu manteision economaidd.

130. O dan y polisi hwn, dylai'r cynigion roi ystyriaeth briodol i effeithiau posibl datblygiadau a gweithgareddau ar dirweddau dynodedig. Mae'r polisi hwn yn annog cyfleoedd hefyd i gyfrannu'n bositif at ddiogelu neu wella'r ardaloedd hyn. Yr un statws sydd i Barciau Cenedlaethol ac AHNE o safbwynt harddwch eu tirwedd a'u golygfeydd a dylid diogelu'r ddau rhag datblygiadau anaddas.

15 Cyfeirir at ddiffiniad Confensiwn Tirweddau Ewrop o dirwedd "an area, as perceived by people, whose character is the result of the action and interaction of natural and/or human factors" yn yr MPS, Pennod 2, Adran 2.6.5.

16 NRW Geographic Information System (GIS) 2016.

Ffigur 4: Nodweddion Treftadaeth a Thirwedd Arfordirol Ddynodedig



Morweddau

131. Yng nghyd-destun y Cynllun hwn, mae tirweddau mewn ardaloedd morol ac arfordirol yn cael eu galw'n "forweddau" ac maent yn cynnwys "landscapes with views of the coast or seas, and coasts and the adjacent marine environment with cultural, historical and archaeological links with each other", fel y maent wedi'u diffinio yn yr MPS, Pennod 2, Adran 2.6.5.

132. Mae gan Gymru arfordir amrywiol a deniadol gyda morweddau sy'n cynnal amrywiaeth fawr o weithgareddau a mathau o ddefnydd ac sy'n agored i'w dylanwad. Mae'r ymdeimlad cryf o le a'r cymeriad unigryw sy'n nodweddiadol o'n hamgylchedd arfordirol yn gwneud cyfraniad pwysig i'n hiechyd a llesiant cenedlaethol. Un rheswm allweddol pam fyddai unigolion am ymleoli yn ein hardaloedd arfordirol yw ansawdd uchel y bywyd yno a'r cyfleoedd a geir am hamdden awyr agored. Yn yr un modd, mae'r potensial ar gyfer twristiaeth a hamdden ar ein harfordir yn denu busnesau i'r ardaloedd arfordirol.

133. Gall datblygiadau yn rhanbarth cynllunio morol y glannau arwain at newid cymeriad rhannau o arfordir Cymru. Mae newidiadau o'r fath yn digwydd eisoes. Yn ystod oes y Cynllun hwn, mae'n debygol y gwelir newid parhaus yng nghymeriad morweddau Cymru, o ganlyniad yn bennaf i adeiladu rhagor o seilwaith ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y môr, yn enwedig oddi ar arfordir Gogledd a De Cymru. Mae'r newidiadau hyn yn ganlyniad anorfod i'n dyheadau i gael mwy o fanteision o'n moroedd ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory.

Polisi

SOC_07: Morweddau

Dylai cynigion ddangos sut mae effeithiau posibl ar forweddau wedi cael eu hystyried yn gynnar a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a. osgoi effeithiau niweidiol ar forweddau; a/neu

b. lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu

c. yn lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os ceir effeithiau niweidiol arwyddocaol na ellir eu hosgoi, eu lleihau na'u lliniaru, rhaid i gynigion gyflwyno dadl glir a chref pam y dylid bwrw ymlaen.


Cefnogir cyfleoedd i wella morweddau.

Nod y Polisi

134. Mae datblygiadau, gweithgareddau a mesurau rheoli yn gallu newid cymeriad ardal a'i hadnoddau gweledol. Mae pob morwedd yn bwysig o ran canfyddiadau pobl leol ac ymwelwyr o ardal ac maent yn rhan allweddol o'r pwynt gwerthu unigryw mewn ardaloedd arfordirol sy'n cynnal cymunedau arfordirol. Amcan **Polisi SOC_07** felly yw sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i effeithiau posibl datblygiadau a gweithgareddau ar forweddau gan annog cyfleoedd yr un pryd i gyfrannu mewn ffordd bositif at amddiffyn neu warchod yr ardaloedd hyn.

135. Lle ceir posibilrwydd y gall datblygiadau neu gynlluniau a gynigir newid morwedd ardal i raddau arwyddocaol, o dan **Bolisi SOC_07** dylid ystyried yr effeithiau a gwerth cymharol y forwedd a newidir wrth wneud penderfyniadau. Nid yw pryderon ynghylch morweddau yn rhwystr o reidrwydd ar eu pen eu hunain rhag datblygiad sydd wedi'i leoli a'i ddylunio mewn ffordd sensitif a dylid ystyried morweddau'n gynnar er mwyn gallu dod o hyd i atebion sy'n fwy derbyniol a helpu i gyfeirio datblygiadau addas at leoliadau priodol.

Ffigur 5: Ardaloedd Cymeriad Morol



Newidiadau i'r arfordir a llifogydd ar yr arfordir

136. Fel y dywedir yn yr MPS, Pennod 2, Adran 2.6.8, yr hyn a olygir wrth newidiadau i'r arfordir yw newidiadau ffisegol naturiol i'r traethlin, er enghraifft, erydu, tirlithriadau ar yr arfordir, tir yn cael ei foddi o dan ddŵr yn barhaol a chroniant ar y traethlin, yn ogystal â newidiadau ffisegol o dan ddylanwad dyn, megis amddiffynfeydd a datblygiadau seilwaith ar yr arfordir, adlinio a reolir, a chreu cynefinoedd.

137. Mae erydu arfordirol yn digwydd ar hyd 23% o draethlin Cymru[17] ac yn gryn her mewn mannau lle mae'n bygwth cymunedau a seilwaith. Mae'r arfordir yn rhywbeth sy'n ddynamig yn ei hanfod ac mae'n gallu newid. Yn gyffredinol, mae erydu'n digwydd yn raddol dros gyfnodau cymharol hir. Er hynny, gall hefyd ddigwydd yn sydyn ac yn ysbeidiol. Disgwylir i'r newid yn yr hinsawdd gyfrannu at newid yr arfordir yn gynt yn ystod y degawdau nesaf. Yn ôl y rhagolygon, bydd lefelau'r môr yn codi wrth i'r hinsawdd newid, ac mae'n debygol y bydd tir isel sy'n draenio'n naturiol adeg y distyll ar hyn o bryd o dan ddŵr am gyfnodau hirach neu'n barhaol. Mae'r cynnydd a ddisgwylir yn lefel y môr, ynghyd â mwy o dywydd eithafol, yn debygol o arwain at fwy o risg o lifogydd ac erydu ar yr arfordir.

138. Mae erydu a llifogydd ar yr arfordir yn gallu effeithio'n uniongyrchol ar weithgarwch pobl ac ar weithgarwch economaidd. Gallant newid tirweddau'r arfordir, gwanhau amddiffynfeydd môr, a pheryglu adeiladau ar yr arfordir (gan gynnwys treftadaeth adeiledig), rhwydweithiau seilwaith (gan gynnwys porthladdoedd, marinâu, ffyrdd, rheilffyrdd ac ynni) a phobl.

139. Mae newidiadau i'r arfordir a risg o lifogydd yn gallu cael cryn effaith ar ein hadnoddau naturiol hefyd. Mae llawer o'n hamgylchedd morol wedi'i ddynodi ar sail ei bwysigrwydd amgylcheddol (gweler **Polisi ENV_02** a'r map cysylltiedig) ac mae newidiadau i gynefinoedd sydd dan fygythiad ar yr arfordir, fel morfeydd heli, twyni tywod a blaendraethau, yn gallu effeithio ar fioamrywiaeth ac ar ddarparu mathau eraill o wasanaethau ecosystemau yn y dyfodol, megis gwasanaethau diwylliannol sy'n helpu i gynnal y diwydiant twristiaeth ar y glannau. Gall y newid yn yr hinsawdd arwain hefyd at ragor o stormydd, at amodau llai addas ac at ragor o ddifrod i gyfleusterau ar yr arfordir.

140. Mae risg o lifogydd ar yr arfordir yn fater o bwys penodol ar y lefel genedlaethol. Yn hanesyddol, mae'r dulliau traddodiadol o reoli'r peryglon sy'n gysylltiedig â newidiadau a llifogydd ar yr arfordir wedi bod yn seiliedig ar egwyddorion amddiffyn. Amcangyfrifir bod 415 km o amddiffynfeydd môr adeiledig yn gwarchod ein cymunedau arfordirol ac yn diogelu asedau ar arfordir Cymru sy'n werth cyfanswm o £8 biliwn[18]. Wrth i gymunedau ddatblygu, datblygu hefyd a wnaeth rhwydwaith sylweddol o amddiffynfeydd rhag llifogydd a seilwaith ar gyfer draenio a diogelu'r arfordir, sy'n helpu i leihau'r risg. Mae cynnal yr amddiffynfeydd presennol, yn ogystal â chodi rhai newydd, yn parhau'n weithgarwch o bwys o amgylch arfordir Cymru. Er y bydd y trefniadau hyn yn parhau'n elfen bwysig o'n hamddiffynfeydd ar yr arfordir, ac er eu bod yn dal i weithio yn y rhan fwyaf o Gymru, mae effeithiau hinsawdd sy'n newid yn golygu y bydd y pwysau ar ein seilwaith presennol yn cynyddu'n sylweddol. Nid yw codi amddiffynfeydd sy'n cynyddu fwyfwy o ran maint yn gynaliadwy nac yn fforddiadwy a beth bynnag yw maint yr amddiffynfa, mae risg bob amser iddi gael ei bylchu neu i ddŵr lifo drosti. Felly, bydd yna rywfaint o risg o hyd na fydd amddiffynfeydd yn gallu mynd i'r afael â hi ar eu pen eu hunain.

141. Wrth fynd ati i ddylunio ffyrdd o reoli'r arfordir, gellir gwneud hynny mewn ffordd sy'n creu cynefinoedd ac yn eu helpu i addasu. Gan gydnabod y problemau sy'n gysylltiedig â newidiadau a llifogydd ar yr arfordir, mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd drwy fabwysiadu system sy'n seiliedig ar egwyddorion rheoli risg. Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ategu'r ffordd hon o weithredu, ac un o'r camau cyntaf a gymerwyd er mwyn mynd i'r afael â risg oedd cyhoeddi Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a chyflwyno Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd.

17 Strategaeth Monitro ac Asesu Morol y DU (UKMMAS) 2010a.
18 Swyddfa Archwilio Cymru, 2009.

142. Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, aed ati hefyd i ddatblygu mapiau cenedlaethol ar erydu a risg o lifogydd ar yr arfordir (Ffigurau 6, 7a a 7b) ac i fabwysiadu Cynlluniau Rheoli Traethlin. Nod y Cynlluniau Rheoli Traethlin yw sicrhau bod y traethlin yn cael ei reoli mewn ffordd fwy cynaliadwy dros y tymor hwy, fel y bo modd ymdopi'n well wrth i'r hinsawdd newid ac, yn benodol, wrth i lefel y môr godi. Mae'r cynlluniau anstatudol hyn yn rhoi cyd-destun pwysig ar gyfer gwneud penderfyniadau am yr arfordir drwy amlinellu'r polisïau a ffefrir ar gyfer rheoli'r arfordir (Cynnal y Llinell, Dim Ymyrraeth Weithredol, Adlinio a Reolir, Symud y Llinell) dros dri chyfnod: 0-20 mlynedd, 20-50 mlynedd a 50-100 mlynedd gyda 2005 yn flwyddyn sylfaen.

143. Mae'n hollbwysig bod gwaith cynllunio a phrosesau penderfynu sy'n gysylltiedig â'r tir a'r môr yn cael eu hintegreiddio er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â newidiadau i'r arfordir a llifogydd ar yr arfordir.

Polisi

SOC_08: Y gallu i wrthsefyll newidiadau i'r arfordir a llifogydd ar yr arfordir

Wrth lunio cynigion, dylid dangos sut y byddant yn ymdopi â newidiadau i'r arfordir a llifogydd ar yr arfordir, a hynny drwy gydol eu hoes.

SOC_09: Effeithiau ar newidiadau i'r arfordir ac ar lifogydd ar yr arfordir

Dylai cynigion ddangos sut y maent:

- **yn osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol ar brosesau arfordirol; ac**
- **yn lleihau'r risg o newidiadau i'r arfordir ac o lifogydd ar yr arfordir;**

Anogir cynigion sy'n gydnaws â'r Cynllun(iau) Rheoli Traethlin perthnasol.

Nod y Polisi

144. Mae **Polisïau SOC_08** a **SOC_09** yn cyflwyno gofynion sy'n golygu bod yn rhaid ystyried a yw newidiadau i'r arfordir a llifogydd ar yr arfordir yn debygol o effeithio ar unrhyw gynigion a gyflwynir, ac mae gofyn hefyd ystyried a oes posibilrwydd y bydd y cynigion yn cyfrannu at y prosesau hynny.

145. O dan **Bolisi SOC_08**, wrth gynllunio datblygiadau a gweithgareddau, dylid mynd ati mewn ffordd briodol i asesu'r risg o newidiadau i'r arfordir a llifogydd ar yr arfordir yn ystod oes y prosiect ac, os yw hynny'n briodol, dylid cynnwys mesurau i fynd i'r afael â'r risg honno ac i sicrhau bod y datblygiadau a'r gweithgareddau yn fwy abl i ymdopi â'r newidiadau i'r arfordir.

146. Oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau i'r arfordir a llifogydd ar yr arfordir, dylid, os oes modd, leoli datblygiadau ar yr arfordir mewn ardaloedd sy'n llai tebygol o ddioddef llifogydd ac erydu, er ei bod yn bosibl y bydd yna eithriadau os yw lleoliad penodol yn hanfodol am resymau gweithredol neu os na ellir lleoli seilwaith yn rhywle arall.


147. Yn unol â'r polisi ar gyfer Cynlluniau Rheoli Traethlin, ni ddylid caniatáu cynigion i ddatblygu ardaloedd os oes risg o lifogydd/erydu ac os oes polisi dim ymyrraeth weithredol neu adlinio a reolir ar eu cyfer yn y Cynllun Rheoli Traethlin ar gyfer unrhyw gyfnod sy'n berthnasol i oes y datblygiad. Yn yr un modd, ni ddylid datblygu ardaloedd lle mae risg sylweddol o lifogydd (Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15[19]).

148. Nod **Polisi SOC_09** yw sicrhau na fydd gweithgareddau arfaethedig yn cael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar brosesau arfordirol ac na fyddant yn arwain at fwy o risg o newidiadau i'r arfordir ac o lifogydd ar yr arfordir. Mae'r polisi hwn hefyd yn annog cynigion sy'n ystyried cynlluniau a pholisïau perthnasol er mwyn cyrraedd y nod hwn.

149. Wrth lunio cynigion i ddatblygu ac i ddefnyddio'r amgylchedd morol, dylid dangos sut y byddant yn lleihau'r risg o newidiadau i'r arfordir. Hefyd, anogir mesurau sy'n gweithio gyda phrosesau naturiol, sy'n helpu'r amgylchedd i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac sy'n gwneud ecosystemau a chymunedau arfordirol yn fwy cydnerth.

19 Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd.


Ffigur 6: Perygl llifogydd



Ffigur 7(a): Erydiad Arfordirol – Cynllun Rheoli Traethlin



Ffigur 7(b): Erydiad arfordirol – Amddiffynfeydd



Y Newid yn yr hinsawdd

150. Mae'r achos gwyddonol sy'n dangos bod yr hinsawdd yn newid, a bod gweithgarwch gan bobl yn chwarae rhan arwyddocaol yn y newid hwnnw, yn un cwbl glir[20]. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn creu sawl her i'r amgylchedd morol ac i'r cymunedau a'r busnesau sy'n dibynnu arno. Ymhlith rhai o'r effeithiau a nodwyd yn yr MPS[21] y mae cynnydd yn lefel y môr, mwy o risg o lifogydd a newidiadau i fioamrywiaeth ac ecosystemau, yn ogystal ag effeithiau cysylltiedig ar iechyd a llesiant.

151. Mae dwy ffordd allweddol o weithredu ar y newid yn yr hinsawdd – lliniaru ac addasu. Nod mesurau lliniaru yw arafu'r newid a lleihau ei effeithiau drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (neu gynyddu'r dalfeydd sy'n gallu amsugno'r nwyon). Mae mesurau addasu yn helpu i ddiogelu rhag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy gymryd camau priodol i atal neu i leihau'r difrod i systemau economaidd-gymdeithasol a naturiol. Maent hefyd yn cynnwys nodi cyfleoedd a all ddeillio o'r newid yn yr hinsawdd, a manteisio arnynt. Mae'r costau y bydd yn rhaid eu hwynebu yn y dyfodol, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â gweithredu, yn fwy o lawer na'r hyn y byddai'n ei gostio i weithredu yn awr. Heblaw hynny, byddai oedi cyn gweithredu ar effeithiau negyddol y newid yn yr hinsawdd yn siŵr o'i gwneud yn ddrutach ac yn anoddach inni oresgyn yr effeithiau hynny yn y dyfodol.[22]

152. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn pennu targed cyfreithiol o leihau allyriadau carbon o leiaf 80% erbyn 2050 ac yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu cyfres o dargedau interim (ar gyfer 2020, 2030 a 2040) a chyllidebau carbon pum mlynedd.[23] Bydd y cyllidebau'n gosod terfynau ar gyfanswm yr allyriadau yng Nghymru dros gyfnod o 5 mlynedd, a byddant yn ffordd o fynd ati gam wrth gam i sicrhau bod cynnydd rheolaidd yn cael ei wneud o ran cyrraedd y targed hirdymor. Mae'n ofynnol hefyd o dan y Ddeddf i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cynllun ar Gyflawni a fydd yn amlinellu eu cynigion a'u polisïau ar gyfer pob un o gyfnodau'r cyllidebau carbon, gan roi sicrwydd er mwyn hyrwyddo buddsoddiad mewn economi carbon isel.

Polisi

SOC_10: Lleihau'r newid yn yr hinsawdd

Dylai cynigion ddangos sut y maent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a. yn osgoi allyrru nwyon tŷ gwydr; a/neu

b. yn lleihau allyriadau os na ellir eu hosgoi; a/neu

c. yn eu lliniaru os na ellir eu lleihau.

Os na ellir osgoi, lleihau neu liniaru allyriadau sylweddol o nwyon tŷ gwydr, rhaid i gynigion i ymgymryd â gweithgareddau a reoleiddir gyflwyno achos clir a phendant o blaid bwrw ymlaen â'r cynigion hynny.

SOC_11: Y gallu i ymdopi â'r newid yn yr hinsawdd

Dylai cynigion ddangos eu bod wedi ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac wedi cynnwys mesurau addasu priodol, gan roi sylw i Asesiadau o Risgiau Newid Hinsawdd ar gyfer Cymru.

Anogir cynigion sy'n cyfrannu at addasu i'r newid yn yr hinsawdd a/neu at liniaru ei effeithiau.

Nod y Polisi

153. Dylid lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr pryd bynnag y bo modd, yn enwedig yng nghyd-destun datblygiadau ar raddfa fwy a phrosiectau seilwaith. Nod **Polisi SOC_10** yw sicrhau bod cynigion yn ystyried yr holl allyriadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad neu'r gweithgarwch arfaethedig (gan gynnwys nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu) yn ogystal â'r allyriadau sy'n anuniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad neu'r gweithgarwch (e.e. datblygiadau sy'n arwain at siwrneiau hirach i gychod).

20 5ed Adroddiad Cyfun y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC).
21 MPS, Pennod 2, Adran 2.6.7.
22 Adolygiad Stern Review o Economeg y Newid yn yr Hinsawdd.
23 **www.llyw.cymru/deddf-yr-amgylchedd-cymru-2016-y-newid-yn-yr-hinsawdd**.

154. Nod **Polisi SOC_11** yw sicrhau bod cynigion yn asesu'r effeithiau tebygol y bydd maint y newid a ragwelir yn yr hinsawdd yn eu cael ar ddatblygiadau neu weithgareddau ac ar sut y maent yn defnyddio'r amgylchedd morol. Lle bo angen, dylai awdurdodau cyhoeddus eu bodloni eu hunain bod cynlluniau digonol i reoli risg neu gynlluniau wrth gefn digonol wedi'u paratoi er mwyn sicrhau bod datblygiadau'n fwy abl i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. O dan y polisi hwn, anogir cynigion hefyd i gynnwys mesurau a fydd yn cyfrannu at liniaru ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Polisi Cyffredinol ENV – Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol

Cyflwyniad

155. Mae ecosystemau morol yn ddynamig ac yn darparu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau yr ydym yn dibynnu arnynt. Maent, er enghraifft, yn ffynhonnell o fwyd iach, yn ein hamddiffyn rhag trychinebau naturiol ac yn rheoleiddio'n hinsawdd. Mae amgylchedd morol cydnerth a bioamrywiol hefyd o werth ynddo'i hun, gan gyfrannu at ein llesiant, ein hunaniaeth ddiwylliannol a'n hymdeimlad o le. Mae'n bwysig bod ecosystemau a'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a gynhelir ganddynt yn gydnerth a'u bod yn gallu addasu mewn ymateb i newidiadau ac effeithiau er mwyn inni fedru parhau i gael budd o'r nwyddau, y gwasanaethau a'r manteision ehangach o ran llesiant y maent yn gallu eu darparu. Eir ati yn yr adran hon, felly, i nodi polisïau sy'n hyrwyddo camau i warchod a gwella'r amgylchedd morol er mwyn sicrhau bod ecosystemau morol yn gydnerth a'u bod yn gallu diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Statws Amgylcheddol Da a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

156. Mae Strategaeth Forol y DU wedi sefydlu fframwaith i ddiogelu ein moroedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ei nod yw cyrraedd neu gynnal Statws Amgylcheddol Da yn nyfroedd y môr a'r glannau. Mae Statws Amgylcheddol Da yn cael ei ddiffinio mewn 11 o "Ddisgrifyddion" sy'n ymdrin â'r amgylchedd morol yn ei gyfanrwydd. Mae Strategaeth Forol y DU yn amlinellu, ar lefel y Disgrifyddion, amryfal dargedau, rhaglen fonitro a set o fesurau er mwyn cyrraedd neu gynnal Statws Amgylcheddol Da. Mae'r MPS (Pennod 2, Adran 2.6.1) yn cydnabod y bydd cynlluniau morol yn erfyn allweddol i roi'r mesurau hyn ar waith.

157. Ystyr cyrraedd Statws Amgylcheddol Da yw arfer dull o weithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau wrth reoli gweithgarwch gan bobl. Yn y cyd-destun hwn, mae hynny'n golygu cadw'r holl bwysau a achosir gan weithgareddau pobl o fewn lefelau sy'n gydnaws â chyrraedd Statws Amgylcheddol Da, gan sicrhau nad amherir ar allu ecosystemau morol i ymateb i newidiadau sy'n ganlyniad i weithgarwch gan bobl, a sicrhau ar yr un pryd bod modd defnyddio'r amgylchedd morol mewn ffordd gynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol.

158. Mae hyrwyddo ffyrdd o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn un o amcanion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision y maent yn eu cynnig. Mae egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi cael eu nodi yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac maent yn ategu'r 11 disgrifydd o Statws Amgylcheddol Da yn Strategaeth Forol y DU.

159. Mae'r polisïau sydd yn y Cynllun hwn yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy a'u bod yn helpu i gyrraedd Statws Amgylcheddol Da. Mae Tabl 5 yn dangos y berthynas rhwng y polisïau yn y Cynllun hwn a'r 11 Disgrifydd sy'n ymdrin â'r agweddau allweddol ar Statws Amgylcheddol Da. Bydd cynigion/datblygiadau yn cyfrannu at y Disgrifyddion yn Strategaeth Forol y DU ac at gyrraedd Statws Amgylcheddol Da os byddant yn cydymffurfio â'r polisïau yn y Cynllun ac â'r prosesau cydsynio priodol. Eir i'r afael â rhai o'r Disgrifyddion drwy bolisïau penodol yn y Cynllun a chefnogir eraill gan gyfraniadau sydd ymhlyg mewn nifer o bolisïau.



Darparwyd y llun gan Croeso Cymru: (c) Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

Tabl 5: Polisïau yn y Cynllun sy'n helpu i gyrraedd Statws Amgylcheddol Da

Rhif y disgrifydd a disgrifiad ohono		Y cymorth a roddir gan CMCC i gyrraedd Statws Amgylcheddol Da	Y Polisïau yn y Cynllun
D1	Mae ansawdd a nifer y cynefinoedd, a dosbarthiad a helaethrwydd rhywogaethau, yn unol â'r amodau ffisiograffig, daearyddol a hinsoddol cyffredinol.	Mae polisïau'r Cynllun yn cydnabod gwerth cynhenid bioamrywiaeth i amgylchedd, cymdeithas, diwylliant ac economi Cymru. Ategir y gofynion hefyd gan yr ymrwymiadau yn y Cynllun i ddefnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, i gryfhau ecosystemau ac i gefnogi rhwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, a chan ddeddfwriaeth sy'n golygu bod gofyn i effeithiau amgylcheddol cynigion (yn unigol ac ar y cyd) gael eu hasesu.	ENV_01, 02, 03, 04, 05, 06, 07 SOC_06, 09 GOV_01
D2	Nid yw rhywogaethau estron a gyflwynwyd drwy weithgarwch gan bobl wedi cyrraedd lefelau sy'n newid yr ecosystemau er gwaeth.	Mae'r polisïau yn y Cynllun ar gyflwyno ac ymlediad rhywogaethau estron goresgynnol, ac ar gydnerthedd ecosystemau, yn ategu'r gofynion yn Strategaeth Forol y DU i reoli effaith y rhywogaethau hynny ar ecoleg, ar gymdeithas ac yr economi.	ENV_01; 03 GOV_01
D3	Mae poblogaethau'r holl bysgod a physgod cregyn a gaiff eu pysgota'n fasnachol o fewn terfynau biolegol diogel, ac mae eu hystod oedran a'u maint yn dangos bod y stoc yn iach.	Mae'r gofynion yn Strategaeth Forol y DU i stociau pysgod fod yn iach, yn gynhyrchiol ac yn gynaliadwy, yn cael eu hategu gan y polisïau yn y Cynllun i gynnal ecosystem forol gydnerth (gan gynnwys ardaloedd sy'n bwysig ar gyfer bwydo, bridio a mudo) sy'n cyfrannu at bysgota'n fasnachol mewn ffordd gynaliadwy.	ENV_01, 07 GOV_01 FIS_01
D4	Mae helaethrwydd ac amrywiaeth pob elfen o weoedd bwyd y môr, i'r graddau y maent yn hysbys, yn normal ac ar lefelau sy'n gallu sicrhau bod y rhywogaethau'n parhau'n doreithiog yn y tymor hir a'u bod yn cadw eu gallu llawn i atgenhedlu.	Mae'r polisïau yn y Cynllun ar gyfer amgylchedd morol cynaliadwy, cynhyrchiol a chydnerth sy'n hyrwyddo ecosystemau iach, gweithredol ac sy'n gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau morol yn helpu i sicrhau bod elfennau'r gweoedd bwyd yn parhau'n doreithiog yn yr hirdymor a'u bod yn cadw'u gallu llawn i atgenhedlu, fel sy'n ofynnol o dan Strategaeth Forol y DU.	ENV_01, 02, 03, 04, 05, 06, 07 GOV_01
D5	Mae ewtroffigedd dan ddylanwad pobl yn cael ei leihau i'r graddau mwyaf posibl, yn enwedig ei effeithiau niweidiol, er enghraifft, bioamrywiaeth yn cael ei cholli, ecosystemau'n dirywio, algâu'n gordyfu mewn ffordd niweidiol, a diffyg ocsigen yn y dyfroedd ar wely'r môr.	Mae'r gofynion yn Strategaeth Forol y DU i leihau ewtroffigedd a'i effeithiau yn cael eu hategu gan y polisïau yn y Cynllun ar ansawdd dŵr ac aer, ar ddefnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, ac ar gryfhau ecosystemau. Ategir y gofynion hynny hefyd gan ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i effeithiau amgylcheddol cynigion (yn unigol ac ar y cyd) gael eu hasesu.	ENV_01, 02, 06 GOV_01

Rhif y disgrifydd a disgrifiad ohono		Y cymorth a roddir gan CMCC i gyrraedd Statws Amgylcheddol Da	Y Polisïau yn y Cynllun
D6	Mae integredd gwely'r môr ar lefel sy'n sicrhau bod strwythur a swyddogaethau'r ecosystemau yn cael eu diogelu ac nad yw ecosystemau ar waelod y môr, yn benodol, yn profi effeithiau niweidiol.	Mae'r gofynion yn Strategaeth Forol y DU i gynnal integredd gwely'r môr yn cael eu hategu gan y polisïau yn y Cynllun ar ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i effeithiau amgylcheddol cynigion (yn unigol ac ar y cyd) gael eu hasesu. Ategir y gofynion hefyd gan bolisïau ar ddefnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac ar gryfhau ecosystemau.	ENV_01, 02, 03, 07 GOV_01 FIS_01
D7	Nid yw newidiadau parhaol i amodau hydrograffigol yn cael effaith niweidiol ar ecosystemau morol.	Mae'r gofyniad hwn yn Strategaeth Forol y DU yn cael ei ategu gan y polisïau yn y Cynllun sy'n cydnabod pa mor bwysig yw paramedrau ffisegol dŵr y môr (tymheredd, halwynedd, dyfnder, cerhyntau, tonnau, tyrfedd ac afloywder), ac sy'n ymdrin â'r angen i reoli gweithgarwch gan bobl a allai effeithio ar ddynameg yr ecosystem.	SOC_09, 10 ENV_01, 02 GOV_01
D8	Nid yw lefel yr halogion yn arwain at effeithiau lygredd.	Mae'r gofynion yn Strategaeth Forol y DU i atal a lleihau halogion yn cael eu hategu gan y polisïau yn y Cynllun ar ansawdd dŵr ac aer, ar ddefnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, ac ar gryfhau ecosystemau. Ategir y gofynion hefyd gan ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i effeithiau amgylcheddol cynigion (yn unigol ac ar y cyd) gael eu hasesu'n briodol.	ENV_06 SOC_01 GOV_01
D9	Nid yw halogion mewn pysgod a mathau eraill o fwydydd môr sydd i'w bwyta gan bobl yn uwch na lefelau a bennwyd gan ddeddfwriaeth y Gymuned neu mewn safonau perthnasol eraill.	Mae'r gofynion yn Strategaeth Forol y DU o ran yr angen i fwyd a mathau eraill o fwydydd môr fod yn addas i'w bwyta gan bobl. yn cael eu hategu gan y polisïau yn y Cynllun ar ansawdd dŵr ac aer, ar ddefnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, ac ar gryfhau ecosystemau. Ategir y gofynion hefyd gan ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i effeithiau amgylcheddol cynigion (yn unigol ac ar y cyd) gael eu hasesu'n briodol.	SOC_01 ENV_06 GOV_01
D10	Nid yw nodweddion y sbwriel sydd yn y môr, nac ychwaith faint ohono sydd yn y môr, yn achosi niwed i amgylchedd yr arfordir a'r môr.	Mae'r polisïau sydd yn y Cynllun i reoli sbwriel môr yn y tarddle yn cyfrannu at y gofyniad yn Strategaeth Forol y DU i leihau faint o wastraff, gan gynnwys plastigau a microblastigau, sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd morol.	ENV_04 GOV_01
D11	Mae'r ynni a gyflwynir, gan gynnwys sŵn tanddwr, ar lefelau sy'n golygu nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd morol.	Mae'r gofynion yn Strategaeth Forol y DU i reoli effeithiau niweidiol sŵn ergydiol anthropogenig yn cael eu hategu gan y polisïau yn y Cynllun i reoli sŵn tanddwr a chan ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i effeithiau amgylcheddol cynigion (yn unigol ac ar y cyd) gael eu hasesu.	ENV_05 GOV_01

Gwarchod, adfer a gwella ecosystemau morol

160. Ystyr bioamrywiaeth yw amrywiaeth y bywyd ar y ddaear, ac mae'n cynnwys yr holl rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid, pa mor doreithiog ydynt a'u hamrywiaeth enetig. Mae bioamrywiaeth o werth ynddi ei hun; mae'n cyfrannu at lesiant cymdeithas, at ymdeimlad o le ac at hunaniaeth ddiwylliannol. Mae bioamrywiaeth hefyd yn ffordd o fesur o lwyddiant wrth reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

161. Geoamrywiaeth yw amrywiaeth y creigiau, ffosiliau, mwynau, prosesau naturiol, tirffurfiau a phriddoedd sydd o dan ein tirwedd ac sy'n pennu ei chymeriad, ac mae'n helpu i ddarparu nifer o wasanaethau ecosystemau.

162. Mae bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn elfennau allweddol o ecosystemau. Os bydd unrhyw ran ohonynt yn cael ei cholli neu ei difrodi, gall hynny effeithio ar sut y mae'r ecosystem yn gweithio ac ar ei gallu i addasu i newid. Drwy warchod a gwella bioamrywiaeth, gallwn gynnal neu greu ecosystemau cryf a gwella ansawdd yr amgylchedd ehangach.

163. Mae ecosystem forol gydnerth yn iach ac mae'n gweithio mewn ffordd sy'n golygu ei fod yn gallu addasu i newid ac effeithiau, ac yn parhau i ddarparu'r nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym yn dibynnu arnynt yn yr hirdymor. Mae'n cyfoeth economaidd yn elwa ar ecosystemau iach a chydnerth drwy gyfleoedd hamdden a thrwy swyddi sy'n cael eu creu mewn sectorau sy'n amrywio o dwristiaeth i fiotechnoleg.

164. Derbynnir yn gyffredinol fod nifer o ddylanwadau, er enghraifft, hinsawdd sy'n newid, gweithgarwch anghynaliadwy gan bobl, a chyflwyno rhywogaethau estron, yn rhoi pwysau ar ecosystemau. Drwy fabwysiadu egwyddorion y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol 1992, drwy wireddu'r ymrwymiadau a wnaethom wrth inni lofnodi OSPAR, a thrwy weithredu Strategaeth Forol y DU, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Chynllun Adfer Natur Cymru, rydym yn ymrwymo i gynnal a gwella ein hecosystemau morol.

165. Mae ein moroedd yn cael eu gwarchod gan wahanol ddarnau o dddeddfwriaeth er mwyn cydnabod yr amrywiaeth o nodweddion naturiol y maent yn eu cynnal. Gyda'i gilydd, mae'r darnau hynny o ddeddfwriaeth yn creu system sy'n darparu ar gyfer cadw a gwarchod cynefinoedd, geoamrywiaeth a rhywogaethau yr ystyrir eu bod yn brin, dan fygythiad, mewn perygl o ddiflannu, neu o'r pwysigrwydd mwyaf i Gymru.

Polisi

ENV_01: Ecosystemau morol cydnerth

Wrth lunio cynigion, dylid dangos sut y mae effeithiau posibl ar ecosystemau morol wedi cael eu hystyried a dylai'r cynigion hynny, yn nhrefn blaenoriaeth:

a. osgoi effeithiau niweidiol; a/neu

b. lleihau effeithiau na ellir eu hosgoi; a/neu

c. lliniaru effeithiau na ellir eu lleihau.

Os na ellir osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol, rhaid i gynigion gyflwyno achos clir a phendant o blaid bwrw ymlaen â'r cynigion hynny.

Anogir cynigion sy'n cyfrannu at warchod, adfer a/neu wella ecosystemau morol.

Nod y Polisi

166. Nod **Polisi ENV_01** yw sicrhau bod elfennau biolegol a daearegol ecosystemau yn cael eu cynnal, eu hadfer pan fo angen a'u gwella os oes modd, er mwyn gwneud ecosystemau morol yn fwy cydnerth ac er mwyn iddynt fedru darparu rhagor o fanteision. O dan y polisi hwn, dylid ystyried yr elfennau sensitif mewn ecosystemau morol a hefyd yr effeithiau ar ecosystemau wrth fynd ati i ddatblygu cynigion a, lle bo modd, dylai cynigion hefyd ddangos sut y byddant yn cyfrannu at warchod, adfer a/neu wella ecosystemau.

167. Drwy weithredu fel hyn, cydnabyddir bod cynigion sy'n gwella neu'n adfer cynefinoedd morol, gan gynnwys rhai sy'n gwneud hynny drwy ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o adfer a gwella bioamrywiaeth, yn gallu helpu i wneud ecosystemau'n fwy cydnerth drwy hybu bioamrywiaeth a chefnogi swyddogaethau ecosystemau, megis ailgylchu maethynnau, hidlo dŵr a diogelu'r arfordir. Yn ogystal â chyd-fynd â nifer o'r Disgrifyddion yn Strategaeth Forol y DU, mae'r dull hwn hefyd yn gallu cynnig amryfal fanteision i gymdeithas mewn meysydd fel twristiaeth, pysgodfeydd neu amddiffyn rhag llifogydd, gan sicrhau ein bod yn parhau i elwa ar y manteision hyn yn yr hirdymor.

168. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen gweithio ar y raddfa briodol ac ymgymryd â gwaith rheoli morol mewn ffordd gyfannol a hirdymor, yn enwedig yng nghyd-destun ecosystemau morol. Er mwyn datblygu'r ardal forol mewn ffordd gynaliadwy, mae angen ystyried a deall strwythur ecosystemau morol a sut y maent yn gweithio. Wrth ymgymryd â phrosesau cynllunio morol a phrosesau rheoli eraill, dylid ystyried nodweddion a phrosesau ecosystemau ar bob graddfa briodol, yn enwedig mewn ardaloedd trawsffiniol fel aberoedd lle mae angen gwneud penderfyniadau cydlynol ar sail tystiolaeth a rennir, a lle mae angen arferion rheoli cydgysylltiedig sy'n ategu ei gilydd. Ar y raddfa ehangach, dylid cynllunio, rheoli a phenderfynu mewn ffordd sy'n adlewyrchu natur yr adnoddau yr ydym yn eu rhannu, a hefyd y cysylltiadau a'r dibyniaethau ehangach rhwng ecosystemau.

Darparu rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ecolegol gydlynol sy'n cael eu rheoli'n dda

169. Ardal yw Ardal Forol Warchodedig (AFW) sydd wedi'i dynodi ar sail ei phwysigrwydd i gadwraeth ac sy'n dod o dan reolau penodol ar sut i'w rheoli ac ar y math o weithgareddau y ceir eu cynnal ynddi (neu gerllaw iddi). Maent yn hollbwysig er mwyn cadw bioamrywiaeth forol, ac mae'r Ardaloedd hyn yn cyfrannu at iechyd a chydnerthedd yr ecosystem forol fel ag y mae'r MPS yn ei gydnabod[24]. Mae rhwydwaith o AFWau sydd wedi'i gynllunio a'i reoli'n dda yn gallu cynnig mwy o fanteision o ran bioamrywiaeth na safleoedd unigol digyswllt. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu'r ardaloedd hyn er mwyn creu rhwydwaith o AFWau sy'n ecolegol gydlynol, sy'n cael ei reoli'n dda ac y mae ynddo amrywiaeth fawr o gynefinoedd a rhywogaethau.

170. Yng Nghymru, rydym eisoes yn cyfrannu'n helaeth at warchod bioamrywiaeth a'r amgylchedd morol ehangach drwy ein rhwydwaith o AFWau sydd ar hyn o bryd yn cwmpasu rhyw 75% o'n morlin a 69% o ddyfroedd y glannau. Mae gennym wahanol fathau o AFWau sy'n adlewyrchu'r agweddau manwl ar y ffordd y maent yn cael eu rheoli a'u llywodraethu. Yn eu plith y mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a elwir, gyda'i gilydd, yn safleoedd Ewropeaidd; Parthau Cadwraeth Morol; Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA); a safleoedd Ramsar sydd ag elfennau morol. Gyda'i gilydd, mae'r AFWau hyn yn creu rhwydwaith sy'n cyfrannu at rwydweithiau o AFWau yn y DU ac ar lefel ryngwladol.

171. Yr hyn a olygir wrth nodi Ardaloedd Adfywio Strategol o dan y Cynllun hwn yw nodi a chydnabod adnoddau naturiol sy'n bwysig i sectorau penodol. Diben Ardaloedd Adfywio Strategol yw helpu i reoli'r rhyngweithio rhwng amryfal sectorau a bod yn ffocws ar gyfer rhagor o waith cynllunio strategol. Nid yw Ardaloedd Adfywio Strategol yn tanseilio ymrwymiadau a wnaed mewn perthynas ag AFWau nac ychwaith y ffordd y maent yn gwarchod yr amgylchedd morol, naill ai o ran sut y mae safleoedd yn cael eu rheoli neu o ran dynodi rhagor o AFWau. Mae'n bosibl y bydd Ardaloedd Adfywio Strategol yn gorgyffwrdd ag AFWau ac efallai na fydd gweithgarwch gan bobl yn briodol mewn Ardal Adfywio Strategol oherwydd bod angen gwarchod nodweddion AFW (rhywogaethau neu gynefinoedd) fel y nodir ym **Mholisi ENV_02**.

24 MPS, Pennod 2, Adran 2.6.1 a Phennod 3, Adran 3.1.

172. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddynodi rhagor o AFWau, yn ôl yr angen, er mwyn cwblhau ei chyfraniad i rwydwaith ecolegol gydlynol. Rhaid i'r ffaith bod Ardaloedd Adfywio Strategol yn bodoli beidio â llesteirio'r broses o ddynodi AFW nac ychwaith atal Cymru rhag cyfrannu at rwydwaith ecolegol gydlynol o AFWau. Ond wedi dweud hynny, o dan amgylchiadau pan fo angen ystyried ffactorau cymdeithasol-economaidd wrth fynd ati i nodi AFW[25] newydd, gall Ardaloedd Adfywio Strategol (ynghyd ag ystyriaethau cymdeithasol-economaidd eraill) gyfrannu at fireinio'r ardaloedd gwarchoededig.

173. Gan gydweithio â rhanddeiliaid morol, nod Llywodraeth Cymru yw cynnal a gwella cyflwr y rhwydwaith o AFWau ar draws Cymru. Drwy sicrhau bod y rhwydwaith yn ei gyfanrwydd mewn cyflwr ffafriol, a'i fod yn parhau felly, byddwn yn gwireddu'n hymrwymiadau i warchod, i adfer ac i wella bioamrywiaeth forol ac i sicrhau bod ein hecosystemau'n iach[26].

Polisi

ENV_02: Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Wrth lunio cynigion, dylid dangos sut y maent:

- **yn osgoi effeithiau niweidiol ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac ar gydlyniant y rhwydwaith yn ei gyfanrwydd;**
- **yn rhoi sylw i'r mesurau ar gyfer rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig;**
- **yn osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd dynodedig nad ydynt yn rhan o'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig.**

Nod y Polisi

174. Mae **Polisi ENV_02** yn sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r effeithiau y gallai cynigion eu cael ar AFWau, a hynny er mwyn cynnal integredd yr AFWau yn ardal y cynllun morol a sicrhau bod y rhwydwaith yn ei gyfanrwydd yn un cydlynol. Mae'r polisi'n diogelu'r ardaloedd hyn er mwyn gwarchod natur yn yr hirdymor, ynghyd â'r gwasanaethau ecosystemau a'r gwerthoedd diwylliannol cysylltiedig. Mae hefyd yn cyfrannu at gyrraedd y targedau ar gyfer Disgrifyddion 1, 4, 5 a 6 yn Strategaeth Forol y DU.

175. O dan y polisi hwn, dylai cynigion gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r polisïau sy'n berthnasol i'r gwaith o reoli AFWau, er mwyn cynnal cyflwr y rhwydwaith yn ei gyfanrwydd a sicrhau ei fod yn parhau'n gydlynol. Mae'r polisi hwn yn berthnasol hefyd pe byddai cynigion yn gallu effeithio ar unrhyw safleoedd gwarchod natur nad ydynt yn rhan o'r rhwydwaith AFWau.

176. Mae nifer o safleoedd dynodedig y tu allan i'r rwydwaith o AFWau y gallai gweithgareddau yn amgylchedd y môr a'r arfordir effeithio arnynt. Ymhlith dynodiadau o'r fath mae SoDdGA, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar y tir sydd ag amrywiaeth o nodweddion daearegol a bioamrywiaeth a warchodir. Mae nodweddion geoamrywiaeth ar yr arfordir yn cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth ar SoDdGA a thrwy ddynodi safleoedd anstatudol yn Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol. Gall y nodweddion hynny gynnwys prosesau arfordirol, yn ogystal â nodweddion daearegol sy'n dod i'r golwg ar y blaendraeth neu ar glogwyni caled neu feddal.

177. Polisi Llywodraeth Cymru yw y dylai pob safle Ramsar gael ei drin fel pe bai'n Safle Ewropeaidd ac y dylid, pan eir ati i ymgynghori'n ffurfiol, drin unrhyw safleoedd Ramsar, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig neu Barthau Cadwraeth Morol newydd fel pe baent yn rhai sydd wedi'u dynodi wrth fynd ati i wneud penderfyniadau rheoli ac i asesu gweithgareddau.

25 Yn unol â'r MCCA a. 117(7).

26 Fframwaith rheoli rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru **www.gov.wales/marine-protected-area-network-management-framework-wales**.

178. Oni bai bod darpariaethau o dan Reoliad 29 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 neu Adran 126 (7) o'r MCAA yn berthnasol, dim ond os yw'r awdurdod cyhoeddus wedi penderfynu na fydd cynnig yn cael effaith niweidiol ar safle dynodedig, naill ai'n uniongyrchol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, y dylid bwrw ymlaen â'r cynnig hwnnw. Wrth roi cymeradwyaeth i gynnig, gellid pennu bod gofyn cynnal asesiad a chymryd mesurau lliniaru priodol er mwyn sicrhau integredd y safle dynodedig. Fodd bynnag, yn unol â darpariaethau o dan Reoliad 29 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 neu adran 126 (7) o'r MCAA, caiff awdurdod cyhoeddus gymeradwyo cynigion a fydd yn effeithio'n niweidiol ar integredd Safle Ewropeaidd neu ar Barth Cadwraeth Morol, os bydd yr awdurdod hwnnw wedi'i fodloni:

- nad oes unrhyw atebion eraill a fyddai'n cwrdd ag amcan y cynnig, ac
- y byddai'r budd i'r cyhoedd o fwrw ymlaen â'r cynnig yn amlwg yn drech na'r risg o ddifrod i'r amgylchedd a/neu fod rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig dros wneud hynny.


179. Mewn achosion o'r fath, rhaid gofalu bod mesurau cydbwyso'n cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod cydlyniant cyffredinol y rhwydwaith yn cael ei gynnal.

180. Os yw'r sail budd cyhoeddus yn debygol o gael ei defnyddio, dylai'r awdurdod priodol ofalu bod unrhyw gamau cydbwyso angenrheidiol yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau cydlyniant cyffredinol y rhwydwaith. Dylai datblygwyr a/neu awdurdodau cyhoeddus perthnasol gysylltu yn gynnar yn y broses â'r awdurdod priodol a'r corff gwarchod natur statudol perthnasol os yw'r sail budd cyhoeddus yn debygol o gael ei defnyddio.

181. Os bydd awdurdod cyhoeddus yn penderfynu y gallai cynnig beri risg arwyddocaol i Barth Cadwraeth Morol, dylai, yn unol â'r MCAA, roi gwybod i'r corff gwarchod natur statudol perthnasol, cyn penderfynu a ddylid awdurdodi'r cynnig ai peidio.

182. O dan ddarpariaethau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, dylai cynigion ystyried a allai unrhyw waith y bwriedir ei wneud effeithio ar SoDdGA. Gall hefyd fod yn ofynnol i'r perchennog/meddiannydd adfer unrhyw ddifrod i'r safle. Mae'n bosibl y bydd angen cael cydsyniad SoDdGA oddi wrth CNC.

Ffigur 8: Ardaloedd Morol Gwarchodedig



Rhywogaethau Estron Goresgynnol

183. Mae rhywogaethau estron (neu anfrodorol neu egsotig) yn rhywogaethau sy'n byw y tu allan i'w cynefin naturiol. Nid yw'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau hyn yn peri unrhyw risg, neu nemor ddim risg, i ecosystemau morol. Er hynny, mae rhai ohonynt yn gallu cael, ac yn cael, effeithiau niweidiol arwyddocaol ar fioamrywiaeth, ar iechyd pobl ac ar weithgarwch economaidd. Maent yn gallu amharu ar gynefinoedd ac ecosystemau brodorol, ysglyfaethu neu drechu rhywogaethau brodorol, lledaenu clefydau ac ymyrryd ag integredd genetig rhywogaethau brodorol. Byddai lleihau nifer y rhywogaethau estron goresgynnol yn helpu i gynnal ac i gynyddu amrywiaeth ein bioamrywiaeth frodorol a'i gwneud yn fwy cydnerth.

184. Mae Disgrifydd 2 yn Strategaeth Forol y DU yn ymdrin â chyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol. Mae'n ofynnol o dan y Disgrifydd hwn i rywogaethau estron goresgynnol a gyflwynir drwy weithgarwch gan bobl beidio â chyrraedd lefelau sy'n newid yr ecosystemau er gwaeth. Mae rhywogaethau morol o'r fath yn cael eu cyflwyno'n bennaf drwy drafnidiaeth (fasnachol a hamdden) ar y môr, drwy ddyframaeth a datblygiadau seilwaith. Nid yw bob amser yn bosibl cael gwared yn llwyr ar rywogaethau estron goresgynnol yn yr amgylchedd morol, a gall hynny fod yn gostus yn aml. Dyna pam mae'n bwysig eu hatal rhag cael eu cyflwyno a rhag lledaenu.

Polisi

ENV_03: Rhywogaethau estron goresgynnol

Wrth lunio cynigion, dylid dangos sut y maent yn osgoi neu'n lleihau'r risg y bydd rhywogaethau estron goresgynnol yn cael eu cyflwyno neu'n ymledu.

Pan fo hynny'n briodol, dylai cynigion gynnwys mesurau bioddiogelwch i leihau'r risg y bydd rhywogaethau estron goresgynnol yn cael eu cyflwyno ac yn ymledu.

Nod y Polisi

185. O dan **Bolisi ENV_03**, dylid, wrth lunio cynigion, asesu pa mor debygol yw hi y bydd rhywogaethau estron goresgynnol yn cael eu cyflwyno neu'n ymledu a dylid rhoi mesurau bioddiogelwch rhesymol ar waith lle bo angen i leihau'r risg y byddant yn cael eu cyflwyno neu'n ymledu, neu i atal hynny rhag digwydd.

186. Mae'r polisi hwn yn cydnabod bod cynnwys mesurau bioddiogelwch mewn cynigion pan fo angen yn helpu i leihau'r risg y bydd rhywogaethau estron goresgynnol yn cael eu cyflwyno neu'n ymledu. Mae hefyd yn fodd i gydymffurfio â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, i helpu i gyrraedd y targedau ar gyfer Disgrifydd 2 yn Strategaeth Forol y DU ac i gynnal ecosystemau cydnerth. Bydd y math o fesurau bioddiogelwch yn dibynnu ar y risg sy'n gysylltiedig â chynnig, ac ar ei raddfa, ei natur a'i leoliad. Anogir datblygwyr i fynd ati'n gynnar yn y broses i gysylltu â CNC i drafod pa fesurau asesu a bioddiogelwch, os oes rhai, a all fod yn ofynnol.

Sbwriel môr

187. Yr hyn a olygir wrth sbwriel môr yw unrhyw ddeunydd solet sy'n barhaol, sydd wedi'i weithgynhyrchu neu ei brosesu ac sydd wedi'i daflu, ei waredu, ei adael neu ei golli yn amgylchedd y môr a'r arfordir.

188. Mae Disgrifydd 10 yn Strategaeth Forol y DU yn ymdrin â monitro sbwriel yn amgylchedd y môr ac â'r mesurau sydd ar waith i leihau faint ohono sy'n mynd i'r amgylchedd hwnnw. Mae sbwriel môr yn broblem fyd-eang o safbwynt yr amgylchedd, yr economi ac iechyd pobl, ac mae hefyd yn broblem esthetig. Mae'n bygwth cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau drwy wneud difrod uniongyrchol i greaduriaid gwyllt wrth iddynt fynd yn sownd ynddo, wrth iddynt gael eu dal a'u mygu ganddo, ac wrth iddynt ei lyncu. Mae'n gallu cael cryn effaith economaidd ar dwristiaeth oherwydd bod ardaloedd arfordirol diolwg yn llai deniadol i ymwelwyr, a gall arwain at gostau glanhau a chostau i bysgotwyr wrth iddynt ddal llai o bysgod ac wrth i'r sbwriel

rwygo'u rhwydi. Gall fod yn beryglus i forwyr hefyd wrth iddo fynd yn sownd yn siafftiau gyrru cychod. Mae gwastraff meddygol a glanweithiol a darnau gwydr yn risg bosibl i iechyd pobl. Mae gronynnau plastig mewn organeddau morol yn gallu cael effeithiau niweidiol ar iechyd hefyd oherwydd eu bod, yn y pen draw, yn cyrraedd y gadwyn fwyd.

189. Mae sbwriel môr yn broblem sy'n croesi ffiniau ac mae gan bob gwlad a chymuned ran i'w chwarae wrth fynd i'r afael ag ef. Peidio â gadael sbwriel a pheidio â gwaredu gwastraff mewn ffordd amhriodol yw'r ffordd orau o leihau faint o sbwriel sy'n mynd i mewn i amgylchedd y môr. Yn unol â'n huchelgais ar gyfer "economi gylchol", bydd camau i leihau deunydd pacio, i ailgylchu mwy ac i ddefnyddio llai o gynhyrchion plastig untro hefyd yn helpu i leihau sbwriel môr.

Polisi

ENV_04: Sbwriel môr

Wrth lunio cynigion, dylid dangos sut y maent:

- **yn osgoi sefyllfa lle mae sbwriel yn cael ei ollwng yn fwriadol yn ardal y cynllun morol; ac**
- **yn lleihau'r risg iddo gael ei ollwng yn ddamweiniol.**

Nod y Polisi

190. Mae **Polisi ENV_04** yn cydnabod bod gollwng sbwriel yn fwriadol yn drosedd o dan ddeddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys Deddf Diogelu'r Amgylchedd a'r Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Atal Llygredd o Longau (MARPOL). Mae rheoliadau caeth ar y deunyddiau y caniateir eu gwaredu yn y môr. Dylai cynigion sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau hynny. Pan fo hynny'n briodol, dylai cynigion hefyd gymryd camau i leihau'r risg i sbwriel gael ei ollwng yn ddamweiniol a dylid dangos bod cynllun effeithiol ar gael ar gyfer cael gwared ar y sbwriel hwnnw.

191. Nod y polisi hwn yw cyfrannu at gyrraedd y targedau ar gyfer lleihau sbwriel môr o dan Ddisgrifydd 10 yn Strategaeth Forol y DU. Un o'r nodau eraill yw cyfrannu at yr amcan ehangach o sicrhau ecosystemau cydnerth a diogelu amgylchedd y môr a'r arfordir rhag cael ei niweidio gan sbwriel môr.

Cyflwyno ynni, gan gynnwys sŵn tanddwr

192. Mae cyflwyno ynni i'r amgylchedd morol yn gallu newid natur systemau ffisegol a chael effaith negyddol ar ecosystemau. Gall ynni fod ar ffurf golau, trydan, gwres, sŵn, ymbelydredd electromagnetig, tonnau radio neu ddirgryniadau. Mae gweithgarwch gan bobl yn gallu tynnu ynni allan o system neu ychwanegu at yr ynni sydd ynddi. Mae Disgrifydd 11 yn Strategaeth Forol y DU yn ymdrin â chyflwyno ynni ac mae'n canolbwyntio ar sŵn tanddwr ar hyn o bryd. O dan y Disgrifydd hwn, mae'n ofynnol i sŵn a gyflwynir i'r amgylchedd morol beidio â chael effaith niweidiol ar yr amgylchedd hwnnw. Yn benodol, mae'n ofynnol i weithgarwch gan bobl a allai gyflwyno synau ergydiol o'r fath i'r amgylchedd morol gael ei reoli er mwyn sicrhau na fydd effeithiau niweidiol hirdymor ar lefel poblogaethau neu, yn benodol, ar lefel rhywogaethau agored i niwed/dan fygythiad a grwpiau gweithredol allweddol.

193. Mae sŵn a achosir gan weithgarwch neu ddatblygiad arfaethedig yn amgylchedd y môr a'r arfordir yn gallu cael effeithiau niweidiol ar famaliaid y môr ac ar adar a physgod. Gall ymyrryd â chyfathrebu ac ymddygiad, effeithio ar organau'r clyw, ac anafu neu hyd yn oed ladd bywyd yn y môr. Ymhlith rhai o'r mathau o sŵn sy'n achosi pryder y mae ffrwydriadau; morgludiant; arolygon seismig; gwaith adeiladu ar y môr mawr a gweithgareddau diwydiannol ar y môr mawr, e.e. carthu, drilio a gosod seilbyst; gwahanol fathau o sonar; a dyfeisiau atal acwstig. Mae sŵn yn gallu cael effaith negyddol ar bobl hefyd drwy effeithio ar eu hiechyd ac ar eu defnydd a'u mwynhad o'r amgylchedd morol.

Polisi

ENV_05: Sŵn tanddwr

Wrth lunio cynigion, dylid dangos eu bod wedi ystyried effeithiau sŵn sy'n cael ei greu gan bobl ar yr amgylchedd morol a'u bod, yn nhrefn blaenoriaeth:

a. yn osgoi effeithiau niweidiol; a/neu

b. yn lleihau effeithiau os na ellir eu hosgoi; a/neu

c. yn lliniaru effeithiau os na ellir eu lleihau.

Os na ellir osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol, rhaid cyflwyno achos clir a phendant o blaid bwrw ymlaen â chynigion.

Nod y Polisi

194. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd gennym am lefelau, dosbarthiad ac effeithiau sŵn tanddwr. Y nod, felly, yw rheoli effeithiau sŵn, drwy ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael a monitro a chasglu tystiolaeth er mwyn gwella'n dealltwriaeth. Bydd awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r cynllun morol yn edrych yn strategol ar ffynonellau sŵn a achosir gan bobl ac yn asesu effeithiau cronnol posibl sŵn a dirgryndod ar elfennau sensitif o'r ardal forol.

195. O dan **Bolisi ENV_05**, dylid rheoli gweithgarwch gan bobl a allai achosi synau ergydiol er mwyn dileu, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol ar rywogaethau a phoblogaethau sy'n agored i niwed. Os na ellir mynd i'r afael yn ddigonol ag effeithiau niweidiol arwyddocaol, rhaid cyflwyno achos clir a phendant o blaid bwrw ymlaen â chynigion.

196. Pan fydd hynny'n ofynnol gan awdurdod cyhoeddus, dylai cynigion gynnwys asesiad o effaith sŵn. Dylai datblygwyr a'r rheini sy'n defnyddio'r Cynllun ystyried hefyd a yw'n bosibl y bydd lefel y sŵn ar wyneb y dŵr neu o dan y dŵr yn effeithio ar unrhyw Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop (EPS) ac a allai fod angen cael trwydded EPS i adlewyrchu'r effeithiau o ran aflonyddu ac anafu.

197. Pan fo hynny'n briodol, dylai awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod y broses gydsynio'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gofnodi gweithgareddau sy'n creu synau ergydiol, yn y Gofrestrfa Sŵn Morol yn unol â Rhaglen Mesurau'r DU a'r Rhaglen Fonitro sy'n gysylltiedig â Disgrifydd 11 yn Strategaeth Forol y DU. Os nad yw cyflwyno gwybodaeth i'r gofrestrfa sŵn yn un o amodau'r caniatâd, anogir datblygwyr i wneud hynny'n wirfoddol.

Ansawdd aer a dŵr

198. Mae ansawdd aer a dŵr yn hanfodol i gydnerthedd a llesiant ecosystemau morol. Fel y mae'r MPS yn ei gydnabod, mae datblygu a defnyddio ardal y cynllun morol yn gallu effeithio ar ansawdd aer a dŵr[27]. Mae Disgrifyddion 5, 7 ac 8 yn Strategaeth Forol y DU yn ymdrin yn benodol ag ansawdd dŵr.

Aer:

199. Mae allyriadau, gan gynnwys deunydd gronynnol a nwyon o forgludiant a chychod pysgota, a llwch o weithgareddau adeiladu, ymhlith rhai o'r pethau sy'n llygru'r aer. Gall llygredd aer gael effaith niweidiol ar lesiant pobl ac ar fioamrywiaeth, a gall hefyd gyfrannu at y newid yn yr hinsawdd.

200. Mae Strategaeth Ansawdd Aer y DU[28] yn nodi ac yn rheoleiddio amcanion ac opsiynau polisi ar lefel y DU gyfan ar gyfer gwella ansawdd aer mewn ffordd sydd o fudd i iechyd ac i gymdeithas.

201. Prif amcan rheoli allyriadau ocsidau nitrogen (NOx) o longau drwy Reoliadau Llongau Masnach (Atal Llygredd Aer o Longau) 2008 (fel y'u diwygiwyd) yw gwella ansawdd aer drwy ei gwneud yn ofynnol i beiriannau a osodwyd ar long gyrraedd y safon a bennwyd ar gyfer allyriadau NOx. Bydd y mesur hwn yn cyfrannu hefyd at leihau'r NOx sy'n mynd i mewn i ddyfroedd y môr, ac at leihau ewtroffigedd dan ddylanwad pobl, sy'n faterion y cyfeirir atynt o dan Ddisgrifydd 5 yn Strategaeth Forol y DU.

27 MPS, Pennod 2, Adrannau 2.6.2 a 2.6.4.

28 **www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69336/pb12654-air-quality-strategy-vol1-070712.pdf**.

Dŵr:

202. Mae newidiadau nas dymunir i ansawdd dŵr yn gallu cael effaith negyddol ar y manteision sy'n deillio o'n hecosystemau morol, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer hamdden, twristiaeth a physgodfeydd.

203. Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003 a Strategaeth Forol y DU sy'n darparu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli ansawdd dŵr yn nyfroedd y glannau a'r môr. Yn nyfroedd y glannau, nid yw Strategaeth Forol y DU ond yn gymwys i'r agweddau hynny ar Statws Amgylcheddol Da nad yw Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003 yn ymdrin â nhw.

204. Mae Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr) (Cymru a Lloegr) 2003 yn cael eu gweithredu drwy Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli pob agwedd ar amgylchedd y dŵr mewn basnau afonydd ac ar bob agwedd ar amgylchedd yr arfordir, gan gynnwys dyfroedd ymdrochi a dyfroedd pysgod cregyn, ardaloedd a ddynodwyd yn rhai ewtroffig a safleoedd Ewropeaidd. Mae cydymffurfio â Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003 yn bwysig o ran rheoli pwysau ac o ran cynnal a gwella ansawdd dŵr.

Polisi

ENV_06: Ansawdd aer a dŵr

Wrth lunio cynigion, dylid dangos eich bod wedi ystyried eu heffeithiau posibl ar ansawdd aer a dŵr a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a. osgoi effeithiau niweidiol; a/neu

b. lleihau effeithiau niweidiol os na ellir eu hosgoi; a/neu

c. lliniaru effeithiau niweidiol os na ellir eu lleihau.

Os na ellir osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol, rhaid cyflwyno achos clir a phendant o blaid bwrw ymlaen â chynigion.


Nod y Polisi

205. Un o amcanion **Polisi ENV_06** yw sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â Safonau Ansawdd Aer a bod llygryddion yn cael eu hasesu o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae hefyd yn ceisio sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amcanion o dan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003 yn ogystal â deddfwriaeth ac ymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol eraill sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Mae'r polisi hwn yn cydnabod bod effeithiau niweidiol ar ansawdd aer a dŵr yn gallu effeithio yn eu tro ar iechyd a llesiant ac ar fuddiannau eraill fel twristiaeth a hamdden.

206. O dan **Bolisi ENV_06**, dylai cynigion ddangos sut y byddant yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru newidiadau nas dymunir i ansawdd aer a dŵr. Os na ellir mynd i'r afael yn ddigonol ag effeithiau niweidiol arwyddocaol, rhaid cyflwyno achos clir a phendant o blaid bwrw ymlaen â chynigion. Anogir cynigion a fydd yn gwella ansawdd aer a dŵr.

207. Os oes posibilrwydd y bydd gweithgarwch yn effeithio ar y gallu i gydymffurfio â Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr) (Cymru a Lloegr) 2003 drwy beri i statws ddirywio neu drwy atal corff dŵr rhag cyflawni ei amcanion, dylid cynnal Asesiad Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Pe byddai datblygu a defnyddio'r amgylchedd morol yn gallu arwain at fwy o allyriadau i'r aer, gan gynnwys deunydd gronynnol a nwyon, dylai cynigion ddangos bod effeithiau ar ansawdd aer a therfynau wedi cael eu hystyried. Dylai datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod effeithiau ar ansawdd aer wedi cael eu hystyried a bod mesurau lliniaru'n cael eu mabwysiadu pan fo hynny'n briodol.

Ffigur 9: Dyfroedd Ymdrochi



Rhywogaethau a Chynefinoedd Pysgod

208. Mae pysgod yn adnodd naturiol pwysig ac mae statws stociau pysgod yn arwydd o ecosystem iach yn ogystal â bod yn sail i weithgareddau pysgota hamdden a physgota masnachol ffyniannus a hyfyw.

209. Mae pysgodfeydd cynaliadwy yn dibynnu ar adnodd pysgota hyfyw nad yw'n bygwth cydnerthedd poblogaethau pysgod dros y tymor hir. Maent hefyd yn dibynnu ar arferion pysgota nad ydynt yn amharu ar allu poblogaethau pysgod i atgenhedlu ac ar allu stociau i ymateb i bwysau ac ymadfer (h.y. defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyflymder sy'n cynnal ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau morol). Mae ymrwymo i ddefnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy ac i ddiogelu pysgod a physgod cregyn sy'n cael eu pysgota'n fasnachol hefyd yn gydnaws â'r nodau a'r targedau ar gyfer Disgrifyddion 1 a 3 yn Strategaeth Forol y DU.

Polisi

ENV_07: Rhywogaethau a Chynefinoedd Pysgod

Pe byddai cynigion yn gallu effeithio ar ardaloedd pwysig ar gyfer bwydo, bridio (gan gynnwys silio a meithrin) a mudo neu ar gynefinoedd pwysig ar gyfer rhywogaethau pysgod a physgod cregyn allweddol sydd o bwysigrwydd masnachol neu ecolegol, dylid, wrth lunio'r cynigion hynny, ddangos sut y maent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a. yn osgoi effeithiau niweidiol ar yr ardaloedd hynny; a/neu

b. yn lleihau effeithiau niweidiol os na ellir eu hosgoi; a/neu

c. yn lliniaru effeithiau niweidiol os na ellir eu lleihau.

Os na ellir osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol, rhaid cyflwyno achos clir a phendant o blaid bwrw ymlaen â chynigion.

Nod y Polisi


210. Mae **Polisi ENV_07** yn cydnabod bod yn rhaid cynnal cylchoedd bywyd pysgod a'r ecosystemau y maent yn dibynnu arnynt er mwyn cefnogi gweithgareddau pysgodfeydd (gweler y bennod yn y Cynllun hwn sy'n ymdrin â'r sector Pysgodfeydd). Gallai mathau penodol o ddatblygiadau neu weithgareddau yn ardal y cynllun morol gael effaith niweidiol ar ardaloedd bwydo, bridio a mudo ac ar gynefinoedd rhywogaethau masnachol allweddol neu rywogaethau gwarchodedig. Mae rhywogaethau pwysig yn cynnwys y rheini sydd o bwysigrwydd masnachol, cadwraethol neu ecolegol neu sy'n bwysig ar gyfer hamdden. Stociau pysgod pwysig yw'r rheini sydd o werth masnachol neu hamdden neu'r rheini sy'n cael eu gwarchod oherwydd bod iddynt werth cadwraethol ehangach o dan ddeddfwriaeth genedlaethol neu ryngwladol.

211. Nod **Polisi ENV_07** yw sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i effeithiau posibl cynigion ar stociau pysgod, ar gynefinoedd allweddol (gan gynnwys ardaloedd bwydo a bridio) ac ar lwybrau mudo, gan helpu i gyflawni'r nodau ar gyfer Disgrifydd 3 yn Strategaeth Forol y DU. Dylai cynigion ddangos sut y byddant yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol ar yr ardaloedd, y rhywogaethau a'r cynefinoedd y maent yn dibynnu arnynt. Dylid asesu datblygiadau neu weithgareddau i weld a allent gael effaith ar y rhywogaethau pysgod eu hunain yn ogystal ag ar elfennau ecolegol sensitif. Os na ellir mynd i'r afael yn ddigonol ag effeithiau niweidiol arwyddocaol, rhaid cyflwyno achos clir a phendant o blaid bwrw ymlaen â chynigion.

212. Mae'r polisi hwn yn helpu i gryfhau ecosystemau drwy roi ystyriaeth briodol i ardaloedd sydd o bwysigrwydd ecolegol i nifer o rywogaethau pysgod, a thrwy ystyried ffyrdd o warchod yr ardaloedd hynny. Mae'r ardaloedd hynny'n cynnwys y rheini sydd o bwysigrwydd masnachol a'r rheini y mae'r rhywogaethau pysgod hynny'n dibynnu arnynt yn ecolegol. Mae mesurau o'r fath hefyd yn darparu buddiannau ehangach o ran cydnerthedd ecolegol unrhyw rywogaethau sy'n rhannu'r un cynefin (e.e. organeddau ar wely'r môr, adar môr, mamaliaid y môr) ac sy'n cael eu cynnal gan yr ardaloedd neu'r cynefinoedd bwydo, bridio (gan gynnwys silio a meithrin) a mudo hynny.

Ardaloedd Silfeydd Pysgod

(map dangosol sy'n gysylltiedig â maes polisi: ENV_07)




© Hawlfraint y Goron a hawl cronfeydd data 2017. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/57/18.19
Yn cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0

Medi 2017

Ffigur 10(a): Ardaloedd Silfeydd pysgod

Ardaloedd Magu Pysgod

(map dangosol sy'n gysylltiedig â maes polisi: ENV_07)



© Hawlfraint y Goron a hawl cronfeydd data 2017. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/57/18.19
Yn cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0

Medi 2017

Ffigur 10(b): Ardaloedd magu pysgod

Cyflwyniad

213. Hanfod llywodraethu da yw creu a defnyddio'r prosesau cywir ar gyfer gwneud penderfyniadau a rhoi'r penderfyniadau hynny ar waith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i gymdeithas. Mae llywodraethu da ym maes cynllunio morol yn bwysig am sawl rheswm. Mae'n rhoi atebolrwydd a thryloywder ac mae'n cynnwys eraill wrth wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau'n ymatebol, yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gyson â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Yn ogystal â rhoi rhagor o hyder yn y system gynllunio i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ac i randdeiliaid, mae hefyd yn bwysig o ran bod yn sail foesegol ar gyfer llywodraethu.

214. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal gwerthoedd gonestrwydd, uniondeb, gwrthrychedd, didueddrwydd a gweithredu agored ym mhob rhan o'r broses cynllunio morol. Er enghraifft, wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, rydym wedi ymwneud a thrafod yn helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae'n gweledigaeth a'n hamcanion yn ddatganiad clir o nod y Cynllun hwn. Rydym yn cydweithio â diwydiannau ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol i sicrhau bod eu rolau a'u cyfrifoldebau nhw'n glir a'u bod yn cael cymorth i'w cyflawni wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith. Byddwn yn defnyddio dulliau arloesol, fel technoleg newydd, os byddant ar gael ac os byddant yn briodol, er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o ardal forol Cymru ac er mwyn cyfathrebu'n well amdani. Er mwyn bod yn atebol, byddwn yn adolygu'r Cynllun hwn yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau am ein canfyddiadau yn unol â gofynion yr MCAA.

215. Dylai datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol hefyd roi arferion llywodraethu da ar waith. Yn yr adran hon o'r Cynllun, ceir polisïau cyffredinol sy'n ymwneud â datblygu ac asesu cynigion ac â ffyrdd o wneud a gweithredu penderfyniadau.

Effeithiau cronnol

216. Mae'r MPS yn cydnabod bod effeithiau cronnol yn ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau[29]. Effeithiau cronnol yw'r rheini sy'n ganlyniad i newidiadau cynyddol a achosir gan ddau neu ragor o weithredoedd yn y gorffennol, yn y presennol a/neu y gellir yn rhesymol eu rhagweld. Gall yr effeithiau hyn fod yn rhai economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol. Gallai effeithiau cronnol fod yn ganlyniad i un ymateb neu i nifer o ymatebion (amgylcheddol, economaidd neu gymdeithasol) i un math, neu sawl math, o bwysau sy'n cael eu hachosi gan un neu sawl math o weithgarwch. Mae'r term "effeithiau cronnol" hefyd yn cwmpasu'r term "effeithiau ar y cyd", sy'n cael ei ddefnyddio mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth.

217. Mae'n bosibl mai ychydig yn unig o effaith, os bydd unrhyw effaith o gwbl, y byddai un datblygiad yn ei gael ar ei ben ei hun. Ond wedi dweud hynny, gallai'r effaith honno fod yn sylweddol os oes cysylltiadau rhwng dau neu ragor o fathau o bwysau, o weithgareddau neu ddatblygiadau. Gan fod nifer o rywogaethau pysgod a mamaliaid ac adar môr yn symud yn gyson ar draws ardaloedd eang, a chan fod rhai prosesau ecolegol a ffisegol yn digwydd ar draws ardal ddaearyddol eang, gallai gweithgareddau a datblygiadau sydd gryn bellter oddi wrth ei gilydd effeithio ar ei gilydd. Mae'n bosibl, felly, y bydd angen ystyried unrhyw effeithiau y gallai cynnig eu cael ar ardaloedd cynlluniau morol cyfagos.

Polisi

GOV_01: Effeithiau cronnol

Wrth lunio cynigion, dylid dangos eich bod wedi asesu effeithiau cronnol posibl a dylai'r cynigion hynny, yn nhrefn blaenoriaeth:

a. osgoi effeithiau niweidiol; a/neu

b. lleihau effeithiau os na ellir eu hosgoi; a/neu

c. liniaru effeithiau os na ellir eu lleihau.

Os na ellir osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol, dylid cyflwyno achos clir a phendant o blaid bwrw ymlaen â chynigion.

Anogir cynigion sy'n cyfrannu at effeithiau cronnol cadarnhaol.

29 MPS, Pennod 2, Adrannau 2.3.21 a 2.4.3.



Darparwyd y llun gan Croeso Cymru (c) Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

Nod y Polisi

218. Nod **Polisi GOV-01** yw ceisio sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i effeithiau cronnol ar draws prosiectau, datblygiadau a sectorau, er mwyn helpu i gadw ecosystemau'n gydnerth a sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â Strategaeth Forol y DU a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

219. O dan y polisi hwn, dylai cynigion ddangos eu bod wedi ystyried yr amryfal effeithiau a'r effeithiau cronnol y gallent eu cael, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â phrosiectau a gweithgareddau eraill (gan gynnwys rhai y gwyddys amdanynt a rhai sydd yn yr arfaeth). Nid yw ystyried effeithiau datblygiadau unigol ar eu pen eu hunain yn ddigon.

220. Dylai lefel yr asesu ar gyfer unrhyw brosiect fod yn gymesur â maint ac effaith/effeithiau disgwyliedig y prosiect, ac yn gymesur hefyd â sensitifrwydd yr effaith/effeithiau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol sydd dan sylw (gan gynnwys rhai sy'n croesi ffiniau gweinyddol).

221. Mae'r polisi hwn yn cydnabod bod effeithiau cronnol yn gallu bod yn gadarnhaol hefyd yn hytrach na bod yn rhai negyddol yn unig. Os bydd cynigion yn arwain at effeithiau cronnol cadarnhaol, sy'n unol â'r polisïau yn y Cynllun hwn, byddant yn cael eu cefnogi.

Cydweithio ar draws ffiniau

222. Mae gweithgareddau ar y tir a gweithgareddau ar y môr yn gallu cael effaith uniongyrchol ar draws ardaloedd eang a all rychwantu awdurdodaeth nifer o awdurdodau cynllunio (ar gyfer y tir a'r môr). Felly, mae'n bwysig bod gwaith cynllunio'n cael ei integreiddio ar draws y ffiniau hyn ac ar lefel leol, genedlaethol a rhanbarthol. Mae angen hefyd iddo gael ei integreiddio ar draws sefydliadau a phrosesau eraill sy'n gysylltiedig â rheoli a rheoleiddio gofod ac adnoddau naturiol. Mae hyn yn cynnwys:

- rhwng ardaloedd y môr ac ardaloedd y tir;
- rhwng ardaloedd morol yng Nghymru;
- rhwng ardaloedd morol o fewn y DU; a
- rhwng ardaloedd morol y DU ac ardaloedd morol gwledydd cyfagos.

Polisi

GOV_02: Cysondeb ar draws ffiniau ac ar draws cynlluniau

Wrth i awdurdodau cyhoeddus perthnasol wneud eu penderfyniadau, dylent ystyried:

- **unrhyw bolisi cymwys mewn cynllun morol perthnasol;**
- **unrhyw bolisi cymwys mewn cynlluniau datblygu perthnasol neu ddogfennau cysylltiedig sy'n ymwneud â thir;**
- **y Polisi Adnoddau Naturiol;**
- **unrhyw gynllun(iau) llesiant lleol perthnasol (gan gynnwys yr asesiad llesiant lleol);**
- **tystiolaeth mewn unrhyw Ddatganiad(au) Ardal perthnasol sy'n cael eu paratoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).**

Nod y Polisi

223. Mae **Polisi GOV_02** yn nodi dogfennau allweddol y dylid eu hystyried wrth ddatblygu cynigion ac wrth benderfynu arnynt, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hintegreiddio ddigon â systemau cynllunio eraill. Mae'n ceisio sicrhau bod penderfyniadau datblygu yn cyfrannu at ddefnydd cynaliadwy o foroedd Cymru a'u bod, ar yr un pryd, yn esgor ar y manteision mwyaf posibl ac yn lleihau effeithiau niweidiol ar weithgareddau a buddiannau mewn awdurdodaethau cyfagos. Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'r gofynion o ran gweithio ar draws ffiniau a nodir yn y Datganiad Polisi Morol.

224. Wrth i awdurdodau cyhoeddus perthnasol wneud penderfyniadau awdurdodi yn unol â'r Cynllun hwn, dylent, cyn gwneud hynny, gysylltu a thrafod yn briodol ag awdurdodau perthnasol eraill sy'n gwneud penderfyniadau a dylent ymgynghori â chynghorwyr statudol a chyrff eraill, fel y bo'n briodol. Wrth asesu'r effeithiau cronnol a chynyddol y gallai cynigion datblygu eu cael ar amgylchedd y môr ac ar amgylchedd y tir, yng Nghymru a thu hwnt, dylid pwyso a mesur a ydynt yn rhai cadarnhaol neu negyddol (gweler **GOV_01**).

225. Dylai cynigion ddarparu tystiolaeth bod integreiddio ar draws y gweinyddiaethau gwahanol yn fater sydd wedi cael ei ystyried a bod y cynigion yn cyd-fynd â'r holl ddogfennau a phrosesau cynllunio perthnasol. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo ceisiadau'n croesi ffiniau. Mewn achosion o'r fath, dylai cynigion ddangos eu bod yn gydnaws â'r holl gynlluniau perthnasol. Dylai cynigion hefyd ystyried cyfleoedd i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ac at gyflawni amcanion ardaloedd cynllunio morol cyfagos drwy weithio ar draws ffiniau.

226. Cyfrifoldeb yr awdurdod cyhoeddus sy'n cael y cais yw hysbysu'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol mewn unrhyw weinyddiaeth gyfagos os yw'n credu y bydd y cynnig yn effeithio ar yr awdurdodau hynny. Er hynny, anogir datblygwyr i hysbysu'r holl awdurdodau cyhoeddus perthnasol (gan gynnwys unrhyw weinyddiaeth gyfagos) cyn cyflwyno cais.

Cyflwyniad

227. Gwybodaeth sy'n cael ei defnyddio i ategu penderfyniadau yw tystiolaeth. Mae'n cwmpasu nifer o ddisgyblaethau gwahanol gan gynnwys economeg, ymchwil gymdeithasol, ymchwil weithredol, ystadegaeth, gwyddorau naturiol, peirianneg a daearyddiaeth. Mae'n cynnwys ymchwil a datblygu, monitro a gwyliadwriaeth, a dadansoddi eilaidd a chyfuno.

228. Mae sawl ffordd o gasglu, dadansoddi a rhannu data a thystiolaeth sy'n ymwneud â'r môr, gan gynnwys cronfeydd data ar gyfer rhaglenni monitro hirdymor a chytundebau ar safonau data morol. Mae gwybodaeth am foroedd Cymru, gan gynnwys yr adnoddau sydd ynddynt a'r defnydd a wneir ohonynt, i'w gweld yn Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru ac ar y porth cynllunio morol. Mae tystiolaeth berthnasol y gellir ei defnyddio i lywio penderfyniadau i'w gweld yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol[30] hefyd.

229. Mae tystiolaeth yn ein helpu i ddeall lle mae'n hadnoddau naturiol morol, i ddeall statws yr adnoddau hynny, sut y mae pobl yn eu defnyddio, effeithiau'r defnydd hwnnw a'r cyfleoedd i'w defnyddio yn y dyfodol. Er mwyn i benderfyniadau fod yn rhai effeithiol, rhaid iddynt fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn sy'n cael ei chymhwyso mewn ffordd gyson, drwyadl a chymesur, gan arfer rhagofal priodol a bod yn bragmataidd[31]. Mae gan yr holl randdeiliaid sydd â buddiant yn yr amgylchedd morol rôl i'w chwarae o ran sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei defnyddio mewn ffordd gyson a chyfrifol a bod anghenion o ran tystiolaeth strategol, gan gynnwys y rheini a nodir yn Strategaeth Tystiolaeth Forol Llywodraeth Cymru, yn cael eu diwallu.

230. Mewn ambell achos, mae'n bosibl y bydd y dystiolaeth yn brin neu na fydd digon ohoni i lywio penderfyniad. Os felly, dylid parhau i wneud penderfyniadau rheoli, ond dylid gwneud hynny mewn ffordd sy'n mynd i'r afael ag unrhyw ansicrwydd ac sy'n lleihau'r risg o effeithiau niweidiol arwyddocaol ar yr economi, ar gymdeithas, ar yr amgylchedd ac ar ffyrdd posibl o ddefnyddio'r amgylchedd morol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Drwy gyflwyno tystiolaeth yn ofalus, gellir gweld pa faterion y mae ansicrwydd yn eu cylch a pha mor hyderus y gellir bod am y dystiolaeth honno, a gellir wedyn nodi'r bylchau o ran tystiolaeth a chyfyngiadau eraill, a gwneud penderfyniadau ar sail risg.

Polisi

SCI_01: Gwneud penderfyniadau ar sail risg

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn a chan weithredu mewn ffordd gymesur, ar sail risg. Pan fo hynny'n briodol, dylent weithredu yn unol â'r egwyddor ragofalus ac ystyried cyfleoedd i reoli mewn ffyrdd addasol.

Nod y Polisi

231. Nod **Polisi SCI_01** yw helpu i ddatblygu'r ardal forol mewn ffordd gynaliadwy sy'n seiliedig ar gynllun (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) drwy wneud penderfyniadau cymesur ar sail risg. Mae'r polisi hwn yn llywio penderfyniadau ac yn sail ar eu cyfer, a'r nod yw sicrhau economi forol, cymdeithas ac amgylchedd cydnerth.

232. Dylai penderfyniadau polisi a phenderfyniadau a rheoli fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Dylai datblygwyr, rheoleiddwyr, ac eraill sy'n defnyddio'r amgylchedd morol ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael wrth ddatblygu eu cynigion a gwneud penderfyniadau. Yn yr un modd, dylent helpu eraill i wneud hynny drwy rannu tystiolaeth pryd bynnag y bo modd.

233. Mae'n bosibl y bydd angen tystiolaeth newydd cyn gwneud penderfyniad os oes unrhyw ansicrwydd am yr effeithiau y gallai cynigion eu cael. Dylid mynd ati mewn ffordd gymesur, seiliedig ar risg i ganfod pa dystiolaeth fydd yn hanfodol er mwyn penderfynu

30 **www.naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy.**

31 Adlewyrchir yr egwyddor hon yn yr MPS, Pennod 2, Adran 2.3.



Darparwyd y llun gan Ysgol Gwyddorau Eigion Prifysgol Bangor

ar gais. O weithredu fel hyn, gellir sicrhau bod yr anghenion a nodwyd o ran tystiolaeth yn gymesur â'r risg sy'n gysylltiedig â'r prosiect neu'r cynnig, a bod y dystiolaeth honno'n briodol ac yn ddigon er mwyn gwneud penderfyniad.

234. Dylid manteisio ar gyfleoedd i nodi ac i fynd i'r afael ag anghenion o ran tystiolaeth strategol yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun hwn er mwyn helpu i ddileu'r risg a allai fod yn gysylltiedig â phenderfyniadau ar fuddsoddi ac ar gydsynio yn y dyfodol. Dylid cymryd camau rhesymol i lenwi bylchau o ran tystiolaeth strategol er mwyn sicrhau bod tystiolaeth ar gael i ategu penderfyniadau gan awdurdodau cynllunio, rheoleiddwyr a'r rheini sy'n defnyddio'r môr.

235. Wrth wneud penderfyniadau, dylid arfer lefel briodol o ragofal sy'n gymesur â'r risg i'r amgylchedd, neu'r math arall o risg, sy'n gysylltiedig â'r cynnig. Mae hyn yn golygu bod angen nodi effeithiau niweidiol posibl a gwerthuso'r sylfaen dystiolaeth i weld a yw'n ddigonol ai peidio (dylid hefyd bwyso a mesur unrhyw faterion gwyddonol nad oes sicrwydd yn eu cylch).

236. Dylid bod yn rhagofalus os oes lle rhesymol i bryderu y bydd gweithgarwch gan bobl yn peryglu iechyd pobl, yn niweidio adnoddau byw ac ecosystemau morol, yn difrodi amwynderau neu'n ymyrryd â ffyrdd eraill dilys o ddefnyddio'r môr, hyd yn oed os nad oes tystiolaeth bendant mai'r gweithgarwch hwnnw sy'n achosi'r problemau. Dylid ceisio dibynnu llai ar fod yn rhagofalus drwy fynd ati i ddefnyddio tystiolaeth yn y ffordd orau bosibl. Er hynny, gall bod yn rhagofalus fod yn briodol mewn sawl achos, er enghraifft, pan fo cynefinoedd a rhywogaethau'n sensitif iawn neu o dan fygythiad ac os ydynt yn cael eu gwarchod yn benodol o dan y gyfraith.

237. Mae rheoli addasol yn broses sy'n golygu bod modd rheoli ansicrwydd y ffordd orau bosibl a'i leihau dros amser, ac mae'n un o egwyddorion allweddol rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'n helpu i reoli risg a'i chadw o fewn terfynau derbyniol. Yr hyn y mae'n ei olygu yw monitro ac adolygu penderfyniadau rheoli, a defnyddio'r hyn a ddysgir wrth wneud hynny i ddylanwadu ar benderfyniadau. Dylid ystyried defnyddio'r dull hwn os oes unrhyw ansicrwydd ynglŷn â chynnig ond bod cyfle i reoli'r ansicrwydd hwnnw drwy ddefnyddio'r hyn a ddysgir i ddylanwadu'n briodol ar benderfyniadau rheoli pellach. Er hynny, ni fwriedir i reoli addasol fod yn ffordd o osgoi'r angen i roi ystyriaeth briodol i faterion sy'n rhai y mae modd mynd i'r afael â nhw.

238. Un math o reoli addasol yw cynllunio gweithgareddau mewn ffordd strwythuredig fel y bo modd dysgu drwy wneud o fewn cwmpas y cynnig, er enghraifft, drwy weithredu fesul cam. Gall fod yn briodol gweithredu fel hyn os nad oes digon o dystiolaeth i benderfynu pa effaith y mae gweithgareddau a thechnolegau newydd yn debygol o'i chael, ond bod y dystiolaeth orau sydd ar gael neu gyngor arbenigol yn awgrymu bod modd rheoli'r effaith bosibl drwy broses o addasu a fydd wedi'i chynllunio'n ofalus.

239. Gall gweithredu mewn ffordd addasol hwyluso'r defnydd o'r ardal forol drwy roi cydsyniad ar gyfer gweithgareddau newydd ar raddfa fach yn y lle cyntaf, fel y bo modd eu hasesu'n ofalus cyn eu cyflwyno'n fwy eang. Wrth fynd ati i benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio, gellir defnyddio ffyrdd priodol o fonitro a rhoi adborth er mwyn atal neu fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau annerbyniol a allai ddod i'r amlwg, a gwella'r sylfaen dystiolaeth, fel y bo modd lleihau ansicrwydd dros amser. Fel arall, gall penderfyniadau ganiatáu i weithgareddau newydd gael eu cyflwyno'n raddol drwy ddefnyddio amodau monitro er mwyn caniatáu i'r prosiect ehangu'n raddol wrth i wybodaeth gael ei meithrin drwy waith monitro penodol.

240. Caiff penderfyniadau ar ddefnyddio'r amgylchedd morol eu gwneud ar sail yr effeithiau a ragwelir. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol sicrhau bod amodau trwyddedu priodol a gorfodadwy yn cael eu cynnwys mewn awdurdodiadau er mwyn rhoi sicrwydd digonol bod dealltwriaeth o'r gwir effeithiau. Dylai gofynion i fonitro ac i gyflwyno adroddiadau ar ôl i gydsyniad gael ei roi fod yn rhai cymesur, a dylai fod cysylltiad clir rhyngddynt â'r prif broblemau posibl a nodwyd wrth fynd ati i awdurdodi'r cynnig.

241. Mae gweithgareddau sefydledig (y rhai sydd angen caniatâd ar eu cyfer a'r rhai nad oes angen caniatâd ar eu cyfer e.e. twristiaeth a hamdden) yn ddefnyddiau pwysig o ardal y Cynllun sy'n cael eu diogelu fel rhan o'r Cynllun hwn. Mae ystod eang o weithgareddau eisoes yn digwydd yn ein moroedd ac mae potensial i'r rhain barhau, tyfu ac amrywio, ac i weithgareddau newydd ddigwydd.

Polisi Diogelu

DEF_01: Amddiffyn (diogelu)

Cynigion hynny:

- **o bosibl yn effeithio ar Ardaloedd Perygl, Ardaloedd Ymarfer neu fuddiannau amddiffyn strategol y Weinyddiaeth Amddiffyn; a/neu**
- **a allai ymyrryd â chyfleusterau cyfathrebu, gwyliadwriaeth a mordwyo sy'n angenrheidiol ar gyfer amddiffyniad a diogelwch cenedlaethol;**

dim ond gyda chytundeb y Weinyddiaeth Amddiffyn y dylid ei awdurdodi.

SAF_01: Diogelu gweithgaredd presennol

a. Rhaid i gynigion sy'n debygol o gael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar weithgaredd sefydledig sy'n dod o dan gais neu awdurdodiad ffurfiol ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion cydnawsedd â'r gweithgaredd hwnnw.

Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros y cynnig i symud ymlaen o dan amgylchiadau eithriadol.

b. Rhaid i gynigion sy'n debygol o gael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar weithgaredd sefydledig nad yw'n destun awdurdodiad ffurfiol ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion cydnawsedd â'r gweithgaredd hwnnwy.

Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

O dan SAF 01 a a b, dylid dangos cydnawsedd, yn nhrefn blaenoriaeth:

- **Osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y gweithgareddau hynny, a/neu**
- **Lleihau'r effeithiau niweidiol arwyddocaol lle na ellir eu hosgoi; a/neu**
- **Lliniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol lle na ellir eu lleihau**

SAF_02: Diogelu adnoddau strategol

Rhaid i gynigion a allai gael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar ragolygon unrhyw sector a gwmpesir gan y cynllun hwn i ddefnyddio adnoddau strategol cynaliadwy yn y dyfodol (o adnoddau a nodwyd gan SRA) ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion cydnawsedd â'r defnydd potensial hwnnw o adnoddau.

Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

Dylid dangos cydnawsedd, yn nhrefn blaenoriaeth:

- **Osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y defnydd potensial hwn o adnoddau strategol, a/neu**
- **Lleihau'r effeithiau niweidiol arwyddocaol lle na ellir eu hosgoi; a/neu**
- **Lliniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol lle na ellir eu lleihau**

Nod Polisi Diogelu

242. Nod y Cynllun hwn yw cefnogi datblygiad cynaliadwy ardal forol Cymru, gan ystyried effeithiau cronnol pob defnydd ar yr amgylchedd morol, hyrwyddo cydfodolaeth gweithgareddau cydnaws a chefnogi osgoi neu liniaru gwrthdaro rhwng defnyddwyr lle bynnag y bo modd. Wrth osod fframwaith polisi i gyflawni'r nodau hyn, mae'r Cynllun hwn yn cydnabod bod gweithgareddau ar y môr yn cael budd o ddefnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol morol a bod gweithgareddau cyfredol ac yn y dyfodol yn dibynnu ar argaeledd yr adnoddau hyn er mwyn ffynnu. Felly, mae'r Cynllun hwn yn sefydlu Polisïau Diogelu i ddiogelu, i raddau priodol, gweithgaredd posibl ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'n darparu Polisi Diogelu penodol (**Polisi DEF_01**) mewn perthynas â diogelu buddiannau Amddiffyn a Pholisïau Diogelu cyffredin (**SAF_01** a **SAF_02**) sy'n berthnasol i ddiogelu pob sector heblaw Amddiffyn.



Darparwyd y llun gan Croeso Cymru: (c) Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

243. Mae diogelu polisi cynllunio yn fodd i ffurfioli arfer cyffredin wrth wneud penderfyniadau, gan sicrhau bod yr holl ystyriaethau priodol yn cael eu hystyried mewn ffordd strwythuredig wrth benderfynu. Mae hyn yn cynnwys ystyried effeithiau posibl cynnig ar weithgareddau cyfredol ac effaith niweidiol bosibl ar sectorau eraill sy'n dibynnu ar adnodd penodol. Nod Polisïau Diogelu'r Cynllun hwn yw sicrhau bod datblygiad yn gynaliadwy, yn hyrwyddo cydnawsedd ac yn atal effeithiau niweidiol ar ddefnyddwyr eraill a'r defnyddiau a wneir o'r amgylchedd morol.

244. Mae **Polisi DEF_01** wedi'i anelu'n benodol at ddiogelu gweithgareddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn rhag ymyrraeth gan ddefnyddiau a defnyddwyr eraill yr amgylchedd morol, yn ogystal â diogelu defnyddwyr rhag peryglon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r polisi hwn yn cydnabod bod yr ardaloedd helaeth sydd wedi eu meddiannu gan weithgareddau amddiffyn yn nyfroedd Cymru yn golygu y gall y sector amddiffyn ryngweithio o bosibl gyda nifer o ddefnyddwyr morol eraill. Mae **Polisi DEF_01** felly yn ceisio sicrhau bod cynigion newydd o bob sector yn ystyried eu heffeithiau unigol a chronnol posibl ar weithgarwch morol a thirol y Weinyddiaeth Amddiffyn ac osgoi neu leihau ymyrraeth. O dan y polisi hwn, dim ond os yw'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn fodlon na fydd y cynnig yn achosi risg annerbyniol i amddiffyniad a diogelwch cenedlaethol y rhoddir caniatâd cynllunio, trwydded forol neu gydsyniad arall. Lle bo modd, dylid ceisio mesurau lliniaru i oresgyn unrhyw effeithiau niweidiol a nodwyd fel y gellir sicrhau cydnawsedd ac y gall y datblygiad fynd rhagddo.

245. Mae **Polisi SAF_01** yn berthnasol i ddiogelu pob sector ar wahân i faes Amddiffyn a'i nod yw diogelu gweithgarwch presennol a'r defnydd o adnoddau.

246. Gellir nodi gweithgareddau a ganiateir, a gweithgareddau y mae angen caniatâd ffurfiol ar eu cyfer, y cyflwynwyd cais ffurfiol ar eu cyfer, yn ofodol ar fapiau fel ardaloedd ar wahân. Mae **Polisi SAF_01** a yn berthnasol i'r mathau hyn o weithgareddau sefydledig. Mae'r polisi hwn yn cydnabod y buddsoddiad a wnaed gan ddatblygwr wrth geisio neu gael caniatâd a disgwyliad dilys y datblygwr hwnnw i allu parhau, o fewn rheswm, i weithredu. O ganlyniad, mae pwysoliad cymharol uchel o ddiogelu yn berthnasol.

247. Mae gweithgareddau gwahanol nad oes angen caniatâd ffurfiol arnynt yn gofyn am ymagwedd wahanol. Mae'r gweithgareddau hyn fel arfer yn amrywiol ac yn ofodol eang (e.e. pysgota neu dwristiaeth a hamdden). Serch hynny, mae'n bwysig bod defnydd sefydledig yn cael ei ystyried yn ofalus wrth wneud penderfyniadau, a bod unrhyw sterileiddio diangen o'r adnodd y mae pa bynnag fath o weithgaredd yn dibynnu, neu unrhyw ddadleoli diangen o'r gweithgaredd ei hun, yn cael ei osgoi. Gellir hefyd nodi gweithgareddau sefydledig nad oes angen cydsyniad ffurfiol arnynt ar fapiau (er gyda lefel is o hyder ac mewn ffordd wahanol e.e. mapiau 'gwres'). Mae **Polisi SAF_01 b** yn berthnasol dan amgylchiadau o'r fath.

248. Mae diogelu **Polisi SAF_01** yn sicrhau bod unrhyw gynigion newydd sydd â'r potensial i gael effaith niweidiol ar weithgaredd presennol yn cael eu hystyried yn gynnar ac yn systematig, yn gynnar yn y broses (dull sy'n cyd-fynd yn bennaf ag arferion rheoleiddio cyfredol). Mewn rhai achosion, mae'r polisi hwn yn cydnabod y gallai effaith niweidiol ar ddefnydd sefydledig fod yn anochel. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'r polisi hwn yn sefydlu hierarchaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau o'r fath neu, os nad yw hyn yn bosibl, i lunio achos clir ac argyhoeddiadol i gyfiawnhau bwrw ymlaen, er mwyn sicrhau ymateb priodol gan y penderfynwyr.

249. Mae diogelu lle ar gyfer defnydd posibl yn y dyfodol hefyd yn ystyriaeth ar gyfer cynllunio, er bod hyn yn golygu mwy o ansicrwydd o ran dosbarthu adnoddau a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â defnyddio adnoddau, ynghyd â gwybodaeth amrywiol am anghenion a/neu fwriad y sector. O ganlyniad, mae pwysoliad diogelu is yn briodol.

250. Mae diogelu defnydd posibl yn y dyfodol yn ymarferiad wedi'i seilio ar adnoddau a alluogir gan nodi gofodol a mapio'r adnoddau naturiol perthnasol. Bydd y math hwn o ddiogelu yn dibynnu ar natur yr adnodd a nodwyd a natur y sector, a bydd yn cael ei ddarparu trwy nodi Ardaloedd Chwilio Strategol ar gyfer sectorau penodol (gweler yr adran ar Ardaloedd Adnoddau Strategol – SRAs). Mae **Polisi SAF_02** yn berthnasol i'r ardaloedd hyn y gellir eu defnyddio yn y dyfodol; bydd y polisi hwn yn berthnasol i SRA o'r pwynt pan mae'n cael ei chyflwyno hyd at gyhoeddi MPN.

251. Cefnogir Polisïau Diogelu gan naratifau Nod Polisi Diogelu'r Sector ym mhob Pennod Sector, gan nodi sut y gweithredir Polisi Diogelu mewn perthynas â'r sector hwnnw. Wrth baratoi a gwneud penderfyniadau ar gynigion, dylai datblygwyr a phenderfynwyr weithredu Polisïau Diogelu'r Cynllun hwn mewn perthynas â **phob** sector a gwmpesir gan y Cynllun.

252. Cefnogir Polisïau Diogelu gan un neu fwy o fapiau i ddiffinio polisïau'r sector yn ofodol neu at ddibenion enghreifftiol. Mae mapiau sector yn y Cynllun hwn yn ddangosol ac mae eu cynnwys yn debygol o newid. Dylai penderfyniadau gael eu cymryd yn unol â'r dystiolaeth orau sydd ar gael ac ystyriaethau perthnasol; dylai datblygwyr a phenderfynwyr gyfeirio at fapiau sector cyfredol a ddangosir ar y porth cynllunio morol **www.lle.gov.wales/apps/marineportal/?lang=cy**.

Polisi Sector – Agregau

253. Mae polisi'r sector Agregau yn berthnasol i ranbarthau y glannau a rhanbarth y môr mawr yn ardal y Cynllun.

Agregau

Amcan y Sector

> Parhau i ddefnyddio adnoddau agregau morol ar gyfradd ac mewn lleoliadau sy'n diwallu orau ein hanghenion presennol ac yn y dyfodol trwy sicrhau bod darpariaeth ar gyfer cronfeydd wrth gefn digonol trwy drwyddedau hirdymor.



Amcan y Sector – Cyd-destun a Rhesymeg

254. Yn y Cynllun hwn, mae'r sector Agregau yn cynnwys gweithgareddau sy'n echdynnu agregau (fel tywod a graean) o wely'r môr, i'w defnyddio fel deunyddiau adeiladu, ar gyfer adfer tir neu ailgyflenwi traethau (ail-lenwi/maethu). Nid yw'n cynnwys tynnu agregau fel sgil-gynnyrch gweithgaredd arall (e.e. yn ystod adeiladu prosiect), ei symud at ddiben arbennig penodol y tu allan i ardal drwyddedig (e.e. tywod wedi'i chwythu gan y gwynt) neu garthu sy'n gysylltiedig â mordwyo.

255. Mae adnoddau agregau morol wedi'u dosbarthu'n eang yn holl ddyfroedd Cymru. Yn hanesyddol, fodd bynnag, cafwyd y rhan fwyaf o weithgareddau echdynnu ym Môr Hafren, Aber Hafren ac oddi ar lannau Gogledd Cymru. Mae agregau morol yn chwarae rhan strategol bwysig yn y cyflenwad cenedlaethol a lleol o agregau, a ddefnyddir yn bennaf mewn prosiectau adeiladu. Mae'r sector felly yn gwneud cyfraniad hollbwysig i economi Cymru, gan ddarparu cyflogaeth uniongyrchol a chyflogaeth eilaidd wrth gefnogi gweithgareddau yn cynnwys adeiladu ac atgyweirio llongau, prosesu agregau mewn glanfeydd a chludo a gweithgynhyrchu concrid parod a chynnyrch concrid, asffalt a morter o agregau morol.

256. Mae agregau morol yn adnodd cyfyngedig, ac mae'n bwysig bod echdynnu a chyfradd eu defnydd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r Cynllun hwn yn cydnabod bod cyflenwad digonol a pharhaus o agregau yn hanfodol er mwyn ateb y galw ar gyfer anghenion adeiladu ar gyfer yr amgylchedd adeiledig. Mewn llawer o achosion, mae agregau morol yn cynnig ffynhonnell briodol a hyfyw, ac adlewyrchir hynny yn Natganiad Technegol Rhanbarthol y Gweithgorau Agregau Rhanbarthol[32]. Er y gall echdynnu achosi amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol, gall carthu morol cyffredinol fod â manteision economaidd ac amgylcheddol penodol o'i gymharu â chwarela ar y tir.

257. Mae'r MPS yn cydnabod bod agregau morol yn cyfrannu at ddiogelu cyflenwadau ynni a datblygu economaidd trwy ddarparu llenwad ar gyfer prosiectau seilwaith arfordirol mawr, er enghraifft porthladdoedd neu brosiectau ynni adnewyddadwy.[33] Er y dylid ymchwilio i ffynonellau cyflenwi eraill o agregau mân addas, ac y bydd deunyddiau wedi'u hailgylchu yn parhau i gael eu defnyddio, bydd dibyniaeth ar ddefnyddio agregau morol yng Nghymru ar gyfer adeiladu a phrosiectau cyfalaf (yn ôl y galw) a maethu traethau yn parhau am y dyfodol rhagweladwy ac am oes y Cynllun hwn.

258. Mae'r cysylltiad agos rhwng y galw am ddeunyddiau agregau morol a'r sector adeiladu a'r economi ehangach. Mae'n debygol y caiff ei ddylanwadu'n sylweddol gan brosiectau seilwaith mawr, yr angen am amddiffynfeydd peiriannu meddal (megis ailgyflenwi traethau), ac ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd ac erydu arfordirol, y gall y galw amdanynt gynyddu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

32 **www.grhgca-cymru.org.uk/html/publications.html** a **www.swrawp-wales.org.uk/Html/publications.html**.
33 MPS Pennod 3, Adran 3.5.1.



Darparwyd y llun gan Gymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain

259. Mae argaeledd adnoddau, agosrwydd at farchnadoedd a phresenoldeb seilwaith yn awgrymu bod adnoddau tywod morol ym Môr Hafren, Aber Hafren ac oddi ar y Gogledd yn debygol o ddarparu lefel dda o gyflenwad o agregau morol i ateb y galw a ragwelir dros dymor y Cynllun. Fodd bynnag, mae'n wybyddus fod echdynnu adnoddau agregau o Aber Hafren yn arbennig o sensitif yn amgylcheddol, a bydd yn parhau o dan reolaethau penodol gan gynnwys cyfyngiad ar dunelledd. Mae ardaloedd o adnoddau agregau wedi eu nodi oddi ar y Gorllewin, ac yn enwedig oddi ar y Gogledd. Amcangyfrifir y gallai'r ardaloedd yma ddarparu cyflenwad am 50 mlynedd arall o leiaf, er nad oes llawer o farchnad ar gyfer yr adnodd hwn ar hyn o bryd.

260. Cyhoeddwyd Polisi Dros Dro Llywodraeth Cymru ar Garthu Agregau Morol yn 2004 fel sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau am drwydded yn rhanbarth Môr Hafren ac Aber Hafren, gan nad oedd cyfundrefn drwyddedu statudol mewn grym bryd hynny. Mae'r Polisi Dros Dro wedi'i adolygu ochr yn ochr â datblygu'r Cynllun hwn er mwyn adlewyrchu'r rheolaethau ychwanegol a gyflwynir o dan broses ymgeisio a thrwyddedu morol. Mae'r Cynllun hwn yn darparu polisi cynllunio morol strategol ar gyfer rheoli adnoddau agregau yn nyfroedd Cymru; caiff y Polisi Dros Dro ei dynnu'n ôl ar adeg mabwysiadu'r Cynllun hwn, ond bydd ei gynnwys yn parhau i fod yn bwynt cyfeirio i lywio penderfyniadau. Mae'r dull hwn o weithredu yn adlewyrchu bod sail polisïau'r Cynllun hwn yn deillio yn rhannol o'i arferion gweithredu seiliedig ar dystiolaeth.

Polisi Cefnogi'r Sector

AGG_01: Agregau (cefnogi)

AGG_01 a: Bydd cynigion ar gyfer echdynnu agregau newydd yn cael eu cefnogi, o fewn unrhyw gyfyngiadau ar dunelledd, lle maent yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

AGG_01 b: Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon cysylltiedig eraill, i gydweithio i ddeall cyfleoedd:

- **ar gyfer defnydd cynaliadwy o adnoddau agregau morol naturiol ehangach;**
- **diffinio ac, unwaith y byddant ar waith, datblygu a mireinio ymhellach Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer agregau**

er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy y sector Agregau trwy gynllunio morol.

Nod Polisi Cefnogi'r Sector

261. Mae'r naratif sy'n sail i **Amcan y Sector Agregau** yn nodi casgliad Llywodraeth Cymru, sef, er y dylid ymchwilio ac annog ffynonellau amgen o agregau (gan gynnwys deunyddiau wedi'u hailgylchu), fod sicrhau cyflenwad parhaus, cynaliadwy o adnoddau agregau morol addas yn dal i fod yn hanfodol i fodloni'r anghenion adeiladu ar gyfer yr amgylchedd adeiledig dros oes y Cynllun hwn.

262. Dan **Bolisi AGG_01 a**, dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol gefnogi echdynnu adnoddau agregau morol lle mae hyn yn gyson â'r Polisïau Cyffredinol perthnasol a Pholisïau Diogelu'r Cynllun hwn. Ar yr un pryd, dylid cydnabod bod agregau morol yn adnodd morol naturiol cyfyngedig ac, fel adnoddau naturiol eraill, mae angen rheoli echdynnu (a chyfradd eu defnydd) yn gynaliadwy.

263. Dylai Llywodraeth Cymru, Ystad y Goron, diwydiant a Cyfoeth Naturiol Cymru gydweithio i sicrhau bod y cronfeydd agregau morol trwyddedig wrth gefn yn cael eu cynnal ar lefelau digonol er mwyn helpu i fodloni gofynion amrywiol marchnad gyfnewidiol a bod ganddynt yr hyblygrwydd a'r gallu i fodloni anghenion prosiectau cyfalaf llai rhagweladwy a chynlluniau ailgyflenwi traethau. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau cronfeydd agregau morol trwyddedig wrth gefn ar gyfer defnyddiau adeiladu arferol am gyfnod o ddeg i bymtheg mlynedd o leiaf. Gellir cyflawni hyn ar sail ranbarthol.

264. Anogir diwydiant i achub ar gyfleoedd i ddefnyddio adnoddau i ffwrdd o leoliadau mwy sensitif ac ymhellach allan i'r môr mawr (lle bo'n bosibl) ac ar yr un pryd i fod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau parhad y cyflenwad er mwyn ateb y galw. Rhagwelir y gallai defnyddio adnoddau agregau o'r môr mawr gefnogi trwyddedau echdynnu am gyfnod hirach, a fydd yn arbennig o bwysig wrth gyflenwi agregau ar gyfer prosiectau seilwaith mawr.

265. Tra dylid defnyddio ffynonellau adnoddau agregau o'r môr mawr lle bynnag y bo modd, bydd ffynonellau sy'n gymharol agos at y galw yn parhau i gael eu defnyddio lle bo'n briodol i wneud hynny. Mae agregau'n nwyddau swmpus lle mae costau cludo, hyfywedd prosiectau ac allyriadau carbon cysylltiedig yn sbarduno'r angen i gasglu agregau'n agos i'r man y maent yn cael eu defnyddio. O ganlyniad, dylid cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cefnogi'r defnydd o adnoddau agregau ymhellach o'r glannau a chyfyngiadau ymarferol sy'n gysylltiedig â chloddio a chludo.

266. Mae'r Cynllun hwn hefyd yn cydnabod bod morgludo yn chwarae rhan hanfodol wrth gludo deunydd agregau i borthladdoedd a harbyrau, lle mae'n dod i'r lan, a'i storio i'w gludo ymlaen i'r man y caiff ei ddefnyddio. O ganlyniad, dylai awdurdodau cynllunio a phorthladdoedd perthnasol ystyried anghenion y diwydiant agregau a sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer cyfleusterau priodol a seilwaith cysylltiedig mor agos â phosibl at ardaloedd lle mae galw.

267. Mae **Polisi AGG_01** yn caniatáu diffinio cyfyngiad ar dunelledd ar gyfer ardal, lle y bo'n briodol, gan sicrhau cyflenwad hirdymor o adnoddau agregau heb gyfaddawdu cydnerthedd ecosystemau. Gall cyfyngiadau ar dunelledd fod yn amodol ar ddarpariaeth a ddygir ymlaen sydd wedi'i hasesu, ei chyfiawnhau ac isafswm wedi'i bennu.

268. Gellir sefydlu neu adolygu cyfyngiad ar dunelledd ar unrhyw adeg trwy ei gynnwys yn y Cynllun hwn neu trwy gyhoeddi Datganiad Cabinet (a chynnwys dilynol mewn unrhyw ddiwygiad i'r Cynllun hwn). Ym mhob achos, dylai gosod neu ddiwygio cyfyngiadau ar dunelledd olygu ymgysylltu'n llawn ac ymgynghori â phartïon cysylltiedig cyn gwneud unrhyw ddatganiad. Bydd unrhyw Ddatganiad Cabinet yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau.

269. Yn amodol ar y meini prawf cynaliadwyedd, ac ymgymryd ag asesiadau angenrheidiol drwy'r broses o wneud penderfyniadau, mae'r Cynllun hwn yn diffinio y bydd cyfyngiad ar dunelledd o ddim mwy na 800,000 tunnell (heb gynnwys tunelledd trwyddedig a ddygwyd ymlaen) o'r tunelledd trwyddedig blynyddol yn cael ei ganiatáu o ddyfroedd Cymru yn Aber Hafren sydd i'r dwyrain o linell a dynnir i'r de-ddwyrain o Drwyn Larnog (map sector). Er mwyn sicrhau dull hyblyg o reoli'r adnodd a chyflawni datblygu cynaliadwy, gellir adolygu'r terfyn hwn o bryd i'w gilydd a gellir ei ddiweddaru trwy Ddatganiad Cabinet.

270. Bydd angen i geisiadau am ardaloedd trwydded newydd neu gynnydd mewn tunelledd ar gyfer ardaloedd presennol ddangos yn glir yr angen am yr adnoddau trwyddedig ychwanegol, gan ystyried yr angen i sicrhau bod cystadleuaeth yn cael ei chynnal yn y farchnad.

271. Lle bo hynny'n berthnasol, dylai trwyddedau morol gynnwys gofynion monitro i sicrhau bod dealltwriaeth briodol o effeithiau perthnasol ar ecosystemau sydd wedi'u rhagfynegi mewn cynnig a bod hyn yn cael ei ystyried gan reolwyr wrth wneud penderfyniadau. Yn gyffredinol, dylid ystyried ceisiadau am gyfnod trwydded o hyd at bymtheng mlynedd, gydag adolygiadau sylweddol o ganlyniadau monitro bob pum mlynedd. Fodd bynnag, ar gyfer ceisiadau mewn ardaloedd newydd neu ardaloedd sensitif, dylid ystyried tymor trwydded byrrach, er enghraifft pum mlynedd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi'n wahanol. Dylid defnyddio dull rhagofalus sy'n gofyn am wybodaeth a thystiolaeth ddigonol i gefnogi a llywio penderfyniadau ar gyfer cynigion, gan gynnwys ystyried unrhyw ddarpariaeth a ddygir ymlaen.

272. Mae **Polisi AGG_01 b** yn cydnabod yr arfer da presennol lle mae diwydiant ac awdurdodau cyhoeddus wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu strategaethau, protocolau a chanllawiau arfer da yn ymwneud â materion megis asesiadau amgylcheddol, bioddiogelwch, monitro gwely'r môr ac adroddiadau archeolegol morol. Mae'r polisi hwn yn annog parhad y dull cydweithredol hwn ac yn annog datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus i gydweithio â sefydliadau perthnasol eraill, fel sefydliadau ymchwil a chyrff y diwydiant, i ddatblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd i fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth allweddol ac i ddeall yn well y cyfleoedd ar gyfer datblygu'r sector, gan gynnwys nodi a mireinio Ardaloedd Adnoddau Strategol.

273. Wrth baratoi cynigion yn ymwneud ag Agregau, dylai datblygwyr ddefnyddio Polisïau Cyffredinol a Diogelu'r Cynllun hwn mewn perthynas â'r holl sectorau a gwmpesir gan y Cynllun. Dylai datblygwyr gyfeirio at bob un pennod sector i gael rhagor o wybodaeth am y Polisi Diogelu mewn perthynas â diogelu buddiannau'r sector hwnnw.

Nod Polisi Diogelu'r Sector

274. Mae'r naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector canlynol yn gosod y polisïau diogelu a'r egwyddorion polisi sydd i'w cymhwyso ar gyfer pob cynnig newydd gan bob sector wrth ystyried eu heffaith bosibl ar y sector Agregau. Dylai datblygwyr a phenderfynwyr hefyd gymhwyso gofynion y polisi diogelu ar gyfer yr holl sectorau eraill a gwmpesir gan y Cynllun hwn, fel y nodir gan naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector pob pennod sector yn y Cynllun.

275. Dim ond lle mae dyddodion masnachol hyfyw o dywod a graean y gall echdynnu agregau morol ddigwydd, h.y. yn yr ardaloedd gofodol arwahanol a ffurfiwyd amser maith yn ôl gan brosesau daearegol. Mae'n bwysig felly fod yr adnoddau hyn yn cael eu diogelu'n briodol rhag gweithgareddau morol eraill a allai beryglu eu defnydd yn y dyfodol. Mae Polisïau Diogelu'r Cynllun hwn yn sicrhau ystyriaeth briodol o raddfa effeithiau cloddio agregau yn y presennol ac yn y dyfodol (h.y. i atal sterileiddio neu halogi adnoddau).


276. Dylai pob cynnig (gan gynnwys cynigion sector Agregau newydd) sydd â'r potensial i effeithio ar weithgaredd agregau presennol, gweithgareddau a gynlluniwyd, neu, o'r pwynt y mae Ardal Adnoddau Strategol yn cael ei chyflwyno, gweithgareddau agregau posibl yn y dyfodol, gymhwyso Polisïau Diogelu'r Cynllun hwn.

277. Mae **Polisi SAF_01** yn berthnasol i'r holl gynigion o bob sector (gan gynnwys y cynigion sector Agregau newydd) sydd â'r potensial i effeithio ar ardaloedd lle mae trwydded forol a chytundeb cynhyrchu ar gyfer echdynnu agregau wedi ei rhoi neu y mae cais ffurfiol wedi'i gyflwyno, yn ogystal â meysydd lle mae cytundeb archwilio neu opsiwn naill ai wedi ei gynnig neu yn ei le ar gyfer echdynnu agregau. Mae'n adlewyrchu'r buddsoddiad a'r hyder/ymrwymiad cysylltiedig sydd eu hangen ar weithredwr er mwyn buddsoddi ymhellach yn ei ased. Mae **Polisi SAF_01** yn cynnwys unrhyw gytundeb rhwng Ystad y Goron a chwmnïau carthu sy'n rhoi hawliau unigryw i gloddio tywod a/neu raean am gyfnod diffiniedig.

278. Mae **Polisi SAF_02** yn berthnasol i'r holl gynigion o bob sector (gan gynnwys y cynigion sector Agregau newydd) sydd â'r potensial i effeithio ar ardaloedd a nodwyd fel Ardal Adnoddau Strategol (SRA) ar gyfer y sector Agregau. Bydd SRA ar gyfer agregau yn nodi meysydd o bwysigrwydd posibl yn y dyfodol ar gyfer echdynnu agregau, gan adlewyrchu argaeledd tebygol adnoddau agregol morol gyda'r potensial i fod o ddefnydd strategol. Mae SRAs yn debygol o gael eu lleoli yn agos at isadeiledd cefnogol lle mae meysydd trwyddedig ac archwilio/opsiwn eisoes yn bodoli. Bydd y polisi hwn yn berthnasol i SRA o'r pwynt mae'r SRA yn cael ei chyflwyno hyd at gyhoeddi MPN.

279. **Polisïau SAF_01 a** a **SAF_02 a** ddefnyddir i ddiogelu gweithgaredd y sector Agregau. O ganlyniad, nid yw **Polisïau SAF_01 b** a **DEF_01** yn berthnasol mewn perthynas â diogelu gweithgaredd y sector Agregau.

Ffigur 11: Agregau



Polisi Sector – Dyframaeth

280. Mae polisi'r sector Dyframaeth yn berthnasol i ranbarthau y glannau a rhanbarth y môr mawr yn ardal y Cynllun.

Dyframaeth

Amcan y Sector

> Hwyluso datblygu dyframaeth gynaliadwy yn nyfroedd Cymru, gan gynnwys hyrwyddo busnesau arloesol pysgod, pysgod cregyn a morol a chadwyni cyflenwi cysylltiedig.



Amcan y Sector – Cyd-destun a Rhesymeg

281. Dyframaeth yw magu neu dyfu organeddau dyfrol (pysgod asgellog, pysgod cregyn ac algâu, yn cynnwys porthiant i'w cynnal). Mae'n cynnwys cynhyrchu anifeiliaid at ddibenion masnachol uniongyrchol neu ar gyfer ailstocio a gwella poblogaethau gwyllt ("ffermio cefnforol").

282. Mae'r Cynllun hwn yn adlewyrchu nod Llywodraeth Cymru o gefnogi datblygiad dyframaeth i gynhyrchu pysgod cregyn, pysgod asgellog ac algâu morol cynaliadwy a chadwyni cyflenwi cysylltiedig. Fel ag y mae'r MPS yn ei gydnabod[34], gall dyframaeth helpu i gynnal twf economaidd cynaliadwy mewn cymunedau gwledig ac arfordirol yn ogystal â chyfrannu at ddiogelu'r cyflenwad bwyd. Mae pwysau ar rai stociau pysgod masnachol a photensial dyframaeth i chwarae rhan mewn cefnogi rhaglenni ailstocio yn tanlinellu manteision datblygu cynnyrch dyframaeth cynaliadwy.

283. Yn draddodiadol, mae dyframaeth masnachol yng Nghymru wedi canolbwyntio ar fagu pysgod cregyn, sef cregyn gleision yn bennaf, o dan reolaeth. Mae maint y pysgod asgellog a gynhyrchir drwy ffermio yng Nghymru yn fach ar hyn o bryd ac mae hyn yn digwydd mewn cyfleusterau ar y tir yn unig.

284. Ar gyfer rhywogaethau sy'n cael eu magu eisoes, mae'r Cynllun hwn yn nodi potensial trwy gynyddu'r capasiti i gynhyrchu ac opsiynau ar gyfer prosesu sy'n ychwanegu gwerth. Nodir wystrys, cregyn bylchog, cregyn cylchog a chlustiau môr fel rhywogaethau y gellid eu magu, gydag ystyriaeth i ymarferoldeb cynhyrchu pysgod asgellog ac algâu morol yn gynaliadwy.

285. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu bod digon o le morol yn cynnig potensial ar gyfer datblygu dyframaeth[35], yn enwedig mewn perthynas â physgod cregyn. Er bod ardaloedd ger y glannau yn gyfyngedig o'u cymharu ag ardaloedd ar y môr mawr, mae angen gwaith asesu hyfywedd pellach i gefnogi'r gwaith o nodi cyfleoedd a chyfyngiadau penodol.

286. Mae rhai cyfleoedd i ddatblygu safleoedd ar gyfer cewyll yn y môr ar raddfa fawr. Yn yr un modd, mae potensial ar gyfer tyfu digon o algâu yn y môr mawr i sicrhau'r arbedion maint sydd eu hangen i gyflenwi biomas ar gyfer cynhyrchu ynni. Ceir cyfleoedd hefyd ar raddfa lai i dyfu algâu yn agosach i'r lan i gyflenwi'r diwydiant fferyllol, er enghraifft, neu ddiwydiannau sy'n gysylltiedig â bwyd. Mae cyflenwi cynhyrchion pwrpasol i'r diwydiant fferyllol yn faes sy'n tyfu nad yw ei raddfa na'i botensial yn hysbys ar hyn o bryd a dylid ymchwilio i hynny.

34 MPS, Pennod 3, Adran 3.9.

35 **www.llyw.cymru/asesur-posibiliadau-ar-gyfer-dyframaethu**.



Darparwyd y llun gan: Seafish

287. Er mwyn cyflawni amcan y sector, bydd angen cael dealltwriaeth glir o'r mathau o ddyframaeth sy'n fwyaf tebygol o helpu i wireddu uchelgeisiau datblygu cynaliadwy yn y dyfodol. Wrth ddarparu cyfeiriad ar gyfer cyfleoedd mewn dyframaeth yn y dyfodol, dylid ystyried rhywogaethau neu dechnolegau sy'n gallu cefnogi datblygiad cynaliadwy o fewn y sector, a chefnogaeth barhaus ar gyfer cydweithio rhwng y diwydiant a chyrff ymchwil. Mae gweithredu cydgysylltiedig ar lefel leol rhwng cynhyrchwyr, awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau ymchwil, cymdeithasau, a sefydliadau addysg a hyfforddi yn gallu helpu i hyrwyddo gweithgareddau ac economïau lleol a chwrdd â'r galw cynyddol am gynhyrchion dyfrol lleol sydd wedi'u cynhyrchu'n gynaliadwy. Mae Cynllun Cenedlaethol Amlflwydd y DU ar gyfer Datblygu Dyframaeth Cynaliadwy (MANP)[36] yn disgrifio sut y bydd llywodraeth y DU yn hybu twf mewn dyframaeth.

Polisi Cefnogi'r Sector

AQU_01: Dyframaeth (cefnogi)

AQU_01 a: Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau dyframaeth newydd yn cael eu cefnogi lle maent yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

AQU_01 b: Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon cysylltiedig eraill, i gydweithio i ddeall cyfleoedd ar gyfer defnyddio adnoddau dyframaeth yn gynaliadwy, gan gynnwys nodi:

- **adnoddau naturiol sy'n cynnig potensial o safbwynt dyframaeth;**
- **cyfleoedd i ddiffinio ac, unwaith y maent ar waith, i ddatblygu a mireinio ymhellach Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer dyframaeth**

er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector dyframaeth trwy gynllunio morol.

Nod Polisi Cefnogi'r Sector

288. Mae'r naratif sy'n sail i **Amcan y Sector Dyframaeth** yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygu gweithgareddau dyframaeth cynaliadwy newydd ac amrywiol a hwyluso datblygiad cynaliadwy cynhyrchu dyframaeth pellach yn nyfroedd Cymru. Amcan **Polisi AQU_01 a** yw cefnogi gweithgaredd cyfredol i ddatblygu'n gynaliadwy, amrywio'r rhywogaethau sy'n cael eu meithrin a chynorthwyo'r sector i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

289. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol gefnogi cynigion ar gyfer datblygiadau dyframaeth newydd lle mae'r rhain yn gyson â'r Polisïau Cyffredinol perthnasol a Pholisïau Diogelu'r Cynllun hwn. Dylai penderfynwyr barhau i gefnogi'r diwydiant i fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu'r sector, gan arwain gweithgaredd i ffwrdd o leoliadau mwy sensitif ac ymhellach allan i'r môr mawr (lle bo'n bosibl) ac ar yr un pryd i fod yn ymwybodol o'r angen i ystyried cyfyngiadau ymarferol ac effeithiau posibl ar ecosystemau morol. Dylai Llywodraeth Cymru, Ystad y Goron, diwydiant a CNC gydweithio i sicrhau bod y cynigion ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol yn cael eu datblygu er mwyn helpu i gyflawni'r nod polisi ar gyfer datblygu sector cynaliadwy. Anogir y diwydiant i ddatblygu cynlluniau ymarferol, realistig i ehangu gweithgarwch.

290. Ar ôl cael cais, bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi Gorchymyn Pysgodfa Unigol i roi perchenogaeth dros bysgod cregyn a fegir ar arwynebeddau o wely'r môr sydd wedi'u lesio (oddi wrth Ystad y Goron fel arfer). Er mwyn rhoi sicrwydd i'r sector a'i annog i fuddsoddi, bydd Gorchmynion yn cael eu rhoi fel arfer am gyfnod o 28 mlynedd o leiaf gan eu hadolygu bob saith mlynedd lle bo'n briodol. Gydag awdurdodiadau a Gorchmynion Pysgodfa Unigol mewn ardaloedd sensitif iawn, neu lle mae llai o sicrwydd, neu lle mae angen dull mwy hyblyg o weithredu, mae'n bosibl y byddant am gyfnod byrrach ac y bydd y gofynion ar gyfer monitro yn fwy trwyadl. Bydd Llywodraeth

36 www.gov.uk/government/publications/sustainable-aquaculture-the-united-kingdom-multiannual-national-plan-manp.

Cymru yn ceisio rhoi awdurdodiadau a Gorchmynion Pysgodfa Unigol am gyfnodau hirach mewn ardaloedd llai sensitif.

291. Lle mae Gorchymyn Pysgodfa Unigol o fewn neu'n agos at safleoedd a ddynodwyd at ddibenion cadwraeth forol, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth o fewn y cais i alluogi Llywodraeth Cymru i gynnal asesiad amgylcheddol. Yn ogystal, gall Llywodraeth Cymru dynnu ar ffynonellau eraill o wybodaeth wrth ymgymryd â'r asesiad hwn. Yn seiliedig ar gasgliadau'r asesiad amgylcheddol, hwyrach y bydd angen i Lywodraeth Cymru osod amodau yn y Gorchymyn Pysgodfa Unigol i warchod rhag effeithiau niweidiol posibl ar nodweddion dynodedig unrhyw safle cadwraeth.

292. Mae **Polisi AQU_01 b** yn cydnabod y gellir cefnogi datblygiad sector trwy feithrin gallu, arloesedd a chydweithio rhwng y diwydiant a chanolfannau ymchwil academaidd. Mae'r polisi hwn yn annog y diwydiant dyframaeth i weithio mewn partneriaeth â busnesau, y llywodraeth a'r byd academaidd i gefnogi gweithrediad y Cynllun hwn, nodi ardaloedd morol addas ar gyfer rhagor o weithgarwch dyframaeth a chyfleoedd i gynyddu cynhyrchiant ac i gynyddu nifer y rhywogaethau sy'n cael eu meithrin, gan fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth allweddol, gan gynnwys nodi a chaboli SRAs.

293. Wrth baratoi cynigion yn ymwneud â Dyframaeth, dylai datblygwyr ddefnyddio Polisïau Cyffredinol a Diogelu'r Cynllun hwn mewn perthynas â'r holl sectorau a gwmpesir gan y Cynllun. Dylai datblygwyr gyfeirio at bob un o'r penodau sector i gael rhagor o wybodaeth am y Polisi Diogelu mewn perthynas â diogelu buddiannau'r sector hwnnw.

Nod Polisi Diogelu'r Sector

294. Mae naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector canlynol yn gosod y polisïau diogelu a'r egwyddorion polisi sydd i'w cymhwyso ar gyfer pob cynnig newydd gan bob sector wrth ystyried eu heffaith bosibl ar y sector Dyframaeth. Dylai datblygwyr a phenderfynwyr hefyd gymhwyso gofynion y polisi diogelu ar gyfer yr holl sectorau eraill a gwmpesir gan y Cynllun hwn, fel y nodir gan naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector pob sector yn y Cynllun.

295. Dylai pob cynnig (gan gynnwys cynigion newydd y sector Dyframaeth) sydd â'r potensial i effeithio ar weithgaredd dyframaeth presennol, gweithgareddau a gynlluniwyd, neu, o'r pwynt y mae Ardal Adnoddau Strategol yn cael ei chyflwyno, gweithgareddau dyframaeth posibl yn y dyfodol, gymhwyso Polisïau Diogelu'r Cynllun hwn.


296. Mae **Polisi SAF _01** yn adlewyrchu pwysigrwydd diogelu gweithrediadau parhaus a diogelu buddsoddiadau. Mae'n berthnasol i'r holl gynigion o bob sector (gan gynnwys cynigion newydd y sector Dyframaeth) sydd â'r potensial i effeithio ar ardaloedd lle:

- bod cais am Orchymyn Pysgodfa Unigol neu hawliau cynhyrchu ar gyfer dyframaeth wedi'i dderbyn neu wedi'i gyflwyno'n ffurfiol;
- mae cytundeb ffurfiol a gofnodwyd wedi'i wneud rhwng perchennog gwely'r môr a gweithredwr dyframaethu;
- mae Busnes Cynhyrchu Dyframaeth wedi'i gofrestru neu fod cais cofrestru wedi'i gyflwyno.

297. Mae **Polisi SAF_02** yn berthnasol i'r holl gynigion o bob sector (gan gynnwys cynigion newydd y sector Dyframaeth) sydd â'r potensial i effeithio ar ardaloedd a nodwyd fel SRA ar gyfer y sector Dyframaeth. Bydd SRAs ar gyfer dyframaeth yn nodi lle mae adnoddau addas yn y golofn ddŵr neu ar wely'r môr ar gyfer eu defnyddio ar gyfer dyframaethu yn y dyfodol. Bydd y polisi hwn yn berthnasol i SRA o'r pwynt mae'r SRA yn cael ei chyflwyno hyd at gyhoeddi MPN.

298. **Polisïau SAF_01 a** a **SAF_02 a** ddefnyddir i ddiogelu gweithgaredd y sector Dyframaeth. O ganlyniad, nid yw Polisïau **SAF_01 b** a **DEF_01** yn berthnasol mewn perthynas â diogelu gweithgaredd y sector Dyframaeth.

Ffigur 12: Dyframaethu



Polisi Sector – Amddiffyn

299. Mae polisi'r sector Amddiffyn yn berthnasol i ranbarthau y glannau a rhanbarth y môr mawr yn ardal y Cynllun.

Amddiffyn

Amcan y Sector

> Cyfrannu at amddiffyniad y genedl trwy sicrhau nad yw gweithgareddau Amddiffyn a Diogelwch Cenedlaethol yn cael eu peryglu.



Amcan y Sector – Cyd-destun a Rhesymeg

300. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gyfrifol am amddiffyniad a diogelwch cenedlaethol pobl y DU a Thiriogaethau Tramor y DU a'r DU, ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnwys y Llynges Frenhinol, y Fyddin Brydeinig, yr Awyrlu Brenhinol a lluoedd wrth gefn fel Milwyr Cynorthwyol y Llynges Frenhinol (y lluoedd arfog).

301. Mae gallu'r Weinyddiaeth Amddiffyn i amddiffyn y wlad yn ystyriaeth hanfodol a rhaid sicrhau na fydd gweithgareddau a datblygiadau morol yn amharu ar fuddiannau amddiffyn strategol. Mae'r MPS yn cydnabod bod angen i'r Weinyddiaeth Amddiffyn gynnal a defnyddio'r gallu gweithredol i amddiffyn a diogelu'r DU.

302. Er nad oes canolfannau llynges mawr yng Nghymru, mae'r lluoedd arfog yn gwneud defnydd helaeth o arfordiroedd a moroedd Cymru at nifer o ddibenion gwahanol sy'n ymwneud ag amddiffyn, yn cynnwys defnydd cyfyngol o ardaloedd penodol ar amseroedd neilltuol ar gyfer hyfforddi, profi a gwerthuso a gweithrediadau sy'n cynnwys:

- cynorthwyo llongau, awyrennau a buddiannau mordwyol;
- cynnal ymarferiadau hyfforddi milwrol; a
- rhedeg meysydd profi a gwerthuso a chyfleusterau, yn cynnwys meysydd tanio taflegrau a meysydd ar gyfer profi systemau awyrennau di-griw a cherbydau di-griw ar wyneb y dŵr ac o dan ddŵr.

303. Parheir i ddefnyddio moroedd Cymru ar gyfer gweithgareddau amddiffyn, gan gynnwys agweddau sy'n ymwneud â phrofi a gwerthuso, er mwyn cynnal effeithiolrwydd y gweithrediadau ym mhob rhan o ddyfroedd y DU.

Nod Polisi Diogelu'r Sector

304. Mae naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector canlynol yn gosod y polisïau diogelu a'r egwyddorion polisi sydd i'w cymhwyso ar gyfer pob cynnig newydd gan bob sector wrth ystyried eu heffaith bosibl ar y sector Amddiffyn. Dylai datblygwyr a phenderfynwyr hefyd gymhwyso gofynion y polisi diogelu ar gyfer yr holl sectorau eraill a gwmpesir gan y Cynllun hwn, fel y nodir gan naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector pob sector yn y Cynllun.


305. I gydnabod pwysigrwydd hanfodol sicrhau nad yw gweithgareddau a datblygiadau morol yn cael effaith niweidiol ar fuddiannau amddiffyn strategol, mae'r Cynllun hwn yn gosod polisi diogelu penodol – **Polisi DEF_01** – sy'n berthnasol i bob cynnig gan bob sector sydd â'r potensial i effeithio ar weithgareddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Felly nid yw Polisïau **SAF_01** a **SAF_02** yn berthnasol mewn perthynas â diogelu buddiannau'r sector Amddiffyn.



306. Mae **Polisi DEF_01** yn berthnasol i'r holl gynigion gan bob sector sydd â'r potensial i effeithio ar Ardaloedd Perygl, Ardaloedd Ymarfer neu fuddiannau amddiffyn strategol y Weinyddiaeth Amddiffyn a/neu a allai ymyrryd â chyfleusterau cyfathrebu, gwyliadwriaeth a mordwyo sydd eu hangen ar gyfer amddiffyn a diogelwch cenedlaethol. Dim ond os yw'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn fodlon na fydd y cynnig yn achosi risg annerbyniol i fuddiannau amddiffyn a diogelwch cenedlaethol y rhoddir caniatâd ar gyfer cynigion o'r fath. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad na defnydd a fydd naill ai ar ei ben ei hun neu gydag eraill yn rhwystro neu'n llesteirio gweithgareddau amddiffyn mewn rhyw ffordd arall.

307. Pwrpas y polisi hwn yw hyrwyddo Cymru ddiogel a chadarn lle mae'r lluoedd arfog yn gallu cyflawni eu dyletswyddau er mwyn amddiffyn a diogelu'r wlad. Mae'n gwneud y polisi cenedlaethol presennol yn fwy eglur (Adran 164 o'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r MPS).

Ffigur 13: Amddiffyn



Polisi Sector – Carthu a Gwaredu

308. Mae polisi'r sector Carthu a Gwaredu yn berthnasol i ranbarthau y glannau a rhanbarth y môr mawr yn ardal y Cynllun; fodd bynnag, nid oes unrhyw weithgarwch carthu na gwaredu yn digwydd ar hyn o bryd yn rhanbarth y môr mawr.

Carthu a Gwaredu

Amcan y Sector

> Cynnal mynediad mordwyol diogel ac effeithiol ar gyfer llongau, cychod pysgota a hamdden a hybu twf yn y dyfodol a chynnydd yng nghyfleusterau porthladdoedd a meintiau llongau gan hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy gorau posibl o ddeunydd a garthwyd a sicrhau bod cyfleusterau digonol ar gael ar gyfer gwaredu deunydd.

Amcan y Sector – Cyd-destun a Rhesymeg

309. Mae carthu a gwaredu yn cynnwys symud deunydd o un ardal o wely'r môr ac adleoli'r deunydd a gloddiwyd mewn man arall i'w waredu. Gwneir y rhan fwyaf o garthu a gwaredu morol ar gyfer mordwyo llongau a datblygu porthladdoedd sydd eisoes yn bod a rhai a ddatblygir yn y dyfodol, er bod modd ei gyflawni hefyd i hwyluso gwaith arall yn y môr. Yn hyn o beth, mae'n wahanol i garthu agregau sy'n cael ei gyflawni'n bennaf er mwyn cael deunydd a fydd yn adnodd economaidd.

310. Mae carthu'n hanfodol ar gyfer datblygu cymdeithasol ac economaidd, gan ei fod yn ategu'r gwaith o adeiladu a chynnal llawer o'r seilwaith arfordirol y mae ein llesiant yn dibynnu arno. Mae'r MPS yn cydnabod bod carthu a gwaredu yn hanfodol i sicrhau bod y sector Porthladdoedd a Morgludo yn gweithredu'n effeithiol, sector sydd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac yn ddibynnol iawn ar garthu a gwaredu er mwyn i longau allu mordwyo'n ddiogel drwy sianeli cyfyng. O ganlyniad, mae'n cael ei ystyried yn weithgarwch hanfodol ar gyfer gweithrediad effeithlon y sector Porthladdoedd a Morgludo, ac mae'n hybu ac yn ategu sectorau eraill o bob math yn ei dro, yn cynnwys Twristiaeth a Hamdden, Agregau, Pysgodfeydd, Dyframaeth ac Ynni Morol.

311. Mae maint y deunydd a garthir sy'n cael ei waredu yn y môr wedi aros yn gymharol gyson dros yr 20 mlynedd diwethaf a gwelwyd gostyngiad bach yn y duedd wrth i weithredwyr geisio lleihau costau. Mae'r Cynllun hwn yn cydnabod bod cysylltiad uniongyrchol gan amlaf rhwng yr angen am waredu deunydd a garthir yn y môr a gweithgarwch y sector porthladdoedd, a bydd pen draw i allu gweithredwyr i leihau eu hanghenion am garthu cynnal. Oherwydd hyn, ynghyd â'r cynnydd ym maint a dyfnder llongau a'r cyfleoedd i ehangu porthladdoedd, mae'n ymddangos yn debygol y bydd lefel y carthu cynnal yn parhau neu'n codi i raddau cymharol fach. Yn gyffredinol, caiff carthu a gwaredu eu hystyried fel swyddogaeth barhaus lle nad oes fawr o angen am ehangu helaeth neu welliant technolegol, ond mae ganddynt rôl allweddol gan fod yn rhaid i ddarpariaeth ar gyfer mordwyo barhau i allu bodloni anghenion morgludo er mwyn hybu a chynnal economïau lleol, cenedlaethol a rhanbarthol.

Polisi Cefnogi'r Sector

D&D_01: Carthu a Gwaredu (cefnogi)

Bydd cynigion sy'n cadw sianeli mordwyadwy a mynediad hirdymor i safleoedd agored ar y môr ar gyfer gwaredu deunydd priodol yn cael eu cefnogi pan fyddant yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.



Nod Polisi Cefnogi'r Sector

312. Mae'r naratif sy'n sail i **Amcan y Sector Carthu a Gwaredu** yn nodi casgliad Llywodraeth Cymru bod carthu a gwaredu yn swyddogaeth barhaus sy'n hanfodol i gynnal mynediad mordwyo diogel ac effeithlon i borthladdoedd, harbyrau a rhai marinas. Mae'n nodi hefyd y bydd gweithgarwch yn y sector yn debygol o barhau ar y lefelau presennol (neu gynyddu i raddau cymharol fach), gan gyd-fynd yn aml â gweithgarwch yn y sector Porthladdoedd a Morgludo, e.e. mae ehangu porthladdoedd yn aml yn golygu'r angen am garthu cyfalaf. O ganlyniad, mae polisi **D&D_01** yn ceisio rhoi hyder i'r sector Porthladdoedd a Morgludo y gellir sefydlu sianeli mordwyadwy priodol a'u cynnal fel eu bod yn addas. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol gydweithio i sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer mynediad i borthladdoedd a safleoedd gwaredu, lle mae hynny'n gyson â Pholisïau Cyffredinol perthnasol a Pholisïau Diogelu'r Cynllun hwn.

313. Anogir defnydd buddiol o ddeunydd wedi'i garthu. Yn unol â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, dylai awdurdodau perthnasol gymhwyso'r hierarchaeth wastraff. Mae gwaredu deunydd a garthwyd (o garthu mordwyol neu amgylcheddol) yn cynnwys dyddodi i ddibenion llesol (e.e. maethu traethau) a defnyddio safleoedd gwaredu yn y môr mewn ardaloedd trwyddedig o wely'r môr. Gall y deunydd a garthwyd fod yn adnodd gwerthfawr a rhoddir blaenoriaeth, lle bynnag y bo modd, i ailddefnyddio'r deunydd i gynnal ecosystemau cydnerth, fel deunydd adeiladu mewn prosiectau, mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd, i adfer tir ac i faethu traethau. Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol ei waredu ar dir.

314. Yn unol â Pholisïau Cyffredinol a Pholisïau Diogelu'r Cynllun hwn, dylai dewis safleoedd newydd ar gyfer gwaredu sicrhau na fydd y broses o ddyddodi deunyddiau'n ymyrryd i raddau arwyddocaol â mathau masnachol ac economaidd cyfreithlon o ddefnydd o'r amgylchedd morol, neu'n lleihau eu gwerth, neu'n arwain at effeithiau niweidiol arwyddocaol i gydnerthedd ecosystemau.

315. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol sicrhau bod gwaddodion yn cael eu dadansoddi'n ddigon aml i gydymffurfio â gofynion OSPAR. Dylid samplu gwaddodion bob tair blynedd oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dangos y dylid gwneud fel arall.

316. Wrth ystyried opsiynau addas ar gyfer rheoli, yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio fel arfer yw cadw'r deunydd a garthwyd o fewn y gell gwaddodion y cododd ohoni, os gellir dangos bod gwneud hynny'n ymarferol o safbwynt amgylcheddol, technegol, cymdeithasol ac economaidd yn unol â Pholisïau Cyffredinol a Diogelu'r Cynllun hwn. Yr ardaloedd sy'n cael eu ffafrio ar gyfer gwaredu yw'r rheini sydd â hanes hir o'u defnyddio a/neu'r rheini y pennwyd bod eu nodweddion yn addas ar gyfer gwaredu deunydd a garthwyd yn unol â Phennod 6 o'r canllawiau ar asesu deunydd a garthwyd[37] ("Waste Assessment Guidelines under the London Convention and Protocol: 2014 edition"). Drwy leihau'r pellter rhwng lleoliadau carthu a lleoliadau ailddefnyddio/gwaredu, gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd a hybu datblygu cynaliadwy.

317. Dylai cynigion ar gyfer safleoedd gwaredu a gaewyd fod yn destun gweithdrefn ymgeisio ac asesu newydd.

318. Bydd angen i gynigion am waredu deunydd nas carthwyd yn yr ardal forol gael eu hystyried yn ofalus gan awdurdodau cyhoeddus. Ni ddylid cefnogi gweithgareddau gwaredu newydd oni bai fod modd dangos mewn ceisiadau amdanynt nad oes opsiwn arall ar gyfer defnyddio'r deunydd gwastraff, bod modd pennu safle addas ar gyfer gwaredu yn y môr (drwy astudiaeth sy'n pennu nodweddion y safle) ac nad ydynt yn groes i'r amcanion a pholisïau eraill yn y Cynllun hwn.

37 Waste Assessment Guidelines under the London Convention and Protocol: 2014 edition, **www.imo.org/Publications/Pages/Home.aspx**; the OSPAR Guidelines for the Management of Dredged Material at Sea – Agreement 2014-06, **www.ospar.org/documents?d=34060**.

319. Wrth baratoi cynigion yn ymwneud â Charthu a Gwaredu, dylai datblygwyr ddefnyddio Polisïau Cyffredinol a Diogelu'r Cynllun hwn mewn perthynas â'r holl sectorau a gwmpesir gan y Cynllun. Dylai datblygwyr gyfeirio at bob un o benodau'r sectorau i gael rhagor o wybodaeth am y Polisi Diogelu mewn perthynas â diogelu buddiannau'r sector hwnnw.

Nod Polisi Diogelu'r Sector

320. Mae naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector canlynol yn gosod y polisïau diogelu a'r egwyddorion polisi sydd i'w cymhwyso ar gyfer pob cynnig newydd gan bob sector wrth ystyried eu heffaith bosibl ar y sector Carthu a Gwaredu. Dylai datblygwyr a phenderfynwyr hefyd gymhwyso gofynion y polisi diogelu ar gyfer yr holl sectorau eraill a gwmpesir gan y Cynllun hwn, fel y nodir gan naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector pob sector yn y Cynllun.


321. Mae **Polisi SAF_01** yn berthnasol i'r holl gynigion o bob sector (gan gynnwys cynigion newydd y sector Carthu a Gwaredu) sydd â'r potensial i effeithio ar weithgareddau carthu a gwaredu newydd neu arfaethedig:

- mewn ardaloedd lle mae caniatâd neu awdurdodiad ar gyfer carthu mordwyo neu waredu deunydd wedi'i garthu yn y môr wedi'i roi neu y mae cais i wneud hynny wedi'i gyflwyno; ac
- ardaloedd sy'n destun ymchwiliad neu waith arolygu ar gyfer addasrwydd carthu cyfalaf neu waredu deunydd.

322. Mae'n cydnabod y gwaith a'r buddsoddi sydd eu hangen i bennu safleoedd priodol a gwneud cais am drwydded gan fod y broses hon yn gallu bod yn hir a chostus i ddatblygwyr, yn enwedig lle nad oes llawer o opsiynau eraill.

323. **Polisi SAF_01 a** a ddefnyddir i ddiogelu gweithgaredd y sector Carthu a Gwaredu. O ganlyniad, nid yw **Polisïau DEF_01, SAF_01 b** a **SAF_02** yn berthnasol mewn perthynas â diogelu gweithgaredd y sector Carthu a Gwaredu.

Ffigur 14: Carthu a Gwaredu - Safleoedd gwaredu



Polisi Sector – Ynni – Carbon Isel

324. Mae polisi sector Ynni – Carbon Isel yn gymwys i ranbarth y glannau a'r rhanbarth môr mawr yn ardal y Cynllun.

Ynni – Carbon Isel

Amcan y Sector

> Cyfrannu'n sylweddol at ddatgarboneiddio ein heconomi ac at ein ffyniant drwy gynyddu faint o ynni adnewyddadwy'r môr sy'n cael ei gynhyrchu, drwy:
>
> - Cefnogi rhagor o ddefnydd masnachol o dechnolegau gwynt ar y môr ar raddfa dros oes y Cynllun hwn;
> - Cefnogi'r gwaith o ddatblygu ac arddangos technolegau ynni tonnau a ffrwd lanw yn y tymor byr i ganolig;
> - Cynyddu (lle y bo'n briodol) nifer y dyfeisiau cynhyrchu ynni tonnau a ffrwd lanw a ddefnyddir mewn datblygiadau ar raddfa fasnachol dros y tymor canolig;
> - Datblygu gwell dealltwriaeth o'r potensial ar gyfer technoleg ynni morlyn llanw; a
> - Cydnabod rôl bosibl yr amgylchedd morol mewn cyfleusterau cynhyrchu ynni niwclear newydd ar yr arfordir.

Amcan y Sector

> Datblygu Cymru fel enghraifft o dechnoleg ynni adnewyddadwy morol drwy ddatblygu'r sylfaen sgiliau, seilwaith a gwybodaeth dechnegol hanfodol i gefnogi datblygiad y diwydiant dros yr 20 mlynedd nesaf.

Amcan y Sector – Cyd-destun a Rhesymeg

325. Yn y Cynllun hwn, mae'r sector Ynni – Carbon Isel yn ymwneud â chynhyrchu ynni adnewyddadwy morol (o'r gwynt, y tonnau a'r llanw) a gweithgarwch cysylltiedig. Mae hefyd yn cydnabod rôl bosibl yr amgylchedd morol mewn perthynas â chyfleusterau cynhyrchu pŵer niwclear newydd ar yr arfordir.

326. Mae'r Cynllun hwn yn cydnabod bod adnoddau ynni morol o amgylch Cymru yn cynnig cyfle da i gynhyrchu ynni adnewyddadwy sylweddol a thrwy hynny wneud cyfraniad cryf at sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaeth ynni cynaliadwy a sicrhau budd cymdeithasol ac economaidd ar yr un pryd â pharchu'r amgylchedd ac anghenion cymunedau lleol.

327. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i ynni adnewyddadwy morol wneud cyfraniad cynyddol sylweddol at y cymysgedd ynni cyffredinol dros oes y Cynllun hwn, gan gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn y datganiad polisi ynni, Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012)[38]. Mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datgarboneiddio yn cynnwys lleihau faint o ynni a ddefnyddiwn a lleihau ein dibyniaeth ar ynni a gynhyrchir o danwyddau ffosil, gyda'r uchelgais bod y newid i economi carbon isel yn cyfrannu'n ystyrlon at ddyfodol cyfoethocach, mwy cydnerth a chynaliadwy[39].

38 www.llyw.cymru/ynni-cymru-y-newid-i-garbon-isel.
39 www.llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-carbon-isel-cymru.



Parc ynni llanw gan Tidalgy

Yn unol â'r blaenoriaethau hyn, mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC)[40] yn nodi Hierarchaeth Ynni ar gyfer Cynllunio, sydd hefyd yn berthnasol i ardal y Cynllun ac yn nodi y dylai'r system gynllunio:

- Ganolbwyntio ar leihau'r galw am ynni a defnyddio ynni'n effeithlon;
- Hwyluso datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- Lleihau effaith carbon cynhyrchu ynni; a
- Lleihau cloddio am fwynau ynni, am fod eu llosgi'n cynhyrchu llawer iawn o garbon.

328. Ynghyd â hyn, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod targed cyfreithiol o leihau allyriadau o leiaf 80% erbyn 2050 ac mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu cyfres o gyllidebau carbon a thargedau interim (ar gyfer 2020, 2030 a 2040). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gosod targedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy:

- I Gymru gynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir ganddi o ynni adnewyddadwy erbyn 2030;
- I 1GW o gapasiti trydan adnewyddadwy yng Nghymru fod yn eiddo lleol erbyn 2030; ac
- Erbyn 2020, bod o leiaf un rhan o bob prosiect ynni adnewyddadwy newydd yn eiddo i bobl leol[41].

329. Felly, mae'n bwysig bod awdurdodau cyhoeddus perthnasol yn cefnogi'r Llywodraeth i symud at gyflenwad trydan adnewyddadwy diogel, amrywiol a fforddiadwy, gan gynnwys sicrhau cyfraniad priodol gan ynni'r môr. Mae'r sector ynni adnewyddadwy morol (carbon isel) yn flaenoriaeth strategol ar gyfer cynllunio morol ac mae'r Cynllun hwn yn nodi bod gan y sector botensial sylweddol ar gyfer datblygu cynaliadwy dros oes y Cynllun hwn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r datganiad polisi morol, sy'n cydnabod bod cyflenwad ynni diogel, cynaliadwy a fforddiadwy yn hollbwysig i lesiant economaidd a chymdeithasol y DU ac y bydd yr amgylchedd morol a chynhyrchu ynni adnewyddadwy morol yn gwneud cyfraniad cynyddol at gyflenwad ynni'r DU. Mae gan gynllunio morol ei hun rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi'r gwaith o gyflwyno seilwaith ynni adnewyddadwy a charbon isel newydd.

330. Bydd cynyddu faint o ynni a gynhyrchir o dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel yn cyfrannu at gyflenwad ynni diogel, yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn cefnogi cydnerthedd ecosystemau ac yn ysgogi buddsoddiad mewn swyddi a busnes (yn amrywio o ymchwil a datblygu (R&D) i weithgynhyrchu dyfeisiau a defnyddio a chynnal a chadw dyfeisiau). Cyfrifwyd y gallai gosodiad tonnau 30 megawat (MW) a gosodiad ffrwd lanw 30MW gynnal 2,000 o flynyddoedd person o gyflogaeth yn ystod y cyfnod datblygu a gosod, a 50 o swyddi cyfwerth ag amser llawn bob blwyddyn yn ystod y cyfnod cynhyrchu. Gallai gosodiadau ar raddfa fasnachol o hyd at 300MW gynhyrchu 8,500 o flynyddoedd person o gyflogaeth wrth eu datblygu a'u gosod a 180 o swyddi cyfwerth ag amser llawn y flwyddyn yn ystod y cyfnod cynhyrchu[42]. Mae amcangyfrifon yn cynnwys y gallai ynni ffrwd lanw gynnal bron i 14,500 o swyddi ac ynni tonnau gynnal 100 o swyddi ledled y DU[43] erbyn 2040.

331. Mae ardal y Cynllun yn cynnwys adnodd gwynt da mewn dŵr dyfnach, yn enwedig i'r gorllewin a'r de-orllewin. Mae ynni gwynt alltraeth yn dechnoleg ynni sydd wedi'i phrofi ac sy'n bwysig yn strategol, ac mae'r gost o'i defnyddio yn lleihau'n gyflym, sy'n golygu ei bod yn opsiwn ynni adnewyddadwy hyfyw a deniadol i Gymru, gyda chryn gyfle am fwy o weithgareddau gwynt graddfa fawr ar y môr

40 **www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru.**

41 Oral Statement on "Energy" delivered by the Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs to the National Assembly for Wales on 26 September 2017 (**www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=4644&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings#C494225**).

42 The Economic Impact of the Development of Marine Energy in Wales **www.llyw.cymru/effaith-economaidd-datblygu-ynni-morol.**

43 **www.marineenergywales.co.uk/wp-content/uploads/2018/05/ORE-Catapult-Tidal-Stream-and-Wave-Energy-Cost-Reduction-and-Ind-Benefit-FINAL-v03.02.pdf.**

mawr[44]. Mae gan wynt ar y môr botensial sylweddol i gyfrannu at dargedau ynni adnewyddadwy yn ystod oes y Cynllun hwn tra gallai technolegau eraill gymryd amser i'w datblygu ac efallai y bydd eu cyfraniad yn fwy cyfyngedig. Roedd Cymru'n un o'r cyntaf i fabwysiadu ynni gwynt ar y môr – North Hoyle oedd yr ail brosiect gwynt ar y môr i gael ei gomisiynu yn y DU. Mae wedi cael ei ddilyn gan ddatblygiadau eraill gan gynnwys fferm wynt fwy Gwynt y Môr (576MW); ar hyn o bryd, gwynt ar y môr sy'n darparu'r cyfraniad unigol mwyaf i drydan adnewyddadwy morol yng Nghymru[45] gyda Gwynt y Môr yn gallu cyflenwi trydan i tua 400,000 o gartrefi. Yn y cyfamser, mae adroddiad Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2017 yn nodi bod technoleg gwynt arnofiol yn cynnig potensial ar gyfer arloesi, gyda pharth arddangos Sir Benfro a dyfroedd dyfnach Môr Hafren allanol a'r Môr Celtaidd yn cael eu nodi fel safleoedd posibl ar gyfer y dechnoleg[46].

332. Er nad ydynt wedi datblygu cymaint â gwynt ar y môr ar hyn o bryd, mae technolegau tonnau a llanw yn cynnig potensial sylweddol yn y tymor canolig i'r hirdymor hefyd. Nododd yr Astudiaeth[47] o'r Seilwaith Ynni Morol nifer o ffactorau sy'n rhoi Cymru mewn sefyllfa gystadleuol o ran datblygu'r diwydiannau hyn, sef:

- Adnoddau ynni morol sydd ar gael;
- Agosrwydd adnoddau egni i ganolfannau poblogaeth;
- Gallu'r diwydiant ynni presennol;
- Seilwaith cryf ar gyfer y grid trawsyrru;
- Cyfleusterau porthladd presennol a chadwyni cyflenwi cysylltiedig sydd â'r potensial i wasanaethu diwydiannau ynni adnewyddadwy morol;
- Arbenigedd amgylcheddol a chydsynio;
- Cydweithio academaidd a phartneriaethau ymchwil a datblygu; ac
- Ymwybyddiaeth y gymuned ac ymgysylltu â'r gymuned.

333. Dros y 5-10 mlynedd nesaf, mae technolegau ffrwd lanw yn debygol o ganolbwyntio ar ddyfeisiau arddangos ar raddfa fach mewn lleoliadau gwych, gan gynnwys parth arddangos Gorllewin Ynys Môn, gyda defnydd pellach ar raddfa fwy mewn ardaloedd eraill o adnoddau addas yn debygol. Nid yw technolegau tonnau wedi datblygu cystal ac mae'n bosibl y byddant yn cymryd mwy o amser i'w defnyddio'n fasnachol gyda dull tebyg – ffocws ar raddfa lai ar gyfer dyfeisiau prawf sy'n cynnig prawf o gysyniad ac yna araeau mwy o faint (yn ne-orllewin Cymru gan ehangu y tu hwnt i barth arddangos Sir Benfro yn ôl pob tebyg). Fodd bynnag, mae nifer o heriau i'r broses o symud o brototeip un ddyfais i araeau ar raddfa fasnachol ar gyfer y technolegau hyn, gan gynnwys:

- Eu defnyddio dan amodau tonnau a llanw heriol;
- Sicrhau sail dystiolaeth gadarn er mwyn gallu rheoli effeithiau amgylcheddol posibl;
- Datblygu gallu a chapasiti yn y gadwyn gyflenwi; a
- Chyflenwi seilwaith a chysylltiad grid ar y lan.[48]

334. Er bod adnodd amrediad llanw sylweddol yn bodoli o amgylch arfordir Cymru, mae technoleg morlyn llanw yn sector sy'n datblygu ac mae cryn gymhlethdod ac ansicrwydd o hyd ar hyn o bryd o ran cynllunio ar gyfer y sector. Mae heriau penodol yn ymwneud â deall yr effeithiau amgylcheddol posibl sy'n deillio o seilwaith morlyn llanw ar raddfa fawr a dulliau o osgoi, lliniaru neu digolledu effeithiau o'r fath. Mae gan seilwaith morlyn llanw ar raddfa fawr y potensial hefyd i arwain at effeithiau dros ardal ehangach ac effeithiau cronnol posibl, o fewn ardal y Cynllun ac, o bosibl, mewn ardaloedd cynlluniau

44 **www.llyw.cymru/y-potensial-ar-gyfer-ynni-gwynt-ar-y-mor-yn-y-dyfodol.**
45 Adroddiad Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2017 – **www.llyw.cymru/cynhyrchu-ynni.**
46 Fel ag yn nhroednodyn 45.
47 Astudiaeth Seilwaith Ynni Morol: Cam B – Adroddiad Terfynol **www.llyw.cymru/seilwaith-ynni-morol.**
48 Fel ag yn nhroednodyn 47.

morol cyfagos, gan nodi'r angen i fabwysiadu ymagwedd strategol a seiliedig ar dystiolaeth tuag at y sector newydd hwn.

335. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried dewisiadau amgen i'r angen i ddefnyddio technolegau ynni adnewyddadwy morol ar raddfa fawr ac mae wedi dod i'r casgliad er y bydd cyfleoedd fel lleihau galw, cefnogi technolegau eraill a chefnogi cysylltedd ehangach (yn unol â Hierarchaeth Ynni Polisi Cynllunio Cymru (PCC)) yn gwneud cyfraniadau pwysig at liniaru'r newid yn yr hinsawdd, mae angen strategol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy morol. Felly, dylid gwireddu potensial adnoddau ynni adnewyddadwy morol Cymru drwy ddefnyddio technolegau adnewyddadwy arddangos ac ar raddfa fasnachol. Mae'r Cynllun hwn, felly, yn ceisio sicrhau cymaint â phosibl o gyfleoedd priodol ar gyfer atebion ynni morol carbon isel cynaliadwy fel rhan o fframwaith cynllunio cadarnhaol Llywodraeth Cymru ar gyfer newid i economi carbon isel.

336. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gryf i ddatgloi potensial ynni o ddyfroedd Cymru ac rydym yn parhau i ddwyn ynghyd arbenigedd ar draws y llywodraeth, diwydiant a'r byd academaidd i ganolbwyntio ar gyflawni prosiectau ynni'r môr yn nyfroedd Cymru. Rydym yn cefnogi'r defnydd cynaliadwy o ddyfeisiau adnewyddadwy morol a all hybu dealltwriaeth a hyrwyddo datblygiad cynaliadwy'r sector. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu Cymru fel enghraifft o dechnoleg, sgiliau a gwybodaeth ynni adnewyddadwy yn y sector ynni adnewyddadwy morol.

337. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gan ynni niwclear y potensial i ychwanegu ffynhonnell ddibynadwy ac effeithlon o drydan at y cymysgedd ynni carbon isel sydd ei angen ar y DU i fynd i'r afael â her wirioneddol a dybryd newid yn yr hinsawdd. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfyniadau sy'n ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu niwclear sydd â chapasiti cynhyrchu uwch na 350MW. Ar ôl ystyried y mater yn ofalus, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cefnogi datblygiadau niwclear ar safleoedd presennol oherwydd eu gallu i'n helpu i gyflawni'r dyfodol carbon isel rydym am ei weld ac ar yr un pryd roi cyfle i'r economi dyfu. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y risgiau sy'n mynd law yn llaw ag ynni niwclear. Er ei fod yn seiliedig ar dir, os defnyddir gweithfeydd niwclear ar yr arfordir i ddibynnu ar ddŵr i'w hoeri, yna bydd angen cael caniatâd i dynnu a gollwng dŵr.

338. Mae cydlyniad ar draws cynllunio a chydsynio ar y tir-môr a chydag ystyriaethau ehangach ynghylch ceblau trydan yn bwysig er mwyn sicrhau digon o gapasiti i allu cysylltu technolegau newydd â'r grid.

Polisi Cefnogi'r Sector

ELC_01: Gwynt (cefnogi) ynni carbon isel

ELC_01 a: Bydd cynigion ar gynhyrchu ynni gwynt ar y môr yn cael eu cefnogi lle maent yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

Llywodraeth y DU fydd yn ystyried cynigion ar gyfer gwynt > 350MW yn unol â'r polisi cenedlaethol perthnasol. Wrth bennu NSIP ar gyfer cynnig gwynt, bydd y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried y cynllun hwn. Bydd unrhyw benderfyniad mewn perthynas â datblygiadau ynni o unrhyw raddfa yn cael ei wneud yn unol â'r cynllun hwn ynghyd ag unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

ELC_01 b: Er mwyn deall cyfleoedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar y môr yn y dyfodol, gan gynnwys technolegau sy'n arnofio, mae'r cynllun hwn yn cefnogi cynllunio strategol ar gyfer y sector. Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon cysylltiedig eraill, i gydweithio i ddeall cyfleoedd ar gyfer defnyddio adnoddau ynni gwynt yn gynaliadwy, gan gynnwys nodi:

- **adnoddau naturiol sy'n rhoi cyfle posibl i'w defnyddio yn y dyfodol;**
- **tystiolaeth i ddad-risgio cydsyniad ar gyfer y sector; a**

- chyfleoedd i ddiffinio ac, unwaith y maent ar waith, i ddatblygu a mireinio ymhellach Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer diogelu adnoddau ynni gwynt ar y môr;

er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector trwy gynllunio morol.

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol sicrhau bod tystiolaeth briodol ar gael i ategu gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector drwy gynllunio morol, lle y bo'n briodol gwneud hynny.

ELC_02: Tonnau (cefnogi) ynni carbon isel

ELC_02 a: Bydd cynigion ar gynhyrchu ynni tonnau yn cael eu cefnogi lle maent yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

ELC_02 b Er mwyn deall cyfleoedd ar gyfer ynni tonnau yn y dyfodol, anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon eraill â buddiant, i gydweithio i ddeall cyfleoedd ar gyfer defnyddio adnoddau ynni tonnau yn gynaliadwy, gan gynnwys nodi:

- adnoddau naturiol sy'n rhoi cyfle posibl i'w defnyddio yn y dyfodol;
- tystiolaeth i ddad-risgio cydsyniad ar gyfer y sector; a
- chyfleoedd i ddiffinio ac, unwaith y maent ar waith, i ddatblygu a mireinio ymhellach Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer diogelu adnoddau ynni tonnau;

er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector trwy gynllunio morol.

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol sicrhau bod tystiolaeth briodol ar gael i ategu gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector drwy gynllunio morol, lle y bo'n briodol gwneud hynny.

ELC_03: Ynni ffrwd lanw (cefnogi) carbon isel

ELC_03 a: Bydd cynigion ar gynhyrchu ynni ffrwd lanw yn cael eu cefnogi lle maent yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

ELC_03 b: Er mwyn deall cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer datblygu ynni ffrwd lanw, anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon eraill â buddiant, i gydweithio i ddeall cyfleoedd ar gyfer defnyddio adnoddau ynni ffrwd lanw mewn modd cynaliadwy gan gynnwys nodi:

- adnoddau naturiol sy'n rhoi cyfle posibl i'w defnyddio yn y dyfodol;
- tystiolaeth i ddad-risgio cydsyniad ar gyfer y sector; a
- chyfleoedd i ddiffinio ac, unwaith y maent ar waith, i ddatblygu a mireinio ymhellach Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer diogelu adnoddau ynni ffrwd lanw;

er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector trwy gynllunio morol.

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol sicrhau bod tystiolaeth briodol ar gael i ategu gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector drwy gynllunio morol, lle y bo'n briodol gwneud hynny.

ELC_04 Amrediad llanw (cefnogi) ynni carbon isel

ELC_04: Er mwyn deall cyfleoedd ar gyfer amrediad llanw yn y dyfodol, anogir cynllunio strategol ar gyfer y sector. Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon eraill â buddiant, i gydweithio i:

- gasglu tystiolaeth i gefnogi dealltwriaeth o gyfyngiadau a chyfleoedd amgylcheddol ar gyfer defnydd cynaliadwy o'r adnodd amrediad llanw;
- cefnogi dealltwriaeth o leoliad gorau datblygiadau morlyn llanw ar draws Cymru fel rhan o ddarlun ehangach y DU; a
- nodi cyfleoedd i ddiffinio ac, unwaith y maent ar waith, i ddatblygu a mireinio ymhellach Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer dibenion diogelu morlyn llanw.

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol sicrhau bod tystiolaeth briodol ar gael i ategu gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector drwy gynllunio morol, lle y bo'n briodol gwneud hynny.

Nod Polisi Cefnogi'r Sector

339. Mae'r naratif sy'n sail i **Amcanion y Sector Ynni – Carbon Isel** yn nodi casgliad Llywodraeth Cymru bod yna botensial sylweddol ac angen strategol i ddatblygu'r gwaith o gynhyrchu ynni adnewyddadwy morol yn ardal y Cynllun. Mae'n nodi ynni gwynt ar y môr fel technoleg sydd wedi'i phrofi ac sy'n bwysig yn strategol, gyda chryn botensial yn y dyfodol agos am ddatblygiad pellach ar raddfa fawr. Mae hefyd

yn cydnabod y gall technolegau tonnau a llanw gynnig potensial yn y tymor canolig i'r hirdymor, gyda'r ffocws presennol ar gyfer y sectorau hyn ar ddatblygiadau arddangos a phrofi ar raddfa lai ynghyd â datblygu tystiolaeth strategol.

340. Felly, mae **Polisïau Cefnogi Ynni – Carbon Isel** y Cynllun hwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithgareddau ynni adnewyddadwy ac yn ceisio sicrhau bod potensial ardal y Cynllun i gynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy yn cael ei wireddu (yn unol â thargedau hinsawdd ac ynni), gan roi sylw dyledus i ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac effaith gronnol perthnasol. Mewn perthynas â **Pholisi SOC_07**, derbynnir y bydd datblygu seilwaith ynni adnewyddadwy morol yn arwain at newidiadau i gymeriad morlun Cymru a bod y newidiadau hyn yn ganlyniad anochel i'n huchelgais i ynni adnewyddadwy o'r môr wneud cyfraniad cynyddol sylweddol at y cymysgedd ynni cyffredinol.

341. Wrth benderfynu ar geisiadau i ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig, dylai awdurdodau cynllunio roi pwys sylweddol ar dargedau Llywodraeth Cymru i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dylai penderfynwyr ystyried:

- y cyfraniad y bydd cynnig yn ei wneud o ran cyrraedd targedau a photensial Cymru, y DU ac Ewrop ar gyfer ynni adnewyddadwy;
- y cyfraniad at dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr; a
- y cyfraniad at amcanion a pholisïau eraill y Cynllun hwn.

342. Mae'r polisïau hyn yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i archwilio pob opsiwn ar gyfer ynni adnewyddadwy morol, yn enwedig y prosiectau hynny sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant ein cymunedau arfordirol. O ystyried pwysigrwydd ac uchelgais targedau datgarboneiddio, nid yw'r Cynllun hwn yn diystyru ar lefel cynllun strategol unrhyw dechnolegau a all ddangos cynaliadwyedd amgylcheddol yn unol ag amcanion a pholisïau'r Cynllun.

343. Mae **Polisi ELC_01b** yn annog awdurdodau cyhoeddus perthnasol a diwydiant i gydweithio er mwyn deall yn well a nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiadau newydd yn y dyfodol, gan gynnwys gweithio drwy'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer Ynni Alltraeth (OESEA)[49] a chyda TCE. O gofio'r adnodd gwynt helaeth, daearyddiaeth gwely'r môr, technolegau datblygol a'r angen polisi am gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy, mae cyfle da yn ardal y Cynllun i ddatblygu rhagor o ffermydd gwynt ar y môr ac anogir y rhain yn ystod oes y Cynllun hwn. Anogir cyfleoedd i ymestyn datblygiadau presennol a chyflwyno safleoedd newydd. Rhagwelir y bydd y ffocws cychwynnol ar gyfer ynni gwynt ar y môr yn dechnolegau â sylfaen sefydlog ond, o fewn oes y Cynllun hwn, gallai technolegau arnofiol ddod yn ymarferol yn fasnachol hefyd a dylid eu datblygu lle y bo'n briodol. Dangosir enghraifft ddangosol o gyfle a fodelwyd yn y camau cynnar yn Ffigur 15b a map dangosol o'r ardal adnodd gwynt yn Ffigur 15c.

344. O dan **Bolisïau ELC_02** a **ELC_03** dylid cefnogi a hwyluso'r defnydd o barthau arddangos trwy ddefnyddio dull cydsynio sy'n seiliedig ar risg, gan ddefnyddio rheolaeth addasol lle mae hyn yn angenrheidiol ac yn briodol ar gyfer rheoli effeithiau sy'n anodd eu rhagweld adeg gwneud penderfyniadau yn unol â **Pholisi SCI_01**. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r TCE, CNC, y diwydiant, Ynni Morol Cymru ac eraill i fwrw ymlaen â pharthau profi ac arddangos ar gyfer ynni'r tonnau, ynni gwynt arnofiol ac ynni ffrwd lanw er mwyn gwella a datblygu ymhellach wybodaeth a dealltwriaeth o risgiau, cyfleoedd a galluoedd. Mae'r ardaloedd arddangos oddi ar dde Sir Benfro (tonnau) a gorllewin Ynys Môn (ffrwd lanw) yn rhoi cyfle da i ddatblygwyr ddefnyddio, mireinio ac arddangos eu technolegau cyn ehangu prosiectau yn ardaloedd adnoddau ehangach ar raddfa fasnachol, yn amodol ar brofion llwyddiannus a'u derbynioldeb o ran effeithiau andwyol posibl.

49 **www.gov.uk/guidance/offshore-energy-strategic-environmental-assessment-sea-an-overview-of-the-sea-process.**

345. Dylai cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni tonnau ac ynni ffrwd lanw ystyried cyfleoedd i weithio ar y cyd i hyrwyddo a chynyddu apêl y parthau arddangos ar gyfer eu datblygu, er enghraifft drwy ymgymryd â gwaith paratoi megis gwaith arolygu, gosod seilwaith neu chwilio am rag-ganiatâd ar lefel parth. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol annog a chefnogi gweithgarwch strategol a rhagweithiol, i alluogi'r sectorau hyn i ddatblygu. Dylid ehangu dull o'r fath, lle bo'n briodol, i ardaloedd ehangach ag adnoddau addas.

346. Mae **Polisïau ELC_01, ELC_02, ELC_03** a **ELC_04** i gyd yn cydnabod bod gwahanol dechnolegau ar wahanol gamau datblygu ac mae angen gwaith pellach i alluogi'r is-sectorau ynni adnewyddadwy i gynllunio a datblygu'n gynaliadwy ac i ddeall y cyfraniad gorau y gall pob is-sector ei wneud tuag at gefnogi amcanion y Cynllun hwn a nodau llesiant Cymru. Mae'r polisïau hyn felly yn annog datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol, ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill fel sefydliadau ymchwil a chyrff diwydiant, i ddatblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd i ymdrin â bylchau allweddol mewn tystiolaeth a sicrhau bod tystiolaeth ar gael er mwyn cael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy'r sectorau mewn Ardaloedd Adfywio Strategol.

347. Mae amrediad llanw sylweddol yn bodoli o amgylch arfordir Cymru ac mae'r Cynllun hwn yn cydnabod yr angen i ystyried pob opsiwn polisi ynni morol hyfyw i fynd i'r afael â'r rheidrwydd i ddatgarboneiddio'r economi. Fodd bynnag, mae **Polisi ELC_04** hefyd yn cydnabod, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod rhywfaint o gymhlethdod ac ansicrwydd yn gysylltiedig â datblygu morlynnoedd llanw o amgylch arfordir Cymru mewn modd cynaliadwy. Ni ellir diystyru effeithiau ar safleoedd gwarchodedig, gan gynnwys y tu hwnt i Gymru, ar lefel y Cynllun hwn a heb fwy o ymchwil. Byddai tystiolaeth bellach yn galluogi gwell dealltwriaeth o opsiynau ar gyfer rheoli effeithiau amgylcheddol andwyol posibl cynlluniau morlynnoedd llanw ar raddfa fawr gan gynnwys cyfleoedd i nodi a sicrhau mesurau digolledu effeithiol lle y bo angen.

348. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad cynaliadwy pob opsiwn ynni adnewyddadwy morol a all ddangos cynaliadwyedd amgylcheddol yn unol ag amcanion a pholisïau'r Cynllun hwn. Felly mae **Polisi ELC_04** yn ceisio darparu ar gyfer datblygiad cam wrth gam y sector drwy ganolbwyntio ar ddatblygu tystiolaeth ehangach, gan gynnwys dysgu cymaint â phosibl o unrhyw brosiectau arddangos, er mwyn caniatáu gwell dealltwriaeth o gyfleoedd yn y dyfodol ac i hwyluso datblygu polisi cenedlaethol. Nid yw'r Cynllun hwn yn eithrio prosiectau morlyn llanw arddangos na phrosiectau morlyn llanw ar raddfa fawr rhag cael eu cynnig; byddai prosiectau o'r fath yn cael eu hystyried ar sail teilyngdod ac fesul achos.

349. Mae'r polisi ar forlynnoedd llanw yn parhau i ddatblygu ar adeg mabwysiadu'r Cynllun. Mae'r materion amgylcheddol posibl sy'n gysylltiedig â datblygu morlynnoedd llanw mawr yn gynaliadwy o amgylch Cymru, ynghyd â'r angen am gynllunio strategol, gan gynnwys ystyriaethau trawsffiniol, yn awgrymu bod angen dull strategol er mwyn i'r sector gael yr hyder angenrheidiol i ddatblygu. Byddai unrhyw brosiect morlyn llanw ar raddfa fawr (mwy na 350MW) sy'n cael ei gynnig yn cael ei bennu fel Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, ac felly byddai'n debygol o elwa pe bai gan y DU Ddatganiad Polisi Cenedlaethol.

350. Wrth baratoi unrhyw gynigion yn ymwneud ag Ynni – Carbon Isel o dan yr holl Bolisïau Ategol ar gyfer y sector hwn, dylai datblygwyr ddefnyddio Polisïau Cyffredinol a Pholisïau Diogelu'r Cynllun hwn mewn perthynas â'r holl sectorau a gwmpesir gan y Cynllun. Dylai datblygwyr gyfeirio at bob un o benodau'r sectorau i gael rhagor o wybodaeth am y Polisi Diogelu mewn perthynas â diogelu buddiannau'r sector hwnnw.

Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP)

351. Bydd ceisiadau i ddatblygu NSIP newydd uwchlaw 350MW yn cael eu hystyried gan ddefnyddio'r meini prawf ar angen, buddion ac effeithiau fel y nodir yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol. Ar gyfer seilwaith ynni bydd hyn yn cynnwys y Datganiad perthnasol ar gyfer Seilwaith Ynni (EN-1-6). Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni yn nodi polisi cenedlaethol ar gyfer asesu ac archwilio cynigion ar gyfer prosiectau ynni mawr.[50]

352. Gallai NSIPs ynni morol fod â goblygiadau helaeth ar gyfer yr adnoddau naturiol a'r gweithgareddau sy'n digwydd yn ardal y Cynllun. Wrth wneud penderfyniadau ar NSIPs, rhaid i'r awdurdod cyhoeddus perthnasol ystyried y Cynllun hwn.

353. Wrth benderfynu ar unrhyw gynnig ar gyfer NSIPs, byddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl i waddol prosiectau ar gyfer cymunedau arfordirol fod yn ystyriaeth bwysig a disgwylir i gynigion o'r fath ddefnyddio'r egwyddorion polisi a nodir yn yr adran ar NSIPs yn y Cyflwyniad i'r cynllun hwn.

Nod Polisi Diogelu'r Sector

354. Mae naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector canlynol yn nodi'r polisïau diogelu a'r egwyddorion polisi sydd i'w dilyn ar gyfer pob cynnig newydd gan bob sector wrth ystyried eu heffaith bosibl ar y sector Ynni – Carbon Isel. Dylai datblygwyr a phenderfynwyr hefyd gymhwyso gofynion y polisi diogelu ar gyfer yr holl sectorau eraill sy'n dod o dan y Cynllun hwn, fel y nodir gan naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector pob sector yn y Cynllun.

355. Mae polisïau diogelu'r Cynllun hwn yn cydnabod yr angen i roi ystyriaeth briodol i ddiogelu argaeledd adnoddau ynni adnewyddadwy morol a allai helpu i gynhyrchu ynni carbon isel yn y dyfodol.


356. Mae **Polisi SAF_01** yn berthnasol i bob cynnig o bob sector (gan gynnwys y cynigion sector carbon isel newydd) sydd â'r potensial i effeithio ar ardaloedd lle mae caniatâd neu awdurdodiad ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi cael ei roi neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad o'r fath, yn ogystal ag ardaloedd lle mae archwiliad neu gytundeb opsiynau wedi ei gynnig neu ar waith ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys parthau arddangos ynni a safleoedd profi y mae Llywodraeth y DU, y TCE, CNC a/neu Lywodraeth Cymru wedi eu nodi fel rhai strategol bwysig ond nad oes trwydded ar gyfer defnydd unigryw o'r ardal wedi'i rhoi eto o bosibl.

357. Mae **Polisi SAF_02** yn berthnasol i'r holl gynigion o bob sector (gan gynnwys y cynigion sector carbon isel newydd) sydd â'r potensial i effeithio ar ardaloedd a nodwyd fel Ardaloedd Adnoddau Strategol (SRA) ar gyfer y sector Ynni – Carbon Isel. Bydd SRA ar gyfer y sector Ynni – Carbon Isel yn ymwneud ag ardaloedd sy'n cynnwys adnoddau addas gyda'r potensial i gefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y dyfodol. Bydd y polisi hwn yn berthnasol i SRA o'r adeg y mae'r SRA yn cael ei chyflwyno'n ffurfiol hyd at gyhoeddi MPN.


358. **Polisïau SAF_01 a** a **SAF_02 a** ddefnyddir i ddiogelu gweithgaredd y sector Ynni – Carbon Isel. O ganlyniad, nid yw **Polisïau SAF_01 b** a **DEF_01** yn berthnasol mewn perthynas â diogelu gweithgaredd y sector Ynni – Carbon Isel.

50 **www.gov.uk/government/publications/national-policy-statements-for-energy-infrastructure.**


Ffigur 15(a): Ynni - Carbon Isel (Adnoddau Ynni Llif y Llanw a Thonnau)




Ffigur 15(b): Ynni - Carbon Isel (Gwynt)



Ffigur 15(c): Ynni – Carbon Isel (Safleoedd Ffermydd Gwynt a Phŵer Gwynt Cymedrig Blynyddol



Ffigur 15(d): Ynni - Carbon Isel (Ynni amrediad llanw)



Polisi Sector – Ynni – Olew a Nwy

359. Mae polisi'r sector Olew a Nwy yn berthnasol i ranbarth y glannau a rhanbarth y môr mawr yn ardal y Cynllun.

Ynni – Olew a Nwy

Amcan y Sector

> Gwneud y gorau o echdyniadau cynaliadwy o olew a nwy y DU er mwyn darparu cyflenwad ynni diogel, fforddiadwy a chydnerth i ddefnyddwyr masnachol a domestig tra'n bodloni nodau datgarboneiddio'r DU.



Amcan y Sector – Cyd-destun a Rhesymeg

360. Rhennir cyfrifoldebau am drwyddedu ynni, cydsynio a chaniatáu ynni yn ardal y Cynllun rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Olew a Nwy. Mae'r Cynllun hwn yn rhoi cyfle i integreiddio'r gwahanol bolisïau.

361. Mae Deddf Cymru 2017 yn datganoli trwyddedu olew a nwy i Lywodraeth Cymru ar gyfer rhanbarthau ar y tir a dyfroedd mewnol (ardaloedd rhynglanwol, aberoedd neu ddyfroedd cilfach arfordirol). Tu hwnt i'r cyfyngiadau yma, yr Awdurdod Olew a Nwy yw'r awdurdod trwyddedu perthnasol.

362. Mae'r Cynllun hwn yn nodi dull gweithredu integredig, ar sail tystiolaeth ac wedi'i arwain gan y Cynllun ar gyfer datblygu'r ardal forol yn gynaliadwy, gan gefnogi awdurdodau perthnasol i gymryd safbwynt mwy cyfannol sy'n ystyried effaith penderfyniadau posibl a'r flaenoriaeth a roddir i les economaidd a chymdeithasol tra'n lleihau allyriadau carbon prosiectau posibl i'r eithaf.

363. Mae polisi'r sector olew a nwy yn y Cynllun hwn yn ailadrodd polisi cenedlaethol Llywodraeth y DU, ac eithrio ar gyfer ardaloedd rhynglanwol, aberoedd neu ddyfroedd cilfach arfordirol sydd yn dod o fewn ardal drwydded ar y tir Cymru[51] lle, o dan Ddeddf Cymru 2017, mae polisi Llywodraeth Cymru yn berthnasol.

364. Mae olew a nwy yn cynnwys archwilio, datblygu a chynhyrchu adnoddau olew a nwy, gan gynnwys nwy siâl, methan gwelyau glo a nwyeiddio glo tanddaearol, trwy ddulliau confensiynol ac anghonfensiynol.

Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer rhanbarth trwydded y glannau

365. Yn unol â darpariaethau Deddf Cymru 2017, mae polisi Llywodraeth Cymru yn berthnasol i ardaloedd rhynglanwol, aberoedd neu ddyfroedd cilfach arfordirol eraill sy'n dod o fewn ardal drwydded ar y tir Cymru.

366. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i symud i system ynni carbon isel, gyda'r nod hirdymor o gael gwared ar danwydd ffosil o'r cymysgedd ynni tra'n lleihau effaith economaidd niweidiol a darparu eglurder i fuddsoddwyr, gan annog buddsoddiad mewn dewisiadau amgen carbon is. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod targed cyfreithiol o leihau allyriadau 80% o leiaf erbyn 2050 ac mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod cyfres o gyllidebau carbon a thargedau interim (ar gyfer 2020, 2030 a 2040). **Amcan polisi Llywodraeth Cymru felly yw osgoi echdynnu a defnyddio tanwydd ffosil ymhellach, gan gynnwys nwy siâl, methan gwelyau glo a nwyeiddio glo tanddaearol**.

367. Un o'r ysgogiadau polisi allweddol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yw'r system gynllunio. Mae polisi cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru[52] a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai'r system gynllunio:

51 **www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2014/1686/made.**
52 **www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru.**



- leihau i'r eithaf effaith carbon cynhyrchu ynni; a
- echdynnu llai o fwynau ynni, y mae eu llosgi yn garbon-ddwys.

Rhaid i ddatblygiadau morol gydag elfennau ar y tir felly gynnwys ystyriaeth o bolisi cynllunio defnydd tir Cymru hefyd.

Polisi Cenedlaethol Llywodraeth y DU

368. Olew a nwy (o sgafell gyfandirol y DU a mewnforion) oedd 82.99% o'r cyflenwad ynni sylfaenol yn 2017. Roedd olew a nwy o sgafell gyfandirol y DU yn bodloni tua 60% o'r holl alw am olew a nwy yn y DU yn 2017 (65% o'r galw am olew a 54% o'r galw am nwy) a nodir yn Adroddiad Economaidd Olew a Nwy y DU 2018 fel rhywbeth hanfodol i ddiwallu anghenion disgwyliedig yr economi dros yr 20 mlynedd nesaf tra'n osgoi gorddibyniaeth ar fewnforion.[53]

369. Er bod cynhyrchu cynhenid bellach yn dirywio yn y tymor hir, mae polisi cenedlaethol Llywodraeth y DU yn cydnabod y disgwylir i olew a nwy barhau'n bwysig wrth i'r DU symud tuag at economi carbon isel. Mae'r polisi hwn hefyd yn cydnabod bod sicrhau cyflenwadau hydrocarbon y DU o ffynonellau cynhenid yn lleihau dibyniaeth ar fewnforion tramor ac felly'n gwella diogelwch cyflenwad ynni'r DU. Mae'r MPS yn nodi bod gwneud y gorau o ddatblygiad economaidd ac echdynnu adnoddau olew a nwy yn gynaliadwy yn flaenoriaeth i strategaethau cyflenwi ynni a diogelwch ynni'r DU, ac mae hyn bellach yn cael ei weithredu trwy strategaeth Maximising Economic Recovery (MER) y DU[54]. Mae polisi Llywodraeth y DU hefyd yn cydnabod datblygiad olew a nwy hefyd fel ffynhonnell cyflogaeth bwysig, gan gyflenwi cemegau gwerthfawr ar gyfer gweithgynhyrchu nwyddau a chyfrannu'n sylweddol at refeniw treth.

370. O ganlyniad, mae'r Cynllun hwn yn cydnabod y bydd adnoddau tanwydd ffosil (gan gynnwys olew a nwy) yn parhau i chwarae rhan bwysig yng nghymysgedd ynni'r DU. Er mwyn cyflawni amcan polisi Llywodraeth y DU o sicrhau'r echdyniad economaidd gorau, bydd angen archwilio meysydd newydd ar gyfer darganfyddiadau.

Dal a Storio Carbon

371. Mae adroddiad Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2017 yn cydnabod y disgwylir i nwy, fel ffynhonnell ynni hyblyg, ddibynadwy, ymatebol gydag allyriadau is na thanwyddau ffosil eraill, barhau i chwarae rôl sy'n lleihau'n raddol yn y cymysgedd ynni[55]. Fodd bynnag, mae'n annhebygol o fod yn sail hirdymor i economi ynni Cymru heb fesurau i liniaru'r effeithiau amgylcheddol, fel dal a storio carbon. Felly mae'r Cynllun hwn yn cydnabod yr angen i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio dal a storio carbon yn ehangach. Ar hyn o bryd, ystyrir bod cyfleoedd o'r fath yn fach oherwydd daeareg Cymru ac, o ganlyniad, nid oes unrhyw gronfeydd olew a nwy gwag sy'n hysbys ar hyn o bryd. Os bydd cyfle datblygu yn codi yn ystod tymor y Cynllun hwn, mae'n debygol y bydd wedi'i leoli yn y Gogledd, yn gysylltiedig â'r defnydd posibl o gronfeydd nwy Bae Lerpwl.

53 **www.oilandgasuk.cld.bz/Economic-Report-2018**.
54 **www.ogauthority.co.uk/media/3229/mer-uk-strategy.pdf**.
55 **www.llyw.cymru/cynhyrchu-ynni**.

Polisi Cefnogi'r Sector

O&G_01: Olew a Nwy (cefnogi)

O&G_01 a: Bydd cynigion ar gyfer echdynnu olew a nwy yn gynaliadwy gan gael y gorau ohono'n economaidd. yn cael eu cefnogi pan fyddant yn cydymffurfio ag amcanion y cynllun hwn, ac yn bodloni'n llawn y mesurau diogelu amgylcheddol sydd wedi'u cynnwys yn y prosesau statudol o ddyfarnu trwyddedau cynhyrchu a chymeradwyaethau dilynol sy'n benodol i weithgareddau. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

O&G_01 b: Polisi Llywodraeth Cymru yw osgoi parhau i echdynnu tanwydd ffosil mewn ardaloedd rhynglanwol ac aberoedd a dyfroedd cilfach arfordirol sy'n dod o fewn ardal drwydded ar y tir Cymru. Ni ddylid cefnogi ceisiadau am drwyddedau petrolewm newydd yn yr ardaloedd hyn, oni bai eu bod yn ofynnol ar gyfer diogelwch mwyngloddio neu ddibenion gwyddonol. Rhaid i gynigion ar gyfer datblygu ac echdynnu olew a nwy gydag elfennau ar y tir yn yr ardaloedd hyn ddarparu tystiolaeth gadarn a chredadwy i ddangos sut maent yn cydymffurfio â Hierarchaeth Cynllunio Ynni Polisi Cynllunio Cymru, gan gynnwys sut maent yn gwneud cyfraniad angenrheidiol tuag at ddatgarboneiddio'r system ynni.

O&G_02: Olew a Nwy (cefnogi)

Bydd cynigion sy'n cefnogi datblygiad hirdymor technoleg dal a storio carbon yn cael eu cefnogi lle maent yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

Nod Polisi Cefnogi'r Sector

372. Wrth baratoi cynigion yn ymwneud ag olew a nwy, dylai datblygwyr ddefnyddio Polisïau Cyffredinol a Diogelu'r Cynllun hwn mewn perthynas â'r holl sectorau a gwmpesir gan y Cynllun. Dylai datblygwyr gyfeirio at bob un o benodau'r sectorau i gael rhagor o wybodaeth am y Polisi Diogelu mewn perthynas â diogelu buddiannau'r sector hwnnw.

Polisi O&G_01 a

373. Mae **Polisi O&G_01 a** yn berthnasol i ranbarth y môr mawr a rhanbarth y glannau sy'n destun polisi cenedlaethol Llywodraeth y DU.

374. Mae'r naratif sy'n sail i **Amcan y Sector Olew a Nwy** yn gydnaws â pholisi cenedlaethol Llywodraeth y DU ar arwyddocâd parhaus tanwyddau ffosil i sicrhau diogelwch ynni'r DU a lleihau dibyniaeth ar fewnforion. Mae'n nodi angen clir i archwilio a chael mynediad i ardaloedd newydd er mwyn sicrhau'r budd economaidd gorau posibl o'u hechdynnu.

375. Mae **Polisi O&G_01 a** yn cydnabod rôl barhaus tanwyddau ffosil yn ystod oes y Cynllun hwn wrth newid i gymysgedd ynni carbon isel ac yn sicrhau bod cyflenwadau o adnoddau ynni anadnewyddadwy yn cael eu defnyddio mor effeithlon â phosibl. Mae'r polisi yn cefnogi datblygu gweithgareddau olew a nwy, lle maent yn gyson â'r Polisïau Cyffredinol perthnasol a Pholisïau Diogelu'r Cynllun hwn, ar yr amod bod y cynigion yn bodloni mesurau diogelu amgylcheddol sydd wedi'u cynnwys mewn prosesau statudol o ddyfarnu trwyddedau cynhyrchu a chymeradwyaethau dilynol sy'n benodol i weithgareddau.

376. Dan **Bolisi O&G_01 a**, dylai cynigion ar gyfer gweithgareddau olew a nwy wneud y gorau o werth net disgwyliedig cronfeydd wrth gefn y gellir eu hadennill yn economaidd, yn unol â'r rhwymedigaethau a nodir yn strategaeth MER y DU, gan sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn yn cael eu hechdynnu mor effeithlon â phosibl.

Polisi O&G_01 b

377. Mae **Polisi O&G_01 b** yn berthnasol i ardaloedd rhynglanwol, aberoedd neu ddyfroedd cilfach arfordirol sydd yn dod o fewn ardal drwydded ar y tir Cymru.

378. **Mae Polisi O&G_01 b yn cydnabod nad yw datblygu ac echdynnu olew a nwy mewn ardaloedd sydd o fewn ardal drwydded ar y tir Cymru yn gydnaws â gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru o Gymru carbon isel neu'r polisi sy'n ceisio lleihau echdynnu deunyddiau ynni carbon-ddwys, gan leihau ein dibyniaeth ar ffynonellau tanwydd anghynaliadwy**. Felly, rhaid i bob cynnig ar gyfer datblygu neu echdynnu olew a nwy gydag elfennau ar y tir ddarparu tystiolaeth gadarn a chredadwy i ddangos sut maent yn cydymffurfio â Hierarchaeth Cynllunio Ynni Polisi Cynllunio Cymru[56]. **Rhaid i hyn gynnwys dangos sut y byddant yn gwneud cyfraniad angenrheidiol tuag at ddatgarboneiddio'r system ynni, yn ogystal â dangos sut y maent yn gydnaws ag egwyddorion a dulliau gweithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Polisi ar Adnoddau Naturiol**.

379. Er gwaethaf y ddarpariaeth uchod, ni fydd ceisiadau am drwyddedau petrolewm newydd o fewn ardal drwydded ar y tir Cymru yn cael eu hystyried heblaw i sicrhau bod mwyngloddiau segur yn cael eu rheoli'n ddiogel neu i gefnogi ymchwil wyddonol (mae petrolewm yn cynnwys unrhyw olew mwynol neu hydrocarbon cymharol a nwy naturiol sy'n bodoli yn ei gyflwr naturiol mewn strata ond nid yw'n cynnwys glo neu siâl bitwminaidd neu ddyddodion haenedig eraill y gellir tynnu olew ohonynt trwy ddistylliad dinistriol).[57] **Bydd yn ofynnol i gynigion i dynnu petrolewm y tu allan i ardal drwydded ar y tir Cymru sy'n gofyn am seilwaith ar dir fod yn gydnaws ag ymagwedd ddatgarboneiddio Llywodraeth Cymru**. Nid yw hyn yn atal datblygiad trwy ddulliau amgen e.e. llong gynhyrchu, storio a dadlwytho cynhyrchu neu allforio mewn tancer.

380. Mae cynigion olew a nwy anghonfensiynol ar gyfer methan glo, nwy siâl a nwyeiddio glo tanddaearol sy'n dod o fewn ardal drwydded ar y tir Cymru yn destun Cyfarwyddiadau Hysbysu sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cynnig o'r fath gael ei gyfeirio at Weinidogion Cymru, os bydd yr awdurdod cynllunio cyhoeddus perthnasol o blaid cymeradwyo'r cais. Ni chefnogir ceisiadau mewn ardaloedd trwyddedig presennol i echdynnu petrolewm sy'n golygu hollti hydrolig.

Polisi O&G_02

381. Mae **Polisi O&G_02** yn berthnasol i ranbarth y glannau a rhanbarth môr mawr y Cynllun, gan gynnwys ardaloedd rhynglanwol, aberoedd neu ddyfroedd cilfach arfordirol sydd yn dod o fewn ardal drwydded ar y tir Cymru.

382. Mae'r naratif sy'n sail i **Amcan y Sector Olew a Nwy** yn nodi angen i ystyried cyfleoedd i liniaru effeithiau amgylcheddol tanwydd ffosil drwy fesurau fel dal a storio carbon.

383. Bwriad **Polisi O&G_02** yw diogelu'r cyflenwad ynni tra'n lleihau allyriadau carbon. O ystyried heriau diogelu'r cyflenwad ynni, mae'r polisi hwn yn cydnabod dibyniaeth barhaus ar olew a nwy yn ystod y newid i ynni carbon isel. Serch hynny, dylid ceisio cyfleoedd i leihau allyriadau carbon o'r defnydd o olew a nwy. Bydd dal a storio carbon, os caiff ei fasnacheiddio a'i gefnogi'n llwyddiannus gan fframwaith rheoleiddio priodol, yn elfen hanfodol o'n dyfodol ynni tymor canolig a hir. Gall ddarparu ateb sy'n gyson â gofynion cyfredol, gan roi'r amser sydd ei angen i ddatblygu dulliau adnewyddadwy amgen.

56 **www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru**. Nod yr hierarchaeth hon yw lleihau'r effaith carbon sy'n deillio o gynhyrchu ynni ac atal cynigion sy'n cael eu cefnogi gan danwyddau ffosil.

57 Deddf Petrolewm 1998 (**www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/17/contents**). O dan y Ddeddf hon, mae petrolewm yn cynnwys unrhyw olew mwynol neu hydrocarbon cymharol a nwy naturiol sy'n bodoli yn ei gyflwr naturiol mewn strata ond nid yw'n cynnwys glo neu siâl bitwminaidd neu ddyddodion haenedig eraill y gellir tynnu olew ohonynt trwy ddistylliad dinistriol.

Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs)

384. Bydd ceisiadau am NSIPs o ran seilwaith cyflenwi nwy newydd a phiblinellau nwy ac olew yn cael eu harchwilio gan ddefnyddio'r meini prawf ar angen, buddion ac effeithiau cenedlaethol fel sy'n cael eu nodi yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) perthnasol. Ar gyfer seilwaith cyflenwi nwy ac olew, bydd hyn yn cynnwys yr NPS perthnasol ar gyfer Seilwaith Ynni (EN-1 ac EN-4). Mae'r NPSs ynni yn nodi polisi cenedlaethol a fydd yn gosod y meini prawf ar gyfer asesu ac archwilio prosiectau ynni mawr.

385. Gallai NSIPs ynni morol fod â goblygiadau helaeth i'r adnoddau naturiol a'r gweithgareddau sy'n digwydd yn ardal y Cynllun. Wrth wneud penderfyniadau ar NSIPs, rhaid i'r awdurdod cyhoeddus perthnasol ystyried y Cynllun hwn.

386. Byddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl, wrth benderfynu ar unrhyw gynnig ar gyfer NSIPs, y bydd gwaddol prosiectau ar gyfer cymunedau arfordirol yn ystyriaeth bwysig a disgwylir i gynigion o'r fath gymhwyso'r egwyddorion polisi a nodir yn yr adran ar NSIPs yn y Cyflwyniad i'r Cynllun hwn.

Nod Polisi Diogelu'r Sector

387. Mae naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector yn gosod y polisïau diogelu a'r egwyddorion polisi sydd i'w cymhwyso ar gyfer pob cynnig newydd gan bob sector wrth ystyried eu heffaith bosibl ar y sector Olew a Nwy. Dylai datblygwyr a phenderfynwyr hefyd gymhwyso gofynion y polisi diogelu ar gyfer yr holl sectorau eraill a gwmpesir gan y Cynllun hwn, fel y nodir gan naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector pob sector yn y Cynllun.


388. Mae **Polisi SAF_01 a** yn berthnasol i'r holl gynigion o bob sector (gan gynnwys y cynigion sector Olew a Nwy newydd) sydd â'r potensial i effeithio ar ardaloedd lle mae trwyddedau wedi eu rhoi neu y mae cais am ddatblygiad olew a nwy wedi ei gymeradwyo neu ei gyflwyno. Mae'r polisi hwn yn helpu i nodi partïon sydd â diddordeb mewn defnyddio/datblygu'r un meysydd ac i hwyluso deialog rhyngddynt a'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol mor gynnar ag sy'n bosibl i adnabod cyfyngiadau a chyfleoedd ar gyfer cydfodoli.

389. Mae **Polisi SAF_01 a** hefyd yn berthnasol i'r holl gynigion o bob sector (gan gynnwys y cynigion sector Olew a Nwy newydd) sydd â'r potensial i effeithio ar weithgaredd posibl yn y dyfodol mewn parthau (blociau) a nodwyd ar gyfer trwyddedu olew a nwy, er mwyn atal sterileiddio ardaloedd posibl ar gyfer olew a nwy ac i sicrhau bod unrhyw gynigion newydd o fewn ardaloedd o'r fath yn gydnaws â'r sector Olew a Nwy.

390. Bydd y penderfynwr yn cyfeirio at yr MPS ac at unrhyw ganllawiau perthnasol neu Ddatganiad Cabinet a allai gael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd, yn ogystal ag ystyried a oes unrhyw gytundeb digolledu yn weithredol mewn egwyddor rhwng gwahanol sectorau o ddiddordeb.

391. **Polisi SAF_01 a** a ddefnyddir i ddiogelu gweithgaredd y sector Olew a Nwy. O ganlyniad, nid yw **Polisïau DEF_01, SAF_01 b** a **SAF_02** yn berthnasol mewn perthynas â diogelu gweithgaredd y sector Ynni – Olew a Nwy.

Ffigur 16: Ynni - Olew a Nwy



Polisi Sector – Pysgodfeydd

392. Mae polisi'r sector Pysgodfeydd yn berthnasol i ranbarthau y glannau a rhanbarth y môr mawr yn ardal y Cynllun.

Pysgodfeydd

Amcan y Sector

> Cefnogi a diogelu sector pysgota amrywiol a phroffidiol yn cynnwys hyrwyddo pysgodfeydd lle mae dalfeydd yn gynaliadwy a sicrhau'r gwerth economaidd mwyaf posibl o'r pysgod a ddelir fel cyflenwad protein cynaliadwy.



Amcan y Sector – Cyd-destun a Rhesymeg

393. Mae'r MPS yn datgan: 'the UK has a long history of fishing in both inshore and offshore waters which the UK administrations wish to see continue'. Mae'n egluro y bydd y broses cynllunio morol yn galluogi 'the coexistence of compatible activities wherever possible' ac mae'n cefnogi camau i leihau gwrthdaro sy'n bodoli eisoes a photensial am wrthdaro hefyd i sicrhau'r cydweddu mwyaf posibl ac i gymell cydfodolaeth rhwng gweithgareddau.

394. Er mwyn sicrhau y bydd y sector pysgota yn hyfyw yn yr hirdymor, dylai gweithgareddau pysgota gael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy a pheidio â chael effaith niweidiol ar gydnerthedd ecosystemau ehangach. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ceisio sicrhau bod stociau'n cael eu rheoli ar lefel y Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY), sy'n rhan o'r Statws Amgylcheddol Dda o dan Ddisgrifydd 3 o Strategaeth Forol y DU. Mae pysgodfeydd cynaliadwy wedi'u seilio ar ddefnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar raddfa sy'n cynnal a hybu cydnerthedd ecosystemau morol, gan arwain at sector Pysgodfeydd hyfyw nad yw'n bygwth cydnerthedd poblogaethau o bysgod dros yr hirdymor ac ar arferion pysgota nad ydynt yn amharu ar allu poblogaethau o bysgod i epilio ac ar allu stociau i ymadfer. Mae ystyriaethau o ran diogelwch yn bwysig hefyd, gan fod galwedigaethau yn y sector pysgota yn beryglus iawn yn aml a'r peryglon o ddydd i ddydd yn sylweddol.

395. Mae sector pysgota môr masnachol Cymru yn ddiwydiant amrywiol sy'n gweithredu ar draws rhanbarthau glannau a môr mawr y Cynllun a cheir y rhan fwyaf o'i weithgareddau o fewn chwe milltir forol i'r glannau. Mae'r rhan fwyaf o gychod a llongau'n canolbwyntio ar gramenogion a physgod cregyn molysgaidd, ond hefyd ar amrywiaeth o bysgod asgellog, yn enwedig draenogiaid y môr, lledod, lledod chwithig a chathod môr. Ceir sector genweirio hamdden môr llewyrchus hefyd yng Nghymru (mae sylw i hynny ym mhennod sector Twristiaeth a Hamdden y Cynllun hwn). Un o nodweddion neilltuol y sector pysgota yng Nghymru yw ei fod yn cynnwys busnesau bach yn bennaf sy'n gweithredu o'r glannau neu o gychod bach (<10m) mewn lleoliadau gwasgaredig ar yr arfordir. Mae cychod bach a gweithrediadau mewn lleoliadau sefydlog yn wynebu cyfyngiadau mawr ac felly'n agored i ymyrraeth a'r posibilrwydd o'u dadleoli.

396. Mae'r Cynllun hwn yn cydnabod bod y sector pysgota môr masnachol yn cyfrannu mewn ffordd allweddol at gymunedau gwledig ar yr arfordir lle gall cyfleoedd am gyflogaeth fod yn gyfyngedig. Mae gwerth economaidd a chymdeithasol y sector yn cynnwys mwy na gwerth pysgod a chynhyrchion pysgodfeydd wrth eu gwerthu am y tro cyntaf; mae cysylltiadau rhyngddo hefyd a diwylliant a threftadaeth sydd yn aml yn cyfoethogi hunaniaeth lleoliadau ar yr arfordir. Mae pysgod a physgod cregyn yn ffynhonnell protein bwysig, felly mae argaeledd y rhain yn gallu cyfrannu at greu Cymru iachach ac at ddiogelu ffynonellau bwyd.



Darparwyd y llun gan: Pysgod Cymru

397. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynllunio'n gadarnhaol i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r sector pysgota. O ganlyniad, mae'r Cynllun yn cydnabod y dylid cefnogi cyfleoedd i arallgyfeirio a/neu gynyddu gwerth gweithgareddau a dalfeydd presennol a rhoddir anogaeth i gynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn wynebu heriau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

Polisi Cefnogi'r Sector

FIS_01: Pysgodfeydd (cefnogi)

FIS_01 a: Bydd cynigion sy'n cefnogi ac yn gwella gweithgareddau pysgota cynaliadwy yn cael eu cefnogi pan fyddant yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r sector y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

FIS_01 b: Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon cysylltiedig eraill, i gydweithio i ddeall cyfleoedd i ddatblygu sail dystiolaeth strategol i wella dealltwriaeth o gyfleoedd ar gyfer datblygu pysgodfeydd mewn modd cynaliadwy er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector pysgodfeydd trwy gynllunio morol.

Nod Polisi Cefnogi'r Sector

398. Mae'r naratif sy'n sail i **Amcan y Sector Pysgodfeydd** yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i gefnogi a diogelu sector pysgota masnachol Cymru trwy nodi a chefnogi cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio cynaliadwy a chyflawni gwerth ychwanegol. Er nad yw'r rhan fwyaf o weithgareddau pysgota yn cael eu rheoleiddio trwy'r system trwyddedu morol, mae **Polisi FIS_01** yn ceisio cefnogi datblygu'r diwydiant pysgota masnachol yn gynaliadwy, gan ar yr un pryd barchu egwyddorion y Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf a lleihau sgil-ddalfeydd ac effeithiau niweidiol ar rywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu. O ganlyniad, dylai awdurdodau cyhoeddus roi ystyriaeth gadarnhaol i unrhyw gyfleoedd i gefnogi'r sector, mewn deialog gyda chynrychiolwyr y sector, lle mae'r rhain yn gyson â Pholisïau Cyffredinol perthnasol a Pholisïau Diogelu'r Cynllun hwn.

399. Yn aml, gwneir defnydd llawn o stociau pysgod asgellog masnachol, fel nad oes fawr o gyfle i ehangu. Oherwydd yr hanes hir o bysgota, mae'n annhebygol y bydd ardaloedd newydd sydd heb eu pysgota yn dod i'r golwg. Wrth flaengynllunio dylid canolbwyntio ar gryfhau economi'r sector. Mae hyn yn dibynnu ar gynyddu gwerth economaidd yr hyn sy'n cael ei ddal yn barod, yn ogystal â datblygu'r sylfaen dystiolaeth (**Polisi FIS_01 b**) i nodi cyfleoedd i bysgota am rywogaethau sydd wedi'u tanddefnyddio mewn ffordd gynaliadwy, lle mae poblogaethau'r pysgod hynny yn ddigon cydnerth i gynnal cynnydd yn y gweithgaredd. Mae hefyd yn bosibl y bydd y sector yn gallu arallgyfeirio; gellir defnyddio cychod pysgota ar gyfer twristiaeth a hamdden, ymchwil a monitro ac i wasanaethu llongau ar rai adegau o'r flwyddyn

400. Wrth chwilio am gyfleoedd i ddatblygu'r sector, dylid canolbwyntio ar wella systemau trafnidiaeth i gadw dalfeydd yn ffres a lleihau gwastraff, ochr yn ochr â mesurau sy'n ychwanegu gwerth yn hytrach na chynyddu dalfeydd. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd o ddefnyddio mecanweithiau presennol e.e. cwmnïau marchnata cydweithredol, yn ogystal â datblygu marchnadoedd newydd i gynhyrchion newydd, mwy o brosesu lleol a gwella cynhyrchion gyda logisteg fwy effeithiol, sydd i gyd yn lleihau costau ac yn gwella proffidioldeb.

401. Mae argaeledd data am weithgareddau pysgota yn nyfroedd y glannau yn ffactor sy'n cyfyngu ar y gallu i ddeall ac ystyried pwysigrwydd gwahanol feysydd pysgota. O ganlyniad, mae **Polisi FIS_01** yn annog y sector i gydweithio ag awdurdodau cyhoeddus perthnasol a phartïon cysylltiedig eraill i bennu meysydd pysgota pwysig fel y gellir eu hystyried mewn ffordd strategol a systematig sy'n cefnogi cydfodolaeth rhwng y sector pysgota a sectorau eraill. Dim ond drwy sicrhau cefnogaeth gan y sector y gellir dilyn y dull seiliedig ar dystiolaeth hwn o weithredu. Ni fydd mapio'r ardaloedd hyn yn golygu y bydd llai o gefnogaeth i'r sector drwy bolisi cynllunio mewn ardaloedd eraill lle mae pysgota'n digwydd,

ond fe ddylai helpu i leihau gwrthdaro a gwella'r cydweddu yn yr ardaloedd sydd o'r pwysigrwydd strategol mwyaf i'r sector.

Nod Polisi Diogelu'r Sector

402. Mae naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector canlynol yn gosod y polisïau diogelu a'r egwyddorion polisi sydd i'w cymhwyso ar gyfer pob cynnig newydd gan bob sector wrth ystyried eu heffaith bosibl ar y sector Pysgodfeydd. Dylai datblygwyr a phenderfynwyr hefyd gymhwyso gofynion y polisi diogelu ar gyfer yr holl sectorau eraill a gwmpesir gan y Cynllun hwn, fel y nodir gan naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector pob sector yn y Cynllun.

403. Mae **Polisi SAF_01 b** yn berthnasol i'r holl gynigion o bob sector (gan gynnwys y cynigion sector Pysgodfeydd newydd) sydd â'r potensial i effeithio ar neu ddisodli gweithgareddau pysgodfeydd sefydledig.

404. Yn unol ag egwyddor cynllunio cadarnhaol, mae **Polisi SAF_01 b** yn ceisio rhoi'r gallu i weithgareddau sefydledig barhau a ffynnu lle bynnag y bo modd. Dylai awdurdodau cyhoeddus hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cydfodoli, lle bynnag y bo modd, rhwng gweithgareddau pysgota sefydledig ac unrhyw gynigion newydd.

405. Mae **Polisi SAF_01 b** yn cydnabod bod llawer o weithgaredd pysgota Cymru yn aml yn lleol iawn ac yn dibynnu ar ardal neu gynefin penodol. Yn wahanol i longau mwy ag offer symudol sy'n pysgota mewn ardaloedd ehangach, nid yw'n hawdd adleoli cychod a llongau yn nyfroedd glannau Cymru i ardaloedd eraill, lle bydd y gofod sydd ar gael a'r cyfleoedd i gael dalfeydd yn debygol o fod yn brin, beth bynnag. Os bydd awdurdodau cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau sy'n golygu bod rhaid symud gweithgareddau, fel bod llongau neu gychod pysgota yn adleoli'n barhaol i ardaloedd eraill, mae adleoli o'r fath yn annhebygol o fod yn ddewis hyfyw i bysgotwyr unigol. Os ceir unrhyw fath o ymyrraeth â gweithgareddau pysgota, hyd yn oed dros dro, gall hynny effeithio ar hyfywedd ariannol busnesau bach mewn lleoliadau penodol.


406. Gellir cael effeithiau cymdeithasol neu economaidd eraill yn sgil adleoli, e.e. bod meysydd newydd yn llai proffidiol i bysgotwyr, neu eu bod yn anaddas i'w pysgota gan rai cychod a/neu nad ydynt yn darparu'r cymysgedd o rywogaethau y mae'r modelau busnes presennol yn dibynnu arnynt. Bydd adleoli hefyd yn gallu rhoi mwy o bwysau ar feysydd eraill lle mae gweithgareddau pysgota yn cael eu crynhoi, fel bod mwy o effaith ar stociau neu fwy o niwed i'r ecosystem.

407. O ganlyniad, mae **Polisi SAF_01 b** yn darparu bod datblygwyr a phenderfynwyr yn rhoi ystyriaeth i'r problemau arbennig fyddai'n wynebu pysgotwyr masnachol Cymru sy'n cael eu hadleoli, yn enwedig y risg o adleoli parhaol.


408. Er mwyn cefnogi gweithgareddau pysgodfeydd, mae'r Cynllun hwn yn cydnabod bod angen cynnal cylchoedd bywyd pysgod a'r ecosystemau y maent yn dibynnu arnynt. Dylai datblygwyr a phenderfynwyr hefyd gyfeirio at **Bolisi Env_07**, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion ystyried effeithiau niweidiol posibl ar ardaloedd bwydo, bridio a mudo a chynefinoedd ar gyfer rhywogaethau masnachol a gwarchodedig allweddol.

409. **Polisi SAF_01 b** a ddefnyddir i ddiogelu gweithgaredd y sector Pysgodfeydd. O ganlyniad, nid yw **Polisïau DEF_01, SAF_01 a** a **SAF_02** yn berthnasol mewn perthynas â diogelu gweithgaredd y sector Pysgodfeydd.

Ffigur 17(a): Pysgod – Gweithgarwch Pysgota - Offer Symudol



Ffigur 17(b): Pysgod – Gweithgarwch Pysgota - Offer statig



Polisi Sector – Porthladdoedd a Morgludo

410. Nid yw polisi'r sector porthladdoedd yn berthnasol i ranbarth môr mawr ardal y Cynllun. Mae polisi'r sector morgludo yn berthnasol i ranbarthau y glannau a rhanbarth y môr mawr yn ardal y Cynllun.

Porthladdoedd a Morgludo

Amcan y Sector

> Diogelu llwybrau morgludo sefydledig a hybu twf cynaliadwy yn y sector porthladdoedd a morgludo.



Amcan y Sector – Cyd-destun a Rhesymeg

411. Mae'r sector porthladdoedd a morgludo yn cynnwys adeiladu, gweithredu a chynnal porthladdoedd, harbyrau a therfynfeydd a marinâu er mwyn cynnal y gweithgareddau masnachol ac ategol sy'n gysylltiedig â morgludo nwyddau a chludo teithwyr ar y môr, a gwaith sy'n gysylltiedig â diwydiannau ynni ar y môr (olew, nwy ac ynni adnewyddadwy).

412. Mae'r MPS yn cydnabod bod porthladdoedd a morgludo yn rhan annatod o economi'r DU, eu bod yn sianel bwysig ar gyfer mewnforion ac allforion y wlad a'u bod yn seilwaith trafnidiaeth allweddol rhwng tir a môr. Mae'r sector yn hanfodol ar gyfer symud nwyddau a phobl yn effeithiol o fewn rhwydweithiau neu gadwynau cyflenwi o fewn y DU a'r economi fyd-eang. Mae'r Cynllun hwn felly yn nodi'r sector Porthladdoedd a Morgludo fel maes blaenoriaeth ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol i Gymru ac yn flaenoriaeth strategol ar gyfer cynllunio morol.

413. Mae amrywiaeth o borthladdoedd mawr a llai ledled Cymru, pob un ohonynt yn chwarae rhan bwysig o ran cludo nwyddau, darparuhybiau logistaidd a gwasanaeth ar gyfer diwydiant, gan fanteisio ar y cyfle twf allweddol a gynigir gan y diwydiant mordeithio a chefnogi gweithgareddau pysgota, twristiaeth a hamdden lleol.


414. Aberdaugleddau yw'r porthladd mwyaf yng Nghymru a'r porthladd swmp hylif mwyaf yn y DU. Mae Caergybi, Abergwaun a Doc Penfro yn darparu cysylltiadau fferi roll-on roll-off (Ro-Ro) allweddol gydag lwerddon ar gyfer y DU gyfan a thir mawr Ewrop ar gyfer cludo teithwyr a nwyddau. Mae Casnewydd, Caerdydd, Port Talbot ac Abertawe yn arbenigo mewn llwythi swmp. Mae porthladdoedd Cymru hefyd eisoes yn chwarae rôl bwysig a chynyddol yn y farchnad fordeithio. Mae'r traffig hwn, ynghyd â thraffig sy'n gysylltiedig ag ynni yn Aberdaugleddau, yn golygu mai'r ardaloedd uchod yw'r dyfroedd prysuraf ar gyfer morgludo yn ardal y Cynllun. Mae enghreifftiau o borthladdoedd llai ond arwyddocaol yng Nghymru yn cynnwys Mostyn, sy'n cynnal gwaith adeiladu a gwasanaethu ar gyfer ynni gwynt ar y môr ac allforio adenydd awyrennau (Airbus), a'r Barri, sy'n cefnogi diwydiannau cemegol lleol. Ceir cyfleusterau porthladd sylweddol hefyd ym Môr Hafren ym Mhorthladd Bryste, gan ychwanegu'n sylweddol at draffig morgludo yn y rhanbarth.

415. Y gweithgarwch morgludo a geir yn ardal y Cynllun yw llongau nwyddau a theithwyr masnachol ar lwybrau mordwyo sefydledig, cychod a llongau llai sy'n mordwyo ardaloedd ehangach a chymhorthion cysylltiedig ar gyfer mordwyo, fel goleudai, bwiau a chyfarpar telathrebu. Mae'r rhain, ynghyd ag ardaloedd fel angorfeydd a mannau byrddio peilot, yn chwarae rhan hanfodol mewn hwyluso symudiadau trafnidiaeth fôr a'u diogelwch. Y ogystal â hyn, mae nifer o lwybrau'r Sefydliad Morol Rhyngwladol (IMO) sy'n gweithredu fel ardaloedd Cynllun Gwahanu Trafnidiaeth (TSS) oddi ar lannau Sir Benfro, gogledd Ynys Môn ac ym Mae Lerpwl. Ceir ardaloedd trafnidiaeth prysurach o gwmpas y mynedfeydd i borthladdoedd ac o gwmpas pentiroedd (e.e. Ynys Môn a Sir Benfro).



Darparwyd y llun gan: Seafish


Yr holl drafnidiaeth cludo nwyddau, fesul porthladd a chyfeiriad, 2017



© Hawlfraint y Goron 2019
Cartograffeg • Llywodraeth • MU/57/18.19
Mai 2019

OGL

Yr holl draffig fesul math o gargo a chyfeiriad, 2017



Ffigur 18: Yr holl draffig fesul math o gargo a chyfeiriad, 2017

416. Mae Llywodraethau Cymru a'r DU am weld datblygu porthladdoedd, harbyrau a marinâu yn ffordd o sbarduno twf economaidd; yn hybu trafnidiaeth gynaliadwy gyda chysylltiadau mwy effeithlon ac yn ategu datblygu cynaliadwy. Bydd darparu digon o gapasiti ar gyfer porthladdoedd a morgludo yn parhau'n hanfodol wrth sicrhau twf economaidd cynaliadwy a bydd cysylltiad cryf o hyd rhwng hynny â chyflwr economi Cymru. Felly mae'r Cynllun hwn yn cydnabod bod potensial gan borthladdoedd yng Nghymru i ehangu ac amrywio eu gweithrediadau, gan chwarae mwy o ran mewn rhwydweithiau nwyddau rhyngfoddol. Mae hefyd yn cydnabod bod gan gynnydd mewn gweithgareddau morgludiant arfordirol y potensial i helpu i wneud y rhwydwaith cludo nwyddau'n fwy cynaliadwy, yn ogystal â gwneud cyfraniad allweddol at hybu twf economaidd a swyddi lleol.

417. Gall buddsoddi mewn porthladdoedd, harbyrau a marinâu wireddu'r potensial i hybu'r economi, yn uniongyrchol drwy wneud mwy o ddefnydd o'r cyfleusterau ac yn anuniongyrchol drwy'r cyfleoedd a geir drwy wella seilwaith trafnidiaeth forol er lles sectorau eraill (yn genedlaethol ac yn rhyngwladol). Bydd hyn yn gallu troi Cymru'n lleoliad deniadol ar gyfer busnesau, ymwelwyr a chludo nwyddau, a chwarae rhan allweddol o ran cynnal swyddi a datblygu economïau cymunedau'r porthladdoedd hynny.

418. Mae gweithgareddau'r sector Porthladdoedd a Morgludo yn cynnal nifer o sectorau eraill ac yn cynnal ac yn dibynnu ar amrywiaeth fawr o weithgareddau a gwasanaethau cysylltiedig, yn cynnwys adeiladu ac atgyweirio llongau, storio a warysau. Mae nifer o borthladdoedd wedi dod yn lleoliad i glystyrau diwydiannol o gwmnïau preifat tra bod y Cynllun hwn yn rhagweld y bydd porthladdoedd yn chwarae rhan gynyddol bwysig wrth gefnogi datblygiad sector ynni adnewyddadwy'r môr.

419. Mae porthladdoedd, harbyrau a marinâu hefyd yn ategu'r diwydiant twristiaeth a hamdden drwy ddarparu cyrchfannau bywiog ar y glannau yn ogystal â glanfeydd ar gyfer llongau fferi teithwyr, llongau mordeithio a gweithredwyr twristiaeth forol eraill ac yn cynnig cyfleusterau i ddefnyddwyr hamdden.

420. Mae Prif Gynlluniau Porthladdoedd yn rhoi golwg strategol i awdurdodau perthnasol ar gyfeiriad posibl datblygu porthladdoedd yn y dyfodol.

421. Mae'r sector porthladdoedd a morgludo yn sensitif i dueddiadau economaidd ac i weithgareddau sectorau eraill; mae amrywiadau o'r fath yn anodd eu rhagweld. Fodd bynnag, mae'r tueddiadau'r presennol yn awgrymu'r canlynol:

- llongau mwy y bydd angen porthladdoedd mwy a sianeli mordwyo dyfnach/lletach ar eu cyfer;
- twf parhaus o 3% i 4% y flwyddyn ar gyfartaledd yn y sectorau cynwysyddion a Ro-Ro;
- cyfleoedd i gynnwys prosesau sy'n ychwanegu gwerth fel gweithgynhyrchu, e.e. cynnal a gwasanaethu datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr, yn enwedig mewn porthladdoedd sy'n agos i ddatblygiadau;
- cynnydd yn y diwydiant llongau mordeithio sy'n cynnig cyfle amlwg i Gymru;
- cyfleoedd i wasanaethu'r diwydiant pysgota a'r diwydiant hamdden môr sy'n tyfu.

Polisi Cefnogi'r Sector

P&S_01: Porthladdoedd a Morgludo (cefnogi)

P&S_01 a: Bydd cynigion ar gyfer porthladdoedd, harbyrau a gweithgareddau morgludo yn cael eu cefnogi lle maent yn cyfrannu at amcanion y Cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r Cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

P&S_01 b: Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon cysylltiedig eraill, i gydweithio i ddeall cyfleoedd i gefnogi twf cynaliadwy'r sector porthladdoedd a morgludo drwy gynllunio morol.

P&S_02: Porthladdoedd a Morgludo (cefnogi)

Bydd cynigion sy'n darparu ar gyfer cynnal, atgyweirio, datblygu ac arallgyfeirio cyfleusterau porthladdoedd a harbyrau yn cael eu cefnogi lle maent yn cyfrannu at amcanion y Cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r Cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

Nod Polisi Cefnogi'r Sector

422. Mae'r naratif sy'n sail i **Amcan y Sector Porthladdoedd a Morgludo** yn nodi casgliadau Llywodraeth Cymru ar bwysigrwydd datblygu a chynnal cyfleusterau pwrpasol a deniadol mewn porthladdoedd, harbyrau a marinâu a fydd yn gallu ateb galwadau yn awr ac yn y dyfodol ar gyfer trafod nwyddau, nwyddau swmpus, teithwyr a gweithgareddau hamdden sy'n mynd i mewn ac allan o'r DU (gan gynnwys mynediad drwy fordwyo).

423. Nod **polisïau P&S_01** a **P&S_02** felly yw cefnogi datblygu cynaliadwy yn seilwaith, gweithrediadau a morgludiant porthladdoedd, harbyrau a marinâu lle mae hyn yn gyson â'r Polisïau Cyffredinol perthnasol a Pholisïau Diogelu'r Cynllun hwn. Mae'r polisïau ategol hyn yn cydnabod y cyfraniad hanfodol i economi Cymru a geir o fasnach ryngwladol a domestig, a rôl strategol porthladdoedd o ran cynnal sectorau morol eraill o bob math.

424. Wrth ddatblygu porthladdoedd, rhaid ymateb i newidiadau yn y galw masnachol. Mae polisïau **P&S_01** a **P&S_02** yn cydnabod bod hyn yn galw am hyblygrwydd er mwyn sicrhau bod capasiti porthladdoedd wedi'i leoli lle mae ei angen er mwyn sicrhau bod gweithrediadau porthladdoedd yn gydnerth a'u bod yn cystadlu'n effeithiol.

425. Nodwyd mai Caergybi, Mostyn, Aberdaugleddau (yn cynnwys Doc Penfro), Port Talbot, Casnewydd ac Abertawe sydd yn y lle gorau i fanteisio ar gyfleoedd cystadleuol am dwf mewn ynni carbon isel ac ynni adnewyddadwy, er nad yw hyn yn golygu na fydd porthladdoedd eraill yn gallu cyflawni rolau penodol. Bydd cyfleusterau i hwyluso ymweliadau gan longau mordeithio yn elfen gynyddol bwysig yng nghapasiti porthladdoedd Cymru ac mae **Polisïau P & S_01** a **P & S_02** yn cydnabod bod buddsoddi yn y dyfodol mewn seilwaith i gefnogi twristiaeth mordeithio yng Nghymru yn bwysig.

426. Wrth benderfynu ar gais i ddatblygu porthladdoedd, dylai'r penderfynydd dderbyn bod yr achos eisoes wedi'i wneud dros gynyddu capasiti'r porthladdoedd er mwyn cwrdd â'r galw yn y dyfodol ac felly gwneud penderfyniadau a fydd yn gyson ag amcanion a pholisi Llywodraeth ar gyfer trafnidiaeth, yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru, CDLlau a CDSau perthnasol a pholisïau'r Cynllun hwn. Lle mae Awdurdod Harbwr Statudol wedi cydweithio â rhanddeiliaid i lunio Prif Gynllun Porthladd neu gynllun datblygu ffurfiol arall, dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried y cynllun datblygu hwnnw a'i ddisgrifiadau o ddatblygu yn y dyfodol fel ystyriaeth berthnasol er mwyn dangos y gefnogaeth i'r prosiect a'r angen amdano ar lefel leol.

427. Mae gan y rhan fwyaf o borthladdoedd, harbyrau a marinâu ddaliadau tir sylweddol ac mae'r system gynllunio ar dir yn allweddol ar gyfer eu datblygu yn y dyfodol. Bydd cydgysylltu rhwng cynllunio ar dir ac ar fôr yn bwysig er mwyn cynnal a hwyluso twf busnes mewn porthladdoedd, harbyrau a marinâu a mentrau cysylltiedig. Mae PPC yn ategu'r polisïau yn y Cynllun hwn, gan ei wneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio yn cynllunio'n gadarnhaol i hyrwyddo'r defnydd o borthladdoedd drwy ddiogelu neu ddarparu mynediad iddynt a thrwy gadw neu ddarparu cyfleusterau priodol.

428. Mae **Polisi P & S_01 b** yn annog datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol, ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill fel sefydliadau ymchwil a chyrff diwydiant, i ddatblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd i ymdrin â bylchau allweddol mewn tystiolaeth a chael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy'r sector.

429. Wrth baratoi cynigion sy'n gysylltiedig â Phorthladdoedd a Morgludo, dylai datblygwyr ddefnyddio Polisïau Cyffredinol a Diogelu'r Cynllun hwn mewn perthynas â'r holl sectorau a gwmpesir gan y Cynllun. Dylai datblygwyr gyfeirio at bob un o benodau'r sectorau i gael rhagor o wybodaeth am y Polisi Diogelu mewn perthynas â diogelu buddiannau'r sector hwnnw.

Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP):

430. Bydd ceisiadau ar gyfer datblygiadau porthladdoedd o ran NSIP newydd yn cael eu hystyried gan ddefnyddio'r meini prawf ar angen, buddion ac effeithiau cenedlaethol fel y nodir yn yr NPS perthnasol. Ar gyfer datblygiadau porthladd, bydd hyn yn cynnwys NPS perthnasol ar gyfer Porthladdoedd, sy'n pennu polisi cenedlaethol a ddefnyddir i asesu ac ystyried cynigion ar gyfer datblygiadau porthladd mawr newydd.

431. Gallai NSIPs datblygu porthladdoedd fod â goblygiadau helaeth ar gyfer yr adnoddau naturiol a'r gweithgareddau sy'n digwydd yn ardal y Cynllun. Wrth wneud penderfyniadau ar NSIPs, rhaid i'r awdurdod cyhoeddus perthnasol ystyried y Cynllun hwn.

432. Wrth benderfynu ar unrhyw gynnig ar gyfer NSIPs, byddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl i waddol prosiectau ar gyfer cymunedau arfordirol fod yn ystyriaeth bwysig a disgwylir i gynigion o'r fath ddefnyddio'r egwyddorion polisi a nodir yn yr adran ar NSIPs yn y Cyflwyniad i'r Cynllun hwn.

Nod Polisi Diogelu'r Sector

433. Mae naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector canlynol yn nodi'r polisïau diogelu a'r egwyddorion polisi sydd i'w dilyn ar gyfer pob cynnig newydd gan bob sector wrth ystyried eu heffaith bosibl ar y sector Porthladdoedd a Morgludo. Dylai datblygwyr a phenderfynwyr hefyd weithredu gofynion y polisi diogelu ar gyfer yr holl sectorau eraill a gwmpesir gan y Cynllun hwn, fel y nodir gan naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector pob sector yn y Cynllun.

434. Mae **Polisi SAF_01** yn berthnasol i bob cynnig gan bob sector (gan gynnwys cynigion y sector Porthladdoedd a Morgludo newydd) gyda'r potensial i effeithio ar borthladdoedd, harbyrau a marinâu presennol, gan gynnwys llwybrau mordwyo o fewn ffiniau porthladdoedd, harbyrau a marinâu.


435. Mae **Polisi SAF_01 b** yn berthnasol i bob cynnig gan bob sector (gan gynnwys cynigion y sector Porthladdoedd a Llongau newydd) gyda'r potensial i effeithio ar lwybrau mordwyo masnachol sefydledig, mannau byrddio peilot ac angorfeydd masnachol y tu allan i ffiniau presennol porthladdoedd, harbyrau a marinâu.

436. Mae'r polisi diogelu hwn yn ceisio lleihau effeithiau negyddol ar weithgareddau morgludo, sicrhau rhyddid mordwyo a diogelwch mordwyol a ddarperir o dan gyfraith ryngwladol, a diogelu effeithlonrwydd a chydnerthedd gweithrediadau parhaus mewn porthladdoedd, yn cynnwys eu buddiannau economaidd. Mae'n gwneud hyn drwy sicrhau bod y datblygiadau neu weithgareddau eraill a all gyfyngu ar borthladdoedd a morgludo, yn nhermau eu gweithrediadau presennol parhaus ac ymateb i gyfleoedd ehangu yn y dyfodol, yn cael eu hystyried a'u trafod wrth wneud penderfyniadau. Mae'r polisi hefyd yn cydnabod y potensial sylweddol ar gyfer cydleoli gweithgareddau cydnaws gyda phorthladdoedd a morgludiant. Dylid osgoi adleoli morgludiant lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

437. Ni ddylai awdurdodau cyhoeddus roi caniatâd oni bai eu bod wedi'u bodloni na fydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch mordwyol neu'n cael effaith annerbyniol ar weithgareddau morgludo a rhyddid mordwyo a'i fod yn cydymffurfio â chyfraith fôr genedlaethol a rhyngwladol.

438. Polisïau **SAF_01 a SAF_01 b** sy'n diogelu gweithgarwch y sector Porthladdoedd a Morgludo. Felly, nid yw **Polisïau DEF_01** ac **SAF_02** yn berthnasol mewn perthynas â diogelu gweithgarwch y Porthladdoedd a Morgludo.

Ffigur 19: Porthladdoedd a Morgludo



Polisi Sector – Ceblau o dan y môr

439. Mae polisi'r sector ceblau o dan y môr yn gymwys i ranbarth y glannau a'r rhanbarth môr mawr yn ardal y Cynllun.

Ceblau o dan y môr

Amcan y Sector

> Helpu i ddosbarthu trydan yn y ffordd orau bosibl ac i sicrhau gwell cyfathrebu rhyngwladol drwy dyfu rhwydweithiau cyfathrebu digidol.



Amcan y Sector – Cyd-destun a Rhesymeg

440. Yn y Cynllun hwn mae'r sector Ceblau o dan y môr yn cynnwys gosod, cynnal a datgomisiynu ceblau telathrebu a throsglwyddo trydan (pŵer).

441. Mae'r MPS yn nodi bod ceblau tanfor yn '*part of the backbone of the world's power, information and international telecommunications infrastructure and socially and economically crucial to the UK. Submarine telecommunication cables carry over 97% of the world's international traffic including telephone, internet and data, as well as many services for the UK's local communities, major utilities and industries. The transatlantic cables landing in the UK carry more than 70% of Europe's transatlantic internet traffic.*'[58]

442. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod mynediad eang at seilwaith telathrebu diogel a fforddiadwy yn bwysig i gymdeithas a bod cysylltedd telathrebu rhyngwladol yn dibynnu'n gyfan gwbl bron ar y rhwydweithiau o dan y môr yn nyfroedd y DU, sydd felly'n seilwaith hanfodol a strategol bwysig. Er bod nifer y ceblau telathrebu o dan y môr yn ardal y Cynllun yn gymharol fach ar hyn o bryd, disgwylir y bydd y nifer yn cynyddu er mwyn diwallu'r angen am dwf mewn trosglwyddo data. Cafwyd buddsoddi sylweddol yn ddiweddar i sicrhau coridor ffeibr optig sy'n cysylltu Dulyn â Chaergybi ac yn ymestyn i'r DU ac Ewrop. Fodd bynnag, os bydd y rhagolwg o'r cynnydd am gapasiti a lled band ar gyfer y rhyngrwyd yn parhau i gynyddu, mae'n bosibl y bydd angen ceblau ychwanegol.

443. Mae'r Cynllun hwn hefyd yn cydnabod, er mwyn cyflawni targedau ar ynni, bod gofyn cael seilwaith digonol i drosglwyddo trydan o gyfleusterau alltraeth a rhannu ynni rhwng gwledydd er mwyn hwyluso gwell llinellau amser ar gyfer y cyflenwad a'r galw. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â darparwyr cysylltedd rhyngwladol i amrywio ffynonellau'r cyflenwad trydan a lleihau gwahaniaethau rhwng y cyflenwad a'r galw, yn enwedig yr hyn sydd wedi'i achosi gan amrywiadau yn y cyflenwadau o ynni adnewyddadwy. Mae nifer y rhyng-gysylltwyr a chyfanswm capasiti'r rhyng-gysylltwyr yn y DU hefyd yn debygol o gynyddu yn ardal y Cynllun dros amser.

444. Felly mae'r Cynllun hwn yn cefnogi datblygu seilwaith telathrebu band eang uwch ledled Cymru ac yn hyrwyddo dull integredig o ddarparu ac adnewyddu seilwaith ynni a thelathrebu.

Polisi Cefnogi'r Sector

CAB_01: Ceblau o dan y môr (cefnogi)

Bydd cynigion sy'n hwyluso twf rhwydweithiau cyfathrebu digidol a/neu'r ffyrdd gorau posibl o ddosbarthu trydan yn cael eu cefnogi pan fyddant yn cyfrannu at amcanion y Cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r Cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

58 MPS Pennod 3, Adran 3.7.1.



Nod Polisi Cefnogi'r Sector

445. Mae'r naratif sy'n sail i **Amcan y Sector Ceblau o dan y môr** yn nodi casgliad Llywodraeth Cymru, sef, bod nifer y ceblau yn ardal y Cynllun yn debygol o gynyddu gan fod nifer cynyddol o fusnesau'n dibynnu ar y gallu i gael cysylltedd rhyngwladol er mwyn gweithredu a chan fod y duedd at e-fasnach yn parhau i gynyddu. Mae ceblau rhyng-gysylltu a cheblau pŵer trydan yn hanfodol ar gyfer darparu ynni adnewyddadwy ar y glannau ac ar y môr yn llwyddiannus.

446. Mae **Polisi CAB_01** felly'n cydnabod ei bod hi'n bwysig bod awdurdodau perthnasol yn darparu ar gyfer ehangu amserol a chymorth i'r sector telathrebu (yn cynnwys ceblau o dan y môr). Mae'r polisi'n ceisio galluogi dull o weithredu a fydd yn darparu'r cysylltiadau mwyaf effeithlon trwy ddatblygu gridiau ar sail cynllun gan ystyried ffactorau amgylcheddol ac economaidd defnyddwyr eraill.

447. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol alluogi'r twf sydd ei angen o ran ceblau telathrebu a throsglwyddo trydan er mwyn cyflawni amcanion polisi, lle mae hyn yn gyson â Pholisïau Cyffredinol a Pholisïau Diogelu'r Cynllun hwn. Dylid cefnogi arfer y sector o wahanu llwybrau ceblau er mwyn lleihau'r perygl o fethiant, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

448. Gall y sector ceblau o dan y môr leihau'r posibilrwydd o wrthdaro, a chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer cydleoli a chydfodoli, drwy gladdu ceblau. Fodd bynnag, dylai natur y gweithgarwch uwchben y ceblau sydd wedi'u claddu gael ei hystyried yn unol ag arferion morol darbodus a chyfraith genedlaethol a rhyngwladol. Dylid ffafrio'r dull hwn o osod ceblau lle mae posibilrwydd y gallai gweithgareddau eraill gael effaith arwyddocaol a lle mae'r amodau ar wely'r môr yn addas. Lle nad yw claddu'n bosibl neu'n ddymunol, gall mesurau diogelu eraill fod yn briodol (yn unol â gofynion mewn rheoliadau ac arferion da y diwydiant).

449. Mae glanfeydd a'r mynediad atynt yn fater allweddol i'r sector ceblau o dan y môr. Wrth ddewis lleoliadau ar gyfer glanfeydd ceblau pŵer a thelathrebu, dylai datblygwyr ac awdurdodau perthnasol ystyried defnyddio glanfa gyfredol (lle bo'n briodol) a sicrhau bod unrhyw gynigion yn gyson â pholisïau cynllunio ar dir (a pholisïau'r Cynllun hwn) er mwyn cadarnhau eu bod yn cydweddu ag adnoddau naturiol a mathau o ddefnydd presennol neu arfaethedig, e.e. mesurau i amddiffyn rhag llifogydd a diogelu'r arfordir.

450. Mae rhagdybiaeth gyffredinol y dylai pob seilwaith nas defnyddir gael ei dynnu a'i gludo i'r tir wedyn i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu, ei losgi gan adennill ynni ohono neu ei waredu ar safle trwyddedig. Dim ond os oes rhesymau da iawn yr ystyrir eithrio o'r gofyniad cyffredinol hwn. Er enghraifft, os yw ceblau'n aros wedi'u claddu ar ddyfnder diogel o dan wely'r môr, mae'n bosibl y bydd lle i ddadlau o blaid eu gadael yn eu lle; bydd effeithiau amgylcheddol a'r costau ariannol am eu tynnu yn ystyriaethau allweddol.

451. Anogir datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol, ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill fel sefydliadau ymchwil a chyrff diwydiant, i ddatblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd i ymdrin â bylchau allweddol mewn tystiolaeth a chael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy'r sector.

452. Wrth baratoi cynigion sy'n gysylltiedig â cheblau o dan y môr, dylai datblygwyr gymhwyso'r Polisïau Cyffredinol a Diogelu'r Cynllun hwn mewn perthynas â'r holl sectorau a gwmpesir gan y Cynllun. Dylai datblygwyr gyfeirio at bob un o benodau'r sectorau i gael rhagor o wybodaeth am y Polisi Diogelu mewn perthynas â diogelu buddiannau'r sector hwnnw.

Nod Polisi Diogelu'r Sector

453. Mae naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector canlynol yn nodi'r polisïau diogelu a'r egwyddorion polisi sydd i'w dilyn ar gyfer pob cynnig newydd gan bob sector wrth ystyried eu heffaith bosibl ar y sector Ceblau o dan y môr. Dylai datblygwyr a phenderfynwyr hefyd weithredu gofynion y polisi diogelu ar gyfer yr holl sectorau eraill a gwmpesir gan y Cynllun hwn, fel y nodir gan naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector pob sector yn y Cynllun.


454. Mae **Polisi SAF_01** yn berthnasol i bob cynnig gan bob sector (gan gynnwys cynigion newydd gan y sector Ceblau o dan y môr) a allai effeithio ar geblau presennol ac arfaethedig o dan y môr a'u glanfeydd lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad neu les. Mae'n gymwys i lanfeydd a llwybrau ceblau o fewn rhanbarth y glannau a'r rhanbarth môr mawr yn ardal y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys llwybrau ceblau sy'n mynd trwy ardal y Cynllun ond sy'n glanio mewn ardaloedd cynlluniau morol cyfagos.

455. Mae'r polisi hwn yn cydnabod y pwysigrwydd o ddiogelu ceblau o dan y môr, eu glanfeydd, a'r seilwaith cysylltiedig ar dir y bydd yr awdurdod lleol yn rhoi caniatâd cynllunio ar ei gyfer. Mae datblygiad newydd mewn sectorau eraill (er enghraifft, cystadlu am ofod â phiblinellau olew a nwy, y diwydiant agregau, pysgota a morgludo), yn ogystal â chystadlu o fewn y diwydiant ceblau, yn creu mwy o berygl posibl o ddifrod i geblau o dan y môr o bob math. Gall rhyngweithio ffisegol achosi difrod i'r cebl a/neu'r mecanwaith cysylltu gan beri colled economaidd i weithredwyr y ddau weithgarwch, a gallu beryglu diogelwch pobl. Mae gwaith i atgyweirio difrod i geblau yn ddrud a gall ymyrryd yn sylweddol â gweithgareddau dosbarthu pŵer a thelathrebu.

456. Mae dull cynlluniedig o weithredu ar y cyd yn hyrwyddo cydfodolaeth ac yn lleihau risg. Yn aml, bydd hyblygrwydd wrth bennu llwybr y cebl yn ddigon i ddelio â rhyngweithio niweidiol posibl. Drwy'r broses cynllunio morol a thrwy ddarparu gwybodaeth gywir am leoliad ceblau o dan y môr, dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol helpu i hwyluso'r gwaith o gydgysylltu gweithgareddau morol, gwella dealltwriaeth ymysg diwydiannau perthnasol a rhoi gwybod am ganllawiau er mwyn sicrhau diogelwch y gweithfeydd hyn a mynediad diogel atynt ar gyfer cyflawni gwaith cynnal.

457. **Polisïau SAF_01 a SAF_01 b** sy'n diogelu gweithgarwch y sector Ceblau o dan y môr. Felly, nid yw Polisïau **DEF_01** ac **SAF_02** yn berthnasol mewn perthynas â diogelu gweithgarwch y sector Ceblau o dan y môr.

Ffigur 20: Ceblau tanfor



Polisi Sector – Trin a Gwaredu Dŵr Wyneb a Dŵr Gwastraff

458. Nid yw polisi sector Trin a Gwaredu Dŵr Wyneb a Dŵr Gwastraff yn berthnasol i ranbarth môr mawr ardal y Cynllun.

Trin a Gwaredu Dŵr Wyneb a Dŵr Gwastraff (SWW)

Amcan y Sector

> Diogelu'r gallu i drin a gollwng dŵr ffo wyneb a dŵr gwastraff yn ddiogel ac yn effeithiol.



Amcan y Sector – Cyd-destun a Rhesymeg

459. Mae rheoli dŵr ffo wyneb a dŵr gwastraff yn cynnwys ei gasglu, ei gludo, ei drin a'i waredu. Mae'n cwmpasu carthffosydd, gweithfeydd trin carthion, elifion diwydiannol a gorlifoedd carthffosiaeth cyfunol.

460. Mae'r MPS yn datgan bod y DU yn ceisio cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys iechyd a llesiant y gymuned a diogelu'r amgylchedd, drwy gynnal a datblygu polisi a system rheoleiddio sy'n darparu dulliau o reoli a thrin dŵr wyneb a dŵr gwastraff sy'n fodern ac o ansawdd da.

461. Mae'r Cynllun hwn felly yn cydnabod bod darparu seilwaith (trwy gynllunio ar dir a môr) ar gyfer casglu, trin a gwaredu dŵr gwastraff, a'i reoli a'i gynnal yn effeithiol, yn weithgareddau allweddol. Mae gweithrediadau'r sector SWW yn ymwneud yn agos â, ac yn hanfodol i, sectorau eraill sy'n dibynnu ar gyrff dŵr arfordirol ac aberol glân ac iach i gynnal eu gweithgareddau eu hunain. Yn benodol, mae rheoli dŵr ffo wyneb a dŵr gwastraff, ac amlder gorlifoedd sy'n arwain at ryddhau dŵr gwastraff sydd heb ei drin, yn bwysig o ran pennu ansawdd dŵr a chadw ein hadnoddau naturiol mewn cyflwr iach.

462. Mae'n bosibl y bydd y galw am reoli dŵr gwastraff a'r heriau sy'n codi o hynny yn cynyddu yn y dyfodol o ganlyniad i'r canlynol:

- twf mewn poblogaeth yn rhoi pwysau ar y rhwydwaith carthffosydd a dulliau o drin dŵr gwastraff ar gyfer ei waredu;
- cynnydd mewn twristiaeth a hamdden yn creu mwy o alw tymhorol ar y rhwydwaith carthffosydd a dulliau o drin a gwaredu dŵr gwastraff;
- ymlediad trefol yn cynyddu'r gyfran o'r dalgylch sy'n anhydraidd gan arwain at fwy o lifau mawr o ddŵr ffo;
- y perygl o fwy o lygredd gwasgaredig mewn ardaloedd trefol a gwledig i ddalgylchoedd ehangach;
- effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

463. Gellir ystyried defnyddio systemau dyframaethu amldroffig integredig yn y dyfodol fel modd i reoli lefelau maethynnau yn nyfroedd y glannau. Yn y systemau hyn, defnyddir llifau maethynnau cyfun i feithrin nifer o organeddau ar wahanol lefelau.

464. Bydd systemau trin dŵr yn cael eu datblygu'n bennaf er mwyn ymateb i anghenion rheoleiddio (e.e. Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003, newidiadau mewn safonau ansawdd dŵr, ystyriaethau o ran iechyd cyhoeddus) ac i ffactorau ar y tir yn bennaf fel newidiadau yn niferoedd neu ddosbarthiad pobl, neu lifau cynyddol yn y rhwydwaith (e.e. oherwydd cynnydd mewn dŵr wyneb ffo, neu gynnwys gollyngiadau, neu gyfansoddion cemegol newydd). Mae rhan helaeth o seilwaith y sector SWW wedi bod yn ei le ers oes Fictoria.



465. Mae'r Cynllun hwn yn cydnabod y bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â'r sector SWW yn cael eu gwneud drwy gynllunio ar dir, er y bydd gofyn i unrhyw seilwaith yn ardal y Cynllun gael trwydded forol. Mae goblygiadau clir yn y dull o reoli'r sector i'r amgylchedd morol a defnyddwyr y môr, ac mae prosesau a gweithgareddau morol yn gallu effeithio ar ollyngfeydd dŵr gwastraff. Felly mae'n bwysig bod cynllunwyr tir a môr yn cydweithio'n agos i sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar y sector SWW a bod unrhyw benderfyniadau cynllunio ar y tir a allai effeithio ar yr amgylchedd morol a defnyddwyr y môr yn ystyried polisïau'r Cynllun hwn.

466. Mae lleoliad a dyluniad seilwaith trin dŵr gwastraff yn adlewyrchu gallu'r amgylchedd i wasgaru neu wanedu, argaeledd tir addas a chanlyniadau o'r system cynllunio ar dir. I'r graddau hynny, mae'r opsiynau o ran cynllunio morol yn gyfyngedig, gan fod angen cydnabod nodweddion y sector SWW a diogelu ei allu i weithredu'n effeithiol drwy ystyried sectorau eraill. O dan yr amgylchiadau hyn, anodd yw rhagweld ym mha ardaloedd y ceir datblygu yn y dyfodol a rhaid cynllunio ar gyfer y sector mewn ffordd ymatebol gan mwyaf.

Nod Polisi Diogelu'r Sector


467. Mae naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector canlynol yn gosod y polisïau diogelu a'r egwyddorion polisi sydd i'w cymhwyso ar gyfer pob cynnig newydd gan bob sector wrth ystyried ei effaith bosibl ar y sector trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff. Dylai datblygwyr a phenderfynwyr hefyd gymhwyso gofynion y polisi diogelu ar gyfer yr holl sectorau eraill sy'n dod o dan y Cynllun hwn, fel y nodir gan y naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector ym mhob sector yn y Cynllun.

468. Mae'r Cynllun hwn yn cydnabod bod dulliau effeithiol o reoli dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff yn dod â buddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y dylid eu diogelu drwy amddiffyn y sector SWW rhag effeithiau niweidiol oddi wrth ddefnyddwyr eraill yr amgylchedd morol.

469. Mae **Polisi SAF_01** felly yn berthnasol i bob cynnig gan bob sector (gan gynnwys cynigion newydd gan y sector SWW) a allai effeithio ar weithgareddau presennol neu arfaethedig ar gyfer trin a gwaredu dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad neu les. Mae'r polisi hwn yn cydnabod pwysigrwydd cael seilwaith dŵr gwastraff a'r gwaith a'r buddsoddiad sydd eu hangen i ddatblygu safleoedd priodol.

470. **Polisi SAF_01 a** yw'r modd o ddiogelu gweithgarwch y sector SWW. Felly, nid yw **Polisïau DEF_01, SAF_01 b** ac **SAF_02** yn gymwys mewn perthynas â diogelu gweithgarwch y sector SWW.

Ffigur 21: Dŵr wyneb a gwastraff



Polisi Sector – Twristiaeth a Hamdden

471. Mae polisi'r sector Twristiaeth a Hamdden yn berthnasol i ranbarthau y glannau a rhanbarth y môr mawr yn ardal y Cynllun.

Twristiaeth a Hamdden

Amcan y Sector

> Cyfrannu at dwf cynaliadwy drwy ddiogelu a hyrwyddo mynediad i'r arfordir a gwella ansawdd profiad yr ymwelydd gan ledaenu'r enw da sydd gan Gymru fel cyrchfan cynaliadwy o'r radd flaenaf ar gyfer twristiaeth a hamdden morol.

Amcan y Sector – Cyd-destun a Rhesymeg

472. Yn y Cynllun hwn, mae hamdden yn golygu gweithgareddau hamdden yn ystod amser rhydd yn yr amgylchedd lleol yn bennaf. Mae twristiaeth yn golygu gweithgareddau, gwasanaethau a seilwaith sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr a phobl ar wyliau. Gall gweithgareddau twristiaeth fod yn rhai sy'n ymwneud â hamdden hefyd.

473. Mae gweithgareddau twristiaeth a hamdden yn ardal y Cynllun yn elwa o'r amgylchedd naturiol amrywiol o ansawdd uchel a nodweddion diwylliannol unigryw arfordir Cymru. Mae 70% o'r morlin wedi'i ddynodi ar sail ei ansawdd amgylcheddol ac, yn y blynyddoedd diwethaf mae rhai gweithgareddau fel gwylio bywyd gwyllt ac ymweld â thraethau wedi cynyddu'n sylweddol[59], a hynny'n pwysleisio'r pwysigrwydd o gael amgylchedd morol iach a chydnerth i hybu twf ychwanegol yn y sector hwn. Mae gan gyfran uchel o draethau trefi gwyliau statws Gwobr y Faner Las a Resort Seaside tra bod sefydlu Llwybr Arfordir Cymru, yn ogystal â llwybrau beicio a marchogaeth gwledig, wedi bod o gymorth i gynnal a datblygu gweithgareddau twristiaeth a hamdden presennol.

474. Mae'r MPS yn cydnabod bod twristiaeth a hamdden yn chwarae rhan bwysig yn yr economi genedlaethol. Yn y cyfamser, mae'r Cynllun hwn yn cydnabod bod twristiaeth a hamdden yn bwysig i economi Cymru ac yn hanfodol i economi nifer o'n hardaloedd arfordirol; mae ychydig llai na hanner y swyddi amser llawn sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd morol ac arfordirol yn rhai mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth[60]. Mae economi'r môr a'r glannau yng Ngogledd Cymru wedi'i seilio'n bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, ar dwristiaeth; yng Ngorllewin Cymru, mae mwy nag un rhan o dair o'r gyflogaeth uniongyrchol ar y môr a'r glannau yn ymwneud â thwristiaeth ac yn ne-ddwyrain Cymru mae mwy na hanner y swyddi a gynhelir yn uniongyrchol gan sector y môr a'r glannau yn gysylltiedig â thwristiaeth.

475. Yn aml, bydd twristiaeth yn gyfrwng i hybu gweithgareddau economaidd ac adfywio lleol ehangach. Mae gwariant gan ymwelwyr yn gallu helpu i gynnal gwasanaethau lleol, siopau ac amwynderau cymunedol na fyddent yn hyfyw fel arall gan wella ansawdd bywyd a chreu cyfleoedd mwy amrywiol ar gyfer pob sector yn y gymuned. Gall y diwydiant twristiaeth ddarparu swyddi lefel mynediad ac mae'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth i bobl economaidd anweithgar ac eraill sy'n ailddechrau gweithio. Mae mentrau yn y gymuned sy'n hybu twristiaeth hefyd yn gallu bod yn bwynt mynediad i bobl i'r gweithlu cyflogedig.

476. Ochr yn ochr â buddion economaidd, mae mwynhad o hamdden yn hanfodol i les, iechyd, datblygiad ac ansawdd bywyd pobl. Felly mae'r ardal forol yn chwarae rhan allweddol mewn hybu llesiant ac felly mae'n bwysig ystyried yr effeithiau ehangach hyn yn ogystal â'r sbardunau economaidd amlwg ar gyfer hybu twristiaeth a hamdden wrth wneud penderfyniadau.

59 Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, CNC, 2015.
60 Partneriaeth Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd, 2006.



Darparwyd y llun gan Croeso Cymru (c) hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

477. Mae'r Cynllun hwn yn nodi bod y sector twristiaeth a hamdden, ac amrywio'r arlwy twristiaeth, yn cynnig potensial datblygu sylweddol ac yn ystyried bod y sector yn flaenoriaeth strategol ar gyfer cynllunio morol. Yn benodol, mae'r Cynllun yn nodi cyfleoedd a chapasiti o gwmpas Cymru i ddatblygu a manteisio ar gyfleoedd o bob math ar gyfer twristiaeth a hamdden ar y môr ac ar y glannau, yn enwedig cyfleoedd hamdden o werth uchel drwy'r flwyddyn ac ym mhob tywydd. Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod bod cyfle sylweddol i'w gael i gynyddu nifer a gwerth yr ymweliadau gan longau mordeithio â Chymru ac yn cydnabod pwysigrwydd gweithgareddau genweirio hamdden a chychod hamdden.

478. Mae sawl math o ddatblygu yn yr ardal forol yn gallu cynnal twf ychwanegol mewn cysylltiad â thwristiaeth a hamdden neu wella gweithgareddau sydd wedi'u sefydlu eisoes a hybu proffidioldeb drwy wella, ehangu ac amrywio'r arlwy twristiaeth. Er enghraifft, gellir ffurfio cysylltiadau cadarnhaol rhwng twristiaeth a darparu bwyd môr yng Nghymru, neu rhwng genweirio môr hamdden ac iechyd stociau pysgod[61]. Gall cyfleoedd godi i seilio rhagor o weithgareddau cynaliadwy mewn twristiaeth arfordirol ar adnoddau morol, bywyd gwyllt a morweddau o arwyddocâd rhyngwladol yn nyfroedd Cymru. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gydleoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac ystod eang o weithgareddau hamdden, os cânt eu rheoli'n ofalus.

479. Mae llawer o'r gweithgaredd twristiaeth a hamdden sy'n digwydd yn ardal y Cynllun yn cael ei gynnal ar y draethlin neu o fewn tair milltir fôr o'r arfordir. Felly, mae integreiddio priodol rhwng cynllunio morol a thirol yn allweddol i gefnogi datblygiad cyfleusterau ar y tir sy'n hanfodol i hamdden morol, gan gynnwys toiledau, meysydd parcio a chysylltiadau trafnidiaeth.

Polisi Cefnogi'r Sector

T&R_01: Twristiaeth a hamdden (cefnogi)

T&R_01 a: Bydd cynigion sy'n dangos cyfraniad cadarnhaol at gyfleoedd twristiaeth ac adloniant ac amcanion polisi (ar gyfer y sector) o amgylch arfordir Cymru yn cael eu cefnogi lle maent yn cyfrannu at amcanion y Cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r Cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

T&R_01 b: Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon cysylltiedig eraill, i gydweithio i ddeall cyfleoedd ar gyfer twristiaeth a hamdden cynaliadwy o amgylch arfordir Cymru, gan gynnwys:

a. datblygu sylfaen dystiolaeth strategol i wella dealltwriaeth o weithgareddau twristiaeth a hamdden cyfredol a phosibl, gan gynnwys eco-dwristiaeth a gweithgareddau eraill sydd ag effaith isel;

b. cyfleoedd i ddiffinio ardaloedd o gyfle yn y dyfodol ar gyfer twristiaeth a hamdden;

er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector twristiaeth a hamdden trwy gynllunio morol.

Nod Polisi Cefnogi'r Sector

480. Mae'r naratif sy'n sail i **Amcan y Sector Twristiaeth a Hamdden** yn nodi arwyddocâd y sector hwn i gymunedau arfordirol Cymru a'u heconomïau, ynghyd â chasgliad Llywodraeth Cymru bod potensial sylweddol i gefnogi hwb cynaliadwy pellach i gyfleoedd twristiaeth a hamdden, gyda ffocws penodol ar gyfleoedd gwerth uwch, drwy gydol y flwyddyn a phob tywydd a'r potensial a gynigir gan y farchnad fordeithiau. Mae **Polisi T & R_01** felly yn ceisio cefnogi cynigion a all wneud cyfraniad cadarnhaol at y potensial ar gyfer datblygu'r sector mewn ffordd gynaliadwy a gwneud y gorau ohono.

481. Dylid rhoi cefnogaeth gadarn i gamau sy'n helpu i hyrwyddo mynediad diogel i'n moroedd a'n glannau ac i'r buddion y mae ein moroedd a'n glannau yn eu darparu i gymunedau lleol ac i ymwelwyr, lle maent yn gyson â Pholisïau Cyffredinol perthnasol a'r

61 **www.cefas.co.uk/cefas-data-hub/dois/sea-angling-2012-economic-value-and-social-benefits-of-angling/.**

Polisïau Diogelu yn y Cynllun hwn. Dylai penderfynwyr ystyried unrhyw effeithiau niweidiol y gallai cynnig eu cael ar weithgarwch mewn ardaloedd cynlluniau morol cyfagos ac, yn unol â **Pholisi Gov_02**, ystyried unrhyw bolisi cymwys mewn unrhyw ardal cynllun morol cyfagos.

482. Mae'r diwydiant ymwelwyr mewn lle da i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth pwysig ledled Cymru, hyd yn oed yn y rhanbarthau mwyaf ymylol a thenau eu poblogaeth. Cefnogir mentrau sy'n cynyddu proffidioldeb a chynhyrchiant ac yn hybu enillion uwch a swyddi o ansawdd gwell, a mentrau sy'n datblygu cyfleoedd twristiaeth a hamdden gwerth uchel, gydol y flwyddyn ac ym mhob tywydd.

483. Dylai gweithgareddau twristiaeth a hamdden ar y môr a'r glannau fod yn fodd i helpu i hybu economïau'r arfordir a chyfrannu at ansawdd bywyd gwell i gymunedau lleol. Mae'n bwysig bod cynigion yn ceisio cynnal a hyrwyddo amgylchedd o ansawdd da a nodweddion diwylliannol neilltuol. Gall twristiaeth a hamdden fod yn sbardun i gadw a hyrwyddo'r nodweddion hyn.

484. Anogir cyflwyno cynigion sy'n gwella ansawdd profiad yr ymwelydd drwy ehangu amrediad, amrywiaeth ac ansawdd ei brofiadau (atyniadau, hygyrchedd, bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol, cyfleusterau a seilwaith; harddwch, croesogarwch a gwerth am arian). Gellir datblygu ardaloedd sydd heb ddenu llawer o weithgarwch twristiaeth a hamdden yn y gorffennol er mwyn hybu economïau lleol a dylid cefnogi cyfleoedd o'r fath lle maent yn gydnaws â chymeriad yr ardal neu'n cael eu croesawu gan gymunedau lleol.

485. Mae cynigion sy'n cefnogi'r farchnad fordeithiau, yn enwedig drwy alluogi cynnydd yn nifer a gwerth ymweliadau mordeithio i Gymru, yn cael eu hannog yn gryf. Mae cychod hamdden a genweirio hamdden yn weithgareddau pwysig eraill gyda photensial datblygu y dylid eu cefnogi lle bynnag y bo modd.

486. Dylai awdurdodau perthnasol gydweithio ar brosiectau er mwyn sicrhau'r budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mwyaf posibl o weithgareddau twristiaeth a hamdden sy'n gysylltiedig â'r môr. Anogir cyrff diwydiant ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol i nodi a hyrwyddo cyfleoedd i rannu cyfleusterau a seilwaith gyda sectorau eraill.

487. Yn y dyfodol ceir newidiadau na ellir eu rhagweld mewn patrymau tywydd wrth ymateb i newid hinsawdd a fydd yn creu goblygiadau i'r sector, ond credir mai ar ôl cyfnod y Cynllun hwn y bydd y rhain yn codi gan mwyaf. Fodd bynnag, anogir cynigion i gynnwys cydnerthedd newid yn yr hinsawdd yn eu dull.

488. Mae **Polisi T & R_01 b** yn annog mentrau newydd a chydweithio i bennu cyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy mewn gweithgareddau twristiaeth a hamdden ac i gynyddu'r sylfaen dystiolaeth. Gall hyn gynnwys gwaith i bennu lleoliadau posibl ar gyfer gweithgareddau twristiaeth a hamdden; deall marchnadoedd a chyfyngiadau yn well; deall effaith economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol gweithgareddau twristiaeth a hamdden a/neu ddeall ble mae gan y sector bwysigrwydd strategol.

489. Mae llygredd gwasgaredig yn parhau i effeithio ar nifer o draethau yng Nghymru. Bydd y twf parhaus mewn twristiaeth arfordirol yn cynyddu'r pwysau ar yr amgylchedd ac ar gyfleusterau ar y glannau. Bydd yn bwysig deall y graddau y bydd cymunedau'r arfordir ac adnoddau naturiol morol ac arfordirol yn gallu cynnal twf pellach mewn twristiaeth a hamdden er mwyn sicrhau bod y twf yn gynaliadwy. Bydd hefyd yn bwysig rheoli'r effeithiau posibl ar y sectorau twristiaeth a hamdden o dwf mewn sectorau eraill.

490. Wrth baratoi cynigion yn ymwneud â Thwristiaeth a Hamdden, dylai datblygwyr ddefnyddio Polisïau Cyffredinol a Diogelu'r Cynllun hwn mewn perthynas â'r holl sectorau a gwmpesir gan y Cynllun. Dylai datblygwyr gyfeirio at bob un o benodau'r sectorau i gael rhagor o wybodaeth am y Polisi Diogelu mewn perthynas â diogelu buddiannau'r sector hwnnw.

Nod Polisi Diogelu'r Sector

491. Mae naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector canlynol yn nodi'r polisïau diogelu a'r egwyddorion polisi sydd i'w dilyn ar gyfer pob cynnig newydd gan bob sector wrth ystyried eu heffaith bosibl ar y sector Twristiaeth a Hamdden. Dylai datblygwyr a phenderfynwyr hefyd weithredu gofynion y polisi diogelu ar gyfer yr holl sectorau eraill a gwmpesir gan y Cynllun hwn, fel y nodir gan naratif Nod Polisi Diogelu'r Sector pob sector yn y Cynllun.

492. Mae **Polisi SAF_01 b** yn berthnasol i bob cynnig gan bob sector (gan gynnwys cynigion newydd y sector Twristiaeth a Hamdden) gyda'r potensial i effeithio ar weithgareddau twristiaeth a hamdden arfaethedig neu bresennol.

493. Mae'r polisi yn cydnabod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi twf cynaliadwy'r sector Twristiaeth a Hamdden mewn ffordd sy'n manteisio i'r eithaf ar botensial ein glannau a'n moroedd, a thrwy hynny yn gwneud cyfraniad cynyddol at lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.


494. Drwy ddiogelu gweithgarwch presennol a hysbys yn y sector Twristiaeth a Hamdden, mae **Polisi SAF_01 b** felly yn ceisio sicrhau bod cynigion a fyddai'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar amcanion hamdden, chwaraeon a thwristiaeth Llywodraeth Cymru yn destun darpariaethau Polisi Diogelu'r Cynllun hwn.

495. Ymysg y prif atyniadau y mae traethau Cymru, ei bywyd gwyllt, tirweddau arfordirol a morweddau, trefi a phentrefi â chymeriad neilltuol a diwylliant a threftadaeth unigryw[62] [63]. Maent yn cynnwys Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Llwybr Arfordir Cymru, sy'n 870 o filltiroedd o hyd ac yn unigryw drwy'r byd am ei fod yn dilyn morlin y wlad ar ei hyd. Mae llawer o'r gweithgarwch twristiaeth a hamdden yn ardal y Cynllun yn digwydd ar y glannau neu'n agos iddynt, o fewn tair milltir forol i'r arfordir gan amlaf.


496. **Polisi SAF_01 b** sy'n diogelu gweithgarwch y sector Twristiaeth a Hamdden. Felly, nid yw **Polisïau DEF_01** ac **SAF_02** yn berthnasol mewn perthynas â diogelu gweithgarwch y sector Twristiaeth a Hamdden.

62 Croeso Cymru – Arolwg Ymwelwyr Cymru, 2013.
63 WORS, 2011.


Ffigur 22(a): Twristiaeth a Hamdden - Defnydd Tir Arfordirol




Ffigur 22(b): Twristiaeth a Hamdden - Ardaloedd o harddwch naturiol neu fwynhad



Ffigur 22(c): Twristiaeth a Hamdden - Cychod hamdden



Ffigur 22(d): Twristiaeth a Hamdden - Llwybrau beicio a cherdded cenedlaethol a rhanbarthol



Anecs 1 – Ein dull cynllunio morol ar gyfer Cymru


Y Cyd-destun Polisi

497. Mae **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009** (MCAA) yn darparu'r fframwaith ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru a ledled y DU (gweler Atodiad 1). Mae'n gwneud darpariaeth i lunio Datganiad Polisi Morol (MPS) ar gyfer y DU, mae'n pennu Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod cynllunio morol ar gyfer rhanbarthau glannau a môr mawr Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol cynhyrchu cynlluniau morol lle mae MPS yn ei le (gweler Atodiad 2) ac yn nodi gofynion ar gyfer y broses gynllunio, cynnwys y Cynllun, ei roi ar waith, ei fonitro a'i adolygu.

498. Mae Llywodraeth y DU yn cynhyrchu **Datganiadau Polisi Cenedlaethol** (NPS) dan y Ddeddf Gynllunio (2008) sy'n nodi polisi'r Llywodraeth ar ddatblygu seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ar gyfer sectorau penodol (e.e. Ynni; Trafnidiaeth; Dŵr; Dŵr Gwastraff a Gwastraff). Mae NPSs yn darparu'r fframwaith a ddefnyddir gan arolygwyr i gyflwyno'u hargymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Gall Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol fod wedi'u lleoli yn ardal y Cynllun neu effeithio arni; rhaid i benderfyniadau perthnasol ynghylch y prosiectau hyn gael eu gwneud yn unol â'r NPS lle mae un i'w gael, a byddant hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r Cynllun hwn.

499. Ceir synergeddau cryf ar draws gofynion yr ystod eang o offerynnau deddfwriaethol, mesurau eraill ac ymrwymiadau'r UE/ymrwymiadau Rhyngwladol sy'n berthnasol i gynllunio morol. Bydd rhoi'r polisïau yn y Cynllun hwn ar waith yn rhoi cymorth i gyflawni'r offerynnau ehangach hyn. Mae Ffigur 1 yn nodi'r perthnasoedd craidd rhwng polisïau sy'n tanategu cynllunio morol yng Nghymru.

Ffigur 1. Cynllunio morol a'r cyd-destun ehangach o ran polisi cynllunio





Darparwyd y llun gan Croeso Cymru (c) Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

500. Mae ein gweledigaeth ni bod moroedd Cymru'n lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn amrywiol yn fiolegol yn gyson â gweledigaeth gyffredin gweinyddiaethau'r DU (gweler Atodiad 2) a'r weledigaeth yng Nghonfensiwn Oslo-Paris (OSPAR) ar gyfer Rhan Ogledd-ddwyreiniol yr Iwerydd sy'n lân, yn iach ac yn amrywiol yn fiolegol, ac yn cael ei defnyddio'n gynaliadwy.

501. Mae **Datganiad Polisi Morol y DU 2011 (MPS)** yn darparu'r fframwaith ar gyfer paratoi cynlluniau morol ac yn darparu'r cyd-destun polisi lefel-uchel ar gyfer cynllunio morol, a ddefnyddiwyd fel sail i ddatblygu'r Cynllun hwn (Atodiad 2):

- Mae polisïau trawsbynciol cyffredinol y Cynllun hwn wedi cael eu datblygu dan bum thema'r Amcanion Morol Lefel Uchel a ddisgrifir ym Mhennod 2 yr MPS:
  - Sicrhau economi forol gynaliadwy;
  - Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn;
  - Byw o fewn terfynau amgylcheddol;
  - Hyrwyddo llywodraethu da; a
  - Defnyddio tystiolaeth wyddonol gadarn yn gyfrifol.
- Mae'r polisïau ar sectorau yn y Cynllun hwn wedi cael eu datblygu dan benawdau sy'n gydnaws â'r gweithgareddau a ddisgrifir ym Mhennod 3 yr MPS:
  - Agregau;
  - Dyframaethu;
  - Amddiffyn;
  - Carthu a gwaredu;
  - Ynni – Carbon isel;
  - Ynni – Olew a nwy;
  - Pysgodfeydd;
  - Porthladdoedd a morgludo;
  - Ceblau o dan y môr;
  - Trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff;
  - Twristiaeth a hamdden.

502. Yr eithriad yw Ardaloedd Morol Gwarchodedig sydd wedi cael eu hystyried ochr yn ochr â chydrannau'r ecosystem forol yn y Cynllun hwn fel rhan o'r adran Polisi Cyffredinol – Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

503. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wedi'i bwriadu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor Cymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cwmpasu Cymru gyfan, gan gynnwys rhanbarth cynllunio morol y glannau, ac mae'n berthnasol i'r holl bolisi datganoledig yn y Cynllun hwn. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf gymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth gyflawni eu swyddogaethau a gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae'n disgrifio 5 ffordd o weithio, sydd wedi rhoi arweiniad i ddatblygu'r Cynllun hwn.

Tabl 1: Y 5 ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

5 ffordd o weithio	Y cyd-destun cynllunio morol
Meddwl am y **tymor hir** fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy;	Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn bwrw golwg dros gyfnod o 20 mlynedd a bydd yn ystyried tueddiadau yn awr ac yn y dyfodol gan gynnwys cydnabod goblygiadau'r newid yn yr hinsawdd. Trwy hyrwyddo defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd morol bydd yn canolbwyntio ar reoli gweithgareddau dros y tymor hir.
Defnyddio **dull integredig** trwy ystyried nodau llesiant Cymru gyfan;	Mae cynllunio morol yn ystyried ystod eang o feysydd polisi a chyflawni morol. Mae cynllunio'n cefnogi dull integredig trwy gyflwyno casgliad cydlynol o bolisïau sy'n ymwneud â'r holl benderfyniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus a allai effeithio ar ardal y Cynllun. Mae'r Cynllun yn cynnwys casgliad integredig o bolisïau sy'n cwmpasu pob agwedd ar reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn amgylchedd morol Cymru.
Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;	Mae'r broses gynllunio'n gynhwysol ac mae wedi cynnwys ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid. Mae ein Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd yn disgrifio'r cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu. Cafodd fersiwn ddrafft gychwynnol o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru ei rhannu ar-lein ar gyfer adborth a mireinio cynnar, ac mae digwyddiadau cyhoeddus wedi cael eu cynnal i drafod cynnwys y Cynllun yn uniongyrchol.
Gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ddod o hyd i ddatrysiadau cyffredin a chynaliadwy;	Mae cynllunio morol yn golygu cydweithio gydag ystod o feysydd polisi a rhanddeiliaid. Eir i'r afael â hyn trwy broses gynhwysfawr i ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda mewnbwn o ystod eang o feysydd polisi yn ogystal â chan randdeiliaid. I helpu i hwyluso'r gwaith o gynhyrchu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, mae Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol wedi cael ei sefydlu.
Deall achosion sylfaenol materion i'w **hatal** rhag digwydd ac archwilio a ddylid newid y modd yr ydym yn rhoi ein hadnoddau ar waith ar hyn o bryd.	Mae defnyddio dull seiliedig-ar-dystiolaeth o ddatblygu polisi a chynllunio'n hanfodol i lwyddiant Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Mae'n darparu modd i roi ystyriaeth well i gymhlethdod yr amgylchedd morol a chymhwyso ymyriadau priodol i wella'r rheolaeth arno yn y dyfodol. Mae ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid wedi canfod ystod o heriau a chyfleoedd yn ogystal â'r ymchwil a'r dystiolaeth y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol.

504. Mae'r Cynllun hwn a'i ddogfennau cysylltiedig yn cefnogi'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer datblygu cynaliadwy trwy bennu polisïau eglur ar gyfer rheoli ardaloedd y glannau a'r môr mawr yn ein cynllun morol. Mae'r polisïau hyn yn ceisio diogelu'r amgylchedd morol a'i adnoddau, adnabod y manteision i gymdeithas y mae'r amgylchedd a'i adnoddau'n eu darparu a hybu dull cynaliadwy o ddefnyddio a datblygu'r adnoddau hynny. Felly mae'r casgliad o bolisïau yn y Cynllun hwn yn cydnabod:

- Bod nodweddion amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ardal yn elfennau hollbwysig sy'n diffinio'i chydnerthedd a'r cyfle i addasu. Er mwyn diogelu pobl, lleoedd ac ecosystemau mae'n rhaid wrth reolaeth ofalus sy'n aml yn arwain at ddewisiadau anodd er mwyn cynyddu iechyd a llesiant cymunedau a'r amgylchedd i'r eithaf; a
- Bod datblygu a defnyddio adnoddau morol yn angenrheidiol ar gyfer datblygu economaidd a chymdeithasol, gan gynnwys bwyd, masnach, ynni, hamdden, swyddi, cartrefi, deunyddiau adeiladu a chyfathrebu. Mae hybu ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn hollbwysig i gyflawni datblygu cynaliadwy a thwf glas.

505. Yn ogystal â'r 5 ffordd o weithio mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sefydlu 7 nod llesiant i sicrhau bod yr holl gyrff cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth am Gymru gynaliadwy. Mae'r Cynllun hwn wedi cael ei ddatblygu i gynyddu i'r eithaf y cyfraniad morol tuag at gyrraedd y nodau llesiant.

Tabl 2: 7 nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Nod llesiant	Sut y mae cynllunio morol yn cyfrannu	Polisïau ac agweddau allweddol ar gynllunio morol
Cymru lewyrchus	Cefnogi twf glas, datblygu sgiliau, cyfleoedd cyflogaeth a chreu cyfoeth. Hybu camau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau, gan gynnwys y newid i economi carbon isel.	GEN_01; GOV_02; Yr holl bolisïau ar Sectorau sy'n cefnogi twf cynaliadwy ECON_01 & 02 SOC_08, 09, 10 & 11 ELC_01, 02, 03, 04 & 07
Cymru gydnerth	Cefnogi camau i warchod ac adfer bioamrywiaeth forol ac ecosystemau'r môr. Cydnabod bod ecosystemau iach yn cynnal cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd	ENV_01, 02, 03, 05, 06 & 07 ECON_01 & 02 SOC-09
Cymru iachach	Cydnabod bod moroedd glân, iach yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol pobl. Cefnogi mynediad a chyfleoedd i wella'r ardal forol er mwyn creu nifer mawr o fuddion Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden.	SOC_01, 02, 05, 07, 09 T&R_01
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cydbwyso anghenion a buddiannau ein holl ddiwydiannau a chymunedau. Cynllunio mewn ffordd agored a thryloyw a rhannu data.	Yr holl bolisïau Cyffredinol a pholisïau ar Sectorau Adroddiad tystiolaeth morol Cymru Y porth cynllunio morol
Cymru o gymunedau cydlynus	Cydnabod pwysigrwydd cymunedau'r arfordir a'r cyfraniad gan yr ardaloedd morol i gymdeithas.	SOC_02, 04, 05 & 07. T&R_01
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Diogelu a hyrwyddo ein diwylliant a threftadaeth forol. Cefnogi cyfleoedd i gyfrannu i ffyniant y Gymraeg a'i diwylliant.	SOC_01, 02, 04, 05, 06, 07 ECON_01 T&R_01
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol berthnasol. Integreiddio â systemau cynllunio perthnasol eraill ar dir a môr. Cefnogi camau i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd.	Yr holl Bolisïau Cyffredinol

506. Mae'r Datganiad Polisi Morol yn cynnwys gofyniad i gymhwyso'r dull ecosystemau i gynllunio morol. Mae'r dull ecosystemau yn sefydlu nifer o egwyddorion i helpu i sicrhau datblygu cynaliadwy (gweler Atodiad 3). Manteision allweddol defnyddio dull ecosystemau yn y Cynllun hwn yw:

- Integreiddio ystyriaethau ecolegol, economaidd a chymdeithasol mewn un fframwaith i helpu i nodi gwrthdaro a rhyngweithio posibl o'r dechrau;
- Cydnabod bod pobl, gyda'u hamrywiaeth ddiwylliannol, yn gydran annatod mewn ecosystemau, ac y dylid eu cynnwys wrth reoli ar lefel yr ecosystem;
- Pwyslais ar ddulliau hyblyg ac integredig, a rheoli ymaddasol.

507. Mae Strategaeth Forol y DU yn tanategu dull ecosystemau ar lefel y DU (fel y mae Confensiwn OSPAR ar lefel Rhan Ogledd-ddwyreiniol yr Iwerydd), gan ei gwneud yn ofynnol ystyried ecosystemau morol a rheoli pwysau dynol, gan gynnwys ar draws ffiniau gweinyddol. Yng Nghymru, mae'r fframwaith Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a ddarperir gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015 yn darparu ffocws statudol ychwanegol ar gyfer gweithredu'r dull ecosystemau yng Nghymru trwy'r Cynllun hwn.

508. Mae egwyddorion Rheoli Adnoddau Dynol yn Gynaliadwy (yn gyson â'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio) wedi cael eu cymhwyso trwy gydol y broses cynllunio morol yng Nghymru (Tabl 3).

Tabl 3: Egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a gymhwysir yn CMCC

Rheoli ymaddasol	Mae cynllunio morol yn broses ymaddasol, bydd monitro ac adrodd ar effaith y Cynllun yn cefnogi dull ymaddasol. Rydym wedi mabwysiadu dull cynhwysol i sicrhau (hyd y gellir) bod yr ystod lawn o faterion ar gyfer yr ardaloedd yng nghynllun Cymru ar gyfer oes y Cynllun yn cael eu hadnabod. Mae hyn yn creu heriau ar gyfer materion penodol lle mae'r sail dystiolaeth neu raddfa'r effaith yn ansicr ond mae'n rhan bwysig o'r broses gynllunio i sicrhau bod partïon â buddiant yn gallu paratoi i wneud penderfyniadau gwybodus ac yn gallu addasu prosesau, adnoddau, technolegau a thystiolaeth yn briodol. Mae'r angen i fonitro ac adrodd ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (a'i ddiwygio lle y bo angen) yn ofyniad deddfwriaethol. Gall monitro ystyried pob agwedd ar y Cynllun, ac arwain at newidiadau mewn polisi lle nad yw amcanion yn cael eu cyflawni.
Graddfa	Mae cynllunio morol yn pennu polisi gofodol (ac amserol); mae polisïau unigol o fewn CMCC wedi'u teilwra i'r raddfa briodol, gan adlewyrchu hyd a lled disgwyliedig gweithgarwch cyfredol a phosibl yn y dyfodol a dosbarthiad adnoddau naturiol. Er bod y cynllun morol yn pennu fframwaith trosfwaol, mae rheolaeth ar yr amgylchedd morol eisoes yn digwydd ar amrywiaeth o wahanol raddfeydd ar hyd a lled dyfroedd Cymru. Mae datblygiad y cynllun yn digwydd ar lefel ardal y Cynllun yn ei chyfanrwydd ond caiff polisïau eu cymhwyso ar y raddfa ofodol briodol (e.e. i Ardaloedd Cynllunio Morol neu Ardaloedd Adnoddau Strategol). Y raddfa amser ar gyfer gwireddu gweledigaeth y Cynllun fydd 20 mlynedd. Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu bob tair blynedd ac yn cael ei ddiwygio os oes angen. Mae Strategaeth Forol y DU yn pennu Amcanion Ecosystem mewn perthynas ag ennill Statws Amgylcheddol Da yn erbyn cyfres o ddisgrifiadau. Mae cyflawni'r amcanion hyn yn ffocws i'r cynllun morol.


Cydweithio ac ymgysylltu	Mae cynllunio morol yn seiliedig ar ddull cydweithredol. Mae'r polisïau yn y Cynllun yn rhoi anogaeth ar gyfer ymgysylltu rhwng sectorau yn ystod camau cynnar gwaith datblygu prosiectau ac yn sicrhau ystyriaeth i gynlluniau a pholisïau perthnasol eraill wrth wneud penderfyniadau. Mae gweithio gyda'n Grŵp Cyfeirio Strategol Cynllunio Morol wedi gwella'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun hwn yn fawr.
Cyfranogiad y cyhoedd	Mae ein Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd yn nodi sut a phryd y gall y cyhoedd gymryd rhan yn y broses gynllunio. Rydym wedi ymgysylltu â'r cyhoedd trwy gyfres o ddigwyddiadau lleol, cynadleddau wedi'u targedu ac ymgyngoriadau ffurfiol ac rydym wedi addasu arddull a chynnwys y Cynllun hwn o ganlyniad i'r ymgysylltu hwnnw.
Tystiolaeth	Mae'r holl dystiolaeth berthnasol wedi cael ei chydgrynhoi a'i rhannu, i ddechrau trwy'r Ymarfer Cwmpasu Strategol a'i chyhoeddi yn Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru, sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n gyson i sicrhau bod y Cynllun hwn yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Caiff pob ansicrwydd allweddol a bylchau yn y dystiolaeth eu hadnabod fel rhan o'r broses gynllunio.
Manteision lluosog	Mae polisïau'r Cynllun yn cydnabod gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau. Mae cymhwyso'r nodau llesiant a'r 5 ffordd o weithio yn y Cynllun hwn yn hybu manteision teg i'n hamgylchedd, cymdeithas, economi a diwylliant. Mae optimeiddio twf economaidd yn un o amcanion allweddol y Datganiad Polisi Morol; fodd bynnag, mae'r broses gynllunio yng Nghymru'n amcanu at optimeiddio manteision economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol. Mae polisïau'r Cynllun ar sectorau'n canolbwyntio ar amlygu cyfleoedd yn y dyfodol, gan nodi'r gofynion statudol i ddatblygiadau ystyried nodweddion a statws yr ecosystem.
Tymor hir	Mae cynllunio morol yn ystyried canlyniadau dros y tymor byr, canolig a hir. Mae'r arfarniad o gynaliadwyedd ar gyfer y Cynllun yn nodi canlyniadau polisïau'r Cynllun ac yn ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl y Cynllun ar ecosystemau cyfagos ac eraill. Caiff effeithiolrwydd y Cynllun ei fesur trwy fonitro a gwerthuso. Mae'r Datganiad Polisi Morol a'r Amcanion Morol Lefel Uchel yn nodi fframwaith cyson ar gyfer rheoli ecosystemau morol ar hyd a lled dyfroedd y DU. Mae'r broses gynllunio'n cynnwys ymgysylltu trawsffiniol. Ceir gofyniad i'r holl benderfynwyr (gan gynnwys yng nghyd-destun y tir) wneud penderfyniadau yn unol â chynlluniau morol a rhaid i benderfyniadau ynghylch trwyddedu morol gael eu gwneud yn unol â chynlluniau perthnasol y tir hefyd. Mae hyn yn rhoi anogaeth i ystyried effeithiau cynlluniau morol a thirol ar ardaloedd cyfagos.
Camau ataliol	Mae cynllunio morol yn atgyfnerthu'r angen i gymryd camau i atal difrod i ecosystemau. Mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau penodol i ddiogelu ecosystemau morol, gan gynnwys Ardaloedd Morol Gwarchodedig, sy'n ymdrin â materion megis ansawdd aer, ansawdd dŵr, sŵn tanddwr, rhywogaethau estron goresgynnol a sbwriel morol. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar ddarparu gwasanaethau ecosystem, gan gynnwys effeithiau cronnol. Mae hyn yn cynnwys terfynau penodol lle y bo'n bosibl ond lle ceir diffyg terfynau diffiniedig neu ddata, ansoddol fydd yr asesiad. Mae datblygiad cynllunio morol, a choladu data gofodol i danategu gwaith cynllunio, yn gyfle pwysig i ystyried effeithiau cronnol yn fwy effeithiol i oleuo penderfyniadau ynghylch y lefelau defnydd sy'n gydnaws â defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Meithrin cydnerthedd	Cyflawnir hyn trwy bolisïau'r Cynllun ar gydnerthedd ecosystemau, cyflwr yr amgylchedd, effeithiau cronnol, y newid yn yr hinsawdd, datblygu cynaliadwy a chymorth ar gyfer rhwydwaith cydlynus o Awdurdodau Cynllunio Morol. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer CMCC yn ystyried effeithiau ar strwythur a gweithrediad, ac ar ddarparu gwasanaethau ecosystem, ac mae hyn wedi'i ymgorffori mewn Amcanion Morol Lefel Uwch, gweledigaeth ac amcanion y Cynllun a'i Bolisïau Cyffredinol. Mae'r Cynllun wedi cael ei ddatblygu yn y fath fodd fel bod dealltwriaeth am y rhyngweithiadau rhwng gwahanol ffyrdd o ddefnyddio'r adnoddau morol ac effeithiau ehangach hyn ar strwythur a gweithrediad yn cael ei hystyried. Mae'r broses gynllunio'n ceisio adnabod bylchau yn y dystiolaeth fel ffordd o oleuo blaenoriaethau ymchwil yn y dyfodol a bydd hyn yn sail i wneud penderfyniadau gwell yn y dyfodol.

509. Yn ychwanegol at yr ysgogwyr deddfwriaethol hyn mae'r Rhaglen Lywodraethu: Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 yn nodi'r ymrwymiadau y byddwn yn eu cyflawni i lywio gwelliant a gwneud gwahaniaeth i fywydau pawb yng Nghymru a chan hynny mae'n ystyriaeth hollbwysig wrth wneud penderfyniadau. Mae Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol yn gosod ymrwymiadau allweddol Symud Cymru Ymlaen mewn cyd-destun hirdymor, gan nodi eu perthynas â gwaith y gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru i osod y sylfeini ar gyfer cyflawni ffyniant i bawb. Dylid darllen y strategaeth ochr yn ochr â Datganiad Llesiant 2017, sy'n nodi amcanion llesiant diwygiedig Llywodraeth Cymru.

510. Mae Ffigur 2 yn dangos sut yr aed ati i integreiddio offerynnau polisi craidd sydd wedi trefnu'r Cynllun hwn.

Ffigur 2. Cyd-destun polisi cynllunio morol



Integreiddio â chyfundrefnau cynllunio eraill

511. Gall penderfyniadau sy'n ymwneud ag ardaloedd tirol a morol gael effaith dros bellter sylweddol, ac mae'r rhan fwyaf o weithgareddau yn yr amgylchedd morol yn cynnwys elfen neu oblygiad sy'n ymwneud â glannau (ac mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd). Felly mae rheoli ardaloedd morol yn effeithiol yn galw am integreiddio cynlluniau morol â chynlluniau morol cyfagos a chynlluniau tir cyfagos hefyd, i leihau i'r eithaf y perygl y bydd penderfyniadau mewn un ardal yn cael effeithiau anffafriol mewn un arall.

512. Mae'r Cynllun hwn yn ymestyn hyd at lefel cymedr penllanw'r gorllanw, a dyfroedd pob aber, afon neu sianel mor bell ag y mae'r llanw'n llifo ar gymedr penllanw'r gorllanw. Ar y llaw arall, bydd ffiniau cynllunio ar gyfer defnydd tir yn ymestyn fel arfer at lefel cymedr distyll y gorllanw. Felly mae'r Cynllun yn gorgyffwrdd yn ffisegol â chynlluniau ar gyfer tir, gan helpu i hwyluso integreiddio rhwng cynllunio a rheoli tir a môr.

513. Mae cyflawni cynllunio morol ar gyfer Cymru yn golygu gweithio gyda gweinyddiaethau a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y Cynllun hwn yn gweithredu'n esmwyth ac yn effeithiol ar draws ffiniau gweinyddol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i aberoedd trawsffiniol Afon Dyfrdwy a Môr Hafren ac yn fwy eang ar draws Môr Iwerddon.

514. Mae ecosystemau morol yn gweithredu ar ystod o raddfeydd ac yn aml yn gweithio ar draws ffiniau gweinyddol. Mae cydnabod a chynllunio ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol morol fel rhan o waith ehangach i reoli ecosystemau'n agwedd bwysig ar gynllunio morol.

515. Mae cydlynu'n golygu cyswllt ac ymgysylltu rheolaidd, gan gynllunio ar gyfer gweithgareddau sy'n digwydd ar draws ffiniau a rhannu tystiolaeth berthnasol. Wrth i gynllunio ddatblygu ledled y DU a'r tu hwnt, bydd cyfleoedd yn cael eu cymryd i gydgysylltu ymarfer cynllunio'n fwyfwy, yn enwedig yn ein hardaloedd trawsffiniol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos gydag awdurdodau cynlluniau morol cyfagos ac yn sefydlu, lle y bo'n briodol, drefniadau gweithio ar y cyd i roi cymorth i gydweithio.

516. Bydd y sail dystiolaeth forol gyffredin a gesglir gan ystod o raglenni monitro dan Strategaeth Monitro ac Asesu Morol y DU o gymorth gyda'r gwaith o gydlynu trefniadau cynllunio morol trawsffiniol. Ar y lefel leol, byddwn yn datblygu ac yn cynnal sail dystiolaeth cynllunio morol ar gyfer ein hardaloedd trawsffiniol.

517. Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn rydym wedi ymgysylltu â'r awdurdodau cynllunio tir-môr perthnasol ac awdurdodau cynllunio morol cyfagos, trwy ddeialog reolaidd ac ymgynghori ffurfiol. Mae ein gwaith i roi'r polisïau ar waith yn cynnwys:

- Ymgysylltu â chynlluniau morol cyfagos trwy'r Grŵp Gweinyddiaethau Cynllunio Gofodol Morol, sy'n cynnwys cynllunwyr morol o Weriniaeth Iwerddon, Ynys Manaw, Gogledd Iwerddon, Yr Alban, Cymru a Lloegr gan ganolbwyntio ar faterion trawsffiniol, gan gynnwys:
  - Diweddariadau statws ar ddatblygu a gweithredu cynlluniau morol yn y priod weinyddiaethau;
  - Trafod y dulliau cynllunio morol a gymhwysir gan y priod weinyddiaethau;
  - Trafod materion ac opsiynau ar gyfer cydweithio trawsffiniol.
- Er mwyn hwyluso'r broses o roi'r Cynllun hwn ar waith yn ymarferol rydym wedi sefydlu'r Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol gydag awdurdodau cyhoeddus i wneud y canlynol:
  - Nodi materion sy'n codi o weithredu polisïau a rhoi cymorth i ddatblygu mecanweithiau fynd i'r afael â hwy;
  - Hwyluso penderfyniadau awdurdodi sy'n effeithiol, yn effeithlon, yn gyson, yn gymesur ac yn amserol;

- Ystyried effeithiolrwydd canllawiau a nodi meysydd lle gall fod angen canllawiau pellach;
- Cefnogi gofynion monitro ac adrodd.

518. Mae'r MCAA yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio morol yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cynllun morol yn gydnaws â chynlluniau yn y system cynllunio defnydd tir. Ceir gofyniad hefyd wrth baratoi cynllun morol i roi ystyriaeth i unrhyw gynllun arall a baratowyd gan awdurdod cyhoeddus neu leol. Mae enghreifftiau o gynlluniau statudol a luniwyd gan gyrff cyhoeddus sy'n berthnasol i'r Cynllun hwn yn cynnwys:

- Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd dan y Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003;
- Cynlluniau Rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE);
- Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol;
- Cynlluniau rheoli ar gyfer Safleoedd Morol Ewropeaidd;
- Cynlluniau i gyfrannu at lesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ceir cynlluniau a strategaethau anstatudol hefyd a luniwyd gan awdurdodau cyhoeddus ac a allai fod yn berthnasol, gan gynnwys:

- Cynlluniau Rheoli Traethlin;
- Cynlluniau Rheoli Aberoedd (e.e. Cynllun Rheoli Aber Afon Hafren);
- Cynlluniau Rheoli Cynefinoedd Arfordirol;
- Cynlluniau Arfordir Treftadaeth;
- Cynlluniau rheoli sector-benodol (e.e. cynlluniau ynni yn y môr ac Asesiad Amgylcheddol Strategol, cynlluniau awdurdod porthladd);
- Strategaethau adfywio arfordirol.

519. Rydym wedi gwerthuso cynlluniau statudol ac anstatudol allweddol a gynhyrchwyd gan awdurdodau cyhoeddus a lleol sy'n berthnasol i'r Cynllun hwn i ganfod pa bolisïau sydd â pherthnasedd morol arbennig. Gall rhai cynlluniau fod yn ystyriaethau perthnasol y mae'n rhaid i benderfynwyr roi ystyriaeth iddynt. Ni roddir cymaint o bwyslais ar ddogfennau anstatudol eraill ond maent yn bwysig serch hynny. Mae'r dogfennau a aseswyd yn cynnwys:

- Cynlluniau datblygu tirol (a fabwysiadwyd ac sydd wrthi'n dod i'r amlwg) ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) arfordirol Cymru ac ar gyfer ACLlau yn Lloegr sy'n ffinio ag ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru;
- Cynlluniau rheoli traethlin (pedwar sy'n effeithio ar Gymru, a hefyd Gogledd Dyfnaint a Gwlad yr Haf SMP2);
- Cynlluniau rheoli basnau afonydd (tri);
- Cynlluniau parciau cenedlaethol (Eryri; Sir Benfro) a chynlluniau AHNEoedd (Penrhyn Gŵyr; Ynys Môn).

Cafodd y polisïau mewn cynlluniau perthnasol eu gwerthuso yn ôl y canlynol:

- eu perthnasedd penodol neu oblygedig i'r amgylchedd morol/arfordirol;
- pa un a yw'r rhain yn hybu sectorau arfordirol/morol neu beidio;
- hyd a lled gofodol y polisïau, lle y mae'n bosibl gwerthuso.

520. Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yw'r ddogfen bolisi cynllunio defnydd tir genedlaethol ar gyfer Cymru. Fe'i defnyddir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) i oleuo polisïau a dyraniadau defnydd tir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLliau) ac mae'n ystyriaeth berthnasol i benderfynwyr wrth benderfynu ceisiadau cynllunio unigol. Mae PCC yn nodi polisïau defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru, gan adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

521. Mae Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gynhyrchu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, sydd i fod i gael ei gyhoeddi yn 2020, ac a fydd yn disgrifio'r fframwaith defnydd tir ar gyfer Cymru dros 20 mlynedd (gan ddisodli Cynllun Gofodol Cymru 2008). Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:

- yn nodi lle y mae angen twf a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol a sut y gall y system gynllunio – ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol – gyflawni hyn;
- yn creu cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategol ac yn hwyluso'r gwaith o wneud penderfyniadau ynghylch Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol;
- yn ategu Polisi Cynllunio Cymru, sy'n disgrifio polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru a bydd yn parhau i osod y cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir;
- yn cyd-fynd â strategaethau economaidd, trafnidiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol ac yn sicrhau y gall y rhain gael eu cyflawni drwy'r system gynllunio.

522. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSiau) yn ei gwneud yn bosibl ystyried a chynllunio ar gyfer materion sy'n torri ar draws nifer o awdurdodau cynllunio lleol mewn ffordd integredig a chynhwysfawr. Ar lefel leol, mae dyletswydd statudol ar awdurdodau cynllunio i baratoi cynllun datblygu lleol a'i adolygu'n gyson.

523. Cafodd y polisïau yn y dogfennau hyn eu gwerthuso yn ôl y canlynol:

- eu perthnasedd penodol a goblygedig i'r amgylchedd morol/arfordirol;
- pa un a yw'r rhain yn hybu sectorau arfordirol/morol neu beidio;
- hyd a lled gofodol y polisïau, lle y mae'n bosibl gwerthuso.

524. Cafodd cynlluniau a pholisïau perthnasol eu hystyried wrth ddatblygu polisïau ar gyfer y Cynllun hwn. Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn a'i roi ar waith rydym yn cyfrannu at broses benderfynu fwy cyson a chydgysylltiedig. Mae aliniad rhwng cynllunio morol a thirol yn ffocws craidd ac yn cael ei gyflawni trwy, er enghraifft, y canlynol:

- cysondeb rhwng dogfennau polisi a chanllawiau morol a thirol, yn anad dim y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sydd wrthi'n esblygu, diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol perthnasol;
- cyswllt rhwng priod awdurdodau cynllunio;
- rhannu'r sail dystiolaeth a data er mwyn cefnogi cysondeb wrth baratoi cynlluniau a gwneud penderfyniadau.

525. Mae'r Cynllun hwn wedi'i ddatblygu i fod yn gydnaws â chynlluniau morol ardaloedd cynllunio morol cyfagos ac â chynllluniau tirol perthnasol, fel y'u diffinnir gan Atodlen 6 CMCC. Bu gan awdurdodau cynllunio tirol ar lefel genedlaethol a lleol ac awdurdodau cynllunio morol cyfagos rôl allweddol o ran datblygu'r Cynllun hwn ac maent felly wedi helpu i sicrhau bod y Cynllun hwn yn rhoi ystyriaeth i gynlluniau morol a thirol perthnasol eraill ac yn gydnaws â nhw. Mae'r Cynllun yn ategu ac yn rhyngweithio â chyfundrefnau cynllunio morol a thirol perthnasol eraill yn ogystal â phrosesau cynllunio a rheoli eraill sy'n berthnasol i'r arfordir a'r môr o amgylch Cymru ac mae felly'n gwneud cyfraniad pwysig at Reolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (gweler Atodiad 4). Er mwyn sicrhau cysondeb a chydnawsedd wrth wneud penderfyniadau, mae'r Cynllun hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio gymryd camau rhesymol i roi anogaeth ar gyfer cydlyniad rhwng polisïau mewn cynlluniau.

526. Fel sy'n ofynnol yn ôl yr MPS, rydym yn ymrwymedig i reoli ardaloedd arfordirol a'r gweithgareddau sy'n digwydd ynddynt, mewn ffordd integredig a holistaidd yn unol ag egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol[64].

64 Argymhelliad ynghylch Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (2002).


Mae hyn yn cydnabod yr angen am gydgysylltu ar draws tir a môr i ddatblygu cynigion a chynlluniau cyflenwol ar yr arfordir. Caiff y gwaith a wnaed i ddatblygu'r Cynllun hwn mewn modd sy'n gweithredu egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol ei ddisgrifio yn Atodiad 4. Mae'r gofyniad i ddefnyddio dull ecosystemau (Atodiad 3) ar gyfer cynllunio morol yn ategu hyn, o ystyried bod y ddau ddull yn cydnabod natur gynhenid ddynamig ecosystemau. Mae'n hybu dull hirdymor, holistaidd, ymaddasol a hyblyg o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys polisïau i helpu i sicrhau integreiddio o'r fath.

527. Mae'r Cynllun hwn yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer penderfyniadau sy'n gysylltiedig â rheoli moroedd Cymru. Mae'n cydnabod y gall fod angen cynllunio morol sectoraidd â ffocws pendant mewn rhai sectorau er mwyn nodi cyfleoedd yn y dyfodol a rhoi arweiniad i fyd diwydiant ynghylch ble i roi'r ffocws wrth fuddsoddi. Yn y penodau ar sectorau penodol yn y Cynllun hwn, mae polisïau ategol yn rhoi anogaeth ar gyfer gwaith pellach rhwng awdurdodau perthnasol i gyflawni gwaith cynllunio morol sectoraidd er mwyn cyfrannu at ddealltwriaeth well am gyfleoedd yn y dyfodol (gweler yr adran ar Ardaloedd Ymchwil Strategol yn y Cyflwyniad i'r Cynllun hwn).

Y broses cynllunio morol yng Nghymru

528. Mae'r broses cynllunio morol yn cynnwys nifer o gamau: casglu tystiolaeth, nodi materion a chyfleoedd, datblygu polisi, rhoi'r Cynllun ar waith, ei fonitro a'i adolygu, a ategir gan ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid ac asesiadau o'r effeithiau. Caiff y broses gylchol o ran cynllunio morol ei disgrifio yn Ffigur 3.

Ffigur 3: Y broses cynllunio morol



529. Mae'r broses gynllunio'n ailadroddol, a bydd cynlluniau yn y dyfodol yn cael eu datblygu gan ddefnyddio profiad a dealltwriaeth a enillwyd o'r broses cynllunio morol gyntaf hon, gan ymgorffori allbynnau unrhyw waith cynllunio morol sectoraidd a darparu lefel fwy o gyfarwyddo gofodol lle y bo'n briodol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

530. Mae gan ystod eang o randdeiliaid rôl bwysig neu fuddiant yn y broses o reoli ein moroedd. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ymgysylltu effeithiol ac ystyrlon i gefnogi datblygiad cynlluniau a pholisïau a'r broses o'u rhoi ar waith. Mae gweithio mewn partneriaeth glos, trwy ddull cydweithredol a chynhwysol, yn hanfodol i gyflawni'r broses cynllunio morol a rhoi cynlluniau morol ar waith yng Nghymru.

531. Yn unol â'r MCAA, fe gyhoeddon ni Ddatganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd yn 2014. Roedd hwn yn nodi ein bwriadau i ymgysylltu'n eang wrth ddatblygu'r Cynllun hwn. Rydym wedi ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid trwy gydol y broses gynllunio; mae'r ymgysylltu hwn wedi profi'n hollbwysig i drefnu'r Cynllun.

532. Bydd ymgysylltu a chydweithio parhaus yn hollbwysig i roi'r Cynllun ar waith a byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a phenderfynwyr i roi cymorth i gyflawni'r Cynllun hwn ar ôl ei fabwysiadu.

Casglu a rhannu tystiolaeth (cynllunio seiliedig ar dystiolaeth)

533. Mae'r broses cynllunio morol yn golygu dwyn tystiolaeth ynghyd, ei dehongli a'i rhannu a gwneud yn siŵr ein bod yn ei defnyddio i ategu penderfyniadau ynghylch rheolaeth gynaliadwy ar ein moroedd yn y ffordd orau. Yn unol â'r Datganiad Polisi Morol mae'r Cynllun hwn yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ac mae wedi'i fwriadu i roi cymorth i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.

534. Fe wnaeth Ymarfer Cwmpasu Strategol goladu tystiolaeth berthnasol ar ein hadnoddau naturiol morol a'r defnyddiau yr ydym yn eu gwneud ohonynt ar hyn o bryd yng nghyd-destun cynllunio morol. Cafodd yr Ymarfer Cwmpasu Strategol ei oleuo gan ddwy brif ffynhonnell: Charting Progress 2 (2010), adroddiad cynhwysfawr ar ymchwil a monitro morol yn y DU, a Strategaeth Forol y DU Rhan Un sy'n cynnwys asesiad o statws moroedd y DU, dadansoddiad economaidd a chymdeithasol o'u defnydd a'r prif bwysau ac effeithiau sy'n gysylltiedig â hwy.

535. Caiff y sail dystiolaeth forol sy'n berthnasol i gynllunio morol yng Nghymru ei nodi yn Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru ac mae data gofodol ar gael ar Borth Cynllunio Morol Cymru (ar wefan Llywodraeth Cymru). Cyhoeddir diweddariad i Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru 2015 ochr yn ochr â'r Cynllun hwn. Hefyd, dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cyhoeddi'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, y cyntaf erioed. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn tynnu ar Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru ac yn nodi sefyllfa bresennol adnoddau naturiol yng Nghymru ac i ba raddau y maent yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

536. Mae'r dystiolaeth hon, ynghyd â'r cyd-destun polisi perthnasol, wedi cael ei defnyddio i helpu i nodi materion allweddol ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru ac mae wedi trefnu'r polisïau a ddisgrifir yn y Cynllun hwn.

Monitro'r Cynllun, adrodd arno a'i adolygu

537. Mae monitro a gwerthuso'n gam hollbwysig yn y broses gynllunio i sicrhau bod y Cynllun a'i bolisïau'n cyfrannu'n effeithiol at gyflawni amcanion y Cynllun a nodau llesiant Cymru.

538. Mae cryn dipyn o waith monitro ac adrodd morol eisoes yn digwydd ledled y DU, er enghraifft fel sy'n ofynnol gan y Strategaeth Forol Rhan Dau: rhaglenni monitro morol y DU.

539. Mae'r MCAA yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio morol adolygu ac adrodd o leiaf bob tair blynedd ar effeithiau polisïau yn eu cynllun a'u heffeithiolrwydd i sicrhau amcanion y Cynllun.

540. Yn unol â'r MCAA, byddwn yn cyhoeddi o leiaf bob chwe blynedd (tan 1 Ionawr 2030), adroddiad ar baratoi, mabwysiadu a diwygio CMCC. O leiaf bob tair blynedd, bydd adroddiad yn cael ei gynhyrchu ar effeithiau'r polisïau yn y cynllun morol ac effeithiolrwydd y polisïau hynny o ran sicrhau amcanion y Cynllun.

541. Mae'r broses gynllunio'n ailadroddol; yn unol â'r MCAA, bydd cynlluniau yn y dyfodol yn cael eu datblygu gan ddefnyddio profiad a dealltwriaeth a gafwyd o brosesau cynllunio blaenorol.

542. Bydd y sail dystiolaeth gysylltiedig ar gyfer cynllunio morol yn cael ei hadolygu a'i diweddaru o bryd i'w gilydd hefyd fel rhan o'r broses cynllunio morol ehangach.

Atodiad 1 – Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009)

Mae Adran 49 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (MCAA) yn nodi rhanbarthau cynllunio morol glannau a moroedd mawr Cymru (a ddiffinnir yn adran 322). Mae Adran 50 yn enwi Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod cynllunio morol ar gyfer rhanbarthau'r glannau a'r moroedd mawr.

Mae Adran 51 o'r MCAA yn gwneud darpariaeth ar gyfer paratoi a mabwysiadu Cynlluniau Morol yn unol ag atodlen 6 o'r Ddeddf, gan nodi'r canlynol mewn perthynas â chynlluniau morol:

- rhaid iddynt gydymffurfio â'r Datganiad Polisi Morol ar gyfer cynllunio morol (gweler Atodiad 2);
- rhaid iddynt ddatgan a ydynt yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau a gedwir ac mae adran 59 a pharagraff 15(2) o Atodlen 6 yn datgan y dylai cynlluniau o'r fath gael eu mabwysiadu gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol;
- os yw polisi datganedig yn gwrthdaro mewn unrhyw ffordd ag unrhyw ddatganiad neu wybodaeth arall yn y Cynllun, rhaid datrys y gwrthdaro hwnnw o blaid y polisi;
- maent yn dod i rym pan gânt eu cyhoeddi gan yr awdurdod cynllunio morol.

Mae Adran 52 yn gwneud darpariaeth ar gyfer diwygio cynlluniau morol (o bryd i'w gilydd) ac mae Adran 53 yn gwneud darpariaeth ar gyfer tynnu cynlluniau morol yn ôl.

Mae Adran 54 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod cynllun morol i adolygu materion perthnasol yn gyson, gan gynnwys:

- nodweddion ffisegol, amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol (gan gynnwys hanesyddol ac archeolegol) ac economaidd rhanbarth yr awdurdod a'r adnoddau byw y mae'r rhanbarth yn eu cynnal;
- at ba ddibenion y defnyddir unrhyw ran o'r rhanbarth;
- systemau cyfathrebu, ynni a thrafnidiaeth y rhanbarth;
- unrhyw ystyriaethau eraill y gellir disgwyl iddynt effeithio ar y materion hyn, gan gynnwys:
  - unrhyw newidiadau y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddigwydd mewn perthynas ag unrhyw fater o'r fath;
  - yr effaith y gallai unrhyw newidiadau o'r fath eu cael mewn perthynas â datblygu'r rhanbarth, ei adnoddau naturiol, neu'r adnoddau byw sy'n ddibynnol ar y rhanbarth yn gynaliadwy.

Mae Adran 58 yn ymwneud â phenderfyniadau yr effeithir arnynt gan ddogfennau polisi morol (h.y. y Datganiad Polisi Morol a chynlluniau morol) gan nodi:

- bod rhaid i awdurdod cyhoeddus wneud unrhyw benderfyniadau awdurdodi neu orfodi yn unol â'r dogfennau polisi morol priodol, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall (a rhaid i'r awdurdod cyhoeddus nodi ei resymau);
- rhaid i awdurdod cyhoeddus roi ystyriaeth i'r dogfennau polisi morol priodol wrth wneud unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud ag arfer swyddogaeth a allai effeithio ar y cyfan neu unrhyw ran o ardal forol y DU cyn belled nad yw'n benderfyniad awdurdodi neu orfodi;
- dan y Ddeddf Cynllunio (2008) mae materion y mae'n rhaid i Banel neu Gyngor roi ystyriaeth iddynt wrth benderfynu ynghylch cais am orchymyn sy'n rhoi caniatâd cynllunio yn cynnwys y dogfennau polisi morol priodol.

Mae Adran 61 yn gwneud darpariaeth ar gyfer monitro'r modd y caiff cynlluniau eu rhoi ar waith, ac adrodd ar hynny o bryd i'w gilydd, gan greu dyletswydd:

- i adolygu rhai materion am gyhyd ag y bydd y Cynllun mewn grym;
- i baratoi a chyhoeddi adroddiadau o leiaf bob tair blynedd;
- i baratoi a chyhoeddi o leiaf bob chwe blynedd adroddiad ar:
  - unrhyw Gynllun Morol a baratowyd ac a fabwysiadwyd;
  - bwriadau i'w diwygio;
  - bwriadau i baratoi a mabwysiadu unrhyw Gynlluniau Morol pellach.



Darparwyd y llun gan Croeso Cymru: (c) Hawlfraint y Gorón (2014) Croeso Cymru

O bryd i'w gilydd, rhaid i awdurdod y cynllun morol baratoi a chyhoeddi adroddiadau ar:

- effeithiau'r polisïau yn y Cynllun Morol;
- effeithiolrwydd y polisïau hyn o ran sicrhau'r amcanion y cafodd y Cynllun Morol ei baratoi a'i fabwysiadu ar eu cyfer;
- cynnydd a wnaed tuag at sicrhau'r amcanion;
- cynnydd a wnaed tuag at sicrhau amcanion y Datganiad Polisi Morol.

Mae Atodlen 6 o'r MCAA yn disgrifio'r gofynion ar gyfer paratoi a mabwysiadu cynllun morol. Rhaid i'r awdurdod cynllunio morol roi rhybudd ynghylch ei fwriad i baratoi cynllun morol i'r Ysgrifennydd Gwladol; unrhyw awdurdod cynllunio morol mewn ardal gyfagos; unrhyw awdurdodau rhanbarthol cyfrifol; unrhyw awdurdod cynllunio lleol. Lle mae awdurdod cynllunio morol yn rhoi rhybudd i'r Ysgrifennydd Gwladol dylai nodi: pa un a oes bwriad i gynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau a gedwir yn y cynllun; os na fydd y cynllun yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi Morol; a hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch unrhyw newidiadau.

Wrth baratoi neu ddiwygio cynllun morol rhaid i awdurdod cynllunio morol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cynllun yn gydnaws â'r canlynol: cynlluniau morol unrhyw ardal cynllun morol a chynllun y Ddeddf Cynllunio berthnasol (lle mae'r rhain yn gyfagos, yn gorgyffwrdd neu lle effeithir arnynt). Yng Nghymru, cynlluniau'r Deddfau Cynllunio perthnasol yw'r cynllun datblygu (dan adran 38(2) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004) a Chynllun Gofodol Cymru (dan adran 60 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004)[65].

Cyn paratoi cynllun morol, rhaid i'r awdurdod cynllunio baratoi a chyhoeddi Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd, sy'n nodi'r mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â phartïon â buddiant yn ystod y broses gynllunio. Dylai'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd gynnwys map o'r ardal, manylion unrhyw swyddogaethau a gedwir sy'n mynd i gael eu cynnwys; gwahodd sylwadau gan bartïon â buddiant; amserlen (ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r ymgynghoriad drafft; sylwadau ar y drafft ymgynghori; ystyriaeth i sylwadau; mabwysiadu a chyhoeddi'r cynllun). Gall y Datganiad wneud darpariaeth ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a rhaid ei adolygu'n gyson (os yw'r awdurdod cynllunio morol o'r farn bod hynny'n angenrheidiol neu'n fanteisiol). Rhaid i unrhyw fersiwn ddiwygiedig o'r Datganiad gael ei gyhoeddi.

Gall awdurdod y cynllun morol geisio cyngor neu gymorth gan unrhyw gorff neu unigolyn mewn perthynas ag unrhyw fater y mae gan y corff neu'r unigolyn hwnnw arbenigedd ynddo. Gall yr awdurdod cynllunio morol gynnull grwpiau o bartïon â buddiant i hwyluso'r broses o ddatblygu'r cynllun neu ymgynghori yn ei gylch.

Mae materion y dylai'r awdurdod cynllunio morol roi ystyriaeth iddynt yn cynnwys:

- gofyniad i gynllun morol gydymffurfio â'r Datganiad Polisi Morol (oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall);
- dyletswyddau sy'n sicrhau cydnawsedd â chynlluniau morol neu gynlluniau dan y Ddeddf Cynllunio;
- yr effeithiau y mae unrhyw gynnig yn y cynllun yn debygol o'u cael ar unrhyw ardal cynllunio morol;
- canlyniadau'r adolygiad dan Adran 54 o'r MCAA;
- y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd;
- unrhyw sylwadau;
- unrhyw gyngor;

65 Bydd Cynllun Gofodol Cymru yn cael ei ddisodli gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sydd ar ddod ac sy'n cael ei baratoi dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

- unrhyw gynllun gan awdurdod cyhoeddus neu leol sy'n ymwneud â rheoli'r môr, arfordiroedd neu eu hadnoddau;
- pwerau a dyletswyddau Comisiynwyr Ystâd y Goron.

Rhaid i awdurdod y cynllun morol gynnal arfarniad o gynaliadwyedd ei gynigion. Gall yr awdurdod cynllunio morol fwrw ymlaen dim ond os yw o'r farn bod canlyniadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn dynodi ei bod yn briodol gwneud hynny. Rhaid i awdurdod y cynllun morol gyhoeddi adroddiad ar ganlyniadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (ochr yn ochr â'r drafft ymgynghori).

Rhaid i awdurdod y cynllun morol gyhoeddi drafft sy'n cynnwys ei gynigion y mae'n bwriadu eu cynnwys yn y cynllun. Os yw'r drafft ymgynghori'n cynnwys swyddogaethau a gedwir dim ond gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol y gellir ei gyhoeddi. Rhaid i'r drafft ymgynghori gael ei gyhoeddi yn y modd sy'n briodol yn nhyb yr awdurdod cynllunio, gan sicrhau ei fod yn cael ei ddwyn i sylw partïon â buddiant. Gall unrhyw unigolyn wneud sylwadau ynghylch y drafft ymgynghori yn unol â'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd. Rhaid i'r awdurdod cynllunio morol ystyried sylwadau wrth bennu testun y cynllun morol ar gyfer ei fabwysiadu a'i gyhoeddi.

Rhaid i awdurdod y cynllun morol sydd wedi cyhoeddi drafft ymgynghori ystyried penodi rhywun annibynnol i ymchwilio i'r cynigion yn y drafft ac i adrodd arnynt. Wrth benderfynu a yw'n mynd i benodi unigolyn o'r fath rhaid i'r awdurdod cynllunio morol roi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a gafwyd ac ystyried i ba raddau mae materion sydd wedi'u cynnwys mewn sylwadau heb gael eu datrys. Rhaid i unrhyw unigolyn a benodir gyflwyno sylwadau a rhoi rhesymau. Rhaid i'r awdurdod cynllunio morol gyhoeddi'r adroddiad ymchwilio annibynnol. Rhaid i awdurdod cynllun morol sy'n pennu testun cynllun morol i gael ei fabwysiadu a'i gyhoeddi roi ystyriaeth i unrhyw argymhellion a wneir gan yr ymchwiliad annibynnol a'r rhesymau dros yr argymhellion.

Caiff cynllun morol ei fabwysiadu pan fo'r awdurdod wedi penderfynu cyhoeddi'r cynllun. Os yw cynllun morol yn cynnwys swyddogaethau a gedwir, dim ond gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol y gellir ei fabwysiadu. Gall y cynllun morol y mae awdurdod y cynllun morol yn penderfynu ei gyhoeddi fod yr un fath â'r cynigion a gyhoeddwyd yn y drafft ymgynghori neu'r cynigion hynny gyda pha bynnag addasiadau sy'n addas yn nhyb awdurdod y cynllun morol. Rhaid i awdurdod cynllunio morol sy'n mabwysiadu cynllun morol ei gyhoeddi cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl ei fabwysiadu, ynghyd â datganiadau ar:

- unrhyw addasiadau a wnaed i'r cynigion a gyhoeddwyd yn y drafft ymgynghori;
- y rhesymau dros yr addasiadau hyn;
- os oes unrhyw argymhellion gan ymchwiliwr annibynnol heb gael eu rhoi ar waith a'r rhesymau pam nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith.

Atodiad 2 – Datganiad Polisi Morol y DU (2011)

Mae Adrannau 44–48 o'r MCAA yn gwneud darpariaeth ar gyfer paratoi a mabwysiadau Datganiad Polisi Morol fel sail i gadarnhau polisïau cyffredinol sy'n cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy yn ardal forol y DU.

Cyhoeddwyd y Datganiad Polisi Morol yn 2011 a hwn yw'r fframwaith ar gyfer paratoi Cynlluniau Morol a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol yn ardal forol y DU. Fe'i datblygwyd ac fe'i mabwysiadwyd ar y cyd gan Ysgrifennydd Gwladol Defra; Gweinidogion yr Alban; Gweinidogion Cymru ac Adran yr Amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Datganiad Polisi Morol yn gam allweddol tuag at wireddu'r weledigaeth a rennir gan weinyddiaethau'r DU, sef bod â chefnforoedd a moroedd sy'n 'lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol', fel a nodir yn yr adroddiad 'Safeguarding our Seas' (2002) ac yn 'Our Seas – a shared Resource: High Level Marine Objectives' (2009).

Mae'r Datganiad Polisi Morol wedi cael ei fabwysiadu gan weinyddiaethau'r DU i hwyluso a chynorthwyo'r broses o lunio Cynlluniau Morol, gan sicrhau bod adnoddau morol yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy:

- Hybu datblygu economaidd cynaliadwy;
- Galluogi'r DU i symud tuag at economi carbon isel, er mwyn lliniaru achosion y newid yn yr hinsawdd ac asideiddio cefnforoedd ac addasu i'w heffeithiau;
- Sicrhau amgylchedd morol cynaliadwy sy'n hybu ecosystemau morol gweithredol, iach ac yn diogelu cynefinoedd a rhywogaethau morol a'n hasedau treftadaeth;
- Cyfrannu at fanteision cymdeithasol yr ardal forol, gan gynnwys defnydd cynaliadwy o adnoddau morol i fynd i'r afael â materion cymdeithasol ac economaidd lleol.

Yr MCAA sy'n darparu'r ddeddfwriaeth gynradd ar gyfer Cynllunio Morol ac mae'r Datganiad Polisi Morol yn darparu'r cyd-destun polisi lefel uchel y bydd Cynlluniau Morol cenedlaethol ac is-genedlaethol yn cael eu datblygu, eu rhoi ar waith, eu monitro a'u diwygio oddi mewn iddo a bydd yn sicrhau cysondeb o ran cynllunio morol ledled ardal forol y DU. Mae'r Datganiad Polisi Morol a Chynlluniau Morol yn system newydd a arweinir gan gynllun ar gyfer gweithgareddau morol, yn darparu mwy o gydlyniad o ran polisi a dull o reoli'r ardal forol, ei hadnoddau, a'r gweithgareddau a'r rhyngweithiadau sy'n digwydd oddi mewn iddi sy'n flaengar, yn rhagweithiol ac yn seiliedig ar gynllunio gofodol. Mae'r Datganiad Polisi Morol hefyd yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer trwyddedu morol a systemau awdurdodi perthnasol eraill. Mae'r Datganiad Polisi Morol yn nodi y bydd y broses cynllunio morol:

- Yn cyflawni integreiddio rhwng gwahanol amcanion;
- Yn cydnabod y bydd y galw am ddefnyddio ein moroedd a'r pwysau arnynt o ganlyniad yn parhau i gynyddu;
- Yn rheoli gofynion ar yr ardal forol sy'n cystadlu â'i gilydd, gan ddefnyddio dull seiliedig ar yr ecosystem;
- Yn galluogi gweithgareddau cydnaws i fodoli ar y cyd â'i gilydd lle bynnag y bo'n bosibl; ac
- Yn integreiddio â chynllunio tirol.

Mae'r Datganiad Polisi Morol yn nodi y bydd y broses o gynllunio morol yn cyfrannu at gyflawni ac integreiddio amcanion polisi ar gyfer sectorau/gweithgareddau o fewn fframwaith o ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol er mwyn cyflawni'r Amcanion Morol Lefel Uchel i helpu i sicrhau datblygiad cynaliadwy ardal forol y DU a gwireddu gweledigaeth y DU. Cafodd yr Amcanion Morol Lefel Uchel hyn eu cyhoeddi yn 2009:

Sicrhau economi forol gynaliadwy

- Mae seilwaith yn ei le i gefnogi a hybu busnesau morol diogel, proffidiol ac effeithlon;
- Mae'r amgylchedd morol a'i adnoddau'n cael eu defnyddio i gynyddu i'r eithaf weithgarwch cynaliadwy, ffyniant a chyfleoedd i bawb, yn awr ac yn y dyfodol;
- Mae busnesau morol yn gwneud penderfyniadau strategol hirdymor ac yn rheoli risgiau'n effeithiol. Maent yn gystadleuol ac yn gweithredu'n effeithlon;



- Mae busnesau morol yn gweithredu mewn ffordd sy'n parchu terfynau amgylcheddol ac sy'n gyfrifol o safbwynt cymdeithasol. Gwobrwyir hyn yn y farchnad.

Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn

- Mae pobl yn gwerthfawrogi amrywiaeth yr amgylchedd morol, ei forluniau, ei dreftadaeth naturiol a diwylliannol a'i adnoddau ac yn gweithredu mewn modd cyfrifol;
- Mae defnyddio'r amgylchedd morol yn dwyn budd i gymdeithas ar y cyfan, gan gyfrannu at gymunedau cydnerth a chydlynol sy'n gallu ymaddasu i erydu arfordirol a pherygl llifogydd, yn ogystal â chyfrannu at lesiant corfforol a meddyliol;
- Mae'r arfordir, y moroedd, y cefnforoedd a'u hadnoddau'n ddiogel i'w defnyddio;
- Mae gan yr amgylchedd morol rôl bwysig o ran lliniaru'r newid yn yr hinsawdd;
- Ceir mynediad teg ar gyfer y rhai sy'n dymuno defnyddio a mwynhau'r arfordir, moroedd a'u hystod eang o adnoddau ac asedau a chydnabyddiaeth, i rai cymunedau ar ynysoedd ac ar yr ymylon, bod gan y môr rôl arwyddocaol yn eu cymuned;
- Bydd defnyddio'r amgylchedd morol yn cydnabod blaenoriaethau amddiffyn, ac yn integreiddio â hwy, gan gynnwys cryfhau heddwch a sefydlogrwydd rhyngwladol ac amddiffyn y DU a'i buddiannau.

Byw o fewn terfynau amgylcheddol

- Mae bioamrywiaeth yn cael ei diogelu, ei gwarchod a lle y bo'n briodol yn cael ei hadfer a cholled yn cael ei hatal;
- Mae cynefinoedd morol ac arfordirol iach yn digwydd ar draws eu hystod naturiol ac yn gallu cynnal cymunedau biolegol bioamrywiol, cryf a gweithrediad ecosystemau morol iach, cydnerth ac ymaddasol;
- Mae ein cefnforoedd yn cynnal poblogaethau hyfyw o rywogaethau sy'n gynrychiolaidd, yn brin, dan fygythiad ac yn cael eu gwerthfawrogi.

- **Hybu llywodraethu da**

- Mae pawb sydd â buddiant yn yr amgylchedd morol yn rhoi mewnbwn i brosesau penderfynu cysylltiedig;
- Mae mecanweithiau rheoli'r môr, y tir a dŵr yn ymatebol ac yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, er enghraifft trwy reolaeth integredig ar barthau arfordirol a chynlluniau rheoli basnau afonydd;
- Mae rheoli morol yn y DU yn ystyried gwahanol systemau rheoli sydd yn eu lle oherwydd ffiniau gweinyddol, gwleidyddol neu ryngwladol;
- Mae busnesau morol yn ddarostyngedig i reoleiddio eglur, amserol, cymesur a, lle y bo'n briodol, a arweinir gan gynllun;
- Mae defnydd o'r amgylchedd morol yn cael ei gynllunio'n ofodol lle y bo'n briodol ac yn seiliedig ar ddull ecosystemau sy'n ystyried y newid yn yr hinsawdd ac yn cydnabod anghenion diogelu a rheoli treftadaeth ddiwylliannol forol yn ôl ei harwyddocâd.

Defnyddio tystiolaeth wyddonol yn gyfrifol

- Mae ein dealltwriaeth am yr amgylchedd morol yn parhau i ddatblygu trwy ymchwil wyddonol ac economaidd-gymdeithasol newydd a chasglu data gwyddonol ac economaidd-gymdeithasol;
- Mae tystiolaeth gadarn a monitro cadarn yn tanategu rheolaeth forol effeithiol a datblygiad polisi effeithiol yn hyn o beth;
- Caiff yr egwyddor ragofalus ei chymhwyso'n gyson yn unol â pholisi datblygu cynaliadwy Llywodraeth a Gweinyddiaethau Datganoledig y DU.

Mae'r Datganiad Polisi Morol yn nodi y bydd Cynlluniau Morol yn darparu mynegiant o bolisi, gweithredu a chyflawni sy'n eglur, yn ofodol ac yn berthnasol yn lleol. Bydd hynny'n sicrhau bod gweithgareddau sy'n wahanol ac a allai fod yn cystadlu â'i gilydd yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy. Egwyddor allweddol fydd hybu cydnawsedd a lleihau gwrthdaro.

Atodiad 3 – Dull Ecosystemau

Mae'r Datganiad Polisi Morol yn pennu'r gofyniad i Gynlluniau Morol ddefnyddio dull ecosystemau, gan nodi: "*A practical interpretation of the ecosystem approach is set out in regulation 5 of the Marine Strategy Regulations 2010 which transpose the Marine Strategy Framework Directive. An ecosystem-based approach to the management of human activities means an approach which ensures that the collective pressure of human activities is kept within levels compatible with the achievement of good environmental status; that does not compromise the capacity of marine ecosystems to respond to human-induced changes; and that enables the sustainable use of marine goods and services.*"

Mae diffiniadau eraill o'r dull ecosystemau'n cynnwys:

- Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (1992): "*The ecosystem approach is a strategy for the integrated management of land, water and living resources that promotes conservation and sustainable use in an equitable way. Application of the ecosystem approach will help to reach a balance of the three objectives of the Convention*[66]*. It is based on the application of appropriate scientific methodologies focused on levels of biological organisation which encompass the essential processes, functions and interactions among organisms and their environment. It recognises that humans, with their cultural diversity, are an integral component of ecosystems.*"
  Gweler: **www.cbd.int/ecosystem/**
- Mae Confensiwn Oslo a Pharis (OSPAR) (1992) a Chonfensiwn Helsinki (HELCOM) (1992) yn diffinio'r dull ecosystemau fel a ganlyn: "*the comprehensive integrated management of human activities based on the best available scientific knowledge about the ecosystem and its dynamics, in order to identify and take action on influences which are critical to the health of marine ecosystems, thereby achieving sustainable use of ecosystem goods and services and maintenance of ecosystem integrity.*" See the Statement towards an Ecosystem Approach to the Management of Human Activities adopted by the Joint Ministerial Meeting of the HELCOM and OSPAR Commissions held in 2003 in Bremen (Germany).

Gyda'i gilydd, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn creu deddfwriaeth fodern ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Maent yn ein helpu i fynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu ac i fanteisio'n well ar y cyfleoedd posibl i Gymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn canolbwyntio ar feithrin cydnerthedd yn ein hecosystemau a chydnabod y manteision y maent yn eu darparu os ydym yn eu rheoli mewn ffordd fwy doeth.

Diffinnir Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel y "*broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.*"

Diffinnir rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) fel a ganlyn: "*defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt. Wrth wneud hynny, diwallu anghenion cenedlaethau pobl y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a chyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.*"

66 Gwarchod amrywiaeth fiolegol, defnydd cynaliadwy o'i chydrannau a rhannu'r manteision sy'n deillio o ddefnyddio adnoddau genetig mewn modd teg a chyfiawn, gan gynnwys trwy fynediad priodol at adnoddau genetig a thrwy drosglwyddo technolegau perthnasol yn briodol, gan ystyried yr holl hawliau dros yr adnoddau hynny ac i dechnolegau, a thrwy gyllido priodol.



Darparwyd y llun gan: Parth Cadwraeth Morol Sgomer

Gan hynny, mae'r fframwaith Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn mireinio'r modd y cyflawnir y dull ecosystemau yng Nghymru ar ffurf cyfres o egwyddorion (Tabl 4) sydd:

- Yn ei gwneud yn ofynnol inni feddwl am y perthnasoedd cymhleth rhwng natur a phobl dros y tymor hir;
- Yn ein helpu i feddwl am y manteision yr ydym yn eu cael o adnoddau naturiol yn awr ac yn y dyfodol, gan gydnabod y ffordd y maent yn cynnal ein llesiant;
- Yn ein hannog i feddwl am ffyrdd o wneud ein hecosystemau'n fwy cydnerth;
- Yn ei gwneud yn ofynnol inni gynnwys pobl yn y gwaith o fynd i'r afael â'r heriau hyn o'r dechrau i adnabod y cysylltiadau a'r cyfleoedd i reoli pethau yn well.

Tabl 4. Egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Rheoli ymaddasol	Rheoli ymaddasol trwy gynllunio, monitro, adolygu a, lle y bo'n briodol, newid gweithredoedd.
Graddfa	Ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu.
Cydweithio ac ymgysylltu	Hyrwyddo a bod yn rhan o gydweithio a chydweithredu.
Cyfranogiad y cyhoedd	Gwneud trefniadau priodol ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn prosesau penderfynu.
Tystiolaeth	Ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, a chasglu tystiolaeth mewn perthynas ag elfennau ansicr.
Manteision lluosog	Ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau.
Tymor hir	Ystyried canlyniadau gweithredoedd yn y tymor byr, canolig a hir.
Camau ataliol	Gweithredu i atal difrod sylweddol i ecosystemau.
Meithrin cydnerthedd	Ystyried cydnerthedd ecosystemau, yn enwedig yr agweddau canlynol: • amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau; • y cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau; • graddfa ecosystemau; • cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad); • gallu ecosystemau i addasu.

Trwy reoli cynaliadwy, a'r egwyddorion cysylltiedig, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi'r dull ecosystemau ar sylfaen statudol, gan dynnu ar arfer gorau rhyngwladol a'r 12 egwyddor a gefnogir gan Gonfensiwn Amrywiaeth Fiolegol y Cenhedloedd Unedig, y mae sicrhau integredd ecosystemau yn un ohonynt. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ymdrin ag integredd ecosystemau trwy ganolbwyntio ar gydnerthedd ecosystemau, sy'n ymwneud â defnyddio dull cadarnhaol a rhagweithiol a meithrin cydnerthedd yn ein holl ecosystemau i sicrhau nad ydynt yn mynd y tu hwnt i'w terfynau cynhenid.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno fframwaith ailadroddol a rhyng-gysylltiedig ar gyfer Rheoli Adnoddau Dynol yn Gynaliadwy trwy gyhoeddi ac adolygu'r dogfennau canlynol sy'n cwmpasu'r tir a rhanbarth cynllunio morol y glannau:

- Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a gynhyrchir gan CNC yn disgrifio sefyllfa adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru, ac yn nodi i ba raddau mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy;
- Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol a gynhyrchwyd gan Weinidogion Cymru yn nodi eu polisïau cyffredinol a phenodol gan gynnwys y blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- Mae datganiadau ardal wedi'u cynhyrchu gan CNC yn helpu i nodi sut y gall y polisi cenedlaethol a'r polisïau cysylltiedig yn y cynllun hwn gael eu rhoi ar waith ar y lefel leol;
- Mae'r fframwaith Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn ategu'r broses cynllunio morol, gan sicrhau bod y drefn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn yr amgylcheddau tirol a morol yn cael ei hintegreiddio a'i chydgysylltu'n llawn.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ar awdurdodau cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau yng Nghymru gan felly wneud bioamrywiaeth yn ganolog i brosesau penderfynu.

Atodiad 4 – Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol

Mae'r tabl canlynol yn dangos sut y cafodd y Cynllun hwn ei ddatblygu yn unol ag egwyddorion rheolaeth integredig ar barthau arfordirol a sut y mae'n rhoi eu heffaith iddynt. Fodd bynnag, nid cynllunio morol yw'r unig fecanwaith sy'n cyflawni rheolaeth integredig ar barthau arfordirol. Mae cynlluniau a rhaglenni eraill yn y parth arfordirol (e.e. Cynlluniau Rheoli Bioamrywiaeth Lleol, Cynlluniau Rheoli Traethlin, Datganiadau Ardal a.y.b.) yn cynnwys polisïau a thystiolaeth sy'n ymwneud â rheolaeth integredig ar barthau arfordirol. Fodd bynnag, gall cynllunio morol gefnogi integreiddio trwy ddarparu mecanwaith y gellir ei ddefnyddio i gryfhau trefniadau cydlynu a chyswllt trwy weithio mewn partneriaeth.

Tabl 5: Egwyddorion rheolaeth integredig ar barthau arfordirol sydd wedi'u cymhwyso trwy'r broses cynllunio morol.

Y broses cynllunio morol	Egwyddorion rheolaeth integredig ar barthau arfordirol sydd wedi'u cymhwyso	Cyd-destun
Dewis ardal y Cynllun	2, 4	Wrth gynllunio ar gyfer y cyfan o ardal forol Cymru, mae CMCC yn cymryd persbectif eang a chyfannol yn ogystal â dilyn dull rheoli ar lefel yr ecosystem. Mae ffiniau'r cynllun morol yn gorgyffwrdd â ffiniau cynlluniau ar gyfer y tir.
Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid	5, 6, 8	Mae hyn yn rhoi'r gallu i gynnwys rhanddeiliaid yn y broses cynllunio ac i ymgysylltu â chynulleidfaoedd allweddol. Ymgysylltir â rhanddeiliaid drwy gydol y broses cynllunio. Mae rheolaeth integredig ar barthau arfordirol yn galw am gyfranogi gan gymunedau lleol; mae gweithdai lleol yn hwyluso ymgysylltu o'r fath.
Pennu materion	1, 6, 8	Mae hyn yn galw am gasglu tystiolaeth oddi wrth wahanol randdeiliaid er mwyn pennu materion i'w cynnwys mewn cynllunio morol. Mae tystiolaeth a data a gasglwyd i gwrdd â gofynion yr Ymarfer Cwmpasu Strategol wedi cyfrannu i'r broses cynllunio a threfnwyd iddynt fod ar gael yn eang. Gall gwybodaeth leol fod yn ddefnyddiol wrth bennu anghenion am dystiolaeth ychwanegol.
Casglu tystiolaeth	2, 5, 6, 8	Wrth gasglu tystiolaeth, rhoddir sylw i'r gyd-ddibyniaeth rhwng systemau naturiol a gweithgareddau gan bobl a'r gwahaniaethau rhyngddynt a'r effaith ar ardaloedd arfordirol ac mae partïon perthnasol yn cael eu cynnwys. Mae'r dull o gasglu tystiolaeth yn adlewyrchu nodweddion lleol.



Darparwyd y llun gan Croeso Cymru: (c) Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

Y broses cynllunio morol	Egwyddorion rheolaeth integredig ar barthau arfordirol sydd wedi'u cymhwyso	Cyd-destun
Gweledigaeth ac amcanion	1, 2, 4, 5, 6, 8	Mae cynllunio morol yn ategu ein hymrwymiad i reoli gweithgareddau morol ac arfordirol mewn ffordd gynaliadwy gan ystyried materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'r Cynllun wedi'i ddiffinio gan amcanion clir, sydd wedi'u seilio ar bersbectifau hirdymor ac yn deillio yn y pen draw o flaenoriaethau gwleidyddol. Mae'r weledigaeth a'r amcanion yn pennu polisïau'r Cynllun a fydd yn llywio penderfyniadau.
Datblygu opsiynau	1, 2, 4, 5, 6, 8	Mae opsiynau'r cynllun wedi'u datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid gan ystyried yr holl wybodaeth a oedd ar gael ar sail dull integredig. Rhoddwyd sylw i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wrth ddatblygu opsiynau polisi'r Cynllun.
Datblygu polisi'r Cynllun	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8	Mae polisïau'n cael eu datblygu i helpu i gyflawni amcanion y cynllun morol. Wrth ddatblygu'r polisïau, rhoddir sylw i ddeddfwriaeth a rhwymedigaethau presennol, yn ogystal â'r angen am integreiddio polisïau ac am gynllunio a phenderfynu integredig. Lle mae gweithgareddau neu ddatblygiadau'n cystadlu am ddefnydd o'r un ardal, rhoddir sylw i'r ffordd y mae pob cynnig yn cyfrannu at wireddu gweledigaeth, amcanion a pholisïau'r Cynllun. Ceir polisïau o wahanol gryfder sy'n rhoi sylw i wahanol sectorau neu faterion lle bo'n briodol, ond bydd integreiddio'n digwydd hefyd wrth ddod i benderfyniad. Bydd hyn yn galw am asesu unrhyw wybodaeth sydd gyda'r cynnig ac unrhyw fuddion amgylcheddol, economaidd neu gymdeithasol ac unrhyw effeithiau niweidiol. Y disgwyl yw y bydd rhagor o fanylion yn cael eu cynnwys yn y polisïau dros amser fel y bo'n briodol, wrth i'r sylfaen dystiolaeth gynyddu.
Cyfleoedd i wneud sylwadau am gynlluniau drafft	5, 6	Gellir hwyluso ymgynghori â'r cyhoedd ar gynlluniau drafft drwy'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd er mwyn casglu tystiolaeth a barn oddi wrth randdeiliaid. Rhoddir yr Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd gyda chynlluniau drafft. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ymdrin â materion cymdeithasol ac economaidd yn ogystal ag effeithiau posibl ar yr amgylchedd. Bydd hyn yn sicrhau bod ystod eang o faterion cynaliadwyedd yn cael ei thrafod.

Y broses cynllunio morol	Egwyddorion rheolaeth integredig ar barthau arfordirol sydd wedi'u cymhwyso	Cyd-destun
Adolygu cynigion y cynllun	5, 6	Bydd cynigion y cynllun yn cael eu hadolygu gan ystyried yr ymatebion a gasglwyd o'r sylwadau am y cynlluniau drafft drwy broses y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd. Cafodd drafftiau cynharach eu mireinio ar ôl cael cyngor a mewnbwn gan randdeiliaid.
Ymchwilio annibynnol	5, 6	Mae ymgysylltu priodol â rhanddeiliaid drwy gydol y broses datblygu drwy drefniadau'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ac ymgynghori â'r cyhoedd yn gallu helpu i osgoi'r angen am ymchwiliad annibynnol.
Mabwysiadu a chyhoeddi'r Cynllun	6	Gellir diwygio'r Cynllun ar ôl ystyried y canlyniadau i ymchwiliad annibynnol. O dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, mae'n ofynnol i awdurdod y cynllun morol gyhoeddi datganiad yn amlinellu unrhyw addasiadau neu newidiadau sydd wedi'u gwneud yn y cynllun morol a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori, gan egluro'r rhesymau am y newidiadau hyn. Bydd yr adroddiad ar addasiadau yn rhoi crynodeb o'r newidiadau a wnaed a bydd cofnod gydag ef o'r holl sylwadau a gafwyd yn yr ymgynghoriad a'r ymatebion iddynt.
Gweithredu, monitro ac adolygu	3, 6	Mae Gweinidogion Cymru fel awdurdod y cynllun morol yn gyfrifol am fonitro'r cynlluniau morol a'u heffeithiolrwydd ac am adrodd ar y cynlluniau a'u hadolygu bob 3 blynedd. Mae monitro'n hanfodol i fesur effeithiolrwydd polisïau'r Cynllun ac i gyfrannu at benderfyniadau ar yr angen am newidiadau ym mholisïau'r Cynllun (rheoli ymaddasol). Rhaid i gynllunwyr a rhanddeiliaid gymryd rhan yn y broses monitro ac adolygu er mwyn gwella cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Caiff yr egwyddorion rheolaeth integredig ar barthau arfordirol a gymhwyswyd ac y cyfeirir atynt yn y tabl uchod eu disgrifio yn Nhabl 6.

Tabl 6: Egwyddorion rheolaeth integredig ar barthau arfordirol a gymhwyswyd yn nhabl 5.

Egwyddor 1	Persbectif eang cyffredinol (thematig a daearyddol) a fydd yn rhoi sylw i'r gyd-ddibyniaeth rhwng systemau naturiol a gweithgareddau gan bobl a'r gwahaniaethau rhyngddynt ac i'w heffaith ar ardaloedd arfordirol.
Egwyddor 2	Persbectif hirdymor a fydd yn ystyried yr egwyddor ragofalus ac anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
Egwyddor 3	Rheoli ymaddasol yn ystod proses raddol a fydd yn hwyluso ymaddasu wrth i broblemau a gwybodaeth ddatblygu. Mae hyn yn galw am ddealltwriaeth wyddonol gadarn o esblygiad y parth arfordirol.
Egwyddor 4	Penodoldeb lleol a'r amrywiaeth fawr o barthau arfordirol Ewropeaidd, a fydd yn ei gwneud yn bosibl ymateb i'w hanghenion ymarferol drwy atebion penodol a mesurau hyblyg.
Egwyddor 5	Gweithio gyda phrosesau naturiol a pharchu capasiti ecosystemau, a fydd yn peri i weithgareddau gan bobl fod yn fwy ecogyfeillgar, cymdeithasol gyfrifol ac economaidd gadarn.
Egwyddor 6	Cynnwys yr holl bartïon cysylltiedig (partneriaid economaidd a chymdeithasol, y sefydliadau sy'n cynrychioli preswylwyr parthau arfordirol, sefydliadau anllywodraethol a'r sector busnes) yn y broses rheoli, er enghraifft drwy gytundebau a thrwy rannu cyfrifoldeb.
Egwyddor 7	Cynorthwyo a chynnwys cyrff gweinyddol perthnasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gan sefydlu neu gynnal cysylltiadau priodol rhyngddynt gyda'r bwriad o gydgysylltu'r gwahanol bolisïau presennol yn well. Dylid defnyddio partneriaethau ag awdurdodau lleol a rhanbarthol a phartneriaethau rhyngddynt lle bo'n briodol.
Egwyddor 8	Defnyddio cyfuniad o offerynnau sydd â'r bwriad o hwyluso cydlyniaeth rhwng amcanion polisi sectoraidd a chydlyniaeth rhwng cynllunio a rheoli.



Darparwyd y llun gan Croeso Cymru: (c) Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

Geirfa

AFW – Ardal Forol Warchodedig

AHNE – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

CDLI – Cynllun Datblygu Lleol

CDS – Cynllun Datblygu Strategol

CMCC – Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

Confensiwn a Phrotocol Llundain – Confensiwn Rhyngwladol ar Atal Llygredd Morol trwy Waredu Gwastraff a Deunyddiau Eraill 1972 (a Phrotocol 1996)

EPS – Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop

GVA – Gwerth Ychwanegol Gros

HELCOM – Cynhadledd Helsinki 1992

HLMO – Nod Morol Lefel Uchel

IG – Cynllawiau ar Gyflawni

MANP – Cynllun Cenedlaethol Amlflwydd y Deyrnas Unedig ar gyfer Datblygu Dyframaethu Cynaliadwy

MCAA – Deddf y Môr a Mynediad Arfordirol 2009

MER – Cynyddu Adferiad Economaidd (Maximising Economic Recovery)

MG – Megawat

MPN – Hysbysiad Cynllunio Morol

MPS – Datganiad Polisi Cenedlaethol (DU)

MSY – Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (o fewn rheoli pysgodfeydd dyma'r lefel uchaf y gellir defnyddio stoc bysgod yn rheolaidd heb leihau'r stoc yn yr hirdymor)

NPS – Datganiad Polisi Morol y DU 2011

NSIP – Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol

OSPAR – Confensiwn Rhyngwladol Oslo a Paris ar gyfer Diogelu Amgylchedd Forol Gogledd-ddwryain Cefnfor Iwerydd 1992

PCC – Polisi Cynllunio Cymru

Ramsar – Confensiwn Rhyngwladol ar Wlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol yn enwedig fel Cynefin Adar y Dŵr 1971

RIGS – Safle Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol

Ro-ro – Llongau a chychod cludo cerbydau

SoDdGA – Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

SRA – Ardal Adnoddau Strategol

TAN – Nodiadau Cyngor Technegol (Cymru)